

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

10/12/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth](#)
[Questions to the Minister for Finance and Government Business](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus](#)
[Questions to the Minister for Public Services](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch ei Ymchwiliad i'r Cynnydd sydd Wedi'i Wneud Hyd Yma ar Weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru](#)
[The Health and Social Care Committee's Report on its Inquiry into Progress Made to Date on Implementing the Welsh Government's Cancer Delivery Plan](#)

[Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21\(iv\): Y Bil Cymorth i Farw](#)
[Debate by Individual Members under Standing Order 11.21\(iv\): The Assisted Dying Bill](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Rhaglen Lywodraethu](#)
[Welsh Conservatives Debate: The Programme for Government](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Sicrhau Dyfodol Ffermio yng Nghymru](#)
[Short Debate: Securing the Future of Welsh Farming](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Effeithiolrwydd Gwariant

Questions to the Minister for Finance and Government Business

Effeithiolrwydd Gwariant

13:30 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

1. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o sicrhau effeithiolrwydd gwariant ar draws Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0486(FIN)

1. What assessment has the Minister made of ensuring effectiveness of spend across the Welsh Government? OAQ(4)0486(FIN)

13:30 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Value for money is a central consideration in determining how the Government will allocate its budget.

Mae gwerth am arian yn ganolog i'r broses o benderfynu sut y bydd y Llywodraeth yn dyrannu ei chyllideb.

13:30	<p>Russell George Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for your answer, Minister. Yesterday, concerns were raised with the First Minister about whether a £1.2 million Finance Wales investment in the telecoms firm Xwavia, which later went into administration, provides value for money for the Welsh taxpayer. I understand that Government has to take risks, and I understand that Finance Wales is at arm's length from Welsh Government, but will the Minister provide more clarity on the mechanisms that the Welsh Government has in place to ensure that, when a situation like this arises, a comprehensive assessment is undertaken?</p>	<p>Diolch am eich ateb, Weinidog. Ddoe, mynegwyd pryderon wrth y Prif Weinidog ynghylch a yw buddsoddiad o £1.2 miliwn gan Cyllid Cymru yng nghwmni telathrebu Xwavia, a aeth yn ddiweddarach i ddwylo'r gweinyddwyr, yn cynnig gwerth am arian i drethdalwyr Cymru. Rwy'n deall bod yn rhaid i'r Llywodraeth fentro, ac rwy'n deall bod Cyllid Cymru hyd braich o Lywodraeth Cymru, ond a wnaiff y Gweinidog ddarparu mwy o eglurder ar y mecanweithiau sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith i sicrhau y bydd asesiad cynhwysfawr yn cael ei gwblhau pan fydd sefyllfa fel hon yn codi?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:31	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank Russell George for the question, but I do believe that the First Minister responded appropriately to this question yesterday.</p>	<p>Diolch i Russell George am y cwestiwn, ond credaf fod y Prif Weinidog wedi ymateb yn briodol i'r cwestiwn hwn ddoe.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:31	<p>Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography</p> <p>Wrth gwrs, mae awdurdodau lleol yn awr yn wynebu toriadau difrifol i'w cyllidebau; mae goblygiadau difrifol yn hynny o beth i wasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau gofal sy'n cael eu darparu ganddynt. Yn eich barn chi, oni fyddai'n well buddsoddi yn y gwasanaethau ataliol hynny, yn hytrach na gorfod beilio allan y gwasanaeth iechyd o flwyddyn i flwyddyn?</p>	<p>Local authorities are now, of course, facing serious cuts to their budgets; that has serious implications for social services and the care services that they provide. In your opinion, would it not be better to invest in those preventative services, rather than having to bail out the health service from year to year?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:31	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, of course, the focus on preventative measures and early intervention is crucial. In fact, I made a point of referencing that in my budget debate speech yesterday. It is a consistent theme in the budget, but, in terms of the issues for local government, I also point to the social care investment that we are making, through the additional £10 million that I allocated in the local government settlement.</p>	<p>Wel, wrth gwrs, mae'r ffocws ar fesurau ataliol ac ymyrraeth gynnar yn hanfodol. Mewn gwirionedd, gwneuthum bwynt o gyfeirio at hynny yn fy araith ar ddadl y gyllideb ddoe. Mae'n thema gyson yn y gyllideb, ond o ran y materion ar gyfer llywodraeth leol, tynnaf sylw hefyd at y buddsoddiad rydym yn ei wneud mewn gofal cymdeithasol, drwy'r £10 miliwn ychwanegol a ddyrannais yn y setliad llywodraeth leol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Ariannu Gwaith Datblygu Seilwaith</p>		<p>The Financing of Infrastructure Developments</p>	
13:32	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed mewn perthynas ag ariannu gwaith datblygu seilwaith yng Nghymru? OAQ(4)0493(FIN)</p>	<p>2. Will the Minister make a statement on progress in financing infrastructure development in Wales? OAQ(4)0493(FIN)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:32	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Last week, I published an updated Wales infrastructure investment plan project pipeline. Since 2012, this Government has committed to around £3.5 billion of additional funding to support the plan priorities. This includes my commitment to an innovative £150 million flood and coastal defence programme.</p>	<p>Yr wythnos ddiwethaf, cyhoeddais ddiweddiad i lwybr prosiect cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Ers 2012, mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i ryddhau tua £3.5 biliwn o arian ychwanegol i gefnogi blaenoriaethau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys fy ymrwymiad i raglen arloesol gwerth £150 miliwn ar gyfer amddiffyn rhag liffogydd ac amddiffyn yr arfordir.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:32 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I believe that there is strong consensus in Wales in terms of the value of the metro project, which I think will be very beneficial in economic, environmental and social terms. Would you agree that the metro should be a very important and highly prioritised objective for Welsh Government, in terms of the timescale involved, and that early access to borrowing powers should be available, to make sure that it can go ahead as quickly and as effectively as possible?
- Weinidog, credaf fod consensws cryf yng Nghymru o ran gwerth y prosiect metro y credaf y bydd o fudd mawr o safbwynt economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. A fydddech yn cytuno y dylai'r metro fod yn flaenoriaeth ac yn amcan pwysig iawn i Lywodraeth Cymru o ran yr amserlen o dan sylw ac y dylid cael mynediad cynnar at bwerau benthyca, er mwyn sicrhau y gall fwrw ymlaen mor gyflym ac mor effeithiol ag y bo modd?
- 13:33 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank John Griffiths for that question. He has consistently raised the importance of the metro—as, indeed, have other Members, across this Chamber. The impact study for the metro proposition was published last October, followed by an update report in August. Of course, yesterday, again, I did acknowledge the metro in my budget debate, in terms of allocating over £60 million for the implementation of phase 1 of the initiative. So, that already means that money is allocated, while more work is being done to develop the proposition. We are using access to all opportunities, in terms of financing. I raised this as a project that could be for the autumn statement consideration. Also, indeed, it forms part of the proposition that we make for the Juncker €300 billion investment plan.
- Diolch i John Griffiths am y cwestiwn. Mae wedi cyfeirio at bwysigrwydd y metro yn gyson—fel yn wir y mae Aelodau eraill wedi'i wneud drwy'r Siambr hon. Cyhoeddwyd yr astudiaeth effaith ar y cynnig metro fis Hydref diwethaf, a dilynodd adroddiad diweddar ym mis Awst. Ddoe wrth gwrs, rhoddais sylw unwaith eto i'r metro yn fy nadl ar y gyllideb, o ran dyrannu dros £60 miliwn ar gyfer gweithredu cyfnod 1 y fenter. Felly, mae hynny eisoes yn golygu bod arian wedi'i ddyrannu, ac mae mwyn o waith yn cael ei wneud i ddatblygu'r cynnig. Rydym yn manteisio ar bob cyfle o ran ariannu. Cyfeiriais at hwn fel prosiect a allai gael ei ystyried yn natganiad yr hydref. Hefyd yn wir, mae'n ffurfio rhan o'r cynnig rydym yn ei wneud ar gyfer cynllun buddsoddi Juncker sy'n werth €300.
- 13:34 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am sure that the Minister will agree that, wherever the funds come from—whether they come from Europe, from Westminster or from your own Government—it is vitally important that Wales enjoys the very best and the most progressive infrastructure projects, in order to drive the economy forward.
- Rwy'n sicr y bydd y Gweinidog yn cytuno, o ble bynnag y daw'r arian—pa un a ddaw o Ewrop, o San Steffan neu gan eich Llywodraeth eich hun—mae'n hanfodol bwysig fod Cymru yn meddu ar y prosiectau seilwaith gorau a'r mwyaf blaengar, er mwyn gyrru'r economi yn ei blaen.
- 13:34 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I completely agree with William Graham on that matter. I think that the visit that Carl Sargeant and I made to the windy coastal shores in your region, at St Bride's Wentlooge, showed how important our investment in coastal defence in the infrastructure is.
- Cytunaf yn llwyr â William Graham ar y mater hwnnw. Credaf i fy ymweliad innau a Carl Sargeant â'r arfordiroedd gwyntog yn eich rhanbarth yn Llansanffraid Gwynllŵg ddangos pa mor bwysig yw ein buddsoddiad yn y gwaith o amddiffyn y seilwaith ar yr arfordir.
- 13:35 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I note that the Minister has now committed to several projects using finance raised through a non-profit distributing model, and this is welcome. However, could the Minister provide Members with repayment profiles for those projects, so that future Governments know how much room they have for manoeuvre when it comes to debt servicing?
- Sylwaf fod y Gweinidog bellach wedi ymrwymo i nifer o brosiectau sy'n defnyddio cyllid a godir drwy fodel nad yw'n dosbarthu elw, ac mae hyn i'w groesawu. Fodd bynnag, a all y Gweinidog ddarparu proffiliau ad-dalu i'r Aelodau ar gyfer y prosiectau hynny, fel y gall Llywodraethau'r dyfodol wybod faint o le sydd ganddynt i symud o ran gwasanaethu dyledion?

13:35	Jane Hutt Bywgraffiad Biography As you know, we are taking forward the non-profit distributing model and using it for the Velindre Cancer Centre replacement, the A465 and the twenty-first century schools proposition. Of course, in terms of transparency in relation to this, our role as public interest director is particularly important on the board of any project company delivering this infrastructure. Indeed, in a response to the Finance Committee this morning, I said that I would be very clear, open and transparent about being able to account for all borrowing initiatives and, indeed, debt.	Fel y gwyddoch, rydym yn bwrw ymlaen â'r model nad yw'n dosbarthu elw ac yn ei ddefnyddio ar gyfer y Ganolfan Ganser newydd yn Felindre, yr A465 a chynnig ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Wrth gwrs, o ran tryloywder mewn perthynas â hyn, mae ein rôl fel cyfarwyddwr budd y cyhoedd yn arbennig o bwysig ar fwrdd unrhyw gwmni prosiect sy'n darparu'r seilwaith hwn. Yn wir, mewn ymateb i'r Pwyllgor Cyllid y bore yma, dywedais y byddwn yn glir, agored a thryloyw iawn ynghylch gallu rhoi cyfrif am bob menter fenthyca, a dyled yn wir.	Senedd.tv Fideo Video
13:36	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography Minister, in order to deliver the metro project successfully, clearly, there will be expenditure on hard infrastructure, but also on things like the modern rolling stock that we would like to see to deliver the kind of transformational service that we want. Can you give us an indication of what balance you anticipate there being between the use of European structural funds, borrowing powers, borrowing through the not-for-dividend company, and revenue allowances from the Welsh Government's budget?	Weinidog, er mwyn cyflawni'r prosiect metro yn llwyddiannus, yn amlwg, bydd gwariant ar seilwaith caled, ond hefyd ar bethau fel y cerbydau modern y byddem yn hoffi eu gweld yn darparu'r math o wasanaeth trawsnewidiol a ddymunwn. A allwch chi roi syniad i ni o'r cydbwysedd rydych yn ei ragweld rhwng y defnydd o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd, pwerau benthyg, benthyca drwy'r cwmnïau di-ddifidend, a lwfansau referniw o gyllideb Llywodraeth Cymru?	Senedd.tv Fideo Video
13:36	Jane Hutt Bywgraffiad Biography I do believe that the announcements made by the Minister for Economy, Science and Transport last week fit clearly into the opportunities that are provided by European funding, as well as the direct capital allocation that I am making.	Rwy'n credu bod y cyhoeddiadau a wnaed gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yr wythnos ddiwethaf yn cyd-fynd yn glir â'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu gan arian Ewropeaidd, yn ogystal â'r dyraniad cyfalaf uniongyrchol rwy'n ei wneud.	Senedd.tv Fideo Video
Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau		Questions Without Notice from Party Spokespeople	
13:36	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography First this afternoon is Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.	Llefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones, sydd gyntaf y prynhawn yma.	Senedd.tv Fideo Video
13:37	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography Gan eich bod wedi rhoi arian ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng nghyllideb 2015-16, a ydych yn hyderus y bydd modd lleddfu a lleihau'r toriadau llym i wariant cynghorau lleol mewn blynyddoedd i ddod?	Given that you have provided additional funding for the health service in the 2015-16 budget, are you confident that it will be possible to mitigate and reduce the severe cuts in local council spending in years to come?	Senedd.tv Fideo Video
13:37	Jane Hutt Bywgraffiad Biography It is important that we recognise that we have protected local government over the past few years. It has had substantial protection compared with the cuts over the border in England. Of course, many of the functions that local authorities undertake, including social care, fit very well into the ways in which we are driving forward the integrated health and social care agenda.	Mae'n bwysig i ni gydnabod ein bod wedi diogelu llywodraeth leol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae wedi cael amddiffyniad sylweddol o gymharu â'r toriadau dros y ffin yn Lloegr. Wrth gwrs, mae llawer o'r swyddogaethau y mae awdurdodau lleol yn eu cyflawni, yn cynnwys gofal cymdeithasol, yn cyd-fynd yn dda iawn â'r ffyrdd rydym yn bwrw ymlaen â'r agenda iechyd a gofal cymdeithasol integredig.	Senedd.tv Fideo Video

- 13:37 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Dywedoch ddoe y bydd £70 miliwn ychwanegol i'r £225 miliwn a gyhoeddwyd yn y gyllideb yn mynd i'r gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, gwyddom bod angen cadw pobl rhag mynd i'n hysbytai ni yn y lle cyntaf—os ydym am warchod gwasanaethau eraill, yn un peth. Pam na wnewch chi neilltuo peth o'r arian ychwanegol ar gyfer mesurau ataliol?
- You said yesterday that an additional £70 million, on top of the £225 million announced in the budget, will go to the health service. However, we know that we need to keep people from entering our hospitals in the first place—if we are to protect other services, for one thing. Why not set aside some extra money for preventative measures?
- 13:38 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Minister for Health and Social Services is considering the most appropriate allocation of the extra £70 million from the consequentials in the autumn statement. Clearly, only recently, the Deputy Minister launched the primary care plan, which is very much geared to keeping people out of hospital.
- Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried y dyraniad mwyaf priodol o'r £70 miliwn ychwanegol o'r symiau canlyniadol yn natganiad yr hydref. Yn amlwg, yn ddiweddar iawn, lansiodd y Dirprwy Weinidog y cynllun gofal sylfaenol, sydd wedi'i anelu i raddau helaeth at gadw pobl allan o'r ysbty.
- 13:38 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Dwy gronfa sydd yn sicr yn cyfrannu at ddiogelu pobl, ac sydd yn sicr yn rhan o'r mesurau ataliol hyn, yw'r gronfa gofal integredig a'r gronfa Cefnogi Pobl, sydd wedi gweld gostyngiad ar gyfer y flwyddyn nesaf. A wnewch chi ystyried defnyddio peth o'r arian ychwanegol i gynnal y ddwy gronfa bwysig hyn, sydd yn gwneud cymaint i gadw pobl fregus yn eu cartrefi ac yn iach a diogel?
- Two funds that certainly contribute towards safeguarding people, and which certainly form part of those preventive measures, are the integrated care fund and the Supporting People fund, which has seen a decrease for next year. Will you consider using some of the extra money to maintain both of these important funds, which do so much to keep vulnerable people in their homes and healthy and safe?
- 13:39 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, the intermediate care fund is now progressing in its first year of implementation. It was a one-year agreement for intermediate care to identify what would be most appropriate in terms of the lessons learned from the way in which we can help integrate health and social care. Indeed, in terms of progress on that, there are some very promising results. Also, we did seek to protect the Supporting People fund, and the protection from last year also carries forward to next year. The Minister is working very closely with partners to manage that reduction.
- Yn amlwg, mae'r gronfa gofal canolraddol yn awr yn symud ymlaen ym mlwyddyn gyntaf ei gweithrediad. Roedd yn gytundeb blwyddyn ar gyfer gofal canolraddol i nodi beth fyddai fwyaf priodol o ran y gwersi a ddysgwyd o'r ffordd y gallwn helpu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Yn wir, o ran cynnydd ar hynny, mae rhai canlyniadau addawol iawn. Yn ogystal, ceisiasom amddiffyn y gronfa Cefnogi Pobl, ac mae diogelwch o'r llynedd hefyd yn parhau i'r flwyddyn nesaf. Mae'r Gweinidog yn gweithio'n agos iawn â phartneriaid i reoli'r gostyngiad hwnnw.
- 13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.
- Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.
- 13:39 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you were very quick to allocate £70 million of the £123 million consequential from the autumn statement to the health budget, and quite understandably so. When you made that allocation, did you have any idea how that money would be spent?
- Weinidog, roeddech yn barod iawn i ddyrannu £70 miliwn o'r £123 miliwn o gyllid canlyniadol o ddatganiad hydref i'r gyllideb iechyd, ac yn ddealladwy felly. Pan wnaethoch y dyraniad, a oedd gennych unrhyw syniad sut y byddai'r arian hwnnw'n cael ei wario?
- 13:40 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I was very pleased to be able to make that response and announcement swiftly after the autumn statement last week, because it builds on the £425 million that we have allocated to boost the health service. Of course, the Minister for Health and Social Services is now considering the most appropriate way to allocate the £70 million.
- Roeddwn yn falch iawn o allu ymateb a gwneud y cyhoeddiad hwnnw yn gyflym wedi datganiad yr hydref yr wythnos ddiwethaf, gan ei fod yn adeiladu ar y £425 miliwn rydym wedi'i ddyrannu ar gyfer rhoi hwb i'r gwasanaeth iechyd. Wrth gwrs, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthi'n ystyried y ffordd fwyaf priodol o ddyrannu'r £70 miliwn.

- 13:40 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. As you know—this issue has just been raised with you—the intermediate care fund is coming to the end of the only year that it has been in place. What evidence has been gathered so far as to the effectiveness of that fund, and would you consider allocating some of that £70 million to continue that fund for further years, as a way of alleviating the problems in the interface between social services and health?
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Fel y gwyddoch—mae'r mater hwn newydd gael ei godi gyda chi—mae'r gronfa gofal canolraddol yn dod at ddiwedd yr unig flwyddyn y bu ar wait. Pa dystiolaeth a gasglwyd hyd yma ynghylch effeithiolrwydd y gronfa honno, ac a fydddech yn ystyried dyrannu rhywfaint o'r £70 miliwn i barhau'r gronfa honno ar rador o flynyddoedd fel ffordd o leddfu'r problemau ar y rhyngwyneb rhwng y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd?
- 13:41 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that the Minister for health has already reported to the Health and Social Care Committee on projects such as that at Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, how it is investing, through the intermediate care fund and how, in fact, the investment has helped to save money compared with the way it was doing things previously. So, it is important that we identify that good practice and link it in to the way in which we deliver health and social care on the ground between health boards and local authorities.
- Credaf fod y Gweinidog Iechyd eisoes wedi adrodd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar brosiectau fel yr un ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, sut y mae'n buddsoddi drwy'r gronfa gofal canolraddol a sut y mae'r buddsoddiad, mewn gwirionedd, wedi helpu i arbed arian o gymharu â'r ffordd yr arferai wneud pethau. Felly, mae'n bwysig ein bod yn nodi'r arfer da hwnnw a'i gysylltu â'r ffordd rydym yn darparu iechyd a gofal cymdeithasol ar lawr gwlad rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol.
- 13:41 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. Could I press you again? You know, of course, that local authorities are facing some very difficult decisions this year and the local government settlement has just been published and many local authorities will be faced with having to make very difficult decisions around social services in particular. The integrated care fund could alleviate some of the pressures that are being faced by social services, particularly in adult care. Could I ask you, therefore, to press the issue with the Minister for health and to look very closely at whether some of this money can be used to further that project, which was agreed in a previous budget agreement, to relieve that pressure on local authorities and the pressure on social services?
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. A gaf i bwysio arnoch eto? Gwyddoch, wrth gwrs, fod awdurdodau lleol yn wynebu rhai penderfyniadau anodd iawn eleni. Mae'r setliad llywodraeth leol newydd ei gyhoeddi a bydd llawer o awdurdodau lleol yn wynebu penderfyniadau anodd iawn ynghylch gwasanaethau cymdeithasol yn arbennig. Gallai'r gronfa ofal integredig leddfu peth o'r pwysau sy'n wynebu'r gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig ym maes gofal i oedolion. A gaf i ofyn i chi felly ddod â'r mater i sylw'r Gweinidog Iechyd, ac i edrych yn ofalus iawn i weld a ellid defnyddio ychydig o'r arian i hybu'r prosiect a gytunwyd mewn cytundeb cyllideb blaenorol, er mwyn lleddfu'r pwysau ar awdurdodau lleol a'r pwysau ar wasanaethau cymdeithasol?
- 13:42 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I have already mentioned the important decision that we made in the budget to invest an additional £10 million in the revenue support grant in recognition of the pressures in terms of social service expenditure. Of course, that is a demographic pressure that we identified, particularly in our strategic integrated impact assessment. However, I would also say that we have maintained £67.4 million to support policy transformation underpinning the delivery of social care in Wales in the health and social services main expenditure group.
- Rwyf eisoes wedi sôn am y penderfyniad pwysig a wnaethom yn y gyllideb i fuddsoddi £10 miliwn ychwanegol yn y grant cynnal refeniw i gydnabod y pwysau o ran gwariant ar wasanaethau cymdeithasol. Wrth gwrs, mae hwnnw'n bwysau demograffig a nodwyd gennym, yn enwedig yn ein hasesiad effaith strategol integredig. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn dweud ein bod wedi cynnal £67.4 miliwn i gefnogi trawsnewid y polisi sy'n sail i'r broses o ddarparu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y prif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- 13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Finally, I call the Welsh Conservative spokesperson, Nick Ramsay.
- Yn olaf, galwaf ar lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Nick Ramsay.

- 13:42 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you were a tad scant in detail there when you answered Peter Black's question regarding where you anticipate spending the £70 million bonus for the health service from the Chancellor's autumn statement. I am not going to ask you about those details, but what I will ask you is whether you will give an assurance that that £70 million will be used to improve patient treatment in Wales, and that it will not simply be absorbed plugging the gaps created by previous Welsh Government cuts to the health budget.
- Weinidog, roeddech braidd yn brin o fanylion yn eich ateb i gwestiwn Peter Black ynglŷn â ble rydych yn rhagweld y gwerir y bonws o £70 miliwn ar gyfer y gwasanaeth iechyd o ddatganiad hydref y Canghellor. Nid wyf yn mynd i'ch holi am y manylion hynny, ond rwyf am ofyn a fyddwch yn rhoi sicrwydd y bydd y £70 miliwn yn cael ei ddefnyddio i wella triniaethau i gleifion yng Nghymru, ac na fydd yn cael ei amsugno i lenwi'r bylchau a grëwyd gan doriadau blaenorol Llywodraeth Cymru i'r gyllideb iechyd.
- 13:43 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am a tad hesitant to reply to the finance spokesperson for the Welsh Conservatives, because I wish he would take this issue more seriously in terms of the investment that I have put in to the health service. It is £425 million—do you want me to repeat that? It will be on the record—and an extra £70 million is coming its way.
- Rwyf braidd yn betrusgar i ymateb i lefarydd cyllid y Ceidwadwyr Cymreig, am fy mod yn dymuno y byddai'n cymryd y mater hwn o ddifrif o ran y buddsoddiad rwyf wedi'i wneud yn y gwasanaeth iechyd. Mae'n fuddsoddiad o £425 miliwn—a ydych am i mi ailadrodd hynny? Bydd wedi'i gofnodi—a £70 miliwn ychwanegol ar ei ffordd.
- 13:43 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, Minister, the Finance Committee's budget report was very serious and I was part of preparing that report when it was revealed that, of course, there has been confusion—a great deal of confusion, in fact—over exactly what the Welsh Government expects from health board funding this year. So, you can understand why there are concerns about how you will spend this additional £70 million.
- Wel, Weinidog, roedd adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb yn ddifrifol iawn ac roeddwn yn rhan o'r gwaith o baratoi'r adroddiad hwnnw pan ddatgelwyd, wrth gwrs, fod dryswch wedi bod—llawer iawn o ddryswch, mewn gwirionedd—ynghylch beth yn union y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl o gyllido byrddau iechyd eleni. Felly, gallwch ddeall pam y mae pryderon ynghylch sut y byddwch yn gwario'r £70 miliwn ychwanegol hwn.
- Okay, leaving that aside, do you agree with the UK Labour shadow Secretary of State for Health, Andy Burnham, that a cancer treatment fund—or 'therapy' fund, as he calls it—is basically a good idea?
- Iawn, gan roi hynny o'r neilltu, a ydych chi'n cytuno â Gweinidog Iechyd yr Wrthblaid, Plaid Lafur y DU, Andy Burnham, fod cronfa triniaethau cancer-neu gronfa 'therapi', fel y mae'n ei galwyn syniad da yn y bôn?
- 13:44 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, the cancer drugs fund in England is unravelling. We have no intention of establishing a fund of that kind in—[Interruption.] It is unravelling. We have no intention of establishing a fund of that kind in Wales, because, in Wales, cancer patients are treated faster. We have a faster uptake of newly approved cancer drugs than they have in England.
- Wel, mae'r gronfa cyffuriau cancer yn Lloegr yn ymddatod. Nid oes gennym unrhyw fwriad o sefydlu cronfa o'r fath yng—[Torri ar draws.] Mae'n ymddatod. Nid oes gennym unrhyw fwriad o sefydlu cronfa o'r fath yng Nghymru, oherwydd, yng Nghymru, mae cleifion cancer yn cael eu trin yn gynt. Rydym yn manteisio'n gyflymach na Lloegr ar gyffuriau cancer sydd newydd eu cymeradwyo.
- 13:44 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, Minister, what is unravelling is your Government's opposition to a cancer drugs fund, because it has clearly been recognised as a good thing. So much so that Andy Burnham and the UK Labour Party believe that it should be renewed—not unravelled, but renewed in 2016. Meanwhile, here in Wales, we have not even had an initial cancer treatment fund that will cost around £5 million. Come on, Minister, the coalition Government thinks that a cancer treatment fund is the right thing to do; the UK Labour Party thinks that it is the right thing to do; the 100,000 people who recently signed a petition given in to the Assembly think that it is the right thing to do; in your heart of hearts, you think that it is the right thing to do as well, do you not? Why do you not just get on and do it?
- Wrth gwrs, Weinidog, yr hyn sy'n ymddatod yw gwrthwynebiad eich Llywodraeth i gronfa cyffuriau cancer, am ei bod yn cael ei gweld yn glir fel rhywbeth da. Gymaint felly fel bod Andy Burnham a Phlaid Lafur y DU yn credu y dylai gael ei hadnewyddu—nid ei datod, ond ei hadnewyddu yn 2016. Yn y cyfamser, yma yng Nghymru, nid ydym wedi cael cronfa triniaethau cancer gychwynnol hyd yn oed, a fyddai'n costio tua £5 miliwn. Dewch, Weinidog, mae Llywodraeth y glymblaid yn meddwl mai sefydlu cronfa triniaethau cancer yw'r peth iawn i'w wneud; mae Plaid Lafur y DU yn credu mai dyna'r peth iawn i'w wneud; mae'r 100,000 o bobl a lofnododd ddeiseb yn ddiweddar ac a gyflwynwyd i'r Cynulliad yn meddwl mai dyna'r peth iawn i'w wneud; yn eich calon, onid ydych chwithau'n meddwl mai dyna'r peth iawn i'w wneud? Pam na wnewch chi frwr iddi a gwneud hynny?

13:45 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Nick, I need to correct you—you have got your terminology wrong, you know. Your coalition Government has a cancer drugs fund. In fact, what Andy Burnham is talking about is a different vehicle, a cancer treatment fund, but I am not going down that road. You look at it: it is a cancer drug fund. I think that you would agree that the Cancer Research UK body is sufficient in terms of its evidence, and when it recently said that the cancer drugs fund, set up by your coalition Government, does not represent a long-term solution to improve access to cancer drugs in England, we are right not to advocate for this approach to be replicated in Wales.

Nick, mae angen i mi eich cywiro—mae eich terminoleg yn anghywir, wyddoch chi. Mae gan eich Llywodraeth glymblaidd gronfa cyffuriau cancer. Mewn gwirionedd, mae'r hyn y mae Andy Burnham yn siarad amdano'n wahanol, cronfa triniaethau cancer, ond nid af ar hyd y trywydd hwnnw. Rydych yn edrych arni: cronfa cyffuriau cancer. Credaf y byddech yn cytuno bod y corff Cancer Research UK yn ddigonol o ran ei dystiolaeth, a phan ddywedodd yn ddiweddar nad yw'r gronfa cyffuriau cancer, a sefydlwyd gan eich Llywodraeth glymblaidd, yn ateb hirdymor i wella mynediad at gyffuriau cancer yn Lloegr, rydym yn iawn i beidio â galw am i'r dull hwn gael ei ailadrodd yng Nghymru.

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We now move back to questions on the paper and question 3 is from Julie Morgan.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur a daw cwestiwn 3 gan Julie Morgan.

Cyllid ar gyfer y Cenhedloedd Datganoledig

Funding for Devolved Nations

13:46 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

3. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i Gweinidog cyfatebol yn Llywodraeth yr Alban ynghylch cyllid ar gyfer y cenhedloedd datganoledig?
OAQ(4)0490(FIN)

3. What discussions has the Minister had with her counterpart in the Scottish Government regarding funding for the devolved nations? OAQ(4)0490(FIN)

13:46 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I met with John Swinney MSP, the Scottish Deputy First Minister, in Edinburgh last week. We had constructive discussions on a range of issues, including fiscal matters. While we have our own distinctive devolution agenda here in Wales, there are many areas of mutual interest between our two countries.

Cyfarfûm â John Swinney MSP, Dirprwy Brif Weinidog yr Alban, yng Nghaeredin yr wythnos ddiwethaf. Cawsom drafodaethau adeiladol ar nifer o faterion, gan gynnwys materion cyllidol. Er bod gennym ein hagenda ddatganoli unigryw ein hunain yma yng Nghymru, mae llawer o feysydd sydd o ddiddordeb cyffredin i'r ddwy wlad.

13:46 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for that response. On the Finance Committee's recent visit to Scotland, we were told that the Scottish Government was having difficulties agreeing the adjustment to the block grant needed to offset the income coming in from the devolved taxes. The Minister herself has said, of course, that Scotland is further down that line than we are here, but does the Minister think that anything could be done to prevent this sort of problem happening in Wales?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Ar ymweliad diweddar y Pwyllgor Cyllid â'r Alban, dywedwyd wrthym fod Llywodraeth yr Alban yn ei chael hi'n anodd cytuno ar yr addasiad sydd angen ei wneud i'r grant bloc er mwyn gwneud yn iawn am yr incwm sy'n dod o'r trethi datganoledig. Mae'r Gweinidog ei hun wedi dweud, wrth gwrs, fod yr Alban ymhellach ar hyd y trywydd hwnnw na ninnau, ond a yw'r Gweinidog yn credu bod modd gwneud unrhyw beth i atal problem fel hon rhag digwydd yng Nghymru?

13:47 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

That is an important question from Julie Morgan because we want as much scrutiny and openness in terms of how that funding is calculated in Wales. The Treasury now has the power over that, but I do think that we should look at, for example, the Holtham commission, which recommended the establishment of an independent advisory body.

Mae hwnnw'n gwestiwn pwysig gan Julie Morgan gan ein bod am weld cymaint o graffu a bod yn agored â phosibl o ran sut y cyfrifir y cyllid hwnnw yng Nghymru. Gan y Trysorlys y mae'r grym dros hynny ond credaf y dylem edrych ar gomisiwn Holtham, er enghraifft, a oedd yn argymhell sefydlu corff cynghori annibynnol.

13:47

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you and the First Minister are constantly talking about the issue of fair funding and how this needs to be addressed as a matter of priority. I am sure that you will agree with me that in order to achieve a fair financial settlement, that settlement needs to be fair to all the nations of the United Kingdom. In the circumstances, what specific discussions have you had in relation to reforming the Barnett formula with your Scottish counterpart and, indeed, with the Scottish Labour Party, given the benefits that Scotland receives from this particular formula?

Weinidog, rydych chi a'r Prif Weinidog yn siarad yn gyson am ariannu teg a sut y mae angen mynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth. Rwy'n sicr y byddwch yn cytuno â mi fod angen i'r setliad fod yn deg i holl genhedloedd y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau setliad ariannol teg. O dan yr amgylchiadau, pa drafodaethau penodol a gawsoch gyda'ch Gweinidog cyfatebol yn yr Alban ynglŷn â diwygio fformiwla Barnett ac yn wir, gyda'r Blaid Lafur yr Alban, o ystyried y manteision y mae'r Alban yn eu derbyn o ganlyniad i'r fformiwla arbennig honno?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It was important to have the opportunity to talk to John Swinney about our prospects. In fact, I shared with him the motion that was debated and unanimously supported in this Chamber last month. I shared that with him and pointed to the fact that we were very concerned in terms of the impact of keeping the Barnett formula for Wales and that we were now progressing with the recommendation to instigate a Barnett floor, which, of course, is part of our motion that was agreed in this Assembly.

Roedd yn bwysig cael cyfle i siarad â John Swinney ynglŷn â'n rhagolygon. Yn wir, rhennais ag ef y cynnig a drafodwyd ac a gefnogwyd yn unfrydol yn y Siambr hon y mis diwethaf. Rhannais hynny gydag ef a thynnais ei sylw at y ffaith ein bod yn pryderu am effaith cadw fformiwla Barnett i Gymru, a'n bod yn awr yn bwrw ymlaen â'r argymhelliad i gyflwyno llawr Barnett, sydd wrth gwrs yn rhan o'n cynnig y cytunwyd arno yn y Cynulliad hwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, just Monday, business leaders in Wales called for more transparency and the publication of economic figures for Wales. The Silk commission recommended full publication of Welsh public finances along the lines of the Scottish Government's publication, called, 'Government Expenditure and Revenue Scotland'. Can you announce today the date for the publication of this information for Wales and did you discuss the benefits with John Swinney of how they publish their figures in Scotland? What is good for Scotland is good for Wales.

Weinidog, Ddydd Llun, galwodd arweinwyr busnes yng Nghymru am fwy o dryloywder a chyhoeddi ffigurau economaidd Cymru. Argymhellodd comisiwn Silk y dylid cyhoeddi ffigurau arian cyhoeddus yn llawn yng Nghymru yn debyg i gyhoeddiad Llywodraeth yr Alban, 'Government Expenditure and Revenue Scotland'. A allwch ddweud wrthym heddiw pa bryd y bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi ar gyfer Cymru ac a wnaethoch drafod manteision y ffordd y maent yn cyhoeddi eu ffigurau yn yr Alban gyda John Swinney? Mae'r hyn sy'n dda i'r Alban yn dda i Gymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Definitely and, as I think that I have indicated, we shared a lot of issues of common concern and of interest and, indeed, they are ahead in terms of the implementation of the Scotland Act 2012. On the Wales Bill, we look forward to Royal Assent very shortly. However, it is clear that we are working on providing those data sets and, of course, learning from the Scottish Government in terms of how it has provided this, particularly in terms of its new laws relating to land and buildings transaction tax and Scottish landfill tax.

Yn bendant ac fel y dynodais, rwy'n credu, roedd llawer o faterion o bryder cyffredin ac o ddiddordeb i'r ddau ohonom ac yn wir, maent ar y blaen o ran rhoi Deddf yr Alban 2012 ar waith. O ran Bil Cymru, edrychwn ymlaen at gael Cydsyniad Brenhinol cyn bo hir. Fodd bynnag, mae'n amlwg ein bod yn gweithio ar ddarparu'r setiau data hynny ac wrth gwrs, yn dysgu gan Lywodraeth yr Alban o ran sut y mae wedi darparu hyn, yn enwedig o ran ei deddfau newydd sy'n ymwneud â threth ar drafodiadau tir ac adeiladau a threth dirlenwi'r Alban.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Portffolio yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

The Economy, Science and Transport Portfolio

13:49

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. Pa flaenoriaethau a gafodd eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth ddyrannu cyllid i bortffolio yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? OAQ(4)0497(FIN)

4. What priorities were considered by the Welsh Government when allocating funding to the Economy, Science and Transport portfolio in relation to Mid and West Wales? OAQ(4)0497(FIN)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:50 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The programme for government sets out our priorities for Wales and underpins our spending plans for the economy, science and transport portfolio across all areas of Wales.
- Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru ac yn ategu ein cynlluniau gwariant ar gyfer portffolio'r economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth ym mhob ardal o Gymru.
- 13:50 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Byddwch chi'n gwybod bod y ffigurau GVA diweddaraf wedi eu rhyddhau heddiw, sydd yn dangos bod ardaloedd tlotaf Cymru i'w cael yn y rhanbarth yn ogystal ag yn Ynys Môn, a bod ychydig o gynnydd yn economi'r rhanbarth i'w weld, ond nid yw hwnnw wedi codi'r rhanbarth—er gwaethaf dau rownd, bellach, o gyllid Ewropeaidd—uwchben y cyfartaledd neu hyd yn oed yn agos i'r cyfartaledd. Felly, yn ychwanegol, pa fath o dargedau a fyddwch chi'n eu gosod tu fewn i'r Llywodraeth nawr i sicrhau bod gwariant Ewropeaidd a gwariant Llywodraeth Cymru yn codi economi'r canolbarth a'r gorllewin?
- You will know that the latest GVA figures were released today, which show that the poorest areas of Wales are to be found within the region as well as on Ynys Môn, and that there has been some increase in terms of the economy of the region, but that has not lifted the region—despite two rounds of European funding—above the average or even anywhere near the average. So, in addition, what sorts of targets will you now set within Government to ensure that European expenditure and Welsh Government expenditure lift the economy of Mid and West Wales?
- 13:50 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful that Simon Thomas has drawn attention to the latest Office for National Statistics figures, which were released this morning, on regional gross value added. I think that there are some strong figures here, as I know that you would recognise. Total workplace GVA in Wales was £52.1 billion in 2013, up 3.7% on 2012, and also workplace GVA per head rose by 3.4% in 2012—the joint largest percentage increase of the devolved countries and regions. However, I think that it is also important that we recognise, as I know that Simon Thomas will, the importance of not looking just at GVA, but at growth in gross disposable household income per head in both west Wales and the Valleys and in east Wales, which is critical in terms of the use of our structural funds. Since 1999, it has outstripped the UK average, at 60% in west Wales and the Valleys and 63.7% in east Wales—it is 57.1% in the UK. Therefore, both areas of Wales are closing the gap with the UK.
- Rwy'n ddiolchgar fod Simon Thomas wedi tynnu sylw at ffigurau diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol a ryddhawyd y bore yma ar werth ychwanegol crynswth rhanbarthol. Credaf fod rhai ffigurau cryf yma, fel y gwn y byddech yn ei gydnabod. Roedd cyfanswm gwerth ychwanegol gros y gweithle yng Nghymru yn £52.1 biliwn yn 2013, 3.7% yn uwch nag yn 2012, a chododd gwerth ychwanegol gros y gweithle y pen 3.4% yn 2012—y cynnydd canrannol mwyaf ar y cyd o'r gwledydd a'r rhanbarthau datganoledig. Fodd bynnag, credaf ei bod hefyd yn bwysig i ni gydnabod, fel y gwn y bydd Simon Thomas yn ei wneud, pa mor bwysig yw peidio ag edrych ar werth ychwanegol gros yn unig, ond ar dwf incwm gwario gros aelwydydd y pen yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac yn nwyrain Cymru, sy'n allweddol o ran y defnydd a wneir o'n cronfeydd strwythurol. Ers 1999, mae wedi bod yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 60% yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 63.7% yn nwyrain Cymru—57.1% yw ffigur y DU. Felly, mae'r ddwy ardal o Gymru yn cau'r bwlch ar y DU.
- 13:52 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In August last year, the Minister for Economy, Science and Transport confirmed that the construction of the Newtown bypass would commence early in 2015, and that capital funding would be allocated for the financial years 2014-15, 2015-16 and 2016-17, subject to the availability of finance. Now that the start date has slipped again from summer to winter 2015, would the Minister confirm how the delay has affected the capital funding allocation for the project? I hope that the Minister may be able to provide me with a more in-depth reply than that given to the earlier question.
- Ym mis Awst y llynedd, cadarnhaodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y byddai'r gwaith o adeiladu ffordd osgoi'r Drenwydd yn cychwyn yn gynnar yn 2015 ac y byddai arian cyfalaf yn cael ei ddyrannu ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2014-15, 2015-16 a 2016-17, yn dibynnu ar y cyllid a oedd ar gael. Gan fod y dyddiad cychwyn wedi llithro eto o haf i aeaf 2015, a all y Gweinidog gadarnhau sut y mae'r oedi wedi effeithio ar ddyraniad cyllid cyfalaf ar gyfer y prosiect? Gobeithiaf y gall y Gweinidog roi ateb mwy manwl i mi na'r un a roddodd i'r cwestiwn cynharach.
- 15:52 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am sure that the Minister for transport will provide that answer.
- Rwy'n sicr y bydd y Gweinidog trafnidiaeth yn rhoi'r ateb hwnnw.

Cydbwyllgor y Trysorlysoedd

The Joint Exchequer Committee

13:52	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography <i>5. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau ers cyfarfod cyntaf Cydbwyllgor y Trysorlysoedd ym mis Hydref? OAQ(4)0491(FIN)</i>	<i>5. Will the Minister provide an update on activities since the initial Joint Exchequer Committee meeting in October? OAQ(4)0491(FIN)</i>	Senedd.tv Fideo Video
13:52	Jane Hutt Bywgraffiad Biography I have been in regular discussion with UK Government Ministers to ensure continuing progress on our fiscal reform objectives. I confirmed yesterday that we have now secured a fair deal on budgetary arrangements for non-domestic rates, which will enable full devolution from April 2015.	Rwyf wedi bod yn trafod yn rheolaidd gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU i sicrhau cynnydd parhaus ein hamcanion diwygio ariannol. Cadarnheais ddoe ein bod bellach wedi sicrhau bargaen deg ar drefniadau cyllidebol ar gyfer ardrethi annomestig, a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl datganoli'n llawn o Ebrill 2015.	Senedd.tv Fideo Video
13:53	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography Thank you for that. Of course, this is a crucial time for the progress of devolution in Wales, and the question of fair funding is at the core of this. I welcome the fact that the Secretary of State recently announced that he is seeking to secure agreement on the future shape of Welsh devolution by 1 March next year. Taking that into account, it would be helpful to have some further information on how the Secretary of State's St David's Day process is progressing, particularly in relation to funding.	Diolch i chi. Wrth gwrs, mae hwn yn gyfnod allweddol i gynnydd datganoli yng Nghymru ac mae ariannu teg yn greiddiol i hyn. Croesawaf y ffaith fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi'n ddiweddar ei fod yn ceisio sicrhau cytundeb ar ffurf datganoli yng Nghymru yn y dyfodol erbyn 1 Mawrth y flwyddyn nesaf. Gan ystyried hynny, byddai'n ddefnyddiol cael rhywfaint yn rhagor o wybodaeth ar gynnydd proses Ddydd Gŵyl Dewi yr Ysgrifennydd Gwladol, yn enwedig mewn perthynas â chyllid.	Senedd.tv Fideo Video
13:53	Jane Hutt Bywgraffiad Biography I thank Sandy Mewies for that question. I met the Chief Secretary to the Treasury, Danny Alexander, earlier this week, to kick-start those discussions on the funding work stream for the St David's Day process. In line with the unanimous cross-party agreement in this Chamber, we decided on an approach that I hope will lead to fair funding for Wales. This will include an update of the relative funding analyses for Wales, an examination of how these interact with tax devolution and a consideration of the case for a funding floor.	Diolch i Sandy Mewies am y cwestiwn hwnnw. Cyfarfûm â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, Danny Alexander, yn gynharach yr wythnos hon i gychwyn y trafodaethau ar y ffrwd waith ariannu ar gyfer proses Ddydd Gŵyl Dewi. Yn unol â'r cytundeb trawsbleidiol unfrydol yn y Siambr hon, penderfynasom ar ddull a fydd, gobethio, yn arwain at ariannu teg i Gymru. Bydd hyn yn cynnwys diweddariad o'r dadansoddiadau cyllido cymharol ar gyfer Cymru, archwiliad o sut y mae'r rhain yn rhyngweithio â datganoli treth ac ystyriaeth o'r achos dros gyllid gwaelodol.	Senedd.tv Fideo Video
13:54	Angela Burns Bywgraffiad Biography Minister, I was interested to read the notes and minutes that came out of the last joint exchequer committee meeting and saw the detail in which the discussions have begun about the issuing of Welsh bonds. I wondered if you could make a statement on how credit rating agencies will be able to rate Welsh bonds, given that we will be new players in the world capital markets. If the cost of borrowing is higher than expected, will the Welsh Government stall this idea until Wales has established itself financially?	Weinidog, roedd hi'n ddiddorol darllen y nodiadau a'r cofnodion a ddaeth o gyfarfod diwethaf cydbwyllgor y trysorlysoedd a gweld manylder y trafodaethau sydd wedi dechrau ynghylch dyroddi bondiau Cymreig. Tybed a allech wneud datganiad ar sut y bydd asiantaethau asesu statws credyd yn gallu graddio bondiau yng Nghymru, o gofio y byddwn yn chwaraewyr newydd ym marchnadoedd cyfalaf y byd. Pe bai cost benthyca yn uwch na'r disgwyl, a fyddai Llywodraeth Cymru yn gohirio'r syniad hwn nes y bydd Cymru wedi sefydlu ei hun yn ariannol?	Senedd.tv Fideo Video

13:54

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that that is a very helpful question from Angela Burns. We are pursuing the powers to enable us to issue Welsh bonds, but we feel that the first step is to move forward with our borrowing powers and, of course, the all-important borrowing powers that will enable us, through the national loans fund, to access the best deal, if you like, for our Welsh infrastructure. We still feel that we need the same powers that Scotland has. They have the bond-issuing powers. As the Wales Bill enables us now, it will now enable us to use the national loans fund. Of course, we can, in principle, move to a point where we would think about bond issuing, but, of course, the credit agency rate is critical.

Credaf fod hwnnw'n gwestiwn defnyddiol iawn gan Angela Burns. Rydym ar drywydd y pwerau i'n galluogi i ddyroddi bondiau Cymreig, ond teimlwn mai'r cam cyntaf yw symud ymlaen gyda'n pwerau benthyca ac wrth gwrs, y pwerau benthyca hollbwysig a fydd yn ein galluogi, drwy'r gronfa fenthyciadau genedlaethol, i gael mynediad at y fargen orau, os mynnwch, ar gyfer seilwaith Cymru. Rydym yn dal i deimlo bod angen yr un pwerau â'r Alban arnom. Mae ganddynt bwerau i ddyroddi bondiau. Fel y mae Bil Cymru yn ein galluogi ar hyn o bryd, bydd yn awr yn ein galluogi i ddefnyddio'r gronfa fenthyciadau genedlaethol. Wrth gwrs, mewn egwyddor, gallwn gyrraedd pwynt lle byddem yn ystyried dyroddi bondiau, ond wrth gwrs, mae cyfraddau'r asiantaethau credyd yn allweddol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, with the full devolution of business rates, as you mentioned in your response to Sandy Mewies, which is expected next year, do you agree that those powers should be used to benefit small businesses by rebalancing the business rate system because, currently, business rates in Wales are the most expensive in the UK for small businesses and the cheapest for larger businesses?

Weinidog, fel y soniasoch yn eich ymateb i Sandy Mewies, gyda'r disgwyl y bydd ardrethi busnes yn cael eu datganoli'n llawn y flwyddyn nesaf, a ydych yn cytuno y dylai'r pwerau hynny gael eu defnyddio er budd busnesau bach drwy ail-gydbwysu'r system ardrethi busnes, oherwydd ar hyn o bryd, ardrethi busnes Cymru yw'r rhai drytaf yn y DU i fusnesau bach a'r rhataf i fusnesau mwy o faint?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On those issues, I know that the panel that the Minister for Economy, Science and Transport has set up, post the Brian Morgan review, will look at the opportunities and the best policy fit. This panel is chaired by Chris Sutton, the chair of the Confederation of British Industry Wales. I know that she will want to report back on that in due course.

Ynglŷn â'r materion hynny, gwn y bydd y panel y mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi ei sefydlu yn dilyn adolygiad Brian Morgan, yn edrych ar y cyfleoedd a'r hyn sy'n gweddu orau i'r polisi. Cadeirir y panel gan Chris Sutton, cadeirydd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru. Gwn y bydd yn awyddus i adrodd yn ôl ar hynny maes o law.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Portffolio Addysg a Sgiliau

The Education and Skills Portfolio

13:56

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael am y dyraniad cyllidebol cyffredinol i'r portffolio Addysg a Sgiliau ar gyfer 2015/16? OAQ(4)0487(FIN)

6. What discussions has the Minister had regarding the overall budget allocation to the Education and Skills portfolio for 2015/16? OAQ(4)0487(FIN)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I meet regularly with Cabinet and a range of partners to discuss how budgets are deployed, which includes the allocation to the education and skills portfolio.

Rwy'n cwrrd yn rheolaidd â'r Cabinet a nifer o bartneriaid i drafod sut y defnyddir y cyllidebau, gan gynnwys y dyraniad i'r portffolio addysg a sgiliau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that answer, Minister. The UK Government has protected the school budget and that particular funding stream into the block grant. Of course, the Welsh Government is also protecting and enhancing the schools budget funding streams into the RSG by either 0.6% or 1%, depending on which figures you use. Both the UK and Welsh Governments have improved the school budget streams for a reason. Are you disappointed that councils are defeating those policy aims by cutting school budgets anyway, and what are you doing to make sure that they follow the example of both Governments?

Diolch yn fawr am eich ateb, Weinidog. Mae Llywodraeth y DU wedi diogelu cyllideb ysgolion a'r ffrwd gyllido benodol honno i'r grant bloc. Wrth gwrs, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwarchod ac yn cynyddu ffrydiau cyllido'r gyllideb ysgolion i'r Grant Cynnal Refeniw naill ai 0.6% neu 1%, yn dibynnu ar ba ffigurau a ddefnyddiwyd. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi gwella ffrydiau'r gyllideb ysgolion am reswm. A ydych yn siomedig fod cynghorau'n dirymu'r nodau polisi hynny drwy dorri cyllidebau ysgolion beth bynnag, a beth a wnewch i sicrhau eu bod yn dilyn esiampl y ddwy Lywodraeth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Suzy Davies, first of all, for recognising that we are maintaining our commitment to protect schools funding by 1% above changes to the Welsh departmental expenditure limit overall. Of course, this is on top of additional funding that we have provided through the pupil deprivation grant. The important point is that, over the spending review period, this means that we are providing an additional £106 million to schools. Clearly, the monitoring of the spend is crucial and that is what the Minister for Education and Skills is undertaking, to ensure that there is protection of the 1% that the Welsh Government has provided through its allocation.

Diolch i Suzy Davies, yn gyntaf oll, am gydnabod ein bod yn parhau â'n hymrwymiad i ddiogelu cyllideb ysgolion 1% yn uwch na newidiadau i derfyn gwariant adrannol cyffredinol Cymru. Wrth gwrs, mae hyn ar ben y cyllid ychwanegol rydym wedi'i ddarparu drwy'r grant amddifadedd disgyblion. Y pwynt pwysig yw bod hyn yn golygu ein bod yn darparu £106 miliwn ychwanegol i ysgolion dros gyfnod yr adolygiad o wariant. Yn amlwg, mae'r gwaith o fonitro gwariant yn hanfodol a dyna beth y mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ei wneud, i sicrhau bod yr 1% hwnnw y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddarparu drwy ei ddyraniad yn cael ei amddiffyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Is the Minister aware of the concern among the Gypsy and Traveller community and the Gypsy and Traveller support groups about the fact that the grant for the education of Gypsy and Traveller children in the education budget is no longer ring-fenced? There is a great deal of concern that this very needy group of children, whose life chances, educational attainment and social inclusion are of the lowest level in the European Union, will lose essential support.

A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o'r pryder ymysg y gymuned Sipsiwn a Theithwyr a'r grwpiau cefnogi Sipsiwn a Theithwyr am y ffaith nad yw'r grant ar gyfer addysg plant Sipsiwn a Theithwyr yn y gyllideb addysg bellach wedi'i glustnodi? Mae llawer iawn o bryder y bydd y grŵp hwn o blant anghenus iawn, sydd ar y lefel isaf yn yr Undeb Ewropeaidd o ran eu cyfleoedd bywyd, cyrhaeddiad addysgol a'u cynhwysiant cymdeithasol, yn colli cymorth hanfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The commitment to the education of Gypsy and Traveller children is quite clear in terms of the Welsh Labour Government's priorities, so it is critical that we do monitor how local authorities respond to that. Clearly, there has been a strong call to de-hypothecate from local government, and some of those grants, of course, are affected, like the Gypsy and Traveller children education grant. I know that this Minister alongside me, the Minister for Communities and Tackling Poverty, will be very closely monitoring that, as will the Minister for Public Services.

Mae'r ymrwymiad i addysg plant Sipsiwn a Theithwyr yn eithaf clir o ran blaenoriaethau Llywodraeth Lafur Cymru, felly mae'n hollbwysig ein bod yn monitro sut y mae awdurdodau lleol yn ymateb i hynny. Yn amlwg, cafwyd galwad gref i ddadnelltuo'r arian o lywodraeth leol ac mae rhai o'r grantiau hynny, wrth gwrs, yn cael eu heffeithio, megis grant addysg plant Sipsiwn a phlant Teithwyr. Gwn y bydd y Gweinidog wrth fy ochr, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, yn monitro hynny'n agos iawn, fel y bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, wrth gwrs rydych yn trafod goblygiadau costau deddfwriaethol, ond y cwestiwn sydd gen i heddiw yw: pa drafodaethau a ydych yn eu cael gyda'r Gweinidog addysg ynglŷn ag unrhyw oblygiadau cyllidebol yn ymwneud â newidiadau polisi, er enghraifft, yng nghyd-destun adolygiad Donaldson? Efallai bydd angen mwy o hyfforddiant ar athrawon ac efallai bydd angen mwy o adnoddau yn yr ysgolion o ganlyniad i unrhyw newidiadau yn y sector hwnnw, felly pa fath o drafodaethau a ydych yn eu cael i sicrhau bod digon o arian yn y gyllideb er mwyn delifro ar eich amcanion fel Llywodraeth?

Minister, of course you are talking about the implications of the costs of legislation, but my question today is: what discussions are you having with the Minister for education on any financial implications related to policy changes, for example, in the context of the Donaldson review? There may be a need for greater teacher training and there may be a need for more resources in schools as a result of any changes in that sector, so what kinds of discussions are you having to ensure that there is adequate funding in the budget to deliver on your objectives as a Government?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, discussions about future prospects form part of Welsh Government in terms of key policy developments. However, what is important is that yesterday we passed the budget for 2015-16 based on current policies and arrangements.

Yn amlwg, mae trafodaethau am ragolygon y dyfodol yn rhan o Lywodraeth Cymru o ran datblygiadau polisi allweddol. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig yw ein bod wedi pasio'r gyllideb ddoe ar gyfer 2015-16 yn seiliedig ar bolisiâu a threfniadau cyfredol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Datganiad yr Hydref

The Autumn Statement

14:00

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y symiau canlyniadol sy'n deillio o ddatganiad yr hydref Canghellor y DU? OAQ(4)0494(FIN)

7. Will the Minister make a statement on budget consequentials arising from the UK Chancellor's autumn statement? OAQ(4)0494(FIN)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw symiau canlyniadol sy'n deillio o ddatganiad yr hydref yr wythnos ddiwethaf? OAQ(4)0498(FIN)

10. Will the Minister make a statement on any budget consequentials arising from last week's autumn statement? OAQ(4)0498(FIN)

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y symiau canlyniadol Barnett diweddar sy'n deillio o ddatganiad yr hydref Canghellor y DU? OAQ(4)0489(FIN)

11. Will the Minister make a statement on the recent Barnett consequential arising from the UK Government's autumn statement? OAQ(4)0489(FIN)

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y goblygiadau i Gymru o ddatganiad yr hydref Llywodraeth y DU? OAQ(4)0485(FIN)

13. Will the Minister make a statement on the implications for Wales of the UK Government's autumn statement? OAQ(4)0485(FIN)

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y symiau canlyniadol Barnett i Gymru yn sgil datganiad yr hydref Llywodraeth y DU? OAQ(4)0496 (FIN)

15. Will the Minister make a statement on Barnett consequentials to Wales following the UK Government's autumn statement? OAQ(4)0496(FIN)

14:00

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Presiding Officer, I believe you agreed for me to group questions 7, 10, 11, 13 and 15.

Lywydd, credaf eich bod wedi cytuno fy mod yn grwpio cwestiynau 7, 10, 11, 13 a 15 gyda'i gilydd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I issued a written statement on 3 December setting out the implications for Wales of the Chancellor's autumn statement.

Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar 3 Rhagfyr yn amlinellu goblygiadau datganiad hydref y Canghellor i Gymru.

14:00

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. I am pleased to be at the top of that grouping list. [Laughter.]

Diolch am eich ateb, Weinidog. Rwy'n falch o fod ar frig y rhestr grwpio honno. [Chwerthin.]

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of the Supporting People grant, you have already said, I think, in the past how important prevention is, but you did not add any additional money to that programme as part of the final budget. May I ask whether you will monitor the position on that fund and, if necessary, use some of the consequentials to top it up if there are particular pressures that arise in-year as a result of the cut that has been agreed in the final budget?

O ran y grant Cefnogi Pobl, credaf eich bod eisoes wedi dweud yn y gorffennol pa mor bwysig yw atal, ond ni roddasoch unrhyw arian ychwanegol i'r rhaglen honno yn rhan o'r gyllideb derfynol. A gaf i ofyn a fyddwch yn monitro'r sefyllfa o ran y gronfa honno ac os oes angen, yn defnyddio peth o'r symiau canlyniadol i ychwanegu ati pe bai pwysau penodol yn dod yn amlwg yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i'r toriad a gytunwyd yn y gyllideb derfynol?

14:01

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I can assure the Member that we are monitoring very carefully the implementation of the budget agreed in terms of the Supporting People grant. I would also say that it is important that you have raised, and that Members have raised, this point in scrutiny. That is the whole purpose of the draft to full final budget scrutiny. Of course, I am working very closely with the Minister for Communities and Tackling Poverty to ensure that we do have that close engagement with the partners that are delivering what is a very important preventative programme.

Gallaf sicrhau'r Aelod ein bod yn monitro'n ofalus iawn y modd y mae'r gyllideb y cytunwyd arni yn cael ei gweithredu o ran y grant Cefnogi Pobl. Byddwn hefyd yn dweud ei bod yn bwysig eich bod chi, a'r Aelodau, wedi tynnu sylw at y pwynt hwn yn rhan o'r gwaith craffu. Dyna yw holl bwrpas craffu ar y gyllideb ddrafft i'r gyllideb derfynol iawn. Wrth gwrs, rwy'n gweithio'n agos iawn gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n agos â'r partneriaid sy'n cyflawni rhaglen ataliol bwysig iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:01 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the figures on consequentials are, of course, calculated through that iniquitous equation that governs our finances. Can you tell us, Minister, if the Barnett formula had been reformed in the way recommended by the Holtham commission, what would have been the sum of additional funding?
- Weinidog, mae ffigurau'r symiau canlyniadol wedi eu cyfrifo, wrth gwrs, drwy'r hafaliad anghyfiawn hwnnw sy'n rheoli ein cyllid. A allwch ddweud wrthym, Weinidog, pe bai fformiwla Barnett wedi cael ei diwygio yn y modd a argymhellwyd gan gomisiwn Holtham, faint o gyllid ychwanegol a fyddai wedi bod?
- 14:02 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I welcome the description of 'iniquitous equation' in terms of the Barnett formula; I think we will have to use that again. What is very clear is that we need a needs-based funding regime, not just for Wales but for the whole of the UK in the longer term. Of course, my priority is to secure a fair deal for Wales. Gerry Holtham quite clearly identified £300 million underfunding as result of the disadvantage that, of course, relates to convergence.
- Croesawaf y disgrifiad o fformiwla Barnett fel 'hafaliad anghyfiawn'; credaf y bydd yn rhaid i ni ddefnyddio'r disgrifiad hwnnw eto. Yr hyn sy'n glir iawn yw bod angen trefn gyllido arnom sy'n seiliedig ar angen, nid yn unig yng Nghymru ond yn y DU gyfan yn y tymor hwy. Wrth gwrs, fy mlaenoriaeth yw sicrhau bargaen deg i Gymru. Nododd Gerry Holtham yn ddigon clir y £300 miliwn o danariannu sy'n deillio o'r anfantais sy'n ymwneud â chydgyfeirio wrth gwrs.
- 14:02 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- One of the consequentials that will come to the Welsh Government as a result of the autumn statement, of course, relates to the roof repair fund, which was set up for listed places of worship by the UK Government. Just under £1 million will be available to Wales, which would enable you to establish a similar fund. Can you confirm, given the successful debate that we had in the Chamber on a cross-party basis on the importance of Welsh religious heritage, that that fund will also be extended here in Wales, so that places of worship here can also benefit?
- Mae un o'r symiau canlyniadol a fydd yn dod i Lywodraeth Cymru yn sgil datganiad yr hydref yn ymwneud â'r gronfa atgyweirio toeau a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer mannau addoli rhestredig. Bydd ychydig o dan £1 miliwn ar gael i Gymru, a fyddai'n eich galluogi i sefydlu cronfa debyg. A allwch gadarnhau, o ystyried y ddadl lwyddiannus a gawsom ar sail drawsbleidiol yn y Siambr ar bwysigrwydd treftadaeth grefyddol Cymru, y bydd y gronfa honno hefyd yn cael ei hymestyn yma yng Nghymru, fel y gall mannau addoli yma elwa hefyd?
- 14:03 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Darren Millar, you know I cannot confirm that, because the Welsh Government now needs to consider very carefully how, with its constrained and reducing resources, it allocates the rest of the autumn statement consequential. We have made the decision on the £70 million for the health service, and now it is right and proper that we look at our priorities in relation to the remaining consequentials.
- Darren Millar, gwyddoch na allaf gadarnhau hynny, oherwydd gyda'i hadnoddau cyfyngedig sy'n prinhau, mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn ofalus iawn sut y mae'n mynd i ddyrannu gweddill cyllid canlyniadol datganiad yr hydref. Rydym wedi gwneud y penderfyniad ar y £70 miliwn i'r gwasanaeth iechyd, ac yn awr mae'n iawn ac yn briodol i ni edrych ar ein blaenoriaethau o ran y symiau canlyniadol sydd ar ôl.
- 14:03 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Chancellor is committed to a further £50 billion of cuts in the next Parliament. Do you agree with me that this will mean a cut, potentially, in the region of £1 billion to £2 billion to the Welsh budget should the Tories be re-elected in May? Will you outline what the implications of this would be for the services and economy of Wales?
- Mae'r Canghellor wedi ymrwymo i wneud £50 biliwn yn rhagor o doriadau yn ystod y Senedd nesaf. A ydych yn cytuno â mi y byddai hyn yn golygu toriad, o bosibl, o tua £1 biliwn i £2 biliwn yng nghyllideb Cymru, pe bai'r Torïaid yn cael eu hailethol ym mis Mai? A wnech chi amlinellu beth fyddai goblygiadau hyn i wasanaethau ac economi Cymru?

14:04

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I made the point very clearly yesterday and in my draft budget that we are very concerned about the predicted further cuts, which, of course, have been highlighted very clearly by the Institute for Fiscal Studies and the Office for Budget Responsibility. These are independent bodies saying, as a result of the Chancellor's autumn statement, 'We can confirm this will require that kind of level of cuts into the future'. So, this means for us, in terms of the impact on public services—which he, of course, chose to slip by in terms of his statement last week—extreme hardship in terms of our communities and will, as the Organisation for Economic Co-operation and Development said yesterday, drive more inequalities, which directly lead to lower economic growth.

Gwneuthum y pwynt yn glir iawn ddoe ac yn fy nghyllideb ddrafft ein bod yn bryderus iawn ynglŷn â'r toriadau pellach a ragwelir ac a amlygwyd yn glir iawn, wrth gwrs, gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Mae'r rhain yn gyrrff annibynnol sy'n dweud, o ganlyniad i ddatganiad hydref y Canghellor, 'Gallwn gadarnhau y bydd hyn yn galw am wneud toriadau ar lefel o'r fath yn y dyfodol'. I ni, felly, o ran yr effaith ar wasanaethau cyhoeddus—y dewisodd ef basio heibio iddynt o ran ei ddatganiad yr wythnos ddiwethaf, wrth gwrs—bydd hyn yn golygu caledi eithafol o ran ein cymunedau, ac fel y dywedodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ddoe, bydd yn ysgogi mwy o anghydraddoldebau sy'n arwain yn uniongyrchol at lai o dwf economaidd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Among the other statements in the autumn statement was a significant statement around funding for university education—the establishment of science centres in England, and a postgraduate loan fund. Could the Minister confirm whether there were any consequentials for the Welsh Government from these announcements, and, if there were not, whether she has received any explanation of why there were not? Also, could she say, particularly on the postgraduate loan fund—which uses the England-and-Wales taxation system and the England-and-Wales undergraduate loan system in order to work—whether access will be available for Welsh Government to pursue a postgraduate policy using what the Chancellor announced last week?

Ymysg y datganiadau eraill yn natganiad yr hydref, roedd datganiad arwyddocaol ynghylch cyllid ar gyfer addysg prifysgol—sefydlu canolfannau gwyddoniaeth yn Lloegr, a chronfa fenthyciadau ôl-raddedig. A all y Gweinidog gadarnhau a oedd unrhyw symiau canlyniadol ar gyfer Llywodraeth Cymru o'r cyhoeddiadau hyn ac os nad oedd, a yw wedi cael unrhyw esboniad pam? Hefyd, a allai ddweud, yn enwedig mewn perthynas â'r gronfa fenthyciadau ôl-raddedig—sy'n defnyddio system drethi Cymru a Lloegr a system fenthyciadau israddedig Cymru a Lloegr i allu gweithio—a fydd modd i Lywodraeth Cymru ddilyn polisi ôl-raddedig gan ddefnyddio'r hyn a gyhoeddodd y Canghellor yr wythnos diwethaf?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Simon Thomas for that question. We are considering, as I said in reply to Darren Miller, very carefully the use of the consequentials over and above the health service allocation that we have already announced. We need to look particularly carefully at that issue in terms of the postgraduate loans fund and the interaction across England and Wales. Certainly, the Minister for Education and Skills will want to clarify that point.

Diolch i Simon Thomas am y cwestiwn. Fel y dywedais wrth ateb Darren Miller, rydym yn ystyried y defnydd o'r symiau canlyniadol yn ofalus iawn yn ychwanegol at y dyraniad i'r gwasanaeth iechyd rydym eisoes wedi'i gyhoeddi. Mae angen i ni edrych yn arbennig o ofalus ar y mater hwnnw o ran y gronfa fenthyciadau ôl-raddedig a'r rhyngweithio ar draws Cymru a Lloegr. Yn sicr, bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn awyddus i egluro'r pwynt hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I welcome the funding boost for the health service, but, with councils increasingly having to find savings in areas like adult social care because of protections in place elsewhere, I am really worried that cuts forced on us by Westminster will, in turn, lead to increased pressure on the NHS, particularly when you look at some of the important preventative and reablement services that are being cut back. Minister, will you look at this important issue, along with the Minister for Public Services, to see what more can be done to support these essential services at a local level, especially in light of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, which places a great deal of emphasis on preventative work and such services—the very ones that are being cut back?

Weinidog, rwy'n croesawu'r hwb ariannol i'r gwasanaeth iechyd ond gyda chynghorau yn gorfod dod o hyd i fwy a mwy o arbedion mewn meysydd fel gofal cymdeithasol i oedolion am fod meysydd eraill yn cael eu diogelu, rwy'n poeni go iawn y bydd y toriadau a orfodir arnom gan San Steffan yn arwain yn eu tro at fwy o bwysau ar y GIG yn enwedig o edrych ar rai o'r gwasanaethau ataliol ac ail-alluogi pwysig sy'n dioddef toriadau. Weinidog, a wneuch chi edrych ar y mater pwysig hwn, gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, i weld beth yn fwy y gellir ei wneud i gefnogi'r gwasanaethau hanfodol hyn ar lefel leol, yn enwedig yn wyneb Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n gosod llawer o bwyslais ar waith ataliol a gwasanaethau o'r fath-yr union rai sy'n dioddef toriadau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Lynne Neagle for that question. I have already commented on the importance of our focus on preventative measures, which was also influenced by the work of the Finance Committee and expressed in the preparation of our draft budget for scrutiny. The focus on preventative measures and early intervention is clearly the direction of travel in terms of this Welsh Labour Government. In terms of adult social care, clearly, the integrated work between social services and the NHS is vital. That is why we have put an extra £10 million into social services through the local government revenue settlement.

Diolch i Lynne Neagle am y cwestiwn. Rwyf eisoes wedi gwneud sylwadau ar bwysigrwydd ein ffocws ar fesurau ataliol, sydd wedi cael ei ddylanwadu hefyd gan waith y Pwyllgor Cyllid a'i fynegi wrth baratoi ein cyllideb ddrafft ar gyfer ei chraffu. Y ffocws ar fesurau ataliol ac ymyrraeth gynnar yw'r cyfeiriad teithio amlwg i Lywodraeth Lafur Cymru. O ran gofal cymdeithasol i oedolion, mae'n amlwg fod gwaith integredig rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG yn hanfodol. Dyna pam rydym wedi rhoi £10 miliwn ychwanegol tuag at wasanaethau cymdeithasol drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you are clearly in a coy Christmas mood today. You gave yet another scant-in-detail answer to Darren Millar's question earlier regarding the use of the forthcoming consequential. I assume that you do not want to be drawn on the revenue side of the consequential from the autumn statement. Can I ask you about the £8.8 million, or thereabouts, in capital money that is coming through those allocations? You yourself in the past have expressed concern over a squeeze on capital spend. Have you any ideas at all as to where you are going to spend this £8.8 million in capital? I am thinking of projects such as the metro, which was raised earlier by John Griffiths. That might well be welcome money in getting public transport schemes moving forward, in contrast to your overreliance, rather, on road schemes at the moment.

Weinidog, rydych yn amlwg mewn hwyliau chwareus heddiw. Rhoesoch ateb amwys eto fyth i gwestiwn Darren Millar yn gynharach ynghylch y defnydd o'r symiau canlyniadol sydd i ddod. Rwy'n tybio nad ydych am gael eich denu i drafod refeniw symiau canlyniadol datganiad yr hydref. A gaf i ofyn i chi ynglŷn â'r £8.8 miliwn, fwy neu lai, mewn arian cyfalaf a ddaw o'r dyraniadau hynny? Rydych chi eich hun wedi mynegi pryder yn y gorffennol ynghylch gwasgfa ar wariant cyfalaf. A oes gennych unrhyw syniadau o gwbl ble'r ydych yn mynd i wario'r £8.8 miliwn o arian cyfalaf? Rwy'n meddwl am brosiectau fel y metro y cyfeiriodd John Griffiths ato'n gynharach. Gallai'r arian hwnnw helpu i symud cynlluniau trafniadaeth gyhoeddus yn eu blaenau, yn wahanol i'ch gorddibyniaeth ar gynlluniau ffyrdd ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I am not coy; I am responsible. That is how a Welsh Labour Government Minister for finance should be—clearly responsible. I welcome the extra £8.8 million in capital. The funding that we have had in the years up to this point from this coalition Government has been on the basis of a 30% cut to our capital funding—it is important that we put that on the record again today—and financial transactions, which, of course, are just loans. So, of course, I welcome the fact that we have this small amount of capital, which, of course, will then fund priorities in our infrastructure investment plan.

Wel, nid wyf yn chwareus; rwy'n gyfrifol. Dyna sut y dylai un Gweinidog Cyllid Llywodraeth Lafur Cymru fod—yn amlwg gyfrifol. Rwy'n croesawu'r £8.8 miliwn yn ychwanegol mewn cyfalaf. Mae'r cyllid a gawsom gan y Llywodraeth glymblaid dros y blynyddoedd hyd at yn awr wedi bod ar sail toriad o 30% i'n cyllid cyfalaf—mae'n bwysig i ni gofnodi hynny eto heddiw—a benthyciadau'n unig yw ein trafodion ariannol wrth gwrs. Felly rwy'n croesawu'r ffaith bod gennym y swm bach hwn o gyfalaf a fydd wedyn, wrth gwrs, yn ariannu blaenoriaethau ein cynllun buddsoddi yn y seilwaith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am sure that you, like us here, welcome the cash boost of more than £123 million from the Chancellor as an early Christmas present to the people of Wales. I heard what you said to Nick Ramsay earlier on in your responses to his questions. Call it what you like—whether it is a cancer treatment fund or, as Andy Burnham calls it, a cancer therapy fund—it is a play on words. Given the flexibility that this now allows, will you be encouraging, or why will you not encourage, your Minister for health to take part of the cash boost and invest it in a long-awaited cancer drugs fund for Wales, especially given that your colleagues in England now see the benefit? Or should I be telling the people of South Wales West whom I have been representing on further funding to prolong their lives that you are just not interested in helping them for ideological reasons?

Weinidog, rwy'n sicr eich bod chi, fel ninnau yma, yn croesawu'r hwb ariannol o dros £123 miliwn gan y Canghellor fel anrheg Nadolig cynnar i bobl Cymru. Clywais yr hyn a ddywedasoch wrth Nick Ramsay yn gynharach yn eich atebion i'w gwestiynau. Beth bynnag y dymunwch ei alw—cronfa triniaethau canser neu gronfa therapi canser fel y mae Andy Burnham yn ei alw—chwarar ar eiriau ydyw. O ystyried yr hyblygrwydd y mae hyn bellach yn ei ganiatáu, a fyddwch yn annog, neu pam nad ydych am annog, eich Gweinidog Iechyd o'r ddefnyddio ychydig o'r hwb ariannol i'w fuddsoddi mewn cronfa cyffuriau canser hirddisgwyliedig ar gyfer Cymru, yn enwedig o gofio bod eich cydweithwyr yn Lloegr yn awr yn gweld y budd? Neu a ddylwn ddweud wrth y bobl y bŵm yn dadlau dros gael cyllid pellach i ymestyn eu bywydau yng Ngorllewin De Cymru nad oes gennych unrhyw ddi-ddordeb yn eu helpu am resymau ideolegol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:10 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I can respond again to say, for the record, that spending on cancer care in Wales is at a record high and, on a per-capita basis, in Wales we spend more on the drugs available through the cancer drugs fund than is spent in England. I am sure that you will want to report that back to your constituents. I certainly report that back to mine. The latest figures show that we spend £10 more per head on cancer treatment in Wales than England does, and a greater proportion of cancer patients are treated within the target times in Wales than in England. I would say also that I have mentioned Cancer Research UK, but what about the 'British Journal of Cancer', which showed that Wales has a faster uptake of NICE-recommended drugs than England does? Why do you not go and put the truth over to your constituents on the cancer drugs fund in England?
- Gallaf ymateb eto i ddweud, ar gyfer y cofnod, bod gwariant ar ofal canser yng Nghymru ar y lefel uchaf erioed a'n bod yng Nghymru, yn gwario mwy y pen ar y cyffuriau sydd ar gael drwy'r gronfa cyffuriau canser na sy'n cael ei wario yn Lloegr. Rwy'n sicr y byddwch am roi'r wybodaeth honno i'ch etholwyr. Rwy'n sicr yn rhoi'r wybodaeth honno i fy rhai innau. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos ein bod yn gwario £10 yn fwy fesul pen ar driniaeth canser yng Nghymru nag yn Lloegr ac mae cyfran uwch o gleifion canser yn cael eu trin o fewn yr amserau targed yng Nghymru nag yn Lloegr. Byddwn yn dweud hefyd fy mod wedi sôn am Cancer Research UK, ond beth am y 'British Journal of Cancer', a ddangosai fod Cymru'n manteisio'n gyflymach na Lloegr ar gyffuriau a argymhellir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal? Pam na wnewch chi fynd a rhoi'r gwir i'ch etholwyr am y gronfa cyffuriau canser yn Lloegr?
- 14:11 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The employment allowance that reduces the amount of national insurance contributions an employer has to pay for new employees has been extended to those who need to employ a carer for themselves or a family member. This means that individuals would have more disposable income to pay for longer hours of care or additional services. I hope that the Welsh Government welcomes this change, but how might it assist with meeting the likely increase in demand for skilled carers?
- Mae'r lwfans cyflogaeth sy'n lleihau'r cyfraniad yswiriant gwladol sy'n rhaid i gyflogwr ei dalu am weithwyr newydd wedi cael ei ymestyn i'r sawl sydd angen cyflogi gofalwr ar eu cyfer hwy eu hunain neu ar gyfer aelod o'r teulu. Mae hyn yn golygu y byddai gan unigolion fwy o incwm gwario i dalu am fwy o oriau gofal neu wasanaethau ychwanegol. Rwy'n gobeithio bod Llywodraeth Cymru yn croesawu'r newid hwn, ond ym mha ffordd y gallai'r newid helpu i ddiwallu'r cynnydd tebygol yn y galw am ofalwyr medrus?
- 14:11 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- This is something I know the Minister for Communities and Tackling Poverty and, indeed, the Minister for Health and Social Services will want to look at very carefully in terms of our carers policy.
- Dyma rywbeth y gwn y bydd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ac yn wir, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn awyddus i edrych arno'n ofalus iawn o ran ein polisi gofalwyr.
- 14:11 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In his autumn statement, the Chancellor announced an extra £60 million for the national Access for All fund, providing funding to improve station access at platforms for disabled people and people with reduced mobility. Wales, presumably, will receive a consequential as this does apply to stations in England and Wales. Will you ensure that that funding is used to tackle barriers to access in railway stations across Wales and, of course, ensure that north Wales gets a fair bite at that?
- Yn natganiad yr hydref, cyhoeddodd y Canghellor £60 miliwn ychwanegol ar gyfer cronfa genedlaethol Mynediad i Bawb, sy'n darparu cyllid i wella mynediad ar blatfformau gorsafoedd i bobl anabl a phobl sy'n cael trafferth symud. Bydd Cymru, yn ôl pob tebyg, yn derbyn cyllid canlyniadol gan fod hyn yn berthnasol i orsafoedd yng Nghymru a Lloegr. A fyddwch yn sicrhau bod y cyllid hwnnw'n cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â rhwystrau i fynediad mewn gorsafoedd trenau ledled Cymru ac wrth gwrs, yn sicrhau bod gogledd Cymru'n cael cyfran deg ohono?
- 14:12 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, the Minister for Economy, Science and Transport already allocates funding for the Access for All station improvement programme, and I recently visited the station at Pontypridd, where I saw the fantastic new disabled access walkway across the railway line. That was also funded by European structural funds.
- Wrth gwrs, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth eisoes yn dyrannu cyllid ar gyfer rhaglen wella gorsafoedd Mynediad i Bawb, ac ymwelais yn ddiweddar â gorsaf Pontypridd, lle gwelais y rhodfa newydd wych dros y rheilffordd sy'n darparu mynediad ar gyfer pobl anabl. Ariannwyd honno hefyd gan gronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

Portffolio yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

The Economy, Science and Transport Portfolio

- 14:12 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
8. Pa ffactorau y rhoddwyd ystyriaeth iddynt gan y Gweinidog wrth ddyrannu cyllid i bortffolio'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn y gyllideb derfynol? OAQ(4)0488(FIN)
8. What factors were considered by the Minister when allocating funding to the Economy, Science and Transport portfolio in the final budget? OAQ(4)0488(FIN)
- 14:12 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
The programme for government sets out our priorities for Wales and underpins our spending plans, including funding allocated to the economy, science and transport portfolio.
Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru ac yn ategu ein cynlluniau gwariant, yn cynnwys arian a ddyrannwyd i'r portffolio economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth.
- 14:13 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
What consideration did you give to the funding within that portfolio that is subsidising the north-south premier express rail service, and particularly the decision not to take out the first class, or what is now called business class, dining facilities? Given the very low usage on the train thus far, what consideration of the break-even levels will be needed to ensure that public money is not being used to buy expensive luxury meals for people when others are going without?
Pa ystyriaeth a roddwyd gennych i'r cyllid yn y portffolio hwnnw sy'n darparu cymhorthdal ar gyfer y prif wasanaeth rheilffordd cyflym o'r gogledd i'r de, yn enwedig y penderfyniad i beidio â diddymu cyfleusterau bwyta'r dosbarth cyntaf, neu'r dosbarth busnes fel y'i gelwir bellach? O ystyried y defnydd prin iawn ohonynt ar y trên hyd yma, pa ystyriaeth o'r lefelau adennill costau fydd ei hangen i sicrhau nad yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i brynu prydau moethus a drud i bobl pan fo pobl eraill yn mynd hebddynt?
- 14:13 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
This not a matter for me as Minister for finance. I think it is very important that you recognise who has the responsibilities, which are, of course, partly devolved, and we will be taking our responsibilities much further forward when we get full power over the franchise.
Nid yw hwn yn fater i mi fel Gweinidog Cyllid. Credaf ei bod yn bwysig iawn i chi gydnabod pwy sydd â'r cyfrifoldebau, sydd wedi'u datganoli'n rhannol wrth gwrs, a byddwn yn ymestyn ein cyfrifoldebau ymhellach o lawer pan gawn bwerau llawn dros y fasnachfrait.
- 14:14 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Ni fyddwn am ddilyn cwestiwn Mark Isherwood, ond rwyf am ddatgan buddiant gan fy mod wedi bwyta brecwast ar y trên sawl gwaith. A all y Gweinidog roi sicrwydd i mi fod y dyraniad cyllidol o dan drafnidiaeth yn ddigonol, o ran cyfraniad Llywodraeth Cymru ac o ran derbyniadau tebygol o Lywodraeth y Deyrnas Unedig, i osod yr holl broses o reoli'r fasnachfrait rheilffyrdd ac o ddatblygu datganoli rheilffyrdd, gyda'r integreiddiad angenrheidiol gyda bysiau, ac y bydd digon o gyllid ar gyfer hwnnw fel y bydd teithwyr Cymru yn manteisio?
I am not going to follow up on Mark Isherwood's questions but I will declare an interest, as I have eaten breakfast on that train on many occasions. Can the Minister give me an assurance that the funding allocation under the transport budget line is adequate, in terms of the Welsh Government's contribution and in terms of likely receipts from the UK Government, to put in place the whole process of managing the rail franchise and of developing the devolution of the railways, with the necessary integration with buses, and that there is adequate for funding for that so that travellers in Wales can take full advantage of that?
- 14:14 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I have full confidence, as I know Lord Dafydd Elis-Thomas has, in our Minister for Economy, Science and Transport in delivering the important assurances that we need in terms of that funding allocation. As I said in response to Mark Isherwood, we need the power and we will take responsibility.
Mae gennyf lawn hyder, fel y gwn sydd gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, y bydd ein Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn rhoi'r sicrwydd pwysig sydd ei angen arnom o ran y dyraniad cyllid hwnnw. Fel y dywedais wrth ateb Mark Isherwood, mae arnom angen y pŵer a byddwn yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb.

14:15	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	<p>Weinidog, wrth ystyried y datganiad a wnaethpwyd gan y Gweinidog trafnidiaeth ryw awr yn ôl ynglŷn â datblygu bwrdd newydd ar gyfer gofynion y de-ddwyrain, sut fyddwch chi fel Llywodraeth yn creu trosolwg o ran gwariant wrth ystyried holl ofynion trafnidiaeth y de-ddwyrain, sef y metro a'r M4? Rydym ni yn y gogledd yn awyddus iawn i weld bod dyraniad teg yn y gyllideb, felly sut fyddwch chi'n gwarantu hynny?</p>	<p>Minister, in considering the statement made by the Minister for transport about an hour ago regarding the development of a new board for the requirements of the south-east, how will you as a Government create an overview of the expenditure, when you consider all the requirements as regards transport in the south-east, including the metro and the M4. We in the north are very eager to see that there is fair allocation within the budget, so how will you guarantee that?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:15	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	<p>I think that this will be a very important development that will have to be clearly monitored. The overview of the Welsh Government would be key to this. It will also have to be monitored in terms of its non-governmental role and responsibility. This has to have the power to drive this forward, particularly in relation to our new developing metro scheme. Of course, it is a model that can then be used across the whole of Wales.</p>	<p>Rwy'n credu y bydd hwn yn ddatblygiad pwysig iawn y bydd yn rhaid ei fonitro'n glir. Byddai trosolwg Llywodraeth Cymru yn allweddol i hyn. Bydd yn rhaid ei fonitro hefyd o ran ei rôl a'i gyfrifoldeb anllywodraethol. Mae'n rhaid i hyn fod â'r grym i yrru hyn yn ei flaen, yn enwedig o ran ein cynllun metro newydd sy'n datblygu. Wrth gwrs, mae'n fodel y gellir ei ddefnyddio wedyn ledled Cymru.</p>	Senedd.tv Fideo Video
Ffigurau Gwariant a Refeniw		Spending and Revenue Figures		
14:16	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography	<p><i>9. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am y rhesymau dros beidio â chyhoeddi ffigurau gwariant a refeniw llawn ar gyfer Cymru, fel yr argymhellwyd gan y Comisiwn Silk? OAQ(4)0499(FIN)</i></p>	<p><i>9. What discussions has the Minister had with the UK Government on the reasons for not publishing full spending and revenue figures for Wales, as recommended by the Silk Commission? OAQ(4)0499(FIN)</i></p>	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	<p>Her Majesty's Revenue and Customs published statistics on UK tax revenues raised in Wales in October 2013 and October 2014. While many of these data are estimates, they provide a helpful source of information alongside detailed spending information published by the Welsh Government and the Treasury.</p>	<p>Cyhoeddodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ystadegau ar refeniw treth y DU a godwyd yng Nghymru ym mis Hydref 2013 ac ym mis Hydref 2014. Er bod llawer o'r data yn amcangyfrifon, mae'n darparu ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth ochr yn ochr â'r wybodaeth fanwl ar wariant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Trysorlys.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography	<p>Diolch. Y rheswm mae arnom angen y ffigurau llawn, wrth gwrs, ydy er mwyn gallu asesu maint yr her economaidd sydd o'n blaenau. Mae'r ffigurau GVA a gafodd eu cyhoeddi heddiw, ac y cyfeiriwyd atynt yn barod, yn brawf eto o faint yr her honno, ac mae'r anghyfarledd ar draws y gwledydd hyn yn brawf eto o fethiant rhaglenni cyfres o lywodraethau Llafur a Cheidwadol. Os ydy'r Trysorlys yn anwybyddu Silk, neu wedi anwybyddu Silk ar y mater hwn, a ydy'r Gweinidog yn cytuno bod hynny'n codi cwestiynau sylfaenol ynglŷn ag agwedd y Trysorlys tuag at Silk yn gyffredinol, ac a fyddai Trysorlys Llafur yn magu agwedd wahanol?</p>	<p>Thank you. The reason we need the full figures, of course, is in order to assess the enormity of the economic challenge ahead of us. The GVA figures published today, which have been alluded to, are proof once again of the enormity of the challenge, and the inequality across these nations once again attests to the failure of a series of Labour and Conservative government schemes. If the Treasury is ignoring or has ignored Silk on this matter, does the Minister agree that this raises fundamental questions about the Treasury's attitude towards Silk generally, and would a Labour Treasury have a different attitude?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:17	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	<p>I think it is important that we are now developing, of course, a Welsh Labour Treasury here in the Welsh Government.</p>	<p>Credaf ei bod yn bwysig ein bod yn awr, wrth gwrs, yn datblygu Trysorlys Llafur Cymru yma yn Llywodraeth Cymru.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:17	Elin Jones Bywgraffiad Biography	<p>A Welsh Government Treasury.</p>	<p>Trysorlys Llywodraeth Cymru.</p>	Senedd.tv Fideo Video

- 14:17 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 A Welsh Labour Government Treasury. [Laughter]. I will get there in the end. A Welsh Labour Government Treasury. In response to your question, Rhun, we have to have timely and relevant economic statistics. We keep those statistics under review and, of course, clearly securing what we can and what we need from the Treasury.
 Trysorlys Llywodraeth Lafur Cymru. [Chwerthin]. Byddaf yn cyrraedd yno yn y pen draw. Trysorlys Llywodraeth Lafur Cymru. I ateb eich cwestiwn, Rhun, rhaid i ni gael ystadegau economaidd amserol a pherthnasol. Rydym yn adolygu'r ystadegau hynny'n gyson ac wrth gwrs, yn amlwg yn diogelu'r hyn a allwn a'r hyn rydym ei angen gan y Trysorlys.
- 14:18 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition
 I very much hope that it will be a Welsh Government Treasury and that it will not be a club for Labour's old cronies to rack up the numbers and rack up the expenses. However, what I would say to you, Minister, is that, obviously, it is important when you are doing statistics and, in particular, when you are trying to assess the funding gap, that you have up-to-date information. The joint motion that was put before the Assembly and agreed by all parties called on the Welsh Government to work with the UK Government to update the Holtham findings. Are you in a position to tell us what progress, if any, has been made on that work, because I think most commentators recognise that that figure is now out of date?
 Rwy'n gobeithio'n fawr mai Trysorlys Llywodraeth Cymru a fydd mewn gwirionedd, nid clwb lle bydd hen ffrindiau Llafur yn chwyddo'r ffigurau a'r treuliau. Fodd bynnag, yr hyn y byddwn yn ei ddweud wrthy, Weinidog, yw ei bod yn amlwg yn bwysig i chi gael y wybodaeth ddiweddaraf pan fyddwch yn llunio ystadegau ac yn benodol pan fyddwch yn ceisio asesu'r bwch cyllid. Roedd y cynnig ar y cyd a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad a'i gytuno gan yr holl bleidiau yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddiweddarau canfyddiadau Holtham. A ydych mewn sefyllfa i ddweud wrthym pa gynnydd, os o gwbl, a wnaed ar y gwaith hwnnw, oherwydd credaf fod y rhan fwyaf o sylwebyddion yn cydnabod bod y ffigur hwnnw bellach wedi dyddio?
- 14:18 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 I thank Andrew R. T. Davies for that question. I did respond to Sandy Mewies earlier to give an update on a very constructive meeting that I had with the Chief Secretary to the Treasury earlier this week. Part of the work stream that we agreed to take forward included an update of the relative funding analyses for Wales, an examination of how these interact with tax devolution, as well as, of course, a consideration of the case for a funding floor.
 Diolch i Andrew R. T. Davies am y cwestiwn. Atebais Sandy Mewies yn gynharach â'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod adeiladol iawn a gefais gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yn gynharach yr wythnos hon. Roedd rhan o'r ffrwd waith y cytunasom i fwrw ymlaen â hi'n cynnwys diweddariad o'r dadansoddiadau cyllido cymharol ar gyfer Cymru, archwiliad o sut y mae'r rhain yn rhyngweithio â datganoli treth, yn ogystal ag ystyriaeth o'r achos dros gyllido gwaelodol wrth gwrs.
- 14:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 Questions 10 and 11 were grouped earlier, so question 12 is next.
 Gwrpiwyd cwestiynau 10 ac 11 yn gynharach, felly cwestiwn 12 sydd nesaf.
- Gwerth Cymru** **Value Wales**
- 14:19 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
12. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r trafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda chydweithwyr cabinet ynghylch effaith 'Gwerth Cymru' ar uno posibl awdurdodau lleol?
 OAQ(4)0495(FIN)
12. Will the Minister outline the discussions she has held with cabinet colleagues concerning the impact on 'Value Wales' of potential local authority mergers?
 OAQ(4)0495(FIN)
- 14:19 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 I published the Wales procurement policy statement in December 2012 and I am pleased that all 22 councils have committed to adopting its nine principles.
 Cyhoeddais ddatganiad polisi caffael Cymru ym mis Rhagfyr 2012 ac rwy'n falch bod pob un o'r 22 cyngor wedi ymrwymo i fabwysiadu ei naw egwyddor.

14:19	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank you for our answer, Minister. How are you going to monitor the haphazard way in which councils are voluntarily merging or resisting merger to ensure that efficient spending delivers best value for Welsh taxpayers?</p>	<p>Diolch am ein hateb, Weinidog. Sut rydych am fonitro'r ffordd ddi-drefn y mae cynghorau'n uno'n wirfoddol neu'n gwrthsefyll uno er mwyn sicrhau bod gwariant effeithlon yn rhoi'r gwerth gorau i drethdalwyr Cymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:19	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I think that questions to Minister for Public Services are forthcoming. I certainly feel that the Wales procurement policy statement has done a great deal to drive up and improve the efficiencies delivered by local authorities across Wales.</p>	<p>Credaf fod cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y ffordd. Rwy'n sicr yn teimlo bod datganiad polisi caffael Cymru wedi gwneud llawer iawn i ysgogi a gwella'r arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd gan awdurdodau lleol ledled Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:20	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Question 13 was grouped with an earlier question.</p>	<p>Grwpiwyd cwestiwn 13 gyda chwestiwn cynharach.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Cynlluniau Buddsoddi mewn Seilwaith</p>		<p>Infrastructure Investment Plans</p>	
14:20	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau buddsoddi seilwaith yng ngorllewin Nghymru? OAQ(4)0484(FIN)</i></p>	<p><i>14. Will the Minister make a statement on infrastructure investment plans for west Wales? OAQ(4)0484(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:20	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Mae'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, ynghyd â'r llif o brosiectau arfaethedig a gyhoeddwyd yr wythnos hon, yn gosod ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf ledled Cymru, gan gynnwys gorllewin Cymru.</p>	<p>The Wales infrastructure investment plan, taken together with the updated project pipeline, which I published this week, sets out our priorities for capital investment across Wales, including the west Wales region.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:20	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>As Members will be aware, I am particularly pleased that the Welsh Government has finally committed to undertake a feasibility study over the next six months into dualling the A40 in Pembrokeshire. In light of this study, can the Minister tell us what role she will play in this study, given that, should the outcome of this feasibility study be favourable to dualling the A40, sourcing financing options for this project will be absolutely crucial? So, can she tell us what her input will be into this particular study?</p>	<p>Fel y gŵyr yr Aelodau, rwy'n arbennig o falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o'r diwedd i gynnal astudiaeth ddichonoldeb dros y chwe mis nesaf ar ddeoli'r A40 yn Sir Benfro. Yn wyneb yr astudiaeth hon, a all y Gweinidog ddweud wrthym pa ran y bydd yn ei chwarae yn yr astudiaeth hon, o ystyried y byddai dod o hyd i opsiynau ariannu ar gyfer y prosiect hwn yn gwbl hanfodol os yw canlyniad yr astudiaeth ddichonoldeb yn ffafrio deoli'r A40? Felly, a all hi ddweud wrthym beth fydd ei mewnbwn i'r astudiaeth benodol hon?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:20	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>As far as my role and that of my officials is concerned, this is about receiving robust proposals using the Treasury's five case model to ensure that there is business assurance when proposals come forward for consideration for the allocation of funding. So, the responsibility lies in getting it to that point, and then I can allocate the funding.</p>	<p>O ran fy rôl i a rôl fy swyddogion, mae hyn yn ymwneud â chael cynigion cadarn gan ddefnyddio model pum achos y Trysorlys er mwyn sicrhau sicrwydd busnes pan gyflwynir y cynigion i'w hystyried ar gyfer dyrannu cyllid. Felly, mae'r cyfrifoldeb yn ymwneud â sicrhau ei fod yn cyrraedd y pwynt hwnnw, ac yna gallaf ddyrannu'r cyllid.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:21	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Question 15 was answered earlier in a grouping. Thank you, Minister.</p>	<p>Atebwyd cwestiwn 15 yn gynharach mewn grŵp o gwestiynau. Diolch, Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Uno Cyrff Cyhoeddus ym Mhowys

14:21 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
1. A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ba drafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch y posibilrwydd o uno Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys? OAQ(4)0512(PS)

14:21 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services
I met with the leader and deputy leaders of Powys County Council last week to discuss further integration between both organisations.

14:21 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for a slightly more detailed answer than I had earlier, Minister. I am pleased that you have had that meeting. Clearly, there will be a financial cost to the integration of both organisations, and you will be aware that the health board is currently running a deficit. What financial support can the Welsh Government provide to assist both organisations with more integrating functions?

14:22 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am sure that the Member will want to share my answer with the councillor for Newtown central the next time he talks to himself. [Laughter.] However, in the spirit of Christmas, let me say that we are well aware of the costs and pressures of further integration, and we look to both bodies in Powys to look for what savings they can identify.

14:22 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Williams, of course, recommended merger. Powys County Council currently has 73 elected members, a leader and a cabinet. Powys Teaching Local Health Board has a mix of executive and non-executive directors, some of which are directly appointed by the Minister and some of which represent interest groups. How will the combined body merge those two structures?

14:22 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
My colleague the Member for Swansea East asks a very reasonable question, and there are issues of detail that we need to consider as we review how to take forward that recommendation.

Questions to the Minister for Public Services

The Merger of Public Bodies in Powys

1. Will the Minister provide an update on what discussions he has had with regard to a potential merger of Powys County Council and Powys Teaching Health Board? OAQ(4)0512(PS)

Cyfarfûm ag arweinydd a dirprwy arweinwyr Cyngor Sir Powys yr wythnos ddiwethaf i drafod integreiddio pellach rhwng y ddau sefydliad.

Diolch am ateb ychydig yn fwy manwl nag a gefais yn gynharach, Weinidog. Rwy'n falch i chi gael y cyfarfod hwnnw. Yn amlwg, bydd cost ariannol yn deillio o integreiddio'r ddau sefydliad a byddwch yn ymwybodol fod y bwrdd iechyd yn gweithredu ar ddifffyg ariannol ar hyn o bryd. Pa gymorth ariannol y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu i gynorthwyo'r ddau sefydliad â mwy o swyddogaethau integreiddio?

Rwy'n sicr y bydd yr Aelod yn awyddus i rannu fy ateb gyda chynghorydd Canol y Drenewydd y tro nesaf y bydd yn siarad ag ef ei hun. [Chwerthin.] Fodd bynnag, yn ysbryd y Nadolig, gadewch i mi ddweud ein bod yn ymwybodol iawn o gostau a phwysau integreiddio pellach a'n bod yn disgwyl i'r ddau gorff ym Mhowys chwilio am yr arbedion y gallant eu nodi.

Argymhellodd Williams uno, wrth gwrs. Ar hyn o bryd mae gan Gyngor Sir Powys 73 o aelodau etholedig, arweinydd a chabinet. Mae gan Fwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys gymysgedd o gyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol, rhai ohonynt wedi'u penodi'n uniongyrchol gan y Gweinidog a rhai'n cynrychioli grwpiau buddiant. Sut y bydd y corff cyfunol yn uno'r ddau strwythur hwn?

Mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, yn gofyn cwestiwn rhesymol iawn ac mae manylion y bydd angen i ni eu hystyried wrth i ni adolygu sut i barhau â'r argymhelliad hwnnw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:23	Simon Thomas Bywgraffiad Biography As well as the costs that have already been mentioned for such a merger, there are potential savings in more efficient streamlining and alignment between social services and health, not just in Powys but potentially throughout Wales. Is this a model, if it works in Powys, that the Government is interested in introducing or pioneering elsewhere in Wales?	Yn ogystal â'r costau sydd eisoes wedi eu crybwyll ar gyfer uno o'r fath, mae arbedion posibl i'w cael o symleiddio ac alinio mwy effeithlon rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, nid ym Mhowys yn unig, ond ledled Cymru o bosibl. Os yw'n gweithio ym Mhowys, a yw hwn yn fodel y byddai gan y Llywodraeth ddiddordeb yn ei gyflwyno neu arloesi ynddo mewn mannau eraill yng Nghymru?	Senedd.tv Fideo Video
14:23	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography I am not sure that we would want to create more health boards, which might be the conclusion if we were to follow the Williams model all the way through on the basis of what he has just said. However, he is absolutely right to say that there could be learning that we can gain from the current discussions that are under way on integration between the Powys Teaching Local Health Board and Powys County Council.	Nid wyf yn sicr y byddem yn awyddus i greu mwy o fyrddau iechyd, fel y gallai ddigwydd pe baem yn dilyn model Williams yr holl ffordd ar sail yr hyn y mae newydd ei ddweud. Fodd bynnag, mae'n hollol iawn i ddweud y gallem ddysgu gwersi o'r trafodaethau presennol sydd ar y gweill ar integreiddio rhwng Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys a Chyngor Sir Powys.	Senedd.tv Fideo Video
14:23	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography <i>Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats</i> Minister, if you decide not to go ahead with a merger between the health board and the local authority, and in considering other options for local government in Powys, would you confirm today that you would have no intention of moving Ystradgynlais and the upper Swansea valley out of Powys and into a larger Neath Port Talbot/Swansea authority?	Weinidog, os byddwch yn penderfynu peidio â pharhau gydag uno'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol, ac yn ystyried opsiynau eraill ar gyfer llywodraeth leol ym Mhowys, a wnewch chi gadarnhau heddiw na fyddai gennych unrhyw fwriad o symud Ystradgynlais a rhan uchaf Cwm Tawe allan o Bowys ac i mewn i awdurdod Castell-nedd Port Talbot/Abertawe mwy o faint?	Senedd.tv Fideo Video
14:24	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography I will start by congratulating the Member on the award she won last night, in the spirit of Christmas. She has made that case to me privately and now publicly. There is a discussion to be had around the recommendations from Williams, and, as she will know, we are currently focused on reviewing the proposals that we have had for voluntary mergers.	Dechreuaf drwy longyfarch yr Aelod ar y wobr a enillodd neithiwr, yn ysbryd y Nadolig. Mae hi wedi cyflwyno'r achos hwnnw i mi'n breifat ac yn awr yn gyhoeddus. Mae trafodaeth i'w chael ynglŷn ag argymhellion Williams, ac fel y bydd yn gwybod, rydym ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar adolygu'r cynigion a gawsom ar gyfer uno'n wirfoddol.	Senedd.tv Fideo Video
	Gwasanaethau Cyhoeddus	Public Services	
14:24	Paul Davies Bywgraffiad Biography 2. <i>A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0497(PS)</i>	2. <i>Will the Minister make a statement on the delivery of local public services in west Wales? OAQ(4)0497(PS)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:24	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Across Wales, we need to embrace new models of delivery for public services and lead the way in sharing power and responsibility with our communities.	Ledled Cymru, mae angen i ni fanteisio ar fodelau newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac arwain y ffordd o ran rhannu grym a chyfrifoldeb gyda'n cymunedau.	Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, councils across Wales are debating savings and changes to the delivery of public services following the Welsh Government's draft budget. For councils like Pembrokeshire, there will certainly be an effect on the delivery of services in rural areas. Can the Minister tell us what guidance the Welsh Government is offering to local authorities to ensure that those living in more rural parts of Wales are not particularly disadvantaged as a result of local authority changes?

Weinidog, mae cynghorau ledled Cymru yn trafod arbedion a newidiadau i'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yn sgil cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Ar gyfer cynghorau fel Sir Benfro, bydd effaith bendant ar ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. A all y Gweinidog ddweud wrthym pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnig i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau nad yw pobl sy'n byw yn ardaloedd mwy gwledig Cymru o dan anfantaes benodol o ganlyniad i newidiadau awdurdodau lleol?

14:25 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, not providing their chief executives with a Porsche might be a start, I think. We have had a clear review, I think, of what needs to be undertaken by local authorities in respect of administration costs, which we announced recently. That is under way—the tender for that is under way. Certainly, we want all local authorities to look carefully at every area of their spending.

Wel, rwy'n credu efallai y byddai peidio â rhoi Porsche i'w prif weithredwyr yn fan cychwyn. Credaf ein bod wedi cael adolygiad clir a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar o'r hyn sydd angen i awdurdodau lleol ei wneud o ran costau gweinyddol. Mae hynny ar y gweill—mae'r tendr ar gyfer hynny ar y gweill. Yn sicr, rydym am i bob awdurdod lleol edrych yn ofalus ar bob un o'u meysydd gwariant.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to questions from the spokespeople, and first we have the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan y lefarwyr, ac yn gyntaf, llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

14:26 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. Minister, now that the deadline has closed for expressions of interest in voluntary mergers, can you outline to us what your thinking now is on the final structure of local government in Wales, given that some of the proposals differ from that recommended by Williams?

Diolch, Lywydd. Weinidog, gan fod y dyddiad cau ar gyfer datgan diddordeb mewn uno gwirfoddol wedi mynd heibio, a allwch amlinellu beth rydych yn ei feddwl bellach fydd strwythur terfynol llywodraeth leol yng Nghymru o gofio bod rhai o'r cynigion yn wahanol i'r hyn a argymhellir gan Williams?

14:26 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

No.

Na.

14:26 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, thank you for that answer, Minister—short and succinct as ever. Do you accept that, if the proposed merger goes ahead between the Vale of Glamorgan and Bridgend—which I personally favour, as do many of my constituents—it will actually break one of Williams's rules in terms of breaching the boundaries around the Objective 1 areas? How would you take that into account in considering that particular proposal?

Wel, diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog—mor fyr a chryno ag erioed. Pe bai'r uno arfaethedig rhwng Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr yn mynd rhagddo—rwy'n bersonol yn ffafrio hynny, fel llawer o fy etholwyr—a ydych yn derbyn y byddai hynny mewn gwirionedd yn torri un o reolau Williams o ran bylchu'r ffiniau o amgylch ardaloedd Amcan 1? Sut y byddech yn ymdrin â hynny wrth ystyried y cynnig penodol hwnnw?

14:26 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

As I have already said in a written statement, we have received three formal expressions of interest. Only one of these was in line with the Williams map. The other two are making exceptional cases. I am not overly impressed with the number of responses we have received, and nor am I convinced that some of the key questions outlined in our prospectus have been fully answered.

Fel rwyf eisoes wedi ei ddweud mewn datganiad ysgrifenedig, rydym wedi derbyn tri datganiad o ddiddordeb ffurfiol. Un o'r rhain yn unig oedd yn cyd-fynd â map Williams. Mae'r ddau arall yn cyflwyno achosion eithriadol. Nid wyf yn rhy hapus â nifer yr ymatebion a ddaeth i law ac nid wyf yn argyhoeddedig fod rhai o'r cwestiynau allweddol a amlinellwyd yn ein prospectws wedi cael eu hateb yn llawn.

14:27	Peter Black Bywgraffiad Biography Minister, you have gone on record as saying that either you or some of your colleagues believe that the number of local authorities should be less than the proposed 10 or 12 suggested by Williams and maybe as few as six. Are you actively considering a proposal that will have an outcome of six, or fewer, local authorities in Wales? If so, when will you be able to come to us with some details of that thought process?	Weinidog, cawsoch eich cofnodï'n dweud eich bod chi neu rai o'ch cydweithwyr yn credu y dylai nifer yr awdurdodau lleol fod yn llai na'r 10 neu 12 a awgrymwyd gan Williams, a chyn lleied â chwech o bosibl. A ydych yn ystyried cynnig a fydd yn golygu mai chwech, neu lai, o awdurdodau lleol fydd yna yng Nghymru? Os felly, pa bryd y gallwch roi rhai o fanylion eich proses o feddwl i ni?	Senedd.tv Fideo Video
14:27	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography I am currently actively considering the voluntary merger proposals that have been brought to us.	Ar hyn o bryd rwyf wrthi'n ystyried y cynigion uno gwirfoddol a gyflwynwyd i ni.	Senedd.tv Fideo Video
14:27	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography We now move to questions from the Welsh Conservatives' spokesperson, Janet Finch-Saunders.	Symudwn bellach at gwestiynau gan lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Janet Finch-Saunders.	Senedd.tv Fideo Video
14:27	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography Thank you. Minister, just two weeks ago, you told the BBC's 'Sunday Politics Wales' programme that there are senior members of the Labour Party who would like to see just six local authorities across Wales. In the interests of honesty and transparency, and, of course, democratic accountability, would you like to tell the Chamber who they are?	Diolch. Weinidog, bythefnos yn unig yn ôl, dywedasoeh wrth raglen 'Sunday Politics Wales' y BBC fod uwch aelodau o'r Blaid Lafur a hoffai weld chwe awdurdod lleol yn unig yng Nghymru. Er gonestrwydd a thryloywder, ac wrth gwrs, atebolrwydd democrataidd, a hoffech ddweud wrth y Siambwr pwy ydynt?	Senedd.tv Fideo Video
14:28	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography There are several Members who hold that view. [Laughter.]	Mae nifer o Aelodau'n coleddu'r farn honno. [Chwerthin.]	Senedd.tv Fideo Video
14:28	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography Well, the fact that you will not disclose those names leads me to believe that there is probably only one senior member of the Labour Party who thinks that, and that is you—[Laughter.]—unless of course you wish to say otherwise. Was this not a veiled and failed attempt to use the stick approach to force some of those authorities that are not entirely convinced by your voluntary merger process to come forward before your required deadlines?	Wel, mae'r ffaith nad ydych yn fodlon datgelu'r enwau yn fy arwain i gredu mai un uwch aelod o'r Blaid Lafur yn unig sy'n credu hynny, a chi yw hwnnw—[Chwerthin.]—oni bai, wrth gwrs, eich bod yn dymuno dweud fel arall. Onid ymgais gudd a fethodd oedd hon i orfodi rhai o'r awdurdodau hynny nad ydynt yn hollol argyhoeddedig ynglŷn â'ch proses uno wirfoddol i ddod ymlaen cyn eich terfynau amser gofynnol?	Senedd.tv Fideo Video
14:28	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Well, it is nearly Christmas and I think that she should be rather more charitable in her interpretation. I take the view that there are many senior members in my party and that many of them have the view that I expressed.	Wel, mae'r Nadolig bron â bod yma ac rwy'n meddwl y dylai fod ychydig yn fwy caredig yn ei dehongliad. Rwyf o'r farn fod llawer o uwch aelodau yn fy mhlaid a bod llawer ohonynt yn coleddu'r farn a fynegais.	Senedd.tv Fideo Video
14:29	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography Okay. Minister, the summary of consultation responses to your White Paper, 'Reforming Local Government', states that many respondents were clear that effective engagement to successfully deliver these reforms would require the Welsh Government to clearly outline its intentions for reform, seek the opinion and views of local government and, of course, more importantly our residents on such proposals and, also importantly, to take account of those views when making decisions. What plans have you in place and when do you intend to do this?	lawn. Weinidog, mae'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'ch Papur Gwyn, 'Diwygio Llywodraeth Leol', yn nodi bod llawer o ymatebwyr yn glir y byddai ymgysylltu effeithiol i gyflwyno'r diwygiadau hyn yn llwyddiannus yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru amlinellu ei bwriadau ar gyfer diwygio'n glir, i ofyn am farn a safbwyntiau llywodraeth leol ac yn bwysicach, wrth gwrs, ein trigolion ar gynigion o'r fath a hefyd, yn bwysig, i ystyried y farn honno wrth wneud penderfyniadau. Pa gynlluniau sydd gennych ar waith a pha bryd y bwriadwch wneud hyn?	Senedd.tv Fideo Video

- 14:29 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, may I say that I was very disappointed that half of all principal local authorities in Wales did not express a view on the White Paper to contribute to shaping the future of local government? I think that they might have contributed to an informed conversation, but that is a matter, of course, for them. As I have already said, we will be taking forward a further White Paper, on the future of local government, in the new year.
- Wel, a gaf i ddweud fy mod yn siomedig iawn nad yw hanner yr holl brif awdurdodau lleol yng Nghymru wedi mynegi barn ar y Papur Gwyn i gyfrannu at lunio dyfodol llywodraeth leol? Credaf y gallent fod wedi cyfrannu at sgwrs wybodus ond mater iddynt hwy yw hynny, wrth gwrs. Fel y dywedais eisoes, byddwn yn bwrw ymlaen â Phapur Gwyn pellach ar ddyfodol llywodraeth leol yn y flwyddyn newydd.
- 14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Lindsay Whittle.
- Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Lindsay Whittle.
- 14:30 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, as Carwyn James would say, I will get my retaliation in first, and wish you a very merry Christmas. [Laughter.] You are obviously intent on reorganising local government, because you believe that it would be of benefit to the people of Wales—and that is your opinion. What criteria will you be using to assess whether this reorganisation has been successful, and over what time period will the assessment take place, please?
- Weinidog, fel y byddai Carwyn James yn ei ddweud, rwyf am dalu'r pwyth yn ôl yn gyntaf a dymuno Nadolig llawen iawn i chi. [Chwerthin.] Rydych yn amlwg yn benderfynol o ad-drefnu llywodraeth leol am eich bod yn credu y byddai hynny o fudd i bobl Cymru—a dyna yw eich barn. Pa feini prawf y byddwch yn eu defnyddio i asesu a fu'r ad-drefnu'n llyyddiannus a thros ba gyfnod o amser y cynhelir yr asesiad os gwelwch yn dda?
- 14:30 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I will reciprocate the Christmas greetings to the Member. May I say to him that, obviously, we will have a lot more to say about those issues in our White Paper in the new year? However, I am not the only one, and my party is not the only party, that believes that there needs to be a reorganisation of local government. Indeed, I think that many prominent members—many leading members—of your party feel that way too.
- Wel, rwy'n dychwelyd fy nghyfarchion Nadolig i'r Aelod. A gaf i ddweud wrtho y bydd llawer mwy gennym i'w ddweud am y materion hynny yn ein Papur Gwyn yn y flwyddyn newydd? Fodd bynnag, nid fi yw'r unig un, ac nid fy mhlaid yw'r unig blaid, sy'n credu bod angen ad-drefnu llywodraeth leol. Yn wir, credaf fod llawer o aelodau blaenllaw—llawer o aelodau arweiniol—eich plaid yn teimlo felly hefyd.
- 14:31 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, you are quite right, Minister. I am looking forward to your further papers; I hope that that will be before the general election. While reducing the number of higher-paid officers in local authorities will produce savings, I am concerned about the fact that this could be offset by the loss of experienced staff, particularly at junior managerial level. Does a full and transparent cost benefit analysis exist, and will you publish it? You must be aware that many members of local authority staff aged 55 plus really are looking at this as an opportunity to leave.
- Oes, rydych yn llygad eich lle, Weinidog. Edrychaf ymlaen at eich papurau pellach; gobeithiaf y daw hynny cyn yr etholiad cyffredinol. Er y bydd lleihau nifer y swyddogion ar gyflogau uwch mewn awdurdodau lleol yn creu arbedion, rwy'n pryderu mai ochr arall y geiniog fyddai colli staff profiadol, yn enwedig ar lefel is-reolwyr. A oes dadansoddiad cost a budd cyflawn a thryloyw yn bodoli ac a fyddwch yn ei gyhoeddi? Rhaid eich bod yn ymwybodol fod llawer o aelodau staff awdurdodau lleol dros 55 oed yn ystyried hwn yn gyfle i adael.
- 14:31 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I have said that we are commissioning a study of the cost of the administration of local government across Wales, and I think that that will be a very valuable exercise for us. We are out currently to consultation, of course, on the public sector staff commission as well, which will provide a vehicle for the resolution of many of those issues.
- Wel, rwyf wedi dweud ein bod yn comisiynu astudiaeth o gost gweinyddu llywodraeth leol ledled Cymru ac rwy'n meddwl y bydd yn ymarfer gwerthfawr iawn i ni. Rydym yn ymgynghori ar hyn o bryd, wrth gwrs, ar gomisiwn staff y sector cyhoeddus yn ogystal, a fydd yn darparu modd o ddatrys llawer o'r materion hynny.

14:32

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am not sure how many Christmas cards you will receive from councils, but I am sure that you will agree that one very important way to improve local government performance is scrutiny by those elected councillors. Your predecessor stated that she wanted to help councillors to provide effective challenge and scrutiny, and that is excellent. However, what proposals do you have for making sure that local government can be effectively scrutinised by opposition councillors, who will now represent much, much larger wards? That is a bigger problem in the rural areas, perhaps, than in the valleys and the cities that some of us represent.

Weinidog, nid wyf yn siŵr sawl cerdyn Nadolig y byddwch yn eu cael gan gynghorau ond rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno mai un ffordd bwysig iawn o wella perfformiad llywodraeth leol yw craffu gan y cynghorwyr etholedig hynny. Dywedodd eich rhagflaenydd ei bod yn dymuno helpu cynghorwyr i herio a chraffu'n effeithiol, ac mae hynny'n wych. Fodd bynnag, pa gynigion sydd gennych ar gyfer sicrhau bod cynghorwyr y gwrthbleidiau, a fydd yn awr yn cynrychioli wardiau llawer iawn mwy o faint, yn gallu craffu'n effeithiol ar lywodraeth leol? Mae honno'n broblem fwy yn yr ardaloedd gwledig, efallai, nag yn y cymoedd a'r dinasoedd y mae rhai ohonom yn eu cynrychioli.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is a very fair question, and I will refer him to the White Paper. We are currently working our way through drafts of that, and we are clearly looking in detail at the scrutiny role within local government, including for backbench councillors—in opposition, of course, but also members of the ruling parties. I do think that there are issues there that we need to consider in respect of support to those councillors in their scrutiny functions. I can promise him that it is my intention to publish the White Paper before the general election.

Mae hwnnw'n gwestiwn teg iawn, ac rwy'n ei gyfeirio at y Papur Gwyn. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ein ffordd drwy ddrafftiau o hwnnw ac rydym yn amlwg yn edrych yn fanwl ar rôl craffu o fewn llywodraeth leol, gan gynnwys ar gyfer cynghorwyr meinciau cefn—yr wrthblaid, wrth gwrs, ond hefyd aelodau o'r pleidiau sydd mewn grym. Rwy'n credu bod materion yno sydd angen i ni eu hystyried mewn perthynas â chefnogaeth i'r cynghorwyr hynny gyda'u swyddogaethau craffu. Gallaf addo iddo ei bod yn fwrriad gennyf i gyhoeddi'r Papur Gwyn cyn yr etholiad cyffredinol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Trais yn erbyn Meynwod

Violence against Women

14:33

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn trais yn erbyn menywod dros gyfnod y Nadolig? OAQ(4)0505(PS)

3. What is the Welsh Government doing to tackle the increase in violence against women over the Christmas period? OAQ(4)0505(PS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

From next Monday, 15 December, we will be running the domestic abuse TV campaign to raise awareness of violence against women, domestic abuse and sexual violence.

O ddydd Llun nesaf, 15 Rhagfyr, byddwn yn cynnal ymgyrch deledu ar gam-drin domestig i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that. You will be aware that the all-Wales domestic abuse and sexual violence helpline says that the number of calls that it receives often increases by 10%, or more, in that two-week period over Christmas. I am glad that the TV campaign is getting under way, but how will we signpost those services that are available over the Christmas period to those who need them?

Diolch i chi am hynny. Byddwch yn ymwybodol fod llinell gymorth cam-drin domestig a thrais rhywiol Cymru yn dweud fod nifer y galwadau y mae'n eu derbyn yn aml yn cynyddu 10% neu fwy yn ystod y cyfnod o bythefnos dros y Nadolig. Rwy'n falch bod yr ymgyrch deledu yn mynd rhagddi ond sut rydym yn mynd i dynnu sylw at y gwasanaethau hynny sydd ar gael dros gyfnod y Nadolig i'r rhai sydd eu hangen?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:33 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that the advertising campaign will play an important role in that, and my colleague the Member for Delyn is absolutely right to point to the sad increase that we often see over that period in calls to the helpline. The helpline, of course, is available 24 hours, seven days a week, all the year round, and helpline staff are trained to provide support and advice. We believe that we will be able to identify appropriate follow-on services, and secure emergency refuge places, for those who need them.
- Rwy'n credu y bydd yr ymgyrch hysbysebu yn chwarae rhan bwysig yn hynny ac mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Delyn, yn gwbl gywir i dynnu sylw at y cynnydd trist rydym yn aml yn ei weld dros y cyfnod hwnnw o ran galwadau i'r llinell gymorth. Mae'r llinell gymorth, wrth gwrs, ar gael 24 awr, saith diwrnod yr wythnos, drwy gydol y flwyddyn, ac mae staff y llinell gymorth yn cael eu hyfforddi i roi cymorth a chyngor. Credwn y gallwn nodi gwasanaethau dilynol priodol a lleoedd lloches brys diogel i'r rhai sydd eu hangen.
- 14:34 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, today, I think, marks the last day of the 16 days of action to end violence against women. The campaign is, of course, crucial to keep the message prominent in people's minds, and I support it wholeheartedly. I suppose that, more than anybody in this room, I know exactly what happens over Christmas in terms of assaults and serious assaults. However, given your support and involvement with Wales Women's Aid, and your well-documented support on the issue—I was very pleased to hear what you just said about TV advertising—do you think that there are any sort of further practical steps that can be taken to protect these vulnerable people over the Christmas period from domestic violence?
- Weinidog, rwy'n credu mai heddiw yw diwrnod olaf yr 16 diwrnod o weithredu i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod. Mae'r ymgyrch, wrth gwrs, yn hanfodol i gadw'r neges yn glir ym meddyliau pobl, ac rwy'n ei chefnogi i'r carn. Yn fwy na neb yn yr ystafell hon mae'n debyg, rwy'n gwybod yn union beth sy'n digwydd dros y Nadolig o ran ymosodiadau ac ymosodiadau difrifol. Fodd bynnag, o ystyried eich cefnogaeth i Cymorth i Fenywod Cymru, eich cysylltiad â hwy a'ch cymorth sydd wedi'i gofnodi'n dda—roeddwn yn falch iawn o glywed yr hyn rydych newydd ei ddweud ynglŷn â hysbysebion teledu—a ydych yn credu bod yna unrhyw fath o gamau ymarferol pellach y gellid eu cymryd i ddiogelu'r bobl hyn sy'n agored i niwed dros gyfnod y Nadolig rhag trais domestig?
- 14:35 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank him for his support for that campaign. I think that we have had a very successful campaign this year and you will have seen the additional steps that we took to promote the white ribbon campaign when we projected the white ribbon symbol on the Pierhead building here in Cardiff bay and, indeed, on Caerphilly castle. I think that those campaigns do help to keep these issues well in the public mind. The advertising campaign, let me say, will have extensive advertising around prime time in the television schedules, including independent television and on S4C.
- Diolch iddo am ei gefnogaeth i'r ymgyrch honno. Rwy'n credu ein bod wedi cael ymgyrch lwyddiannus iawn eleni a byddwch wedi gweld y camau ychwanegol a gymerasom i hyrwyddo ymgyrch y rhuban gwyn pan dafluwyd symbol y rhuban gwyn ar adeilad y Pierhead yma ym mae Caerdydd ac yn wir, ar gastell Caerffili. Credaf fod yr ymgyrchoedd hyn yn helpu i gadw'r materion hyn yn glir ym meddwl y cyhoedd. Gadewch i mi ddweud y bydd yr ymgyrch yn cynnwys hysbysebu helaeth yn ystod oriau brig yr amserlenni teledu, gan gynnwys teledu annibynnol ac S4C.
- 14:35 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- This time next year, Minister, as we approach Christmas 2015, the cuts to the Supporting People budget will be taking effect, including help for families fleeing domestic abuse. The Minister for finance told us earlier that this process was being managed with you. Can you tell us how many beds in refuges across Wales will be lost as a result of the cuts? I know that, in your own constituency, the delivery of services to women and children fleeing domestic abuse is already at risk.
- Yr amser hwn y flwyddyn nesaf, Weinidog, wrth i ni agosáu at Nadolig 2015, bydd y toriadau i gyllideb Cefnogi Pobl yn cael effaith, gan gynnwys cymorth i deuluoedd sy'n ffoi rhag cam-drin domestig. Dywedodd y Gweinidog Cyllid wrthym yn gynharach fod y broses hon yn cael ei rheoli gyda chi. A allwch ddweud wrthym faint o welyau mewn llochesi ledled Cymru a gollir o ganlyniad i'r toriadau? Gwn fod darparu gwasanaethau i fenywod a phlant sy'n ffoi rhag cam-drin domestig eisoes mewn perygl yn eich etholaeth eich hun.
- 14:36 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that the Member will well understand the financial pressures that the Welsh Government is under as a result of the £1.5 billion of cuts that were imposed on the Welsh budget by the UK Government. She makes an important point. I will undertake to examine the issues that she has raised today and report back and write to her.
- Credaf y bydd yr Aelod yn deall y pwysau ariannol sydd ar Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r toriadau o £1.5 biliwn a gafodd eu gorfodi ar gyllideb Cymru gan Lywodraeth y DU. Mae hi'n gwneud pwynt pwysig. Byddaf yn edrych ar y materion a gododd heddiw, yn adrodd yn ôl ac ysgrifennu ati.

Ymgysylltiad y Cyhoedd

Public Engagement

- 14:36 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
4. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo ymgysylltiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol? OAQ(4)0513(PS)
- 14:36 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Our vision for local government is that it is engaged in sharing power with local communities. I will be publishing a White Paper on this in the new year.
- 14:36 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Change is on the way for local government, and when that happens, it is important that councils and public services recognise the need for public and community engagement. This is the sort of engagement that benefits communities. In Flintshire, where my constituency is situated, there are examples where this is happening. The work of the Holywell town partnership, the Holywell transition group, Bagillt library group and the Mold Bailey Hill campaigners are examples of where councillor, community volunteers and local businesses have come together to try to improve and promote their area. Minister, would you agree that we need to encourage more of this shared vision approach to ensure that there is community momentum for efforts to continue those improvements, and that people take ownership of those services?
- 14:37 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes; I very much agree with that. I made some similar comments in a speech that I delivered to the Wales Council for Voluntary Action annual general meeting just a week or so ago. I think that, in the White Paper, we will be reflecting our concern that there is effective community involvement and engagement, including close working with the third sector in order to shape and improve public services as we move forward. We want local authorities to embrace this, and we see the role of community advocacy and community leadership as integral to the role of local government working alongside those organisations.
- 14:38 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, your Government is committed to giving due regard to children's rights in the exercise of its functions, and one of those functions is to require a variety of actions from local authorities, sometimes including consultations. Only two councils have made a similar commitment to observe the United Nations Convention on the Rights of the Child, so how do you satisfy yourself that the Government's observance of article 12 is not diluted once delivery of policy has been handed to local authorities?
4. What is the Welsh Government doing to promote public engagement in local government? OAQ(4)0513(PS)
- Ein gwledigaeth ar gyfer llywodraeth leol yw y bydd yn ymroi i rannu grym gyda chymunedau lleol. Byddaf yn cyhoeddi Papur Gwyn ar hyn yn y flwyddyn newydd.
- Mae newid ar droed i lywodraeth leol a phan ddigwydd hynny, mae'n bwysig fod cynghorau a gwasanaethau cyhoeddus yn cydnabod yr angen i ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gymuned. Dyma'r math o ymgysylltu sydd o fudd i gymunedau. Yn Sir y Fflint, lle mae fy etholaeth i, ceir enghreifftiau o hyn yn digwydd. Mae gwaith partneriaeth tref Treffynnon, grŵp trawsnewid Treffynnon, grŵp llyfrgell Bagillt ac ymgyrchwyr Bryn y Beili yn yr Wyddgrug yn enghreifftiau o gynghorwyr, gwirfoddolwyr cymunedol a busnesau lleol yn dod at ei gilydd i geisio gwella a hyrwyddo eu hardal. Weinidog, a fydddech yn cytuno bod angen i ni annog mwy o rannu gwledigaeth i sicrhau bod momentwm cymunedol ar gyfer ymdrechion i barhau'r gwelliannau hyn, a bod pobl yn cymryd perchnogaeth ar y gwasanaethau hynny?
- Ydw; rwy'n cytuno'n llwyr â hynny. Gwneuthum rai sylwadau tebyg mewn araith a gyflwynais yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wythnos yn unig yn ôl. Credaf y byddwn, yn y Papur Gwyn, yn adlewyrchu ein hawydd i weld cyfranogiad ac ymgysylltiad cymunedol effeithiol, yn cynnwys cydweithio agos â'r trydydd sector er mwyn llunio a gwella gwasanaethau cyhoeddus wrth i ni symud ymlaen. Rydym am i awdurdodau lleol groesawu hyn, ac rydym yn ystyried bod rôl eiriolaeth ac arweinyddiaeth gymunedol yn rhan annatod o swyddogaeth llywodraeth leol wrth weithio ochr yn ochr â'r sefydliadau hynny.
- Weinidog, mae eich Llywodraeth wedi ymrwymo i roi sylw dyledus i hawliau plant wrth arfer ei swyddogaethau, ac un o'r swyddogaethau hynny yw mynnu amrywiaeth o gamau gweithredu gan awdurdodau lleol, sydd weithiau'n cynnwys ymgynghoriadau. Dim ond dau gyngor sydd wedi gwneud ymrwymiad tebyg i gydymffurfio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, felly sut rydych yn bodloni eich hun nad yw cydymffurfiaeth y Llywodraeth ag erthygl 12 yn cael ei gwanhau wedi i'r polisi gael ei gyflwyno i awdurdodau lleol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 14:38 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that she is absolutely right to raise this and I want to go away to reflect on what she has just said, because I do think that the follow through of policies from the Welsh Government delivered by local government is something that we have to keep a very close eye on. She raises a very important point around one aspect of that policy, and I will take that away and look at what we can do with local government in that regard.
- Rwy'n credu ei bod yn llygad ei lle i godi hyn ac rwyf eisiau myfrio ar yr hyn y mae hi newydd ei ddweud, gan fy mod yn credu bod y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n olrhain polisiau sy'n cael eu cyflawni gan lywodraeth leol yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni gadw llygad barcud arno. Mae hi'n codi pwynt pwysig iawn ynghylch un agwedd o'r polisi hwnnw, a byddaf yn ystyried y mater ac yn edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud gyda llywodraeth leol yn hynny o beth.
- 14:39 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae Cyngor Gwynedd yn wynebu bwch ariannol o ryw £50 miliwn yn ystod y pedair blynedd nesaf, ac mae toriadau ar y gweill ym mhob un o'r gwasanaethau; rwy'n pwysleisio 'pob un' o'r gwasanaethau. Fodd bynnag, a wnewch ymuno â mi i longyfarch Cyngor Gwynedd ar ei ymdrech i rannu gwybodaeth gyda thrigolion, a thrafod gyda nhw hefyd, ynglŷn â siâp gwasanaethau ar gyfer y dyfodol drwy gynnal arolygon barn, ac 17 o gyfarfodydd cyhoeddus a sesiynau galw i mewn, fel cyfraniad tuag at y broses hon o rannu gwybodaeth gydag etholwyr?
- Gwynedd Council is facing a funding gap of about £50 million over the next four years, and cuts are planned in all services; I emphasise 'all' services. However, will you join me in congratulating Gwynedd Council on its efforts to share information with residents, and to discuss with them, about the shape of future services by conducting opinion polls, and 17 public meetings and drop-in sessions, as a contribution to this process of sharing information with constituents?
- 14:39 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, we would expect all local authorities to engage in discussions with their local communities about the future provision of services, of course, and not only at a time when serious service reductions are being contemplated. So, I am pleased to hear of the work that is being done by Gwynedd, but I know that other councils are doing similar things.
- Yn amlwg, byddem yn disgwyl i bob awdurdod lleol gymryd rhan mewn trafodaethau â'u cymunedau lleol ynghylch darparu gwasanaethau yn y dyfodol, wrth gwrs, ac nid yn unig ar adeg pan fo toriadau difrifol yn cael eu gwneud i wasanaethau. Felly rwy'n falch o glywed am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Wunedd, ond gwn fod cynghorau eraill yn gwneud pethau tebyg.
- 14:40 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, mae nifer o bobl wedi cysylltu â mi i gwyno am fethiant rhai cynghorau—rhaid sydd o blaid ad-drefnu a rhai nad ydynt o blaid—o ran ymgynghori efo'r cyhoedd fel rhan o'r broses cyn iddynt ymateb i'ch galwad chi. Wrth ichi ystyried sut mae'r broses yn mynd yn ei blaen, a yw'n fwiad gennych gael canllawiau cenedlaethol o ran sut mae'r cyhoedd yn mynd i ymdrin â'r broses honno, ynteu a fydd y broses i fyny i gynghorau unigol?
- Minister, a number of people have contacted me to complain about the failure of some councils—those in favour of reorganisation and those not in favour—to consult with the public as part of the process before they respond to your call. As you consider the progress of the process, do you intend to have national guidelines for how the public is going to interact with that process, or will the process be up to individual councils?
- 14:40 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that we already have fairly clear expectations of local government as to how individual authorities should engage with their local populations. However, it may well be that we should review that in the context of the current discussions around the reform of local government. I am visiting a number of local authorities in north Wales next week and I think that I might add that to the questions that I want to ask them.
- Credaf fod gennym eisoes ddisgwyliadau eithaf clir o lywodraeth leol o ran sut y dylai awdurdodau unigol ymgysylltu â'u poblogaeth leol. Fodd bynnag, mae'n ddigon posibl y dylem adolygu hynny yng nghyd-destun y trafodaethau cyfredol ynghylch diwygio llywodraeth leol. Rwy'n ymweld â nifer o awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru yr wythnos nesaf ac rwy'n credu yr ychwanegaf hyn at y cwestiynau rwyf am eu gofyn iddynt.

Y Comisiwn ar Lywodraethu a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

The Commission on Public Service Governance and Delivery

14:41 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

5. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â gwasanaethau awdurdod lleol? OAQ(4)0508(PS)

5. Will the Minister provide an update on the implementation of the recommendations of the Commission on Public Service Governance and Delivery in relation to local authority services? OAQ(4)0508(PS)

- 14:41 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Our intention is to publish a local government Bill in January 2015 and a broader local government White Paper subsequently.
- Ein bwriad yw cyhoeddi Bil llywodraeth leol ym mis Ionawr 2015 a Phapur Gwyn llywodraeth leol ehangach ar ôl hynny.
- 14:41 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I suppose, further to other Members' questions, I wanted to know how the Welsh Government will ensure that the voices of local communities are heard in any run-up to future changes. As I am sure that the Minister is aware, many people in my constituency—I use this as an example—were not happy with the abolition of the old Cynon Valley council in the mid 1990s, and this is still a source of controversy in some quarters. So, how can we make sure that the voices of communities and local authority staff around Wales are included as part of the dialogue in any transition, so that we do not risk losing momentum at a time when the delivery of excellent services is vital?
- I ddilyn ymlaen o gwestiynau Aelodau eraill, mae'n debyg, roeddwn eisiau gwybod sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau fod lleisiau cymunedau lleol yn cael eu clywed yn ystod cyfnodau sy'n arwain at newidiadau yn y dyfodol. Fel y bydd y Gweinidog yn gwybod, rwy'n siŵr, nid oedd llawer o bobl yn fy etholaeth-rwy'n defnyddio hyn fel enghraifft-yn hapus fod hen gyngor Cwm Cynon wedi cael ei ddiddymu yng nghanol y 1990au ac mae'n parhau i fod yn destun dadl mewn rhai ardaloedd. Felly, sut y gallwn wneud yn siŵr fod lleisiau cymunedau a staff awdurdodau lleol ledled Cymru yn cael eu cynnwys yn rhan o'r drafodaeth mewn unrhyw drawsnewid, fel nad ydym mewn perygl o golli momentwm ar adeg pan fo darparu gwasanaethau ardderchog yn hanfodol?
- 14:42 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- My colleague the Member for Cynon Valley makes a very fair point. We as a Government have obviously engaged in a process of discussion with local communities on the back of the White Papers that we have published. It is a concern to me if any local authorities are taking forward proposals where they have not had effective engagement with their local communities. I would also like to see some evidence that the political leadership of the WLGA has been fully involved in decisions announced just in the last 24 hours regarding the creation of a combined authority.
- Mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Gwm Cynon, yn gwneud pwynt teg iawn. Fel Llywodraeth rydym yn amlwg wedi cymryd rhan mewn proses o drafod â chymunedau lleol ynglŷn â'r Papurau Gwyn a gyhoeddwyd gennym. Mae'n bryder i mi os yw awdurdodau lleol yn datblygu cynigion heb ymgysylltu'n effeithiol â'u cymunedau lleol. Byddwn hefyd yn hoffi gweld rhywfaint o dystiolaeth fod arweinyddiaeth wleidyddol CLILC wedi ei chynnwys yn llawn yn y penderfyniadau a gyhoeddwyd yn ystod y 24 awr diwethaf ynghylch creu awdurdod cyfunol.
- 14:43 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The glaring omission from the Commission on Public Service Governance and Delivery was the most important factor, which was an independent cost evaluation. Finally, we have an independent cost evaluation commissioned by the WLGA from the Chartered Institute of Public Finance Accountancy showing costs of up to £268 million and savings, not until three years after the merger, of £65 million, through front and back office service mergers, which could happen without full merger. When I raised this last week, the Minister for business said that it was a matter for you. Could I call on you, therefore, to make a formal response to that vital report and advise us accordingly how you intend to do that?
- Un elfen amlwg a hepgorwyd o'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus oedd y ffactor pwysicaf, sef gwerthusiad cost annibynnol. O'r diwedd, mae gennym werthusiad cost annibynnol wedi'i gomisiynu gan CLILC, gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) sy'n dangos costau o hyd at £268 miliwn ac arbedion, dair blynedd ar ôl uno, o £65 miliwn, drwy uno gwasanaethau swyddfeydd cefn a blaen, a allai ddigwydd heb uno'n llawn. Pan grybwyllais hyn yr wythnos diwethaf, dywedodd y Gweinidog Busnes mai mater i chi ydoedd. A gaf i alw arnoch felly i ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad hanfodol hwn a rhoi gwybod i ni yn unol â hynny sut rydych yn bwriadu gwneud hyn?
- 14:43 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, when the Williams commission report was published, the WLGA said, I think, that the likely cost of merger was around £400 million, in its view. On the basis of the most recent assessment that it commissioned, it has come down to £268 million. That appears to be £130 million less than it was 11 months ago. The savings, in fact, were not simply a one-off of £65 million; they were a per annum saving of £65 million, as I recall. There are certain costs in the CIPFA report that we do not accept and we still think that there is work to be done in some aspects of this, which is why we are commissioning a review of the costs of administration of local government.
- Wrth gwrs, pan gafodd adroddiad comisiwn Williams ei gyhoeddi, rwy'n credu bod CLILC wedi dweud eu bod o'r farn mai cost debygol uno oedd tua £400 miliwn. Ar sail yr asesiad mwyaf diweddar a gomisiynwyd ganddo, mae wedi gostwng i £268 miliwn. Mae'n ymddangos bod hynny £130 miliwn yn llai na'r hyn ydoedd 11 mis yn ôl. Nid un swm syml o £65 miliwn oedd yr arbedion mewn gwirionedd; roeddent yn arbediad o £65 miliwn bob blwyddyn, o'r hyn rwy'n ei gofio. Mae costau penodol yn adroddiad CIPFA nad ydym yn eu derbyn ac rydym yn dal i feddwl bod gwaith i'w wneud ar rai agweddau o hyn, a dyna pam rydym yn comisiynu adolygiad o gostau gweinyddu llywodraeth leol.

14:44	<p>Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography</p> <p>Mae pobl Ynys Môn yn bobl falch sy'n trysori eu hannibyniaeth barn ac yn dymuno, rwy'n meddwl, gadw eu llais wedi unrhyw ad-drefnu. Beth yw barn y Gweinidog ar yr egwyddor o gadw elfen isranbarthol er mwyn gwarchod llais democrataidd Môn, neu ardaloedd tebyg o Gymru, er enghraifft, mewn nifer o feysydd penodol, pe bai Môn yn dod yn rhan o awdurdod mwy na hynny?</p>	<p>The people of Ynys Môn are proud people who treasure their independence of thought and, I think, want to retain their voice following any reorganisation. What is the Minister's view on the principle of retaining a subregional element in order to protect the democratic voice of Ynys Môn, or similar areas of Wales, for example, in a number of specific areas, if Anglesey was to become part of a larger authority?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:45	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>As a former resident of Ynys Môn, albeit for a brief period a long time ago, I recognise what the Member says. I think that, however, he will have to wait to see what we have to say in our White Paper in the new year, but we will be considering representations at levels below that of the principal local authority.</p>	<p>Fel un o gyn-drigolion Ynys Môn, er mai am gyfnod byr amser maith yn ôl oedd hynny, rwy'n cydnabod yr hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud. Fodd bynnag, credaf y bydd yn rhaid iddo aros i weld beth fydd gennym i'w ddweud yn ein Papur Gwyn yn y flwyddyn newydd, ond byddwn yn ystyried sylwadau ar lefelau is na'r prif awdurdod lleol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Undeb y Brigadau Tân a Threfniadau Pensiwn</p>	<p>The Fire Brigades Union and Pension Arrangements</p>	
14:45	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p><i>6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Undeb y Brigadau Tân ynghylch trefniadau pensiwn? OAQ(4)0506(PS)</i></p>	<p><i>6. Will the Minister make a statement on any discussions he has had with the Fire Brigades Union regarding pension arrangements? OAQ(4)0506(PS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:45	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>We are currently consulting on a new firefighters pension scheme from April 2015. I met the general secretary of the FBU on 24 November to discuss this and other matters.</p>	<p>Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori ar gynllun pensiwn newydd i ddiffoddwyr tân o fis Ebrill 2015. Cyfarfûm ag ysgrifennydd cyffredinol Undeb y Diffoddwyr Tân ar 24 Tachwedd i drafod hyn a materion eraill.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:45	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer, Minister. Hopefully you have had my letter by now regarding the issue of ex-servicemen moving into the fire brigade pension and the impact of changes on them. May I ask if you can give us some idea of the timescale by which you hope to have proposals in terms of the future pensions for Welsh firefighters?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Gobeithio eich bod wedi cael fy llythyr erbyn hyn ynglŷn â chyn- weithwyr sy'n symud ymlaen i gael pensiwn y frigâd dân ac effaith y newidiadau arnynt. A gaf fi ofyn a allwch chi roi rhyw syniad i ni o'r amserlen y gobeithiwch y bydd gennych gynigion o ran pensiynau ar gyfer diffoddwyr tân Cymru yn y dyfodol?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:46	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>I have received the letter from the Member and I will be replying to him very shortly, let me say. As I said, we have been out to consultation and when the consultation concludes, we will have more to say.</p>	<p>Rwyf wedi cael y llythyr oddi wrth yr Aelod a gadewch i mi ddweud y byddaf yn ei ateb yn fuan iawn. Fel y dywedais, rydym wedi bod yn ymgynghori a phan ddaw'r ymgynghoriad i ben, bydd gennym fwy i'w ddweud.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:46	Byron Davies Bywgraffiad Biography Minister, it has been a real pleasure to hear of the improvements being made in the Mid and West Wales Fire and Rescue Service recently, with the new leadership. I very much welcome the recent discussion and steps away from industrial action on all sides. This is an issue that clearly needs sensitivity and does not deserve to be treated as a political football. May I ask you to outline what discussions you have had with the Mid and West Wales Fire and Rescue Service itself, in addition to the union, on this subject?	Weinidog, mae wedi bod yn bleser mawr cael clywed am y gwelliannau sy'n cael eu gwneud yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru yn ddiweddar, gyda'r arweinyddiaeth newydd. Rwy'n croesawu'n fawr iawn y drafodaeth ddiweddar a'r camu i ffwrdd o weithredu diwydiannol ar bob ochr. Mae hwn yn fater sy'n amlwg angen sensitifrwydd ac nid yw'n haeddu cael ei drin fel pêl-droed wleidyddol. A gaf i ofyn i chi amlinellu pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru ei hun, yn ogystal â'r undeb, ar y pwnc hwn?	Senedd.tv Fideo Video
14:46	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Yes. I have met with the chief officers and the chairs of the fire and rescue authorities in recent weeks and this has obviously been one of the subjects that we have considered. I am pleased that the approach of the FBU to the situation in Wales is different from their approach to the situation elsewhere.	Cewch. Rwyf wedi cyfarfod â phrif swyddogion a chadeiryddion yr awdurdodau tân ac achub yn yr wythnosau diwethaf ac mae hwn yn amlwg wedi bod yn un o'r pynciau rydym wedi eu hystyried. Rwy'n falch bod agwedd Undeb y Diffoddwyr Tân tuag at y sefyllfa yng Nghymru yn wahanol i'w hagwedd tuag at y sefyllfa mewn leoedd eraill.	Senedd.tv Fideo Video
14:47	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography Mae toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol wrth gwrs, o bosibl, yn mynd i ddoed â goblygiadau o safbwynt y cyfraniad maen nhw'n ei wneud tuag at gyllidebau awdurdodau tân ar draws Cymru. A gaf fi ofyn pa asesiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud ar yr impact y byddai hynny'n ei gael o bosibl ar ymladdwyr tân yn y rheng flaen?	Cuts in local authority budgets will possibly have implications in terms of the contributions that they make to fire authority budgets across Wales. May I ask what assessment the Welsh Government has made of the impact that that may have on firefighters on the front line?	Senedd.tv Fideo Video
14:47	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography I am not sure that the reduction in the spending of local authorities is going to have a direct impact on the fire and rescue authorities. We have had, as I have said, meetings with the fire and rescue authorities about the current situation. They are aware, of course, of the overall challenges to our budget.	Nid wyf yn siŵr fod y gostyngiad yng ngwariant awdurdodau lleol yn mynd i gael effaith uniongyrchol ar yr awdurdodau tân ac achub. Fel y dywedais, rydym wedi cael cyfarfodydd gyda'r awdurdodau tân ac achub ynglŷn â'r sefyllfa bresennol. Maent yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r heriau cyffredinol i'n cyllideb.	Senedd.tv Fideo Video
Cynghorwyr Awdurdodau Lleol		Local Authority Councillors	
14:47	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography 7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfrifoldebau cynghorwyr awdurdodau lleol? OAQ(4)0502(PS)	7. Will the Minister make a statement on the responsibilities of local authority councillors? OAQ(4)0502(PS)	Senedd.tv Fideo Video
14:48	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Councillors are there to act as community advocates, to be accountable and accessible to their community. It is the responsibility of local councillors, together with their officers, to ensure their council is run with integrity, honesty, fairness and transparency.	Mae cynghorwyr yno i weithredu fel eiriolwyr cymunedol, i fod yn atebol ac yn hygyrch i'w cymuned. Mae'n gyfrifoldeb ar gynghorwyr lleol, ynghyd â'u swyddogion, i sicrhau bod eu cyngor yn cael ei redeg gydag uniondeb, gonestrwydd, tegwch a thryloywder.	Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. I guess that I would latch on to the word 'accessible' in your response because I was at a meeting last week about a school closure in Pontrhydyfen and there was not one elected councillor there to answer the calls from the community. This is becoming a theme, whereby the officers are taking responsibility for decisions that elected councillors should make. What is your view on this and do you believe that elected councillors, who are making these decisions in the community, should be turning up to said community meetings?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae'n debyg y byddwn yn bachu ar y gair 'hygyrch' yn eich ateb gan i mi fod mewn cyfarfod yr wythnos diwethaf a oedd yn trafod cau ysgol ym Mhont-rhyd-y-fen ac nid oedd un cynghorydd etholedig yno i ateb y galwadau gan y gymuned. Mae hyn yn dod yn thema, lle mae'r swyddogion yn cymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau y dylai cynghorwyr etholedig fod yn eu gwneud. Beth yw eich barn ar hyn ac a ydych yn credu y dylai cynghorwyr etholedig, sy'n gwneud y penderfyniadau hyn yn y gymuned, fod yn mynychu'r cyfarfodydd cymunedol hyn?

14:48 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There are processes in place for the discussion of school closures and the Member, I think, will be aware of those. In respect of the accessibility of councillors, I do believe that there is a strong role for councillors as community advocates and, again, that is something that we will be discussing in the forthcoming White Paper.

Mae prosesau ar waith ar gyfer trafod cau ysgolion a bydd yr Aelod, rwy'n credu, yn ymwybodol o'r rheiny. O ran hygyrchedd cynghorwyr, nid wyf yn credu bod rôl gref i gynghorwyr fel eiriolwyr cymunedol ac unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei drafod yn y Papur Gwyn sydd i ddod.

14:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Janet Finch-Saunders is next. Janet Finch-Saunders sydd nesaf.

14:49 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I wanted to ask a supplementary to David Rees's question 9. Roeddwn am ofyn cwestiwn atodol i gwestiwn 9 David Rees.

14:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In that case, question 8, Simon Thomas. Os felly, cwestiwn 8, Simon Thomas.

Datganoli Plismona

The Devolution of Policing

14:49 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

8. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch datganoli plismona? OAQ(4)0507(PS)

8. What discussions has the Minister had in relation to the devolution of policing? OAQ(4)0507(PS)

14:49 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Byddaf yn cynnal trafodaethau'n rheolaidd â chydweithwyr yn y Cabinet a rhanddeiliaid eraill am ddyfodol y setliad datganoli yng Nghymru.

I have regular discussions with Cabinet colleagues and other stakeholders about the future of the devolution settlement in Wales.

14:49	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Diolch, Weinidog, a byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, fod y drafodaeth hon wedi symud ymlaen yn sylweddol ers yr argymhelliad yng nghomisiwn Silk. Mae dadl a phenderfyniad gan y Cynulliad hwn ynglŷn â'r mater hefyd. Roedd digwyddiad tua phythefnos yn ôl yr oeddech chi ynddo, Weinidog, gyda ffederasiwn yr heddlu, lle roedd gennyf fi ddiddordeb, yn arbennig, mewn trafod gydag aelodau a oedd yn awyddus iawn i ddechrau trafod ymarferoldeb y cam yma yn hytrach na'r egwyddor. Hynny yw, roeddent wedi derbyn yr egwyddor mewn ffordd, ac roeddent eisiau trafod nawr sut y gall hyn ddigwydd yn y cyd-destun Cymraeg. A yw hi'n amser ac yn briodol felly i chi sefydlu rhyw fath o weithgor neu broses sy'n gallu cynnwys yr heddlu yng Nghymru, y comisiynwyr heddlu, aelodau'r ffederasiwn a'r farn ehangach i ddechrau trafod sut y gall hynny ddigwydd nawr a'r camau nesaf sydd angen eu cymryd i ddatganoli'r heddlu?</p>	<p>Thank you, Minister, and you will be aware, of course, that this debate has moved on significantly since the recommendations made by the Silk commission. There has been a debate and a decision by this Assembly on the issue also. There was an event a fortnight ago that you attended, Minister, with the police federation, where I had a particular interest in discussing with members who were very keen to start discussing the practicalities of this step and not the principle. That is, they had accepted the principle in a way, and they now wanted to discuss how this could happen in the Welsh context. Is it now time, and is it appropriate therefore, for you to establish some sort of working group or process that could include the police in Wales, the police commissioners, members of the federation and wider public opinion in order to start to discuss how that can actually happen and the next steps that need to be taken to devolve policing?</p>
14:50	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I think that the Member will have been aware of what the First Minister said last week in response to the debate that took place. I think that it may be premature to embark on the process that the Member has outlined. Clearly, we are looking forward to further announcements in respect of the Silk process in the new year.</p>	<p>Credaf y bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r hyn a ddywedodd y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf mewn ymateb i'r ddadl a gafwyd. Rwy'n meddwl y gallai fod yn rhy gynnar i ddechrau ar y broses y mae'r Aelod wedi ei hamlinellu. Yn amlwg, rydym yn edrych ymlaen at gyhoeddiadau pellach o ran proses Silk yn y flwyddyn newydd.</p>
14:50	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, do you agree with your former party shadow police Minister, David Hanson, who said last year that reducing crime was more important than deciding which Government manages the police?</p>	<p>Weinidog, a ydych yn cytuno â chyn-Weinidog yr wrthblaid dros yr Heddlu, David Hanson, a ddywedodd y llynedd fod lleihau troseddu'n bwysicach na phenderfynu pa Lywodraeth sy'n rheoli'r heddlu?</p>
14:51	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I think that this is a subject that has been well aired within the context of the Silk commission discussions, and the First Minister outlined our position last week.</p>	<p>Credaf fod hwn yn bwnc sydd wedi cael ei wyntyllu'n dda yng nghyd-destun trafodaethau comisiwn Silk, ac amlinellodd y Prif Weinidog ein sefyllfa yr wythnos diwethaf.</p>
	Contractau Dim Oriau	Zero-hours Contracts
14:51	David Rees Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>9. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau'r defnydd o gontractau dim oriau yn y sector cyhoeddus? OAQ(4)0499(PS)</p>	<p>9. What is the Welsh Government doing to reduce the use of zero-hours contracts in the public sector? OAQ(4)0499(PS)</p>
14:51	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We are concerned about the impact of zero-hours contracts, and research is being commissioned on their use in devolved public services, as outlined in a written statement earlier this morning.</p>	<p>Rydym yn pryderu am effaith contractau dim oriau ac mae ymchwil yn cael ei gomisiynu ar eu defnydd mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig, fel yr amlinellwyd mewn datganiad ysgrifenedig yn gynharach y bore yma.</p>

- 14:51 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. I am sure that we are seeing an increase and it is worrying. I appreciate the statement this morning, which highlighted the research that you are undertaking, but the actual statement did not indicate a timescale for when that research will be completed by. I appreciate the involvement of the trade unions, which have been campaigning long and hard for this; they have been leading the way. Can you also identify, when that research is completed, whether you will be looking, with your officials, at using the Agricultural Sector (Wales) Bill 2013 outcome to look at how you can include the concept in legislation in the future?
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwy'n siŵr ein bod yn gweld cynnydd ac mae'n destun pryder. Rwy'n gwerthfawrogi'r datganiad y bore yma a dynnodd sylw at yr ymchwil rydych yn ei wneud, ond nid oedd y datganiad ei hun yn nodi amserlen ar gyfer pa bryd y bydd y gwaith ymchwil yn cael ei gwblhau. Rwy'n gwerthfawrogi cyfraniad yr undebau llafur, sydd wedi bod yn ymgyrchu'n hir ac yn galed am hyn; maent wedi bod yn arwain y ffordd. A allwch chi hefyd nodi, pan fydd y gwaith ymchwil wedi ei gwblhau, a ydych yn bwriadu defnyddio canlyniad Bil Sector Amaethyddol (Cymru) 2013, gyda'ch swyddogion, i edrych ar sut y gallwch gynnwys y cysyniad mewn deddfwriaeth yn y dyfodol?
- 14:52 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- May I thank my colleague, the Member for Aberavon, for his comments? Clearly, we have discussed the context of the research with our social partners to give both trade unions and public service employers in Wales an opportunity to shape that research. I will be reporting on it at the workforce partnership council on Monday. We are committed to taking forward these issues through social partnership. We are in the process, as he knows, of commissioning that research. When we have the research, we will assess that and decide what is the appropriate course of action for us to move forward.
- A gaf i ddiolch i fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Aberafan, am ei sylwadau? Yn amlwg, rydym wedi trafod cyd-destun yr ymchwil gyda'n partneriaid cymdeithasol i roi cyfle i'r undebau llafur a chyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i lunio'r ymchwil hwnnw. Byddaf yn adrodd ar hynny yng nghyfarfod cyngor partneriaeth y gweithlu ddydd Llun. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu'r materion hyn drwy bartneriaeth gymdeithasol. Fel y gwyr, rydym yn y broses o gomisiynu'r ymchwil hwnnw. Pan fydd gennym y gwaith ymchwil, byddwn yn ei asesu ac yn penderfynu ar y ffordd briodol o weithredu er mwyn i ni symud ymlaen.
- 14:52 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I, too, share the growing concerns about zero-hours contracts, but also I share concerns about temporary agency staff so often employed across local authorities and other public bodies in Wales. These temporary agency contracts leave people in limbo. People are unable to get mortgages and they are very much to suit the employer. They are renewed if it suits the employer, but they are not renewed if it does not suit the employer, leaving people feeling very much temporarily employed. Will you look at this and perhaps come up with some kind of review as to the right steps that you are taking with regard to zero-hours contracts?
- Weinidog, rwyf innau hefyd yn rhannu'r pryderon cynyddol ynghylch contractau dim oriau, ond rwyf hefyd yn rhannu pryderon am staff asiantaeth dros dro sy'n cael eu cyflogi mor aml mewn awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae'r contractau asiantaeth dros dro hyn yn gadael pobl mewn limbo. Nid yw pobl yn gallu cael morgeisi ac mae'r contractau wedi'u llunio er budd y cyflogwr. Cânt eu hadnewyddu os yw hynny'n gyfleus i'r cyflogwr, ond ni chânt eu hadnewyddu os nad yw hynny'n gyfleus i'r cyflogwr, gan adael pobl i deimlo mai dros dro'n unig y cânt eu cyflogi. A wnewch chi edrych ar hyn a meddwl efallai am ryw fath o adolygiad o'r camau cywir rydych yn eu cymryd mewn perthynas â chontractau dim oriau?
- 14:53 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Certainly, the impact of zero-hours contracts in the public sector will be considered in full, and that will mean that we will need to look at the question of temporary agency staff. I will remind the Member that her party is in power at Westminster and can legislate to do something about it.
- Yn sicr, bydd effaith y contractau dim oriau yn y sector cyhoeddus yn cael ei hystyried yn llawn a bydd hynny'n golygu y bydd angen i ni edrych ar fater staff asiantaeth dros dro. Byddaf yn atgoffa'r Aelod mai ei phlaid sydd mewn grym yn San Steffan ac sy'n gallu deddfu i wneud rhywbeth am y peth.
- 14:53 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you will be aware, of course, that zero-hours contracts have increased by 600% under the Tories to an actually frightening level and that the next Labour Government is committed to abolishing zero-hours contracts. Will you be having discussions with your shadow counterpart in Westminster in order to prepare the way for the Labour Government in May and for the introduction of new legislation?
- Weinidog, gwyddoch wrth gwrs fod contractau dim oriau wedi cynyddu 600% o dan y Toriaid i lefel frawychus mewn gwirionedd a bod y Llywodraeth Lafur nesaf yn ymrwymedig i ddileu contractau dim oriau. A fyddwch yn cael trafodaethau gyda'ch cymar yn yr wrthblaid yn San Steffan er mwyn paratoi'r ffordd ar gyfer y Llywodraeth Lafur ym mis Mai ac ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth newydd?

14:54	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>May I start by congratulating my colleague, the Member for Pontypridd, on the award he won yesterday? He will be aware that these are issues about which we are frequently in discussion with both our social partners here in Wales and our colleagues in Westminster. We will be taking forward those discussions through communicating with them the research that we have commissioned.</p>	<p>A gaf i ddechrau drwy longyfarch fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Bontypridd, ar y wobr a enillodd ddoe? Bydd yn gwybod bod y rhain yn faterion rydym yn aml yn eu trafod gyda'n partneriaid cymdeithasol yma yng Nghymru a'n cydweithwyr yn San Steffan. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r trafodaethau hynny drwy ddwyn yr ymchwil rydym wedi'i gomisiynu i'w sylw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Uno Cynghorau		Council Mergers	
14:54	<p>Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography</p> <p><i>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am uno cynghorau? OAQ(4)0501(PS)</i></p>	<p><i>10. Will the Minister make a statement on council mergers? OAQ(4)0501(PS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:54	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>Rwy'n cyfeirio'r Aelod at y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddais ar 1 Rhagfyr ynghylch uno gwirfoddol.</p>	<p>I refer the Member to the written statement I issued on 1 December regarding voluntary mergers.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:54	<p>Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch am yr ateb. Tybed a ydych chi wedi edrych ar yr hyn oedd wedi digwydd gyda'r system iechyd yng Nghymru. Pan oeddwn i'n siarad efo pobl ynglŷn â'r newidiadau a ddigwyddodd gyda'r sector iechyd yn ABMU, roedd pobl yn dweud wrthyf fod dyled a oedd wedi cael ei hetifeddu o'r hen system wedi gorfod cael ei thalu yn ôl yn y system newydd. A ydych chi wedi edrych i mewn i hyn o ran effaith unrhyw newid ar awdurdodau lleol er mwyn gallu dysgu o'r hyn sydd, efallai, wedi mynd o'i le yn y sector iechyd?</p>	<p>Thank you for the answer. I wonder whether you have looked at what happened with the health system in Wales. When I spoke to people about the changes that happened with the health sector in ABMU, they told me that debt that had been inherited from the old system had to be repaid within the new regime. Have you looked into this in terms of the impact of any change on local authorities to learn lessons from what may have gone wrong in the health sector?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:55	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>May I say to the Member I think that she is right to say that we need to learn lessons from other parts of the public sector and, obviously, we would want to learn any lessons that were relevant from previous mergers in the public sector, including within the health service? Clearly, the situation with regard to local authorities and local health boards is different in respect of their borrowing powers, and that we need to bear in mind, but certainly I am happy to learn lessons.</p>	<p>A gaf fi ddweud wrth yr Aelod fy mod yn credu ei bod yn iawn i ddweud bod angen i ni ddysgu gwersi o rannau eraill o'r sector cyhoeddus ac yn amlwg, byddem eisiau dysgu unrhyw wersi sy'n yn berthnasol o uno blaenorol yn y sector cyhoeddus, yn cynnwys o fewn y gwasanaeth iechyd? Yn amlwg, mae'r sefyllfa mewn perthynas ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn wahanol o ran eu pwerau benthyca ac mae angen i ni gofio hynny, ond yn sicr rwy'n hapus i ddysgu gwersi.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:55	<p>Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, obviously, with mergers, people are focused on the unitary authorities, but under the unitary authorities there are over 736 town and community councils, and it is important to understand how they are going to be affected by any proposed mergers, whether they be voluntary or, in the future, forced mergers from the Welsh Government. Have you given much thought to how the base level of local democracy will interact in a new landscape for local government?</p>	<p>Weinidog, gydag uno, mae pobl yn amlwg yn canolbwyntio ar yr awdurdodau unedol, ond o dan yr awdurdodau unedol mae dros 736 o gynghorau tref a chymuned ac mae'n bwysig deall sut y mae unrhyw uno arfaethedig yn mynd i effeithio arnynt hwy, boed yn uno gwirfoddol neu'n uno a orfodir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. A ydych chi wedi ystyried sut y bydd lefel sylfaenol democratiaeth leol yn rhyngweithio mewn tirwedd newydd ar gyfer llywodraeth leol?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:56	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Yes, I have given considerable thought to the relationship of town and community councils with principal local authorities. Clearly, they vary across Wales in their size, their capacity and their governance. There are clearly inconsistencies in the size of town and community councils across Wales. Barry, the largest, has a population of around 45,000 and then we have some that barely get into three figures in terms of the populations that they represent. I think that there is a role in the future for town and community councils and, again, this is something that will be covered in the White Paper.</p>	<p>Ydw, rwyf wedi rhoi cryn ystyriaeth i'r berthynas rhwng cynghorau tref a chymuned a'r prif awdurdodau lleol. Yn amlwg, maent yn amrywio ledled Cymru o ran eu maint, eu gallu a'u dull o lywodraethu. Mae'n amlwg bod anghysondeb o ran maint yn cynghorau tref a chymuned ledled Cymru. Y mwyaf yw'r Barri, gyda phoblogaeth o tua 45,000, ac mae gennym rai sydd prin yn cyrraedd tri ffigur o ran y poblogaethau y maent yn eu cynrychioli. Credaf fod yna rôl yn y dyfodol ar gyfer cynghorau tref a chymuned ac unwaith eto, mae hyn yn rhywbeth a fydd yn cael ei gynnwys yn y Papur Gwyn.</p>
14:57	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, returning to the subject of the combined authority that 10 local authorities in south-east Wales have decided to establish as a regional partnership board, can you give us an idea of how you think that that might impact on the powers, responsibilities and the merger plans for authorities within that area?</p>	<p>Weinidog, gan ddychwelyd at bwnc yr awdurdod cyfunol y mae 10 o awdurdodau lleol yn Ne-ddwyrain Cymru wedi penderfynu ei sefydlu fel bwrdd partneriaeth ranbarthol, a allwch roi syniad i ni ynglŷn â sut rydych yn meddwl y gallai hynny effeithio ar y pwerau, y cyfrifoldebau a'r cynlluniau ar gyfer uno awdurdodau yn yr ardal honno?</p>
14:57	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>First of all, there will not be 10 local authorities in south-east Wales in the near future. Secondly, I am not clear that the political leaders of those councils have given a commitment to shape that combined authority. I think that there is some doubt about the WLGA's position.</p>	<p>Yn gyntaf oll, ni fydd 10 awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru yn y dyfodol agos. Yn ail, nid wyf yn sicr a yw arweinwyr gwleidyddol y cynghorau hynny wedi ymrwymo i lunio'r awdurdod cyfunol hwnnw ai peidio. Credaf fod rhywfaint o amheuaeth ynghylch safbwynt CLILC.</p>
	Mynwentydd	Cemeteries
14:57	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod mynwentydd yng Nghymru? OAQ(4)0496(PS)</i></p>	<p><i>11. Will the Minister make a statement on the protection of cemeteries in Wales? OAQ(4)0496(PS)</i></p>
14:57	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The management of cemeteries is a matter for local authorities or the religious bodies that own them.</p>	<p>Mae rheoli mynwentydd yn fater i awdurdodau lleol neu'r cyrff crefyddol sydd yn berchen arnynt.</p>
14:57	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Families in Torfaen have been greatly distressed because personal items left in tribute on their children's graves have been removed and sent to landfill tips by Torfaen council. What measures does the Minister intend to take to protect families of deceased children from insensitive and hurtful actions such as those of Torfaen council?</p>	<p>Mae teuluoedd yn Nhorfaen wedi bod yn hynod o ofidus am fod eitemau personol a gafodd eu gosod yn deyrngedau ar feddau eu plant wedi cael eu symud a'u gyrru i domennydd tirlenwi gan Gyngor Torfaen. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i ddiogelu teuluoedd plant a fu farw rhag gweithredoedd ansensitif a chreulon megis rhai cyngor Torfaen?</p>
14:58	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am aware of the situation in Torfaen, and I have had correspondence on it, but I am not going to comment on specific cases at this point. I do agree, however, that people who are bereaved should have clear and consistent rights to place appropriate tributes on graves, provided, of course, that these do not impede the maintenance of the cemetery. I would expect local authorities to be clear on what is and what is not allowed in their rules and regulations, and to ensure that these are communicated clearly.</p>	<p>Rwy'n ymwybodol o'r sefyllfa yn Nhorfaen, ac rwyf wedi cael gohebiaeth yn ei chylch, ond nid wyf yn mynd i roi sylwadau ar achosion penodol ar y pwynt hwn. Rwy'n cytuno, fodd bynnag, y dylai galarwyr fod â hawliau clir a chyson i osod teyrngedau priodol ar feddau, ar yr amod, wrth gwrs, nad yw'r rhain yn amharu ar waith cynnal a chadw'r fynwent. Byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol fod yn glir ynghylch yr hyn sy'n cael ei ganiatáu a'r hyn nad yw'n cael ei ganiatáu yn eu rheolau a'u rheoliadau, ac i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyfathrebu'n glir.</p>

Cyllidebau Awdurdodau Lleol

Local Authority Budgets

- 14:58 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllidebau awdurdodau lleol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0498(PS)
- 14:58 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I have published details today of the final local government settlement for 2015-16. This provides authorities with the information they need to set their budgets for the coming financial year.
- 14:59 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
The Minister will be aware that Pembrokeshire County Council is considering cuts and changes to services, given the pressure on its budget and, as a result of these changes, some key front-line services are being affected; we are seeing, for example, a number of public toilets closing in my area. Before he reiterates his view, which I agree with, that the council should not have provided a Porsche to the former chief executive, he will be aware that, over the last few years, several former Labour councillors have joined the local authority's cabinet and are, therefore, responsible for some of these decisions, so perhaps he should reflect on that.
- However, in saying all that, given the importance of tourism to Pembrokeshire's economy and, indeed, to Wales's economy, will the Minister tell us what guidance the Welsh Government provides to local authorities regarding public amenities and what discussions he and his officials have had with Pembrokeshire County Council on this specific issue?
- 15:00 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I have had no discussions with Pembrokeshire on that specific issue, but, in respect of cuts in Pembrokeshire, he may, of course, be aware of the proposal by the independent remuneration board that the salary of the new chief executive coming into Pembrokeshire council should be cut from £145,000, as the council was proposing, to £130,000.
- 15:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Question 13 is from Dafydd Elis-Thomas.
- 15:00 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Mae'n ddrwg gennyf, Lywydd; rwyf wedi colli'r drefn ar y—. Os fedrwch aros am funud, mae'r 'desktop' yma wedi—
- 15:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Only as it is you.
- 15:00 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Mae'n ddrwg gennyf. Fel mae'n digwydd, mae gennyf yn fy mhoced un a baratoais yn gynharach. [Chwerthin.]
12. Will the Minister make a statement on local authority budgets in west Wales? OAQ(4)0498(PS)
- Heddiw, cyhoeddais fanylion y setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2015-16. Mae hyn yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar awdurdodau i bennu eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.
- Bydd y Gweinidog yn ymwybodol fod Cyngor Sir Penfro yn ystyried toriadau a newidiadau i wasanaethau, o ystyried y pwysau ar ei gyllideb ac o ganlyniad i'r newidiadau hyn, mae rhai gwasanaethau rheng flaen allweddol yn cael eu heffeithio; rydym yn gweld, er enghraifft, nifer o doiledau cyhoeddus yn cau yn fy ardal i. Cyn iddo ailadrodd ei farn —barn rwy'n cytuno â hi—na ddylai'r cyngor fod wedi darparu Porsche i'r cyn-Brif Weithredwr, bydd yn ymwybodol fod nifer o gyn-gynghorwyr Llafur dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi ymuno â chabinet yr awdurdod lleol ac maent felly'n gyfrifol am rai o'r penderfyniadau hyn, felly efallai y dylai ystyried hynny.
- Fodd bynnag, wedi dweud hynny i gyd, o gofio pwysigrwydd twristiaeth i economi Sir Benfro ac yn wir, i economi Cymru, a wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu i awdurdodau lleol ynghylch amwynderau cyhoeddus a pha drafodaethau y mae ef a'i swyddogion wedi'u cael gyda Chyngor Sir Penfro ar y mater penodol hwn?
- Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Sir Benfro ar y mater penodol hwn, ond o ran toriadau yn Sir Benfro, mae'n bosibl wrth gwrs ei fod yn ymwybodol o argymhelliad y bwrdd taliadau annibynnol y dylai cyflog y prif weithredwr newydd sy'n dod i Gyngor Sir Penfro gael ei dorri o £145,000, fel oedd y cyngor yn ei argymhell, i £130,000.
- Daw Cwestiwn 13 gan Dafydd Elis-Thomas.
- I apologise, Presiding Officer, I have lost the—. If you just give me a second, the desktop here has—
- Gan mai chi ydych chi.
- I apologise. As it happens, I have in my pocket a copy that I prepared earlier. [Laughter.]

Argymhellion Syr Paul Williams

Sir Paul Williams's Recommendations

- 15:00 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
13. Pa gynnydd y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ran gwireddu argymhellion Syr Paul Williams ers iddo ymgymryd â'i swydd? OAQ(4)0503(PS) *13. What progress has the Minister made in implementing Sir Paul Williams's recommendations since taking up his role? OAQ(4)0503(PS)*
- 15:01 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Rwy'n bwrw ymlaen â'n cynlluniau i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus, a gyhoeddwyd ar 8 Gorffennaf, gan gynnwys cymryd camau i ddiwygio llywodraeth leol. I am pressing ahead with our plans for reforming public services, which we published on 8 July, including taking steps to reform local government.
- 15:01 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ei ymateb. A wnaiff, wrth edrych ar strwythur newydd llywodraeth leol, edrych ar ardaloedd cyffiniol sydd yn y gorffennol wedi cael eu rhannu rhwng gwahanol gyrff cyhoeddus? Rwy'n meddwl yn arbennig am sefyllfa Meirionnydd, sydd weithiau yn cael ei disgrifio fel ardal ddosbarthol sydd yn y canolbarth, tra ei bod hi yn amlwg yn rhan o'r gorllewin a'r gogledd—neu'r gogledd-orllewin—yn ogystal. Felly a fydd y Gweinidog yn sicrhau bod unrhyw strwythur newydd yn strwythur sydd yn hyblyg, a hefyd yn strwythur lle bydd modd i wasanaethau trawsffiniol weithredu yn effeithiol? I thank the Minister for his response. Will he, in looking at the new structure of local government, look at adjoining areas that in the past have been shared among various public bodies? I am thinking in particular of the situation of Meirionnydd, which is sometimes described as an area of mid Wales, while it is clearly part of the west and north—or the north-west—as well. So, will the Minister ensure that any new structure is a flexible structure, and also a structure whereby services can work on a cross-border basis and do so effectively?
- 15:02 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I think that the Member is right to draw attention to the need for flexible delivery of services across borders, however I would be reluctant at this stage to be drawn away from the map proposed by the Williams commission. As he will be aware, in the voluntary merger prospectus we said that we would be prepared to listen to exceptional cases that were made that diverge from the proposals in the Williams commission report. However, I have not received any in respect of the former Merionethshire. Credaf fod yr Aelod yn iawn i dynnu sylw at yr angen am gyflenwad hyblyg o wasanaethau ar draws ffiniau, ond byddwn yn gyndyn ar hyn o bryd i gael fy nenu oddi wrth y map a argymhellwyd gan gomisiwn Williams. Fel y bydd yn gwybod, yn y prospectws uno gwirfoddol dywedasom y byddem yn barod i wrando ar achosion eithriadol a wnaed sy'n ymwahanu oddi wrth yr argymhellion yn adroddiad comisiwn Williams. Fodd bynnag, nid wyf wedi cael un mewn perthynas â'r hen Sir Feirionnydd.
- 15:02 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, will you publish the criteria that you are using to evaluate proposals by councils to voluntarily merge? Weinidog, a wnewch chi gyhoeddi'r meini prawf rydych yn eu defnyddio i werthuso cynigion gan gynghorau i uno'n wirfoddol?
- 15:02 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We have already done so in the voluntary merger prospectus. Rydym eisoes wedi gwneud hynny yn y prospectws uno gwirfoddol.
- Uno Gwirfoddol** **Voluntary Merger**
- 15:02 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
14. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran uno gwirfoddol awdurdodau lleol yng Nghymru? OAQ(4)0509(PS) *14. What progress has been made on the voluntary merger of local authorities in Wales? OAQ(4)0509(PS)*
- 15:03 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I issued a written statement on 1 December regarding voluntary mergers. Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar 1 Rhagfyr ynghylch uno gwirfoddol.

15:03	<p>Joyce Watson Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank you for that statement, but the question is: what happens next? Although the deadline for submitting a formal expression of interest has passed, will the Welsh Government continue to work with local authorities and the WLGA to explore some of the other proposals that might be sitting on the sideboard, even if they have not made it to the table?</p>	<p>Diolch i chi am y datganiad, ond y cwestiwn yw: beth sy'n digwydd nesaf? Er bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiad ffurfiol o ddiddordeb wedi bod, a fydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a CLILC i archwilio rhai o'r cynigion eraill a allai fod ar y seld, hyd yn oed os nad ydynt wedi cyrraedd y bwrdd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:03	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>As I have said in answer to earlier questions, our current focus is on evaluating the mergers that have been brought forward to us on a voluntary basis by six local authorities. There is another proposal that did not achieve the deadline, shall I say, from Neath Port Talbot and Swansea, to which we may wish to give further consideration. However, that is our focus at the present time.</p>	<p>Fel rwyf wedi dweud mewn ateb i gwestiynau cynharach, ein ffocws presennol yw gwerthuso'r cynigion i uno a gyflwynwyd i ni'n wirfoddol gan chwe awdurdod lleol. Mae cynnig arall na lwyddodd i gyrraedd o fewn y terfyn amser, os caf i ddweud, gan Gastell-nedd Port Talbot ac Abertawe ac mae'n bosibl y byddwn yn dymuno rhoi ystyriaeth bellach iddynt. Fodd bynnag, dyna ein ffocws ar hyn o bryd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol		Collaboration between Local Authorities	
15:04	<p>Nick Ramsay Bywgraffiad Biography</p> <p><i>15. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei flaenoriaethau ar gyfer gwella cydweithio rhwng awdurdodau lleol? OAQ(4)0510(PS)</i></p>	<p><i>15. Will the Minister provide an update on his priorities for improving collaboration between local authorities? OAQ(4)0510(PS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:04	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>We expect local authorities to collaborate together where this provides better service provision for local residents.</p>	<p>Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol gydweithio lle bo hynny'n darparu gwasanaethau gwell i drigolion lleol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:04	<p>Nick Ramsay Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister. I think I know what your answer is going to be to this question, but you seemed rather dismissive, to say the least, earlier in answering Eluned Parrott, when you dismissed the coming together of the 10 authorities in a combined model in south-east Wales. These authorities have considered and, in the main, rejected voluntary mergers, and clearly believe—even if you do not—that developing that type of collaboration in the future is an alternative model. I understand that that is not your preferred option, but will you at least consider what those authorities are doing? It might well be that we are throwing the baby out with the bathwater here, and actually allowing local authorities to develop a more organic, natural collaboration with each other, particularly when we have city region-type projects going ahead, might be the best way forward.</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog. Rwy'n credu fy mod yn gwybod beth fydd eich ateb i'r cwestiwn hwn, ond roeddech yn ymddangos braidd yn anystyriol, a dweud y lleiaf, wrth ateb Eluned Parrott yn gynharach, pan wnaethoch ddiystyru'r cynnig i ddod â 10 awdurdod at ei gilydd mewn model cyfunol yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'r awdurdodau hyn wedi ystyried ac ar y cyfan, wedi gwrthod uno gwirfoddol, ac maent yn amlwg yn credu—hyd yn oed os nad ydych chi—fod datblygu'r math hwn o gydweithio yn y dyfodol yn fodel amgen. Rwy'n deall nad dyna'r opsiwn sydd orau gennych, ond a wnewch chi o leiaf ystyried yr hyn y mae'r awdurdodau hynny'n ei wneud? Efalla'n wir ein bod yn cael gwared ar yr hyn sy'n dda yn ogystal â'r hyn sy'n ddrwg yma, ac mae'n bosibl mewn gwirionedd mai caniatáu i awdurdodau lleol ddatblygu cydweithrediad mwy organig a naturiol â'i gilydd yw'r ffordd orau ymlaen, yn enwedig pan fo gennym brosiectau dinas-ranbarthol yn mynd rhagddynt.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:05	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, I have been waiting to see organic natural collaboration probably for about the last five years.</p>	<p>Wel, rwyf wedi bod yn aros i weld cydweithio naturiol organig ers y pum mlynedd diwethaf yn ôl pob tebyg.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

In respect of the proposal from the 10 local authorities in south-east Wales, I am still unclear, as I said earlier, as to whether this has reached a shape where political leaders of those authorities feel comfortable that they want to embrace it.

O ran y cynnig gan y 10 awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru, fel y dywedais yn gynharach, mae'n parhau i fod yn aneglur i mi a yw hyn wedi cyrraedd pwynt lle mae arweinwyr gwleidyddol yr awdurdodau hynny'n teimlo'n gyfforddus eu bod am ei groesawu.

15:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you.

Diolch.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:05 **Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch ei Ymchwiliad i'r Cynnydd sydd Wedi'i Wneud Hyd Yma ar Weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the committee to move the motion, David Rees.

Cynnig NDM5648 David Rees

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Hydref 2014.

The Health and Social Care Committee's Report on its Inquiry into Progress Made to Date on Implementing the Welsh Government's Cancer Delivery Plan

Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor i gynneg y cynnig, David Rees.

Motion NDM5648 David Rees

The National Assembly for Wales:

Notes the report by the Health and Social Care Committee into progress made to date on implementing the Welsh Government's Cancer Delivery Plan, which was laid in the Table Office on 16 October 2014.

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:05 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiau y cynnig.

Rwy'n falch o agor y ddatl hon ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr hyn sydd wedi ei wneud hyd yma i roi cynllun cyflawni ar gyfer canser Llywodraeth Cymru ar waith.

'Mae'n ganser.'

Those are probably some of the most dreaded words people hear when they visit their consultant or general practitioner after investigations have taken place. Upon hearing these words, patients face a challenging time and it is important that we do as much as we can to reassure them that the care they will receive has a structure, an agreed plan and will be of the highest quality. Also, we must reassure ourselves that the care they have received to date meets the same high standards.

Statistics suggest that as many as one in three people will develop cancer during their lifetime. It is an issue that affects families and communities across Wales. It is very likely that many in the Chamber have personal experience of a family member or close friend who has heard those words.

I move the motion.

I am pleased to open this debate on the Health and Social Care Committee's report on progress made to date on implementing the Welsh Government's cancer delivery plan.

'It's cancer.'

Yn ôl pob tebyg, dyna rai o'r geiriau mwyaf brawychus y mae pobl yn eu clywed pan fyddant yn ymweld â'u meddyg ymgynghorol neu feddyg teulu ar ôl cael archwiliadau. Ar ôl clywed y geiriau hyn, mae cleifion yn wynebu amser heriol ac mae'n bwysig ein bod yn gwneud cymaint ag y gallwn i roi sicrwydd iddynt fod strwythur i'r gofal y byddant yn ei gael, ei fod yn ofal o'r safon uchaf ac yn cynnwys cynllun wedi'i gytuno. Hefyd, rhaid i ni sicrhau ein hunain fod y gofal y maent wedi'i gael hyd yn hyn yn cyrraedd yr un safonau uchel.

Mae'r ystadegau'n awgrymu y bydd cymaint ag un o bob tri o bobl yn datblygu canser yn ystod eu bywydau. Mae'n fater sy'n effeithio ar deuluoedd a chymunedau ledled Cymru. Mae'n debygol iawn y bydd llawer yn y Siambur wedi cael profiad personol o fod ag aelod o'r teulu neu ffrind agos sydd wedi clywed y geiriau hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cancer plans can be considered essential in supporting patients with cancer. In June 2012 the Welsh Government published its cancer delivery plan for the Welsh NHS to 2016. Therefore, 2014 marks the halfway point for the plan, and, as a committee, we believed that it was timely to look at whether or not the Welsh Government is on course to achieve its ambitions by 2016.

Before speaking about the findings of our inquiry, and the recommendations we made, I want to take this opportunity to say thank you to everyone who has contributed to the inquiry. As a committee, we were clear from the outset that we wanted to make sure that cancer patients' voices were heard. We wanted to know about their experiences of cancer services, and how well they thought the ambitions of the plan were being delivered every day in our hospitals and communities.

People from across Wales took part in our workshops and focus groups, and I know I speak for the whole committee when I say how valuable Members found those conversations. I would also like to put on the record our thanks to Macmillan Cancer Support for working with us to arrange those focus groups. I will also take the opportunity to thank the committee's clerk and her team for their work in providing excellent support during our inquiry.

As a committee, we acknowledge and welcome the progress that has been made in the first two years of the plan in challenging areas such as research, screening and end-of-life care. However, we are concerned that the cancer patients we spoke to did not always feel that the plan's aspirations were translated into the care and support that they received.

Members will have had the opportunity to read our report, and the Welsh Government's response, so I do not intend to go through every issue we raised. However, I want to highlight some of our key recommendations. Perhaps the most important of those responds to the evidence we heard about the need for stronger national leadership to ensure that the plan's aspirations are realised by 2016.

Recommendation 1 asks the Minister for a body with a clear remit and the necessary resources to provide drive and leadership at a national level, to hold health boards to account for the delivery of their local plans, and undertake strategic forward planning of cancer services. As a committee we believe that this drive and leadership would help to address a concern that we heard from cancer patients and from health boards—that services are not currently planned effectively to deliver specialist services on an all-Wales basis for people who are diagnosed with less common cancers.

Gellid ystyried bod cynlluniau canser yn hanfodol ar gyfer gefnogi cleifion â chanser. Ym mis Mehefin 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun cyflawni ar gyfer canser gogyfer â GIG Cymru hyd at 2016. Felly, mae 2014 yn nodi'r pwynt hanner ffordd ar gyfer y cynllun, ac fel pwyllgor, credwn ei bod yn amserol i ni edrych i weld a yw Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni ei uchelgais erbyn 2016.

Cyn siarad am ganfyddiadau ein hymchwiliad a'r argymhellion a wnaethom, rwyf am fanteisio ar y cyfle hwn i ddweud diolch i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad. Fel pwyllgor, roeddem yn glir o'r cychwyn cyntaf ein bod eisiau gwneud yn siŵr fod lleisiau cleifion canser yn cael eu clywed. Roeddem eisiau gwybod am eu profiadau o wasanaethau canser a pha mor dda y credent y câi uchelgeisiau'r cynllun eu cyflawni bob dydd yn ein hysbytai a'n cymunedau.

Cymerodd pobl o bob cwr o Gymru ran yn ein gweithdai a'n grwpiau ffocws ac rwy'n gwybod fy mod yn siarad ar ran y pwyllgor cyfan pan ddywedaf pa mor werthfawr oedd y sgrysiâu hynny i'r Aelodau. Hefyd, hoffwn gofnodi ein diolch i Gymorth Canser Macmillan am weithio gyda ni i drefnu'r grwpiau ffocws. Manteisiaf ar y cyfle hefyd i ddiolch i glerc y pwyllgor a'i thîm am eu gwaith yn darparu cymorth ardderchog yn ystod ein hymchwiliad.

Fel pwyllgor, rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r cynnydd a wnaed yn ystod dwy flynedd gyntaf y cynllun mewn meysydd heriol fel ymchwil, sgrinio a gofal diwedd oes. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad oedd y cleifion canser y siaradasom â hwy'n teimlo bod uchelgeisiau'r cynllun yn cael eu gwireddu yn y gofal a'r cymorth a gawsant.

Bydd yr Aelodau wedi cael cyfle i ddarllen ein hadroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru, felly nid wyf yn bwriadu mynd drwy bob mater a godwyd gennym. Fodd bynnag, hoffwn dynnu sylw at rai o'n hargymhellion allweddol. Efallai fod y pwysicaf o'r rheiny'n ymateb i'r dystiolaeth a glywsom am yr angen am arweinyddiaeth genedlaethol gryfach i sicrhau bod uchelgeisiau'r cynllun yn cael eu gwireddu erbyn 2016.

Mae argymhelliad 1 yn gofyn i'r Gweinidog am gorff gyda chylch gwaith clir a'r adnoddau angenrheidiol i ddarparu egni ac arweinyddiaeth ar lefel genedlaethol, i ddwyn byrddau iechyd i gyfrif am gyflawni eu cynlluniau lleol ac i gynllunio gwasanaethau canser yn strategol ymlaen llaw. Fel pwyllgor, credwn y bydd yr egni a'r arweinyddiaeth hon yn helpu i fynd i'r afael â phryder a glywsom gan gleifion canser a byrddau iechyd—nad yw gwasanaethau'n cael eu cynllunio'n effeithiol ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaethau arbenigol, ar sail Cymru gyfan, ar gyfer pobl sy'n cael diagnosis o ganserau llai cyffredin.

I welcome the Minister's acceptance of this recommendation in his response. He has indicated that the cancer implementation group is working to streamline the structure and work of the multiple bodies involved in cancer services into a clearer organisational model, while retaining its national oversight function. However, I would welcome confirmation from the Deputy Minister that the organisational model will support long-term forward planning to ensure that cancer services in the future meet the increasingly complex needs of an ageing and diverse population. I would also welcome clarification as to how he will ensure that this structure will make sure that cancer services that are best arranged and delivered at a national level—such as services for children with cancer or for some of the individuals we met with rarer cancers like neuroendocrine tumours—do not fall into gaps between health boards' local plans.

The cancer delivery plan includes commitments to improve cancer prevention and awareness, and the use of screening to enable early detection and diagnosis. Our focus groups told us that they had concerns about whether enough was being done to reach everyone who needed to be reached. These concerns were shared by others who gave evidence. The Minister and Public Health Wales told us that work was taking place in this regard, particularly in relation to harder-to-reach groups.

Recommendations 3 and 4 of our report call on the Welsh Government to provide us with updates after 12 months on how this work has been taken forward. I welcome the detail provided in the Minister's response about the 'train the trainer' work being undertaken to increase screening uptake in the transgender community, with Gypsy/Traveller communities, and with community leaders in mosques. It is also encouraging that Bowel Screening Wales's uptake group is considering how to increase uptake of screening, and that the Minister intends to share the learning from this work across other screening programmes. I am sure that all Members will agree that increased participation in screening is vital to early diagnosis of cancer.

However, it is disappointing that the Minister does not intend to provide the updates after 12 months that we requested in relation to public information campaigns and the promotion of screening, or in relation to a number of other recommendations. As a committee, we understand the annual reporting that takes place on the cancer delivery plan, and we do not wish to introduce duplication at all. However, it is important that we have the information that we need to fulfil our scrutiny role properly. Therefore, following the publication of the 2015 annual report on the cancer delivery plan, I call upon the Minister or Deputy Minister to write to us to respond to the specific issues raised by our recommendations.

Rwy'n falch o weld y Gweinidog yn derbyn yr argymhelliad hwn yn ei ymateb. Mae wedi dynodi bod y grŵp gweithredu ar ganser yn gweithio i symleiddio strwythur a gwaith y cyrff niferus sy'n ymwneud â gwasanaethau cancer i greu model sefydliadol cliriach, gan barhau i gadw ei swyddogaeth drosolwg genedlaethol. Fodd bynnag, byddwn yn croesawu cadarnhad gan y Dirprwy Weinidog y bydd y model sefydliadol yn cefnogi blaengynllunio hirdymor i sicrhau bod gwasanaethau cancer yn y dyfodol yn diwallu anghenion cynyddol gymhleth poblogaeth amrywiol sy'n heneiddio. Hoffwn eglurhad hefyd o ran sut y gall wneud yn siŵr y bydd y strwythur yn sicrhau nad yw gwasanaethau cancer sy'n cael eu trefnu a'u cyflwyno orau ar lefel genedlaethol-megis gwasanaethau ar gyfer plant â chanser neu ar gyfer rhai o'r unigolion y cyfarfûm â hwy a oedd yn dioddef o ganserau mwy prin fel tiwmorau niwroendocrin-yn disgyn i'r bylchau rhwng cynlluniau lleol byrddau iechyd.

Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer canser yn cynnwys ymrwymiadau i wella gwaith atal canser ac ymwybyddiaeth o ganser, a'r defnydd o sgrinio er mwyn ei gwneud hi'n bosibl canfod canser a gwneud diagnosis cynnar. Dywedodd ein grwpiau ffocws wrthym eu bod yn pryderu a oedd digon yn cael ei wneud i gyrraedd pawb oedd angen eu cyrraedd. Roedd eraill a gyfrannodd dystiolaeth yn rhannu'r pryderon hyn. Dywedodd y Gweinidog ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthym fod gwaith ar y gweill yn hyn o beth, yn enwedig mewn perthynas â grwpiau anos eu cyrraedd.

Mae argymhellion 3 a 4 ein hadroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi diweddariadau i ni ar ôl 12 mis ynglŷn â sut y mae'r gwaith yn datblygu. Rwy'n croesawu'r manylion a ddarparwyd yn ymateb y Gweinidog am y gwaith 'hyfforddi'r hyfforddwr' sy'n cael ei wneud i gynyddu'r nifer sy'n cael eu sgrinio yn y gymuned drawsrywiol, gyda chymunedau Sipsiwn/Teithwyr a chydag arweinwyr cymunedol mewn mosgiau. Mae hefyd yn galonogol fod grŵp defnyddwyr Sgrinio Coluddion Cymru yn ystyried sut i gynyddu'r nifer sy'n cael eu sgrinio a bod y Gweinidog yn bwriadu rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r gwaith mewn rhaglenni sgrinio eraill. Rwy'n siŵr y bydd pob Aelod yn cytuno bod cynyddu'r nifer sy'n cael eu sgrinio yn hanfodol i sicrhau diagnosis cynnar o ganser.

Fodd bynnag, mae'n siomedig nad yw'r Gweinidog yn bwriadu darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl 12 mis fel y gofynasom mewn perthynas ag ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus a hyrwyddo sgrinio, neu mewn perthynas â nifer o argymhellion eraill. Fel pwyllgor, rydym yn deall y drefn adrodd flynyddol ar y cynllun cyflawni ar gyfer canser ac nid ydym yn dymuno dyblygu gwaith o gwbl. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnom i gyflawni ein rôl graffu'n briodol. Felly, yn dilyn cyhoeddi adroddiad blynyddol 2015 ar y cynllun cyflenwi ar gyfer canser, galwaf ar y Gweinidog neu'r Dirprwy Weinidog i ysgrifennu atom i ymateb i'r materion penodol a godwyd yn sgîl ein hargymhellion.

Throughout our inquiry, we heard worries about the role of GPs in diagnosing cancer. Some patients had had very good experiences, but others told us that GPs did not always recognise their symptoms early enough, and that they had to go to back to their GPs many times, sometimes even ending up in accident and emergency departments before being diagnosed or referred for diagnostic tests. Other witnesses told us that waiting times for diagnostic tests varied across Wales, and that health services did not always work together enough.

Recommendations 5, 6 and 7 relate to these concerns. We recommend that more is done to ensure that GPs have the right training and continuing professional development in relation to cancer, and that health boards make sure that GPs understand the services and referral arrangements available in their areas. I welcome the Minister's commitment in his response to work closely with the Royal College of General Practitioners and the Wales Deanery to ensure that training and development issues are addressed. Since our report was published in October, the Welsh Government has published its primary workforce plan. The plan includes commitments to develop directories of services to support primary care clusters and to put in place local care pathways and referral criteria. This is welcomed, and should help to clarify the position for GPs.

At the launch of our report, and throughout our inquiry, patients and other witnesses raised concerns about the length of time that people on urgent and non-urgent pathways are waiting to get the diagnostic tests that they need. Recommendation 7 asks that the Minister make a statement on his strategy for supporting diagnostics and diagnostic treatments across Wales, and the impact of the additional funding provided in 2014-15 to improve performance against diagnostics targets, including waiting times. I welcome the Minister's commitment to make this statement in the new year. I also welcome the commitment that he has funded. I am fully aware of the diagnostic hub that has been developed at the Royal Glamorgan Hospital in Llantrisant.

A recurring theme during our focus groups and the formal evidence sessions was inconsistent access to key workers and written care plans. This was particularly an issue for those with less common cancers. We heard about the importance of the key worker role, and the correlation between access to a key worker and patients having a positive experience of their cancer treatment. The committee notes that new guidance has been provided to health boards and trusts on the role of key workers, and that the Welsh Government will be working with the cancer networks to monitor its implementation.

Trwy gydol ein hymchwiliad, clywsom bryderon am rôl meddygon teulu yn y broses o wneud diagnosis o ganser. Roedd rhai cleifion wedi cael profiadau da iawn ond mae eraill yn dweud wrthym nad oedd meddygon teulu bob amser wedi adnabod eu symptomau yn ddigon cynnar a bod yn rhaid iddynt fynd yn ôl at eu meddygon teulu sawl gwaith, gan lanio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys weithiau cyn cael diagnosis neu gael eu cyfeirio i gael profion diagnostig. Dywedodd tystion eraill wrthym fod amseroedd aros ar gyfer profion diagnostig yn amrywiol ledled Cymru ac nad oedd gwasanaethau iechyd bob amser yn cydweithio digon.

Mae argymhellion 5, 6 a 7 yn ymwneud â'r pryderon hyn. Rydym yn argymhell bod mwy yn cael ei wneud i sicrhau bod meddygon teulu yn cael yr hyfforddiant cywir a datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â chanser a bod byrddau iechyd yn sicrhau bod meddygon teulu yn deall y gwasanaethau a'r trefniadau atgyfeirio sydd ar gael yn eu hardaloedd. Rwy'n croesawu ymrwymiad y Gweinidog yn ei ymateb i weithio'n agos gyda Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol a Deoniaeth Cymru i sicrhau yr eir i'r afael â materion hyfforddi a datblygu. Ers cyhoeddi ein hadroddiad ym mis Hydref, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chynllun ar gyfer y gweithlu sylfaenol. Mae'r cynllun yn cynnwys ymrwymadau i ddatblygu cyfeirlyfrau o wasanaethau i gefnogi clystyrau gofal sylfaenol ac i sefydlu llwybrau gofal lleol a meini prawf atgyfeirio. Mae hyn yn cael ei groesawu, a dylai helpu i wneud y sefyllfa'n fwy eglur i feddygon teulu.

Wrth lansio ein hadroddiad, a thrwy gydol ein hymchwiliad, mynegodd cleifion a thystion eraill bryderon ynglŷn â faint o amser y mae pobl ar lwybrau brys a llwybrau nad ydynt yn rhai brys yn aros i gael y profion diagnostig sydd eu hangen arnynt. Mae argymhelliad 7 yn galw ar y Gweinidog i wneud datganiad ar ei strategaeth ar gyfer cefnogi diagnosteg a thriniaethau diagnostig ledled Cymru ac effaith y cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn 2014-15 i wella perfformiad yn erbyn targedau diagnosteg, gan gynnwys amseroedd aros. Rwy'n croesawu ymrwymiad y Gweinidog i wneud y datganiad yn y flwyddyn newydd. Rwyf hefyd yn croesawu'r ymrwymiad y mae wedi ei ariannu. Rwy'n gwbl ymwybodol o'r ganolfan ddiagnostig a ddatblygwyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant.

Thema gyson yn ystod ein grwpiau ffocws a'r sesiynau tystiolaeth ffurfiol oedd anghysondeb o ran mynediad at weithwyr allweddol a chynlluniau gofal ysgrifenedig. Roedd hyn yn broblem arbennig i rai â chanserau llai cyffredin. Clywsom am bwysigrwydd rôl y gweithiwr allweddol a'r gydbertnyas rhwng mynediad at weithiwr allweddol a chleifion yn cael profiad cadarnhaol o'u triniaethau cancer. Mae'r pwyllgor yn nodi bod canllawiau newydd wedi eu darparu ar gyfer byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ar rôl gweithwyr allweddol, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r rhwydweithiau cancer i fonitro gweithrediad y canllawiau.

Our recommendation 9 also asked for the Minister to provide an update after 12 months on progress made to ensure that all patients have access to written care plans. Our focus groups told us how important it was for information about their cancer and their care to be provided at the time, and in a way, that best met the needs of the individual patient. We recognise that different people have different preferences, but think that, as a minimum, all patients should be provided with a written care plan. We are concerned that this element of the plan is not currently being delivered. I would welcome clarification from the Deputy Minister about how the Welsh Government will respond to the evidence from the Macmillan Cancer Support patient experience survey that only 22% of patients reported that they had been offered a written assessment or care plan.

In relation to recommendation 8, I recognise the actions to enhance the individual patient funding request process that have been identified by the Minister in his statement on 5 November, following a review of the IPFR process. I especially welcome the new and expanded role of the All Wales Therapeutics and Toxicology Centre, or AWTC, which will improve transparency and provide the comprehensive, authoritative, consistent and coherent approach required by clinicians and patients.

However, I am disappointed that the Minister has rejected our recommendation that a national panel be established to consider and make decisions about IPFR. As a committee, we think that this is the best way to ensure that there is consistency and equity across Wales. We were very concerned by the evidence that we heard about the operation and implementation of the IPFR process. There is variation in the interpretation of 'exceptionality', and I am sure that other committee members will explore this matter further this afternoon. There is inconsistency in the willingness of clinicians to engage with and access the process, as well as inconsistency in the decisions being made by local IPFR panels. In his response, the Minister says that, once the recommendations of the review group have been implemented, the process will be reviewed once again. I would welcome confirmation from the Deputy Minister that that review will take into account the concerns that we have expressed in our report.

To conclude, we agree with the evidence that we heard that the aspirations of the plan and the direction of travel are correct. Our recommendations seek to support further progress and to help drive improvements in cancer care, treatment and outcomes in Wales.

15:16

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you to the Chair, to the witnesses who gave evidence to the committee and, indeed, to the committee clerks who helped us through the process during this particular inquiry. There can be no doubt that there have been improvements in the Welsh Government's delivery of cancer care over the years, but we would be kidding ourselves if we were to suggest that all is rosy and that there is still not an awful lot of work that can be done to make further improvements.

Roedd ein hargymhelliad 9 hefyd yn gofyn i'r Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl 12 mis ar y cynnydd a wnaed i sicrhau bod pob claf yn cael mynediad at gynlluniau gofal ysgrifenedig. Dywedodd ein grwpiau ffocws wrthym pa mor bwysig oedd cael gwybodaeth am eu canser a'u gofal wedi ei darparu'n brydlon ac mewn ffordd a oedd yn diwallu anghenion y claf unigol orau. Rydym yn cydnabod ei bod yn well gan bobl wahanol bethau, ond yn credu y dylai pob claf gael cynllun gofal ysgrifenedig fan lleiaf. Rydym yn pryderu nad yw'r elfen hon o'r cynllun yn cael ei darparu ar hyn o bryd. Byddwn yn croesawu eglurhad gan y Dirprwy Weiniidog ynglŷn â sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r dystiolaeth o arolwg Cymorth Canser Macmillan o brofiad cleifion mai dim ond 22% o gleifion a gofnododd eu bod wedi cael cynnig asesiad neu gynllun gofal ysgrifenedig.

Mewn perthynas ag argymhelliad 8, rwy'n cydnabod y camau i wella proses y ceisiadau cyllido cleifion unigol a nododd y Gweinidog yn ei ddatganiad ar 5 Tachwedd yn dilyn adolygiad o'r broses honno. Yn benodol, rwy'n croesawu rôl newydd ac estynedig Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan a fydd yn gwella tryloywder ac yn darparu'r dull cynhwysfawr, awdurdodol, cyson a chydlynol sydd ei angen ar glinigwyr a chleifion.

Fodd bynnag, rwy'n siomedig bod y Gweinidog wedi gwrthod ein hargymhelliad y dylid sefydlu panel cenedlaethol i ystyried a gwneud penderfyniadau am broses y ceisiadau cyllido cleifion unigol. Fel pwyllgor, credwn mai dyma'r ffordd orau o sicrhau cysondeb a thegwch ar draws Cymru. Rydym yn bryderus iawn ynglŷn â'r dystiolaeth a glywsom am weithrediaid proses y ceisiadau cyllido. Mae'r dehongliad o 'eithriadoldeb' yn amrywio, ac rwy'n sicr y bydd aelodau eraill y pwyllgor yn archwilio'r mater ymhellach y prynhawn yma. Ceir anghysondeb o ran parodrwydd clinigwyr i ymgysylltu â'r broses a chael mynediad ati, yn ogystal ag anghysondeb o ran y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan baneli Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol lleol. Yn ei ymateb, dywed y Gweinidog y bydd y broses yn cael ei hadolygu unwaith eto wedi i argymhellion y grŵp adolygu gael eu rhoi ar waith. Byddwn yn croesawu cadarnhad gan y Dirprwy Weiniidog y bydd yr adolygiad yn ystyried y pryderon a fynegwyd gennym yn ein hadroddiad.

I gloi, rydym yn cytuno â'r dystiolaeth a glywsom fod yr uchelgeisiau ar gyfer y cynllun a'r cyfeiriad teithio yn gywir. Nod ein hargymhellion yw cefnogi cynnydd pellach a helpu i hybu gwelliannau o ran gofal, triniaethau a chanlyniadau canser yng Nghymru.

Diolch yn fawr i'r Cadeirydd, i'r tystion a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor ac yn wir, i glercod y pwyllgor a fu'n ein helpu drwy'r broses yn ystod yr ymchwiliad penodol hwn. Ni all fod unrhyw amheuaeth y bu gwelliannau yn y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn darparu gofal canser dros y blynyddoedd, ond byddem yn twyllo ein hunain pe baem yn awgrymu bod popeth yn iawn ac nad oes llawer iawn o waith y gellid ei wneud eto i sicrhau gwelliannau pellach.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

One of the big problems that this inquiry identified is the inequity in cancer care across Wales. We were exposed to the problem that we have in terms of the postcode lottery that we have in Wales—where you live decides how long you sit on a waiting list for a diagnostic test, your chances of getting a key worker, and what treatments might be available to you. Of course, that cannot be right and it must be addressed. We have already heard from the Chair that delays in diagnosis as a result of GPs, perhaps, not being best informed about symptoms is perhaps the biggest hurdle that people face and the greatest delay in the system that we heard patients identify, but, of course, there are other points in the system at which there is congestion that we need to alleviate, particularly in terms of some of the waiting times.

We know that the urgent cancer waiting time target, for example, in Wales has not been met since 2008 and that there has not been any significant improvement against that target over the past five years. The witnesses that we spoke to as part of the committee's inquiry said that waiting times were still far too long in too many parts of the country. I would ask the Deputy Minister this: if you have targets that are never being reached, why have those targets unless you are going to hold health boards to account for delivery against them? That is clearly not happening at the moment, and we need to ensure that it does in future. We all know that timeliness in terms of access to treatment is important, particularly where a cancer diagnosis has been made.

Talking of cancer treatments, the Chair has already alluded to some of our findings in terms of the individual patient funding request process, which is flawed. It is not working. Witnesses were telling us that it is not fit for purpose, that it was unfair, and that it was still a huge problem and a barrier in terms of access to some treatments. It certainly is not securing consistency in terms of its decision making across Wales, or even consistency sometimes within health boards, because of the exceptionality rule that applies to some of the decisions. The cancer charities themselves, including Tenovus and Cancer Research UK, were also telling us that the IPFR process is not working. I have to be honest, there is not an awful lot that I agree with Ed Miliband about, but the announcement that he made this week in terms of the UK Labour Party—the party in England—about the extension of the cancer drugs fund to include other cancer therapies is something that I think could erase the postcode lottery that we currently have in Wales. I would urge the Deputy Minister to encourage the department to think again about its approach and to encourage the Welsh Government to think again about that approach, because it clearly is resulting in more consistency in England and people are getting access to some of those drugs. I know that people are shaking their heads on the Labour benches but, unfortunately, the facts are that people are seven times less likely, according to Bristol University, to get access to some of these modern cancer drugs in Wales than in other parts of the UK. That just cannot be right.

Un o'r problemau mawr a nododd yr ymchwiliad yw'r anghysondeb o ran gofal cancer ledled Cymru. Gwelsom y broblem loteri cod sydd gennym yng Nghymru—lle mae lle rydych yn byw yn penderfynu pa mor hir y byddwch ar restr aros am brawf diagnostig, eich gobaith o gael gweithiwr allweddol a pha driniaethau a allai fod ar gael i chi. Wrth gwrs, ni all hynny fod yn iawn ac mae'n rhaid mynd i'r afael â'r broblem. Rydym eisoes wedi clywed gan y Cadeirydd mai oedi cyn cael diagnosis, efallai o ganlyniad i feddygon teulu heb y wybodaeth orau am symptomau, yw un o'r rhwystrau mwyaf sy'n wynebu pobl a'r oedi mwyaf yn y system a ddisgrifwyd gan gleifion, ond wrth gwrs, mae tagfeydd mewn rhannau eraill o'r system sy'n rhaid i ni eu lliniaru, yn enwedig o ran rhai o'r amseroedd aros.

Gwyddom fod y targed ar gyfer amseroedd aros cancer brys yng Nghymru, er enghraifft, heb ei gyrraedd ers 2008 ac na fu unrhyw welliant sylweddol yn erbyn y targed hwnnw yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Dywedodd y tystion y buom yn siarad â hwy yn rhan o ymchwiliad y pwyllgor fod yr amseroedd aros yn dal i fod yn llawer rhy hir mewn gormod o rannau o'r wlad. Hoffwn ofyn hyn i'r Dirprwy Weinidog: os oes gennych dargedau nad ydynt byth yn cael eu cyrraedd, pam cael y targedau hynny oni bai eich bod yn mynd i wneud byrddau iechyd yn atebol am gyflawni yn eu herbyn? Mae'n amlwg nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd ac mae angen i ni sicrhau ei fod yn digwydd yn y dyfodol. Rydym i gyd yn gwybod bod prydlondeb o ran mynediad at driniaeth yn bwysig, yn enwedig lle gwnaed diagnosis o ganser.

A siarad am driniaethau cancer, mae'r Cadeirydd eisoes wedi crybwyll rhai o'n canfyddiadau o ran proses y ceisiadau cyllido cleifion unigol, sy'n ddfygiol. Nid yw'n gweithio. Mae tystion yn dweud wrthym nad yw'n addas at y diben, ei bod yn system annheg a'i bod yn parhau'n broblem enfawr ac yn rhwystr o ran mynediad at rai triniaethau. Yn bendant, nid yw'n broses gyson o ran y penderfyniadau a wneir ledled Cymru, neu o fewn byrddau iechyd weithiau, oherwydd y rheol eithriadoldeb sydd ynghlwm wrth rai o'r penderfyniadau. Hefyd, mae'r elusennau cancer eu hunain, yn cynnwys Tenovus a Cancer Research UK, yn dweud wrthym nad yw proses y ceisiadau cyllido cleifion unigol yn gweithio. Mae'n rhaid i mi fod yn onest, nid oes llawer iawn rwy'n cytuno ag Ed Miliband yn ei gylch ond mae'r cyhoeddiad a wnaeth yr wythnos hon o ran y Blaid Lafur yn y DU—y blaid yn Lloegr—ynghylch ymestyn y gronfa cyffuriau cancer i gynnwys therapïau cancer eraill yn rhywbeth a allai ddileu'r loteri cod post sydd gennym ar hyn o bryd yng Nghymru yn fy marn i. Byddwn yn erfyn ar y Dirprwy Weinidog i annog yr adran i feddwl eto am ei dull o weithredu ac i annog Llywodraeth Cymru i feddwl eto am y dull hwnnw, gan ei fod yn amlwg yn arwain at fwy o gysondeb yn Lloegr ac mae pobl yn cael mynediad at rai o'r cyffuriau hynny. Gwn fod pobl yn ysgwyd eu pennau ar y meinciau Llafur ond yn anffodus, yn ôl prifysgol Bryste, mae'n ffaith bod pobl saith gwaith yn llai tebygol o allu cael rhai o'r cyffuriau cancer modern hyn yng Nghymru na mewn rhannau eraill o'r DU. Ni all hynny fod yn iawn.

It is really important to highlight the public awareness and public education that we need to have in terms of people's symptoms of cancer. I think it was Prostate Cancer UK that helped the committee to form its conclusion in recommendation 9 about the need to do more on public awareness-raising of symptoms, because, of course, if somebody does not know what a cancer symptom looks like, they are not going to even present to their GP. That in itself can cause a delay in them accessing treatment and it can damage their outcome. So, I think it is important that there is better investment in cancer awareness-raising and symptom awareness-raising in the future, as well as those issues around the need for every patient to know who their key worker is and know what their care plan says should be delivered to them as a result of their diagnosis. It was particularly disappointing, I think, that, in spite of the requirement for those things in the cancer plan, it was simply not being delivered on the ground. I think a big message from the committee is that we have to hold health boards to account for the consistent delivery of this plan within their health board areas and, of course, across Wales as a whole.

Mae'n hynod o bwysig ein bod yn tynnu sylw at ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd ac addysg gyhoeddus sydd angen i ni eu cael o ran symptomau cancer pobl. Rwy'n credu mai Prostate Cancer UK a gynorthwyodd y pwyllgor i ffurfio'i gasgliad yn argymhelliad 9 am yr angen i wneud mwy i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o symptomau, oherwydd os nad yw rhywun yn gwybod beth yw symptomau cancer, nid ydynt yn mynd i fynd at eu meddyg teulu yn y lle cyntaf. Gall hynny ynddo'i hun achosi oedi cyn cael triniaeth a gall niweidio eu canlyniad. Felly, credaf ei bod yn bwysig gwella buddsoddiad mewn ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o ganser a chodi ymwybyddiaeth o symptomau yn y dyfodol, yn ogystal â'r materion sy'n ymwneud â'r angen i bob claf gael gwybod pwy yw ei weithiwr allweddol a gwybod beth y mae eu cynllun gofal yn dweud y dylid ei ddarparu ar eu cyfer o ganlyniad i'w diagnosis. Er gwaethaf y galw am y pethau hynny yn y cynllun cancer, testun siom arbennig, rwy'n credu, oedd nad oeddent yn cael eu darparu ar lawr gwlad. Rwy'n credu mai un o brif negeseuon y pwyllgor yw bod yn rhaid i ni ddwyn byrddau iechyd i gyfrif am gyflwyno'r cynllun hwn yn gyson yn eu hardaloedd ac wrth gwrs, ledled Cymru gyfan.

15:21

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i'r Cadeirydd am ei gyflwyniad i'r ddadl hon y prynhawn yma, a diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y broses y mae'r pwyllgor wedi mynd drwyddi i sgrwtineiddio'r cynnydd a wnaed ar gynllun cyflawni cancer y Llywodraeth. Mae tri maes yr wyf am gyfeirio atynt yn benodol y prynhawn yma, sef cyflawni yn lleol y cynllun cancer, gwella diagnosis ac, yn olaf, mynediad i driniaethau a chyffuriau newydd. Cafodd y cynllun cyflawni cancer ei groesawu'n wresog pan y'i sefydlwyd ychydig flynyddoedd yn ôl. Ers hynny, mae cynnydd wedi'i wneud, wrth gwrs, yn y gwasanaethau sydd ar gael i unigolion. Nid oes amheuaeth bod rhywfaint o rwystredigaeth wedi bod ynglŷn â'r ffaith bod cyflawni amcanion y cynllun wedi bod yn araf mewn rhai ardaloedd ac yn anghyson rhwng ardaloedd. Roedd y diffyg cysondeb hwn yn thema barhaus yn ein gwaith sgrwtini ni, yn ogystal â diffyg tryloywder y byrddau iechyd wrth iddyn nhw weithredu'r cynllun. Dyna pam mae argymhelliad 2 yn ein hadroddiad ni mor bwysig, sef i sicrhau bod byrddau iechyd yn cyhoeddi'u cynlluniau cyflawni lleol, a'r adroddiadau blynyddol sy'n deillio o'r rheini, ac yn gwneud hynny mewn dull sy'n amlwg ac yn hygyrch iawn ar safleoedd gwe y byrddau iechyd, fel ei bod yn hawdd i aelodau'r cyhoedd, cleifion sy'n dioddef o ganser a theuluoedd ddeall a ffurfio eu disgwyliadau hwy o'r gwasanaeth sydd ar gael iddyn nhw yn lleol.

Gwnaeth y pwyllgor dreulio tipyn o amser yn trafod rôl meddygon teulu a diagnosis cynnar o ganser. Mae argymhellion 5, 6 a 7 yn ymwneud â hyn. Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhellion. Er hyn, roedd y pwyllgor heb ei argyhoeddi bod meddygon teulu yn ddigon cyfarwydd ac yn ddigon o ran o'r llwybr cancer yn eu byrddau iechyd penodol hwy, nac ychwaith bod yr arfer gorau o ran hyfforddiant diagnosis parhaus yn ddigonol i'r holl feddygon teulu. Mae gwybodaeth am ganser yn cynyddu'n barhaus, ac felly mae'n hollbwysig bod meddygon teulu yn cael yr hyfforddiant priodol a'r amser i hyfforddi er mwyn gwella technegau diagnosis. Wrth gwrs, y rhwystredigaeth bennaf o ran diagnosis i feddygon teulu a chleifion yw'r amserau aros ar gyfer profion diagnostig— profion sgan CT, colonosgopi ac yn y blaen.

I thank the Chair for his opening remarks in this debate this afternoon, and I would like to thank everyone who has participated in the process that the committee has been through in scrutinising the progress on the Government's cancer delivery plan. There are three areas that I want to refer to in particular this afternoon, which are local delivery of the cancer plan, improving diagnosis and, finally, access to new drugs and treatments. The cancer delivery plan was warmly welcomed when it was established just a few years ago. Since then, progress has been made, of course, in terms of the services available to individuals. There is no doubt that there has been some frustration about the fact that achieving the objectives of the plan has been sluggish in some areas and inconsistent between areas. This lack of consistency was a reoccurring theme in our scrutiny work, as well as the lack of transparency in terms of the health boards and their implementation of the plan. That is why recommendation 2 in our report is so important, namely to ensure that health boards publish their local delivery plans and the annual report emerging from those plans, and that they do so in a way that is clear and accessible on the health board website, so that it is easy for members of the public, cancer patients and their families to understand and to formulate their expectations of the services available to them locally.

The committee spent some time discussing the role of general practitioners and early diagnosis of cancer. Recommendations 5, 6 and 7 relate to this point, and I am pleased that the Minister has accepted those recommendations. Despite this, the committee was not convinced that GPs were sufficiently aware and sufficiently involved in the cancer pathway within their own health boards, or that best practice in terms of continuing diagnostic training was adequate for all GPs. Information on cancer continues to develop and it is crucially important that GPs have appropriate training and the time made available for training in order to improve diagnostic techniques. Of course, the main frustration in terms of diagnosis for GPs and patients is the waiting times for diagnostic tests—CT scans, colonoscopies and so on.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rydyn ni'n gwybod bod yr ystadegau hynny ar yr amserau aros gymaint hirach yng Nghymru, ac yn parhau felly, nag y'n nhw yn Lloegr ac yn yr Alban. Mae'r Gweinidog wedi rhoi arian ychwanegol i leihau'r amserau aros hyn, ac mae'n bwysig ein bod yn gweld cynnydd ar hyn a lleihad yn yr amseroedd aros yng Nghymru yn y misoedd nesaf o ganlyniad i'r gwariant ychwanegol. Rwy'n edrych ymlaen at weld adroddiad y Gweinidog ar hynny yn y flwyddyn newydd, fel mae ef wedi addo.

Yn olaf, rwyf am droi at argymhelliad 8, sef yr unig un y mae'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog wedi'i wrthod yn llwyr, yn anffodus. Dyma'r argymhelliad i greu un panel cenedlaethol i asesu ceisiadau cyllido cleifion unigol. Y dystiolaeth a glywon ni oedd bod y paneli IPFR unigol yn rhy ynysig. Dywedodd cynrychiolydd o Goleg Brenhinol y Radiolegwyr wrthym ei fod yn gwybod y byddai ceisiadau IPFR ganddo ef yn cael eu trin yn wahanol gan fyrdau iechyd gwahanol. Gan fod y rhan fwyaf o gleifion cancer cymhleth yn cael eu gweld gan ysbytai rhanbarthol arbenigol yn awr, mae pob ymgynghorydd arbenigol erbyn hyn yn delio gyda chleifion sy'n byw ar draws ardaloedd dau neu dri—neu, yng nghyd-destun Felindre, efallai chwech—bwrdd iechyd. Mae'r anghysondeb hwn yn annheg ar y cleifion, ond mae hefyd yn annheg ar yr ymgynghorwyr oncoleg. Felly, mae loteri cod post yn bodoli o fewn y gyfundrefn yng Nghymru, ac nid wyf wedi fy argyhoeddi bod gwrthwynebiad y Gweinidog i greu cyfundrefn genedlaethol ar hyn yn ddigonol, ond fe gawn ni weld—mae model newydd yn cael ei roi yn ei le, ac fe gawn ni weld y datblygiad ar hynny dros y misoedd nesaf. Byddwn yn awyddus iawn fel pwyllgor, rwy'n siŵr, i glywed am y cynnydd mewn adroddiadau gan y Gweinidog ar hynny.

We know that the statistics on waiting times are that much longer in Wales and continue to be so as compared with England and Scotland. The Minister has provided additional funding to reduce these waiting times, and it is important that we see progress in this area and a reduction in waiting times in Wales over the next few months as a result of this additional expenditure. I look forward to seeing the Minister's report on that in the new year, as he has pledged to present.

Finally, I want to refer to recommendation 8, which is the only one that the Minister and the Deputy Minister have rejected out of hand, unfortunately. This is the recommendation to create one national panel to assess individual patient fund requests. The evidence that we heard was that individual IPFR panels were too isolated. A representative of the Royal College of Radiologists told us that he knew that IPFR applications from him would be treated differently by different health boards. Of course, as most complex cancer patients are seen at specialist regional hospitals now, all specialist consultants now deal with patients who live across two or three—or, in the context of Velindre, maybe six—health board areas. This inconsistency is unfair to patients, but it is also unfair to the consultant oncologists. Therefore, there is a postcode lottery within the regime in Wales, and I have yet to be convinced that the Minister's opposition to the creation of a national regime is adequate, but we shall see—there is a new model being put in place, and we will review the developments there over the next few months. We as a committee, I am sure, will be very eager to hear about the progress via reports from the Minister on that issue.

15:26

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I begin by repeating the thanks of the Chair of the committee to all those who participated in the review and in the publication of the report. I also thank the Chair himself for his leadership of this committee inquiry.

To pick up on the point that others have made, it is clear to me that the publication of the plan was a welcome step forward, that the content of the plan is without debate, and that everybody agrees that what is in the plan is the right thing to do and are the right things to measure, and that if the plan could be realised to its fullest extent, we would have a great cancer service in Wales. However, like so many plans over so many years of the existence of the Welsh Government and the National Assembly for Wales, the rub really comes with implementation and what this document actually looks like in real life, in real services and to real people in our nation.

As has been said, there is some excellent care being provided, and we spoke to patients who have had a first-class experience. However, we spoke to too many people who had also experienced frustration, delays and a service that they felt had not met their needs. So much of it depends on where you live. So much of it depends on the type of cancer that you have. So much of it depends on whether your GP is able to pick up on the nature of your problems and make the correct referral in that first consultation.

Dechreuaf drwy ailadrodd diolch Cadeirydd y pwyllgor i bawb a gymerodd ran yn yr adolygiad a'r gwaith o gyhoeddi'r adroddiad. Diolch hefyd i'r Cadeirydd ei hun am arwain ymchwiliad y pwyllgor.

I godi'r pwynt y mae eraill wedi'i wneud, mae'n amlwg i mi fod cyhoeddi'r cynllun yn gam ymlaen a oedd i'w groesawu, nad oes dadl ynghylch cynnwys y cynllun a bod pawb yn cytuno mai'r hyn sydd yn y cynllun yw'r peth iawn i'w wneud a'r pethau iawn i'w mesur, a phe gellid gwireddu'r cynllun yn y modd llawnaf posibl, byddai gennym wasanaeth cancer gwych yng Nghymru. Fodd bynnag, fel cynifer o gynlluniau dros gymaint o flynyddoedd o fodolaeth Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, cyflawni'r gwaith yw'r her a sut y mae'r ddogfen hon yn edrych mewn bywyd go iawn, mewn gwasanaethau go iawn ac i bobl go iawn yn ein gwlad.

Fel y dywedwyd, mae peth gofal ardderchog yn cael ei ddarparu a siaradwyd â chleifion sydd wedi cael profiad o'r ansawdd gorau. Fodd bynnag, siaradwyd â gormod o bobl a oedd hefyd wedi profi rhwystredigaeth, oedi a gwasanaeth y teimlent nad oedd wedi diwallu eu hanghenion. Felly, mae llawer ohono'n dibynnu ar ble rydych yn byw. Mae cymaint ohono'n dibynnu ar y math o ganser sydd gennych. Mae cymaint ohono'n dibynnu ar allu eich meddyg teulu i sylwi ar natur eich problemau ac i gyfeirio'n gywir yn yr ymgynghoriad cyntaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I would like to talk about two recommendations, Presiding Officer. Recommendation 1 talks about the need for strong central leadership to drive forward the contents of this plan. I do not want to denigrate the efforts of the members of the cancer implementation group; I am sure that they are working very hard. I appreciate that, in response to the recommendation, the Government confirms that it is redefining and looking at the group's role. However, I am still firmly of the belief that we need one named individual with the clinical credibility and clout to drive this plan on, to hold the local health boards' feet to the fire and to ensure that change happens on the ground for Welsh patients. I am not convinced that what the Government is suggesting will lead to that drive forward.

Secondly, turning to recommendation 8 regarding our calls for a national panel to decide on individual patient funding requests, I am not going to rehearse and repeat the arguments we hear about an England versus Wales situation. The Government is quite clear about why it feels a cancer drugs fund is inappropriate. If we put that to one side, can we look at what is happening in Wales? The reality is that clinicians' engagement with the IPFR situation depends very much on the clinician that you are dealing with and, again, depends very much on where you live. At this very moment—and I am grateful that the Minister has taken the time and trouble to look into this case—I have a constituent who has prostate cancer. His consultant wants him to have enzalutamide. It was approved by the National Institute for Health and Care Excellence back in this summer, if he had had docetaxel chemotherapy first, which he has had, but he has also had abiraterone, and this is where NICE is silent on the issue.

If he lived two miles to the south, in Abertawe Bro Morgannwg, he would get his treatment tomorrow. If he lived two miles to the west, in Ystradowen, in Hywel Dda, he would get the treatment that his consultant is recommending, because those health boards have agreed to fund this treatment for that whole cohort of patients—they do not even need to go through the IPFR process. However, Powys takes a different view, and he has been turned down. Two miles difference, between whether you get the treatment or not.

His son has just e-mailed me:

'My father is now seeing the consultant this afternoon. We have decided to go ahead with the treatment. This means that my parents will have to pay. They are borrowing the money, and they will now face financial hardship, but money problems are preferable to simply letting my father die.'

For two miles. Forget about England—let us get this right within our own borders. Let us have a national approach to individual patient referral requests, and a national approach to whom gets treatment.

Hoffwn sôn am ddau argymhelliad, Lywydd. Mae argymhelliad 1 yn cyfeirio at yr angen am arweiniad canolog cryf i ddatblygu cynnwys y cynllun hwn. Nid wyf am fychanu ymdrechion aelodau'r grŵp gweithredu ar ganser; rwy'n siŵr eu bod yn gweithio'n galed iawn. Mewn ymateb i'r argymhelliad, rwy'n gwerthfawrogi bod y Llywodraeth yn cadarnhau ei bod yn ailddiffinio ac yn edrych ar rôl y grŵp. Fodd bynnag, rwy'n dal i gredu'n gryf fod angen un unigolyn penodol gyda'r hygredded clinigol a'r dylanwad i yrru'r cynllun hwn yn ei flaen, i gynnal y pwysau ar y byrddau iechyd lleol ac i sicrhau bod newid yn digwydd ar lawr gwlad i gleifion Cymru. Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei awgrymu yn mynd i arwain at yr ysgogiad hwnnw.

Yn ail, gan droi at argymhelliad 8 ynghylch ein galwadau am banel cenedlaethol i benderfynu ar geisiadau cyllido cleifion unigol, nid wyf yn mynd i ailadrodd y dadleuon a glywn am sefyllfa Cymru yn erbyn Lloegr. Mae'r Llywodraeth yn gwbl glir ynglŷn â pham y mae'n teimlo bod cronfa cyffuriau canser yn amhriodol. Os rhown hynny o'r neilltu, a gawn ni edrych ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru? Y realiti yw bod ymgysylltiad clinigwyr â sefyllfa'r Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol yn dibynnu i raddau helaeth â pha glinigydd rydych chi'n ymwneud ac unwaith eto, mae'n dibynnu i raddau helaeth ar ble rydych yn byw. Ar hyn o bryd—ac rwy'n ddiolchgar fod y Gweinidog wedi treulio amser a mynd i'r drafferth i edrych ar yr achos hwn—mae gennyf etholwr sy'n dioddef o ganser y prostad. Mae ei feddyg ymgynghorol eisiau iddo gael enzalutamide. Cafodd ei gymeradwyo gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yn ôl yn yr haf, os oedd wedi cael cemotherapi docetaxel yn gyntaf, fel y mae wedi ei gael, ond mae hefyd wedi cael abiraterone, a dyma lle mae NICE yn ddistaw ar y mater.

Pe bai'n byw ddwy filltir i'r de, yn Abertawe Bro Morgannwg, byddai'n cael ei driniaeth yfory. Pe bai'n byw ddwy filltir i'r gorllewin, yn Ystradowen, yn Hywel Dda, byddai'n cael y driniaeth y mae ei ymgynghorydd yn ei hargymell am fod y byrddau iechyd hynny wedi cytuno i gyllido'r driniaeth hon ar gyfer y cohort cyfan o gleifion—nid oes raid iddynt fynd drwy broses y ceisiadau cyllido cleifion unigol hyd yn oed. Fodd bynnag, mae safbwynt Powys yn wahanol a gwrthodwyd y driniaeth iddo. Dwy filltir o wahaniaeth, rhwng cael y driniaeth ai peidio.

Mae ei fab newydd anfon e-bost ataf:

'Mae fy nhad yn awr yn gweld yr ymgynghorydd y prynhawn yma. Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r driniaeth. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i fy rhieni dalu. Maent yn benthyg yr arian, a byddant yn awr yn wynebu caledi ariannol, ond mae problemau arian yn well na gadael fy nhad i farw.'

Dwy filltir. Anghofiwch am Lloegr—gadewch i ni gael hyn yn iawn o fewn ein ffiniau ein hunain. Gadewch i ni gael ymagwedd genedlaethol tuag at geisiadau cyfeirio cleifion unigol ac ymagwedd genedlaethol tuag at bwy sy'n cael triniaeth.

I am very pleased to speak in this debate on the report from the Health and Social Care Committee. I am not on the committee, but I chair the cross-party group on cancer. The group was involved in discussing the plan before it was set up, and David Rees, the Chair of the committee, has been to the group, and presented the committee's findings a few weeks ago.

In the cross-party group, the discussions have involved patients, clinicians, researchers and Assembly Members, and there were a few key issues that these centred around. I would like, right at the beginning of my contribution, to say that the first issue that was brought up when David Rees came was the concern from the patients about the reports that had appeared in the newspapers, saying that 15,000 Welsh patients had travelled into England for treatment. However, very fortunately, we had a Welsh Government official there, who was able to tell us that this was completely inaccurate, and that these figures represent single episodes of treatment, and that, in fact, many patients from England came into Wales. So, these reports had actually caused a great deal of concern for members, particularly patients in the group.

I will mention some of the points that came up. One of the most important points to be raised—this is a point that comes up consistently in the cancer group—is the importance of research, and I know that we were very pleased that research was put in as part of the cancer plan. One of the researchers said that he was very concerned that this did stay as a priority in the plan, because he said that it is actually harder to run clinical trials at the moment, and that it is very important that Wales does keep up the first-class research that it carries out.

I was very pleased to attend the twentieth anniversary of clinical trials at Velindre hospital recently, and to meet patients who had benefitted from those trials. So, I think that that is a point that the members of the group—particularly members from the research community—wanted to make to the Chair of the committee, and to Welsh Government: that research is absolutely essential as part of this plan.

I will mention the other issues that came up. One issue is earlier diagnosis, which has already been mentioned. It is absolutely essential that GPs are trained to recognise the earlier symptoms of cancer. Other issues included general cancer awareness, and, again, the importance of key workers for every patient, because cancer patients at the meeting did give evidence that the key worker concept was not reaching everybody. I think that this was confirmed by the representatives from Macmillan about the evidence from the cancer experience. So, again, I think that that issue has been raised here today, and that I think is a key part of the cancer plan.

Rwy'n falch iawn o gael siarad yn y ddadl hon ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Nid wyf ar y pwyllgor ond rwy'n cadeirio'r grŵp trawsbleidiol ar ganser. Roedd y grŵp yn rhan o'r broses o drafod y cynllun cyn iddo gael ei sefydlu, ac mae David Rees, Cadeirydd y pwyllgor, wedi bod gyda'r grŵp a chyflwynodd ganfyddiadau'r pwyllgor ychydig wythnosau yn ôl.

Yn y grŵp trawsbleidiol, mae'r trafodaethau wedi cynnwys cleifion, clinigwyr, ymchwilyr ac Aelodau'r Cynulliad, a chanolbwyntiaid'r rhain ar rai materion allweddol. Ar ddechrau fy nghyfraniad, hoffwn ddweud mai'r mater cyntaf y cyfeiriwyd ato pan oedd David Rees yn bresennol oedd pryder cleifion ynghylch yr adroddiadau a ymddangosodd yn y papurau newydd yn dweud bod 15,000 o gleifion o Gymru wedi teithio i Loegr i gael triniaeth. Fodd bynnag, yn ffodus iawn, roedd un o swyddogion Llywodraeth Cymru yno, a gallodd ddweud wrthym fod hyn yn hollol anghywir ac mai ffigurau ar gyfer un rhan o driniaeth yn unig oedd y rhain a bod llawer o gleifion yn dod o Loegr i Gymru mewn gwirionedd. Felly mewn gwirionedd, roedd yr adroddiadau hyn wedi achosi llawer iawn o bryder i aelodau'r grŵp, yn enwedig cleifion.

Rwy'n mynd i sôn am rai o'r pwyntiau a godwyd. Un o'r pwyntiau pwysicaf i'w codi—mae hwn yn bwynt sy'n codi'n gyson yn y grŵp cancer—yw pwysigrwydd ymchwil, a gwn ein bod yn falch iawn fod ymchwil wedi ei gynnwys yn rhan o'r cynllun cancer. Dywedodd un o'r ymchwilyr ei fod yn bryderus iawn fod hyn yn dal yn flaenoriaeth yn y cynllun gan ei bod yn anos cynnal treialon clinigol ar hyn o bryd mewn gwirionedd, a'i bod yn bwysig iawn fod Cymru'n parhau'r gwaith ymchwil o'r radd flaenaf y mae'n ei gyflawni.

Roeddwn yn falch iawn o fod yn bresennol ar ugeinfed pen-blwydd y treialon clinigol yn Ysbyty Felindre yn ddiweddar ac i gwrdd â chleifion a oedd wedi elwa o'r treialon hynny. Felly credaf fod hynny'n bwynt roedd aelodau'r grŵp—yn enwedig aelodau o'r gymuned ymchwil—am ei wneud i Gadeirydd y pwyllgor ac i Lywodraeth Cymru: sef bod ymchwil yn rhan gwbl hanfodol o'r cynllun hwn.

Rwyf am sôn am y materion eraill a godwyd. Un broblem yw diagnosis cynharach, sydd eisoes wedi'i grybwyll. Mae'n gwbl hanfodol fod meddygon teulu yn cael eu hyfforddi i adnabod symptomau cancer cynharach. Roedd materion eraill yn cynnwys ymwybyddiaeth gyffredinol o ganser, ac unwaith eto, pwysigrwydd gweithwyr allweddol ar gyfer pob claf, gan fod cleifion cancer yn y cyfarfod wedi rhoi tystiolaeth nad oedd y cysyniad o weithiwr allweddol yn cyrraedd pawb. Rwy'n credu bod hyn wedi ei gadarnhau gan gynrychiolwyr Macmillan ynglŷn â thystiolaeth o brofiadau cancer. Felly unwaith eto, credaf fod y mater wedi cael ei godi yma heddiw ac rwy'n credu bod hynny'n rhan allweddol o'r cynllun cancer.

Obviously, there is the issue about waiting lists. This debate is also an opportunity, I think, to refer to progress on a single pathway for urgent and non-urgent suspected cancer cases, which is being trialled at the moment at the request of clinicians, because they felt that this was a fairer way of treating people who were waiting for cancer treatment and that it would have better results. I know that it is too early to evaluate the literature, as all of the data are not yet in on this trial, but I thought that it was very important news at this meeting that the waiting time for radiotherapy for head and neck pathways in Velindre hospital, as a result of trialling this single pathway, has been reduced from 28 days to 14. I think that that is very good news.

The group also called for stronger national leadership and it supports the plan. I think that it is a great plan, but actually, getting it to operate on the ground is the next step forward.

15:35

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As with all Members, I am sure, Llywydd, matters around cancer care and end-of-life care are regularly brought to me by constituents and, obviously, these are very emotive matters. One thing that is very clear to me is that people very much value the substantial improvements in end-of-life care that are now, thankfully, part of our system. They very much value the work of our hospices, such as St David's Foundation Hospice Care. I want to pay tribute here to St David's Foundation and its staff, because it provides services, day-in and day-out, which really do matter to my constituents and the constituents of other AMs. Similar organisations do that sort of work right across Wales.

We all know that people very often do want to end their lives at home and it is organisations such as St David's Foundation that allow that to happen. That is so important to people and their families, very often.

The other matters that are regularly brought to me by constituents with regard to these matters and over a period of time, Llywydd—again, I am sure that this applies to other Assembly Members and we have heard some examples already—is the lack of transparency, timeliness, accountability and consistency in decision making in terms of the drugs that patients are able to obtain for their cancer conditions. We know the issues around NICE approval and the All Wales Medicines Strategy Group approval, and people really do take an interest in this now and so do their families, because these are matters of great concern to them and they are very much in the public arena.

Yn amlwg, mae problem ynglŷn â rhestrau aros. Yn fy marn i, mae'r ddatl hon yn gyfle hefyd i gyfeirio at ddatblygiadau ar y llwybr sengl ar gyfer achosion lle ceir amheuaeth frys o ganser ac achosion lle na cheir amheuaeth frys sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd ar gais y clinigwyr, oherwydd eu bod yn teimlo bod hon yn ffordd decach o drin pobl a oedd yn aros am driniaeth canser ac y byddai'n arwain at well canlyniadau. Gwn ei bod yn rhy gynnar i werthuso'r llenyddiaeth, gan nad yw'r data i gyd wedi'i gasglu ar y treial, ond rwy'n meddwl ei fod yn newyddion pwysig iawn yn y cyfarfod hwn fod yr amser aros ar gyfer radiotherapi ar gyfer y llwybr pen a'r gwddf yn ysbty Felindre, o ganlyniad i dreialu'r llwybr sengl, wedi gostwng o 28 diwrnod i 14. Credaf fod hynny'n newyddion da iawn.

Galwodd y grŵp hefyd am arweinyddiaeth genedlaethol gadarnach ac mae'n cefnogi'r cynllun. Credaf ei fod yn gynllun gwyb, ond mewn gwirionedd, ei gael i weithredu ar lawr gwlad yw'r cam nesaf ymlaen.

Fel yr holl Aelodau rwy'n siŵr, Lywydd, bydd etholwyr yn dwyn materion yn ymwneud â gofal canser a gofal diwedd oes i fy sylw'n rheolaidd ac yn amlwg, mae'r rhain yn faterion emosynol iawn. Un peth sy'n glir iawn i mi yw bod pobl yn gwerthfawrogi'r gwelliannau sylweddol ym maes gofal diwedd oes sydd bellach, diolch byth, yn rhan o'n system. Maent yn gwerthfawrogi gwaith ein hosbisau, megis Gofal Hosbis Sefydliad Dewi Sant. Hoffwn dalu teyrnged yma i Sefydliad Dewi Sant a'i staff, oherwydd ei fod yn feunyddiol yn darparu gwasanaethau sydd o bwys gwirioneddol i fy etholwyr ac etholwyr ACau eraill. Mae sefydliadau tebyg yn gwneud y math yna o waith ym mhob cwr o Gymru.

Rydym i gyd yn gwybod bod pobl yn aml iawn yn dymuno diwedd eu hoes gartref a sefydliadau fel Sefydliad Dewi Sant sy'n caniatáu i hynny ddigwydd. Mae hynny mor bwysig i bobl a'u teuluoedd yn aml iawn.

Materion eraill sy'n cael eu dwyn i fy sylw'n rheolaidd gan etholwyr o ran y materion hyn a thros gyfnod o amser, Lywydd—unwaith eto, rwy'n siŵr bod hyn yn wir am Aelodau eraill y Cynulliad ac rydym wedi clywed rhai enghreifftiau eisoes—yw diffyg tryloywder, amseroldeb, atebolrwydd a chysondeb wrth wneud penderfyniadau o ran y cyffuriau y mae cleifion yn gallu eu cael at eu cyflyrau canser. Gwyddom am y materion sydd ynghlwm wrth gymeradwyaeth NICE a Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan. Mae gan bobl ddiddordeb gwirioneddol yn hyn yn awr, a'u teuluoedd hefyd, gan fod y rhain yn faterion sy'n peri pryder mawr iddynt ac maent yn cael cryn dipyn o sylw cyhoeddus.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Particularly for me recently, matters have been raised regarding the individual patient referral process around that lack of transparency, accountability, consistency and timeliness, and people feel very strongly that we need to move to a better system. So, I am very interested in recommendation 8 and how we move forward, given the Welsh Government's decision not to agree that recommendation. I know that work has taken place around the individual patient referral, as other Members have addressed, regarding the consultation that Welsh Government carried out and the way forward from there with the new role for the All Wales Therapeutics and Toxicology Centre and other parts of the system.

Exceptionality has been a key part of this debate in the work that I have been doing with constituents. I wonder whether the Deputy Minister, in his reply to the debate, could flesh out for us a little more the work that has gone on around the individual patient referral consultation and the new system that will be in place. How will that refer to that exceptionality criterion and how will we get the greater consistency, timeliness, transparency and accountability under the changes that will take place? I know that these are matters that will be the subject of ongoing work and detailed as we go forward, but at this stage, it would be very useful for many people in Wales if the Deputy Minister could give us a little bit more detail on how that issue of exceptionality, transparency, consistency and timeliness will be effectively addressed by the new procedures and processes.

Yn arbennig i mi yn ddiweddar, soniwyd am faterion yn ymwneud â'r broses gyfeirio cleifion unigol a diffyg tryloywder, atebolrwydd, cysondeb a phrydlondeb, ac mae pobl yn teimlo'n gryf iawn fod angen i ni symud at system well. Felly mae gennyf ddiddordeb mawr yn argymhelliad 8 a sut rydym am symud ymlaen, o gofio penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chytuno i'r argymhelliad hwnnw. Gwn fod gwaith wedi digwydd o ran cyfeirio cleifion unigol, fel y mae Aelodau eraill wedi sôn, mewn perthynas â'r ymgynghoriad a gynhaliodd Llywodraeth Cymru a'r ffordd ymlaen oddi yno gyda rôl newydd Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan a rhannau eraill o'r system.

Mae eithriadoldeb wedi bod yn rhan allweddol o'r ddadl hon yn y gwaith a wneuthum gydag etholwyr. Tybed a fyddai'r Dirprwy Weinidog, yn ei ymateb i'r ddadl, yn gallu rhoi mwy o gnawd ar yr esgryn o ran y gwaith a wnaed ar yr ymgynghoriad ar gyfeirio cleifion unigol a'r system newydd a fydd ar waith. Sut y bydd hynny'n cyfeirio at faen prawf eithriadoldeb a sut y gallwn sicrhau cymaint â phosibl o gysondeb, tryloywder ac atebolrwydd o dan y newidiadau a fydd yn digwydd? Gwn fod y rhain yn faterion a fydd yn destun gwaith parhaus a manwl wrth i ni symud ymlaen ond ar hyn o bryd byddai'n ddefnyddiol iawn i lawer o bobl yng Nghymru pe gallai'r Dirprwy Weinidog roi ychydig mwy o fanylion i ni ynglŷn â sut y bydd y gweithdrefnau a'r prosesau newydd yn mynd i'r afael yn effeithiol ag eithriadoldeb, tryloywder, cysondeb a phrydlondeb.

15:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Deputy Minister for Health to speak on behalf of the Government, Vaughan Gething.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd i siarad ar ran y Llywodraeth, Vaughan Gething.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:40 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health

I would like to thank the committee for its report and for today's debate. It allows us to pause and reflect on the shared commitment to cancer services and challenge ourselves to make further and faster progress.

Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am ei adroddiad ac am y ddadl heddiw. Mae'n ein galluogi i oedi a myfyrio ar y cydymrwymiad i wasanaethau cancer ac i herio ein hunain i wneud cynnydd pellach a chyflymach.

I will use my time today to reflect on where we are, where we are going and on the action that we will be taking in response to the recommendations in the report. I will not be able to respond to all points made in the debate in the time available; I will, however, try to provide written comments to each of those points that I am not able to answer in the Chamber, and, of course, the Government has provided a formal, written response to each recommendation.

Byddaf yn defnyddio fy amser heddiw i fyfrio ar ein sefyllfa, i ble rydym yn mynd ac ar y camau y byddwn yn eu cymryd mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad. Ni fyddaf yn gallu ymateb i'r holl bwyntiau a wnaed yn y ddadl yn yr amser sydd ar gael; fodd bynnag, byddaf yn ceisio darparu sylwadau ysgrifenedig ar bob un o'r pwyntiau nad wyf yn gallu eu hateb yn y Siambr ac wrth gwrs, mae'r Llywodraeth wedi darparu ymateb ffurfiol, ysgrifenedig i bob argymhelliad.

The cancer delivery plan was born from effective collaboration between our clinical leaders, NHS managers, patients and the third sector. It is, or at least it should be, owned by the clinical community and the third sector, which are an essential partner in delivering care. I was pleased to note, as has been reiterated today, that at no point in the inquiry was there a challenge to the aspiration, the aims or the stated actions of the plan.

Deilliodd y cynllun cyflawni ar gyfer cancer o gydweithio effeithiol rhwng ein harweinwyr dinigol, rheolwyr y GIG, cleifion a'r trydydd sector. Mae'n eiddo, neu o leiaf dylai fod yn eiddo i'r gymuned glinigol a'r trydydd sector sy'n bartneriaid hanfodol yn y gwaith o ddarparu gofal. Roeddwn yn falch o nodi, fel yr ailadroddwyd heddiw, na heriwyd uchelgais, nodau na chamau gweithredu a nodwyd yn y cynllun ar unrhyw bwynt yn yr ymchwiliad.

I want to acknowledge the positive influence that the Wales Cancer Alliance had in setting the direction of the plan and the important and effective role that its members continue to play on the implementation board in challenging health boards on progress. Their role, of course, goes far beyond simply providing challenge. These organisations carry out work every day on the front line, delivering clinical services, supporting patients' welfare needs and, of course, helping to lead cutting-edge research.

The delivery plan process provides for open and transparent engagement. With a small number of key actions, focused on patient outcomes and with an open publication of performance at a local and national level, it provides a greater level of transparency than ever before. It is important to acknowledge that the plan is based upon strong clinical leadership. That clinical leadership is an essential part of the implementation group.

Turning to where we are now, delivery of cancer services in Wales is a story of progress. More people are surviving cancer than ever before: mortality from cancer has fallen by 11% in the last 10 years; as a direct result of action in the cancer delivery plan, we have improved the recording of the stage at diagnosis of cancer from 42% to 73%; and we have seen a 5% increase in recruitment to clinical trials.

That progress is all the more remarkable when you set it in the context of a significant increase in demand. Over the 12 months to July 2014, there was an 18% annual increase in the number of patients who started their treatment within the 62-day target time. We are moving in the right direction, with strong performance across a wide range of indicators. When you look at the specific detail of that demand increase, some of the detail is truly startling. Aneurin Bevan health board, for example, has seen cancer referrals increase 118% in the past four years, but that health board has met the 62-day target 34 times since July 2010, despite that dramatic increase in demand. These figures also demonstrate that there are GPs who are proactive in improving early diagnosis through referral, but who will recognise that there is more to do.

Turning to recommendation 1, the Welsh Government has accepted the recommendation, but we recognise that driving improvement in cancer services is a shared responsibility. I would not accept a position where health boards would wait for somebody to tell them if they are or are not on track and need to do something to improve their own performance. The transparent publication of reports should enable politicians, the third sector and clinicians themselves, as well as patients, to challenge performance at all levels.

Rwyf am gydnabod dylanwad cadarnhaol Cynghrair Canser Cymru wrth osod cyfeiriad y cynllun a'r rhan bwysig ac effeithiol y mae ei aelodau yn parhau i chwarae ar y bwrdd gweithredu yn herio byrddau iechyd ar eu cynnydd. Mae eu rôl, wrth gwrs, yn mynd ymhell y tu hwnt i herio. Mae'r sefydliadau hyn yn cyflawni gwaith bob dydd yn y rheng flaen, yn darparu gwasanaethau clinigol, yn cefnogi anghenion lles cleifion ac wrth gwrs, yn helpu i arwain gwaith ymchwil arloesol.

Mae proses y cynllun cyflawni yn darparu ar gyfer ymgysylltu agored a thryloyw. Gyda nifer fach o gamau gweithredu allweddol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i gleifion a chyhoeddi perfformiad yn agored ar lefel leol a chenedlaethol, mae'n darparu lefel uwch o dryloywder nag erioed o'r blaen. Mae'n bwysig cydnabod bod y cynllun yn seiliedig ar arweinyddiaeth glinigol gref. Mae'r arweinyddiaeth glinigol honno'n rhan hanfodol o'r grŵp gweithredu.

Gan droi at lle'r ydym yn awr, adrodd stori am gynnydd a wna hanes darparu gwasanaethau cancer yng Nghymru. Mae mwy o bobl yn goroesi cancer nag erioed o'r blaen: mae marwolaethau o ganser wedi gostwng 11% yn y 10 mlynedd diwethaf; o ganlyniad uniongyrchol i gamau gweithredu yn y cynllun cyflawni ar gyfer cancer, rydym wedi gwella cofnodi cam gwneud diagnosis o ganser o 42% i 73%; a bu cynnydd o 5% yng nghyfraddau recriwtio cleifion i dreialon clinigol.

Mae'r cynnydd hyd yn oed yn fwy trawiadol o'i osod yng nghyd-destun y cynnydd sylweddol yn y galw. Dros y 12 mis hyd at fis Gorffennaf 2014, bu cynnydd blynyddol o 18% yn nifer y cleifion a ddechreuai eu triniaeth o fewn yr amser targed o 62 diwrnod. Rydym yn symud i'r cyfeiriad iawn, gyda pherfformiad cryf ar draws ystod eang o ddangosyddion. Pan edrychwch ar fanylion penodol y cynnydd hwnnw yn y galw, mae rhai o'r manylion yn wirioneddol syfrdanol. Er enghraifft, mae atgyfeiriadau cancer bwrdd iechyd Aneurin Bevan wedi cynyddu 118% yn y pedair blynedd diwethaf, ond mae'r bwrdd iechyd wedi cyrraedd y targed 62 diwrnod 34 o weithiau ers mis Gorffennaf 2010 er gwaethaf y cynnydd dramatig yn y galw. Mae'r ffigurau hyn yn dangos hefyd fod yna feddygon teulu sy'n rhagweithiol o ran gwella diagnosis cynnar drwy atgyfeirio ond a fydd yn cydnabod bod mwy i'w wneud.

Gan droi at argymhelliad 1, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad ond rydym yn cydnabod bod ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau cancer yn gyfrifoldeb a rennir. Ni fyddwn yn derbyn sefyllfa lle byddai byrddau iechyd yn aros i rywun ddweud wrthynt os ydynt ar y trywydd iawn ai peidio ac angen gwneud rhywbeth i wella eu perfformiad eu hunain. Dylai cyhoeddi adroddiadau mewn modd tryloyw alluogi gwleidyddion, y trydydd sector a chlinigwyr eu hunain, yn ogystal â chleifion, i herio perfformiad ar bob lefel.

The cancer implementation group currently provides an important national oversight function. That group has itself recognised the need for improved national arrangements to strengthen and streamline clinical leadership, which is currently spread between a number of smaller organisations. I want this new organisational model to be different with a relentless focus on meeting the needs of patients across Wales, and I will monitor achievement in delivering this commitment.

I do need to say something about the individual patient funding request. It was mentioned by a large number of Members. Just to reiterate: the Minister set out in a written statement at the start of November the position of the Government, and that has not changed.

In terms of what we are looking to do, it is important to remember that that position is based upon an expert panel's investigation and consultation to review the IPFR progress. On the point of not having a national panel, part of the challenge, of course, is about the logistics of doing so and whether that would actually provide a greater backlog in decision making and add more time into the process. However, I do recognise that there is a call for greater consistency, and I recognise the issues, for example, highlighted in Kirsty Williams's contribution. That is why there is an enhanced role for the All Wales Therapeutics and Toxicology Centre. We want to see greater consistency in the outcome and use of that process.

Ar hyn o bryd mae'r grŵp gweithredu ar ganser yn darparu swyddogaeth drosolwg genedlaethol bwysig. Mae'r grŵp ei hun wedi yn cydnabod yr angen am well trefniadau cenedlaethol i gryfhau a symleiddio arweinyddiaeth glinigol, sy'n cael ei rhannu ar hyn o bryd rhwng nifer o sefydliadau llai o faint. Rwyf am i'r model sefydliadol newydd fod yn wahanol gyda ffocws di-ildio ar ddiwallu anghenion cleifion ledled Cymru a byddaf yn monitro cyflawniad mewn perthynas â'r ymrwymiad hwn.

Mae angen i mi ddweud rhywbeth am y cais cyllido cleifion unigol. Cafodd ei grybwyll gan nifer fawr o Aelodau. I ailadrodd: mae'r Gweinidog wedi nodi mewn datganiad ysgrifenedig ar ddechrau mis Tachwedd beth yw safbwynt y Llywodraeth, ac nid yw wedi newid.

O ran yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud, mae'n bwysig cofio bod y safbwynt hwnnw wedi'i seilio ar ymchwiliadau ac ymgynghoriadau panel arbenigol i adolygu cynnydd y ceisiadau cyllido cleifion unigol. Mewn perthynas â'r pwynt ynghylch absenoldeb panel cenedlaethol, rhan o'r her wrth gwrs yw logisteg gwneud hynny ac a fyddai hynny mewn gwirionedd yn creu mwy o ôl-groniad o ran gwneud penderfyniadau ac yn ychwanegu mwy o amser at y broses. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod galw am fwy o gysondeb ac rwy'n cydnabod y problemau a ddisgrifiwyd yng nghyfraniad Kirsty Williams, er enghraifft. Dyna pam y mae mwy o rôl i Ganolfan Therapiwteg Cymru a Thocsicoleg Gyfan. Rydym am weld mwy o gysondeb o ran canlyniadau a defnydd o'r broses honno.

15:45

Kirsty Williams [Bywgraffiad Biography](#)

I have huge regard for and huge confidence in the All Wales Medicines Strategy Group and I welcome its enhanced role, but I am still not clear, even with that decision, that leaving individual patient funding requests to different health boards will lead to greater consistency and greater fairness. Could you explain your thinking behind that?

Mae gennyf feddwl mawr o Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan, a hyder mawr ynddo, ac rwy'n croesawu ei rôl ehangach, ond hyd yn oed gyda'r penderfyniad hwnnw, rwy'n dal yn ansicr sut y mae gadael ceisiadau cyllido cleifion unigol i fyrddau iechyd gwahanol benderfynu yn eu cylch yn mynd i arwain at fwy o gysondeb a mwy o degwch. A wnewch chi esbonio'r ystyriaethau sy'n sail i hynny?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:45

Vaughan Gething [Bywgraffiad Biography](#)

Well, the Minister has set this out in detail. What I would say is that the role for the therapeutics and toxicology centre is designed to help introduce greater consistency, which is what we are looking for. You will have also heard that there is a commitment to review what happens in improving the IPFR process to see whether it does meet the aims and objectives that we have set out.

Wel, mae'r Gweinidog wedi nodi hyn yn fanwl. Yr hyn y byddwn i'n ei ddweud yw bod rôl y ganolfan therapiwteg a thocsicoleg wedi ei chynllunio i helpu i gyflwyno mwy o gysondeb, sef yr hyn rydym yn chwilio amdano. Byddwch wedi clywed hefyd fod yna ymrwymiad i adolygu'r hyn sy'n digwydd o ran gwella proses y ceisiadau cyllido cleifion unigol i weld a yw'n bodloni'r nodau a'r amcanion rydym wedi eu nodi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Turning to some of the other points made, I am pleased to note that the committee has recognised that the key worker guidance it called for was actually issued in October 2014 after the report was published. In terms of the point that the Chair made on timescales for responses within 12 months, well, we do want to avoid duplication and I want to assure you that, when that response is provided, it will deal with the specifics of recommendations and points made in the committee's report. So, you will not have a separate process, but it should address the points made by the committee.

Gan droi at rai o'r pwyntiau eraill a wnaed, rwy'n falch o nodi bod y pwyllgor wedi cydnabod bod y canllawiau ar y gweithwyr allweddol y galwodd amdanynt wedi eu cyhoeddi ym mis Hydref 2014 mewn gwirionedd ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. O ran y pwynt a wnaeth y Cadeirydd am amserlenni ar gyfer ymateb o fewn 12 mis, wel, rydym yn awyddus i osgoi dyblygu gwaith ac rwyf am eich sicrhau, pan ddaw'r ymateb hwnnw, y bydd yn delio â manylion argymhellion a phwyntiau a wnaed yn adroddiad y pwyllgor. Felly, ni fyddwch yn cael proses ar wahân ond dylai fynd i'r afael â'r pwyntiau a wnaed gan y pwyllgor.

One of the other points that I think it is worth mentioning is that, in dealing with and addressing cancer, prevention is our first port of call. I note the points made in the committee's report about the screening process and our desire to see it improved. We see a range of studies and information about how changing behaviour—not just smoking but a range of other behaviours, and the Caerphilly study again tells us this—will improve outcomes and avoid people unnecessarily suffering from cancer. However, I also recognise that there are some aspects of people who have cancer where it is simply not about prevention, and I recognise that this Assembly has taken a view on that in the recent past with the asbestos legislation passed following the Member-proposed Bill from my colleague Mick Antoniw.

I want to finish by saying that it is very easy to look at cancer services and talk only about the things that go wrong, the challenges and the problems. I recognise everything that the committee has had to say about consistency, and it is absolutely near the top of my agenda in terms of engagement with health boards and my expectation to see performance improve and to level up consistency on a whole range of services. However, we should not try to forget or airbrush out the reality that the vast majority of patients receive a fantastic level of service, with 89% of cancer patients rating their experience as very good or excellent, rising to 97% when we add in the good category. I want to thank NHS staff for their commitment and effort in driving improvement in cancer services, and I do say that I am proud of our staff and proud of what the NHS continues to deliver day in, day out to the people of Wales.

Yn fy marn i, un o'r pwyntiau eraill sy'n werth ei nodi wrth fynd i'r afael â chanser, yw mai atal yw'r cam cyntaf. Nodaf y pwyntiau a wnaed yn adroddiad y pwyllgor am y broses sgrinio a'n hawydd i'w gweld yn gwella. Gwelwn amrywiaeth o astudiaethau a gwybodaeth ynglŷn â sut y bydd newid ymddygiad—nid ysmegu'n unig ond amrywiaeth o batrymau ymddygiad eraill, ac mae astudiaeth Caerffili unwaith eto'n dweud hyn wrthym—yn gwella canlyniadau ac yn atal pobl rhag dioddef o ganser yn ddiangen. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cydnabod bod rhai agweddau o bobl â chanser lle nad yw'n ymwneud ag atal o gwbl ac rwy'n cydnabod bod y Cynulliad hwn wedi ffurfio barn ar hynny yn y gorffennol agos gyda'r ddeddfwriaeth asbestos a basiwyd yn dilyn Bil arfaethedig Aelod fy nghydweithiwr, Mick Antoniw.

Rwyf am orffen drwy ddweud ei bod yn hawdd iawn edrych ar wasanaethau canser a siarad yn unig am y pethau sy'n mynd o chwith, yr heriau a'r problemau. Rwy'n cydnabod popeth y mae'r pwyllgor wedi ei ddweud am gysondeb ac mae'n agos iawn at frig fy agenda o ran ymgysylltu â byrddau iechyd a'r ffaith fy mod yn disgwyl gweld perfformiad yn gwella a lefel uwch o gysondeb mewn ystod eang o wasanaethau. Fodd bynnag, ni ddylem geisio anghofio neu ystumio'r gwirionedd fod y mwyaf helaeth o gleifion yn cael lefel wych o wasanaeth, gyda 89% o gleifion canser yn graddio eu profiad yn dda iawn neu'n ardderchog, gan godi i 97% wrth ychwanegu'r categori da. Hoffwn ddiolch i staff y GIG am eu hymrwymiad a'u hymdrech yn ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau canser ac rwy'n dweud fy mod yn falch o'n staff ac yn falch o'r hyn y mae'r GIG yn parhau i'w ddarparu ddydd ar ôl dydd i bobl Cymru.

15:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I call on the Chair of the Health and Social Care Committee, David Rees, to reply to the debate.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, David Rees, i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:48 **David Rees** [Bywgraffiad Biography](#)

May I start by echoing the comments that the Deputy Minister finished on? I think that the committee fully supports your views on the hard work and dedication of the staff in our NHS and the work they do to support cancer patients and all patients across the service. May I also thank Members for their contributions today? I will just pick up a couple of their points, if I can.

A gaf i ddechrau drwy adleisio sylwadau terfynol y Dirprwy Weinidog? Credaf fod y pwyllgor yn llwyr gefnogi eich barn am waith caled ac ymroddiad y staff yn ein GIG a'r gwaith y maent yn ei wneud i gefnogi cleifion canser a'r holl gleifion ar draws y gwasanaeth. A gaf i hefyd ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau heddiw? Rwyf am gyfeirio at un neu ddau o'u pwyntiau, os caf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Deputy Minister, I will thank you first of all for your recognition that your report in future will take into consideration the recommendations from the committee in relation to the issues we have raised in our report. It was interesting to see where we are going. The monitoring process in future is going to be greater to ensure that greater consistency, because the one issue that I think most people discussed today, as you said, was consistency. That was a big issue across Wales. I suppose that, on the IPFR panel, which we will come back to, the questions were about the exceptionality criteria and how those were consistent across Wales, but also about how we ensure that clinicians on the different panels have the same criteria to ensure that consistency is applied, so that the circumstances that Kirsty Williams highlighted of her individual constituent do not occur. Therefore, that needs to be looked at very carefully.

Dirprwy Weinidog, diolch i chi yn gyntaf am gydnabod y bydd eich adroddiad yn y dyfodol yn ystyried argymhellion y pwyllgor ynglŷn â'r materion rydym wedi eu codi yn ein hadroddiad. Roedd yn ddiddorol gweld i ble'r ydym yn mynd. Mae'r broses fonitro yn y dyfodol yn mynd i fod yn fwy er mwyn sicrhau mwy o gysondeb, oherwydd rwy'n credu mai'r un mater a drafodwyd fwyaf gan bobl heddiw, fel y dywedasocho, oedd cysondeb. Roedd honno'n broblem fawr ledled Cymru. Ar y panel ceisiadau cyllido cleifion unigol, y down yn ôl ato, mae'n debyg fod y cwestiynau'n ymwneud â'r meini prawf eithriadoldeb a'r modd roeddent yn gyson ar draws Cymru, ond hefyd roeddent yn ymwneud â sut rydym yn sicrhau bod clinigwyr ar y gwahanol baneli â'r un meini prawf i sicrhau cysondeb, fel nad yw'r amgylchiadau y soniodd Kirsty Williams amdanynt yn achos ei hetholwr unigol yn digwydd. Felly, rhaid edrych yn ofalus iawn ar hynny.

Julie Morgan highlighted the single pathway trial going on with the urgent and non-urgent pathways. It is important to recognise that a large proportion of people are diagnosed through the non-urgent pathway, so it is important that we get that process correct and that we try to reduce the waiting times in that area so that we can tackle the whole process equally. I think that that is critical. I am very pleased also that she highlighted the link to clinical trials and the research undertaken, because that was an issue that was raised as a concern, particularly by those who came from Velindre.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:50.

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Congestion occurs; we understand that. We understand that the demand has increased, and the changing demography in Wales identifies that problem. It is also, therefore, important that we are able to ensure that plans are in place to address that increase. Again, it is important that we understand that diagnostics in particular need to be looked at. We recognise the investment by the Welsh Government, and I hope that you are able to give us an indication as to the funding allocations and where those are actually being used to reduce the demands upon the diagnostics service, to increase the speed at which people will get their treatment.

One point, Deputy Minister, on the IPFR—this has not been mentioned by my colleagues, although it might have been: Scotland has actually gone down a slightly different route, and you identified that you will be reviewing the IPFR process after the panel's initial recommendations have been established and are in place. In that intervening period, will you also ask your officials to look at the Scottish model to see whether that is another way that we could look at? That takes a different approach to the exceptionality issue. It may be something that you may want to look at if you are not going to introduce a national panel. I recognise the issues that you identify regarding the national panel—the difficulties of getting everyone together, the logistical problems and all that—but that is something that perhaps you could look at to see whether there is a different way that we could tackle that consistency.

May I, therefore, thank all the Members for the discussions? It is something that we all want to take forward. We are recognising the strides that are being made in Wales. I am on Kirsty's side in this sense: it is not about cross-border or whatever; it is about people here in Wales and that we get it right for people in Wales. For a large proportion, we are, but we want to make sure that we keep going to make sure that that proportion gets bigger. The work that is being proposed, as the Deputy Minister has highlighted, I hope, is a part of the progress that we will see from the Welsh Government in delivering that plan and in delivering care for people in Wales.

Amlygodd Julie Morgan y treial llwybr sengl sydd ar y gweill gyda'r llwybrau brys a'r llwybrau nad ydynt yn rhai brys. Mae'n bwysig cydnabod bod cyfran fawr o bobl yn cael diagnosis drwy'r llwybr nad yw'n llwybr brys, felly mae'n bwysig ein bod yn cael y broses honno gywir a'n bod yn ceisio lleihau'r amseroedd aros yn y maes hwnnw fel y gallwn fynd i'r afael â'r broses gyfan yn gyfartal. Credaf fod hynny'n hanfodol. Rwy'n falch iawn hefyd ei bod wedi tynnu sylw at y cysylltiad â threialon clinigol a'r ymchwil a wnaed, oherwydd roedd hwnnw'n fater pryder a leisiwyd, yn enwedig gan y rhai o Felindre.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:50.

Mae tagfeydd yn digwydd; rydym yn deall hynny. Rydym yn deall bod y galw wedi cynyddu ac mae'r ddemograffeg newidiol yng Nghymru yn nodi'r broblem honno. Felly mae'n bwysig hefyd ein bod yn gallu sicrhau bod cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r cynnydd hwnnw. Unwaith eto, mae'n bwysig ein bod yn deall bod angen edrych ar ddiagnosteg yn benodol. Rydym yn cydnabod y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ac rwy'n gobeithio y gallwch roi syniad i ni o ran y dyraniadau cyllid a lle mae'r rheiny yn cael eu defnyddio mewn gwirionedd i leihau'r galwadau ar y gwasanaeth diagnosteg, er mwyn i bobl gael triniaeth yn gyflymach.

Un pwynt, Ddirprwy Weinidog, am y ceisiadau cyllido cleifion unigol—ni soniodd fy nghydweithwyr am hyn er y gallent fod wedi gwneud: mae'r Alban wedi dilyn trywydd ychydig yn wahanol, a nodwyd gennych y byddwch yn adolygu proses y ceisiadau cyllido cleifion unigol ar ôl i argymhellion cychwynnol y panel gael eu sefydlu a'u rhoi ar waith. Yn y cyfamser, a wnewch chi hefyd ofyn i'ch swyddogion edrych ar fodel yr Alban i weld a yw hwnnw'n ddull arall y gallem edrych arno? Mae'n ddull gwahanol o weithredu eithriadoldeb. Mae'n bosibl ei fod yn rhywbeth y gallech fod eisiau edrych arno os nad ydych yn mynd i gyflwyno panel cenedlaethol. Rwy'n cydnabod y materion rydych yn eu nodi ynghylch y panel cenedlaethol—anawsterau cael pawb at ei gilydd, problemau logistaidd a phopeth—ond mae hynny'n rhywbeth y gallech ei ystyried efallai i weld a oes ffordd wahanol y gallem fynd i'r afael â mater cysondeb.

Felly, a gaf fi ddiolch i'r holl Aelodau am y trafodaethau? Mae'n rhywbeth rydym i gyd yn awyddus i'w ddatblygu. Rydym yn cydnabod y camau sy'n cael eu gwneud yng Nghymru. Rwyf ar ochr Kirsty yn yr ystyr hwn: nid yw'n ymwneud â materion trawsffiniol neu beth bynnag; mae'n ymwneud â phobl yma yng Nghymru a'n bod yn cael pethau'n iawn i bobl yng Nghymru. I gyfran fawr ohonynt, rydym yn gwneud hynny, ond rydym am sicrhau ein bod yn dal i fynd er mwyn gwneud yn siŵr bod y gyfran honno'n tyfu. Gobeithio fod y gwaith sy'n cael ei argymhell, fel y nododd y Dirprwy Weinidog, yn rhan o'r cynnydd y byddwn yn ei weld gan Lywodraeth Cymru o ran cyflwyno'r cynllun hwnnw ac o ran darparu gofal ar gyfer pobl yng Nghymru.

15:52

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to note the Health and Social Care Committee's report. Does any Member object? There is no objection. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I call the next item, may I explain that this is clearly a very important and sensitive subject? I am sure that the debate will be handled in that manner. It is my intention to call everyone who has requested to speak. This means that we will go a little over the allotted time. Will Members have patience? I do not know how most speakers intend to speak, in terms of whether they support the motion or not, so it is going to be a bit difficult to balance in the manner that one would usually do, but everyone will be called.

Cyn i mi alw'r eitem nesaf, a gaf i egluro bod hwn yn amlwg yn bwnc pwysig a sensitif iawn? Rwy'n sicr y bydd y ddadl yn cael ei thrin yn y modd hwnnw. Mae'n fwriad gennyf alw ar bawb sydd wedi gofyn am gael siarad. Mae hyn yn golygu y byddwn yn mynd ychydig dros yr amser penodedig. A gaf i alw ar yr Aelodau i fod yn amyneddgar? Nid wyf yn gwybod sut y mae'r rhan fwyaf o siaradwyr yn bwriadu siarad, pa un a ydynt yn cefnogi'r cynnig ai peidio, felly mae'n mynd i fod ychydig yn anodd cydbwyso fel y byddai rhywun fel arfer yn ei wneud, ond bydd pawb yn cael eu galw.

15:53

Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Y Bil Cymorth i Farw

Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): The Assisted Dying Bill

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Simon Thomas to move the motion.

Galwaf ar Simon Thomas i gynnis y cynnig.

Cynnig NNDM5636 Simon Thomas, Julie Morgan, Mick Antoni, Alun Ffred Jones, Angela Burns

Motion NNDM5636 Simon Thomas, Julie Morgan, Mick Antoni, Alun Ffred Jones, Angela Burns

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn cefnogi egwyddorion y Bil Cymorth i Farw.

Supports the principles of the Assisted Dying Bill.

15:53

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiau y cynnig.

I move the motion.

Dyma yn sicr bwnc sy'n haeddu cael ei drafod ar draws y pleidiau mewn dadl fel hon. Cefndir mwyaf diweddar y drafodaeth i mi yw achos Tony Nicklinson, dyn a oedd wedi cael ei barlysu gan waedlif ar yr ymennydd ac a frwydrodd yn y llysoedd i roi hawl i'w feddyg i'w gynorthwyo i'w ladd heb beryg o achos llys yn ei erbyn. Nid oedd Mr Nicklinson yn gallu teithio i'r Swistir, fel y gwna rai. Roedd wedi ei gaethiwo yn llwyr. Dyfarniad y llysoedd oedd mai penderfyniad y Senedd oedd newid y gyfraith yn yr achos hwn, ac nid eiddo'r llysoedd. Bu Mr Nicklinson farw o fewn wythnos i'r dyfarniad ar ôl gwrthod derbyn bwyd, sef rhywbeth a berodd loes i'w deulu.

This is certainly an issue that deserves to be discussed across party lines in a debate such as this. The most recent background for this for me is the case of Tony Nicklinson, a man paralysed by a brain haemorrhage and who battled in the courts to give his doctor the right to assist him to die without being at risk of a court case. Mr Nicklinson was not able to travel to Switzerland, as some do. He was completely locked-in. The court ruling was that changing the law in this case was a matter for Parliament, and not for the courts. Mr Nicklinson died within a week of the ruling after refusing to take food, which caused pain to his family.

Rwy'n cytuno'n llwyr â barnwyr mai penderfyniad Senedd yw newid y gyfraith, a phenderfyniad Senedd San Steffan ydyd hefyd yn ôl y setliad cyfansoddiadol presennol. Fodd bynnag, gan fod y fath drafodaeth a newid cyfraith mor hanfodol i'n cymdeithas, yn effeithio mor drwm ar ein moeseg, ac â chymaint o oblygiadau i'n gwasanaeth iechyd a'n gofal lliniarol ni, mae hefyd yn dra phwysig ein bod ni, fel Senedd Cymru, yn trafod yr egwyddorion.

I completely agree with the judges that to change the law is a decision for Parliament, and it is a decision of the Westminster Parliament according to the current constitutional settlement. However, because such a debate changes a law that is so crucial to our society, impacting so heavily on our ethics, with so many implications for our health service and palliative care system, it is also very important that we, as a Welsh Parliament, discuss these principles.

Wrth ymateb i'r sefyllfa bresennol, mae'r Arglwydd Falconer wedi cyflwyno Bil o flaen Tŷ'r Arglwyddi. Bil Cymorth i Farw ydyw. Mae'r cynnig heddiw yn trafod y Bil hwnnw a'r egwyddorion yn unig. Gwn y bydd rhai Aelodau o bosibl am drafod materion ehangach na'r Bil. Dyna'r cyfle a roddir gan ddadleuon fel hon, ond mae'r cynnig a'r bleidlais heddiw yn glir.

Felly, beth mae'r Bil Cymorth i Farw yn cynnig? Mae'n gymwys yn unig i glaf sy'n wynebu afiechyd marwol gyda rhagolwg o fyw am chwe mis neu'n llai. Byddai'n rhaid i ddau feddyg ar wahân gytuno â hwn a hefyd byddai'n rhaid bod gan y claf y gallu meddyliol i benderfynu, gwybodaeth lawn am y dewisiadau o'i flaen neu o'i blaen, gan gynnwys gofal lliniarol, a'r gallu i benderfynu yn wirfoddol a heb bwysau arno neu arni. Yn ogystal, bydd yn rhaid cael cydsyniad barnwr Uchel Lys bod y claf wedi dod i benderfyniad clir a chytbwys. Wedi cyfnod i ystyried, byddai modd i'r claf dderbyn moddion i ddod â'i fywyd neu ei bywyd i ben, a gwneud hynny ei hunan.

Nid yw'r Bil, felly, yn cynnig ewthanasia llawn, fel y ceir yng Ngwlad Belg neu'r Iseldiroedd, na chymorth i hunanladdiad. Yn hytrach, mae wedi modelu ar y gyfraith sydd wedi bodoli ers 17 blynedd yn nhalaith Oregon ac sydd wedi ymestyn yn ddiweddar i Washington a Vermont yn yr Unol Daleithiau. Nid yw'r gyfraith honno wedi arwain at alwadau pellach i lacio'r rheolau neu newid y drefn.

All too often, this debate is set up between those who advocate good palliative care and those who support assisted dying. Let us look at it from another perspective. The purpose of good law should be to empower the individual to control their lives as much as possible. Sometimes, a good death is talked about. I prefer to talk about a good life. We need to allow and support people to have as much control of their exit as they have had over the rest of their lives. When we do that, we see some astonishing things. In Oregon, for example, in practice, only a very small number of patients go on to have an assisted death: fewer than 80 in total last year out of the annual 30,000 deaths. Eighty out of 30,000 chose this option. Around 40% of dying people who meet the strict safeguards to obtain life-ending medication never actually use it. They simply take comfort from having the option. The law has worked well and safely there, and it has not led to a slippery slope. There has been no change in the law for 17 years, and no call for further change.

Already in the UK, some 25 to 30 people a year choose to travel abroad for assisted death. Assistance for these people to achieve their wish has been effectively decriminalised by director of public prosecutions guidelines. Yet, do the same in Wales as you would for your partner in, say, a Dignitas clinic in Switzerland, and you run the risk of prosecution.

I hope that Members will take the opportunity, if they have not already done so, to listen to the third Reith lecture that was given yesterday by Atul Gawande, a Harvard surgeon and professor. This is how he puts it.

In responding to the current situation, Lord Falconer has introduced a Bill in the House of Lords—the Assisted Dying Bill. Today's motion discusses that Bill and the principles contained therein only. I know that some Members may wish to discuss broader issues. That is the opportunity provided by debates such as this, but the motion and the vote today are clear.

So, what does the Assisted Dying Bill propose? It applies only to a patient facing a terminal illness with a prognosis of six months or less. Two different doctors would have to agree on this and also the patient would have to have the mental capacity to decide, full information about the options available, including palliative care, and the ability to make a voluntary decision, free of pressure. In addition, there would have to be High Court judicial consent that the patient had reached a clear and settled decision. After a period of reflection, the patient could then receive medication to bring his or her life to an end, and to do that him or herself.

The Bill, therefore, does not propose full euthanasia, as provided in Belgium or the Netherlands, or assisted suicide. Rather, it is modeled on the law that has existed for 17 years in the state of Oregon and which has been extended recently to Washington and Vermont in the United States. That law has not led to further demands to relax the rules or to change the system.

Yn rhy aml, dadl yw hon rhwng y rhai sy'n hyrwyddo gofal lliniarol da a'r rhai sy'n cefnogi cymorth i farw. Gadewch i ni edrych arno o safbwynt arall. Pwrpas cyfraith dda yw rhoi grym i'r unigolyn reoli ei fywyd cymaint â phosibl. Weithiau, sonnir am farwolaeth dda. Mae'n well gen i siarad am fywyd da. Mae angen i ni gynorthwyo pobl a'u caniatáu i gael cymaint o reolaeth dros adael eu bywydau ag a gawsant dros weddill eu bywydau. O wneud hynny, gwelwn rai pethau rhyfeddol. Yn Oregon, er enghraifft, yn ymarferol, dim ond nifer fach iawn o gleifion sy'n mynd ymlaen i gael cymorth i farw: llai na 80 i gyd y llynedd allan o'r 30,000 sy'n marw bob blwyddyn. Dewisodd 80 allan o 30,000 yr opsiwn hwn. Ni fydd tua 40% o'r bobl sy'n marw ac sy'n bodloni'r mesurau diogelwch llym ar gyfer cael meddyginaeth i ddod â bywyd i ben byth yn ei ddefnyddio. Cânt gysur o gael y dewis. Mae'r gyfraith wedi gweithio'n dda ac yn ddiogel yno, ac nid yw wedi arwain at lethr llithrig. Ni fu unrhyw newid yn y gyfraith ers 17 mlynedd ac ni fu galw am newid pellach.

Eisoes yn y DU, mae tua 25 i 30 o bobl y flwyddyn yn dewis teithio dramor i gael cymorth i farw. Mae cymorth i'r bobl hyn gael eu dymuniad wedi cael ei ddad-droseddoli i bob pwrpas yng nghanllawiau'r cyfarwyddwr erlyniadau cyhoeddus. Eto i gyd, os gwnewch yr un peth yng Nghymru ag y byddech yn ei wneud er mwyn eich partner mewn clinig Dignitas yn y Swistir, dyweder, rydych yn wynebu risg o gael eich erlyn.

Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n manteisio ar y cyfle, os nad ydynt wedi gwneud hynny'n barod, i wrando ar drydedd ddarlith Reith a roddwyd ddoe gan Atul Gawande, llawfeddyg o Harvard ac athro prifysgol. Dyma sut y mae'n ei fynegi.

'We have had, I think, an about 50-year experiment with medicalising mortality, with casting it as just another problem for us to treat like any other, and I think that experiment is failing, but we have an alternative emerging. It's one where we learn and elicit what matters most to people in their lives, besides just surviving.'

He points to evidence of how a patient's control over his or her treatment can lead to better outcomes in alleviating suffering. The most high-profile, recent example of this in the United Kingdom was Lynda Bellingham, of course.

He reminds us that 60% of our population will die in hospitals and 80% in institutions of some kind—a remarkable change from the 1950s, when the majority of people died in their homes, surrounded by their families. Many say that this is precisely the task of good palliative care, and that is undoubtedly the case for the vast majority of people facing terminal illness. However, palliative care does not alleviate suffering for everyone, nor does it give some the choice that they desire. Legal assisted dying complements palliative care, encourages open discussions around end-of-life care, increases investment in end-of-life care and uptake of training by healthcare professionals. That has been shown by research by the Economist Intelligence Unit, which ranked end-of-life care across the world and found that debate and legislation on assisted dying were a catalyst for improved end-of-life care services. This is not an either/or situation, and this is also why we should be debating this in the Assembly, although it is a matter for the Westminster Parliament. It has a great effect, potentially, on our NHS.

The truth is that the current law is inadequate. It does not deter illegal assistance and places both professionals and friends and family members of dying people in a terrible position. Surveys between 2010 and 2014 have consistently found that between 75% and 80% of adults would support assisted dying for terminally ill adults, but not, however, voluntary euthanasia.

I am sure that many Members will have received scores of e-mails around this debate. I want to share just one story from a previous resident of my own region. Bob Cole's wife, Ann, became ill with a degenerative palsy last year. Both of them had been very active in Blaenau Ffestiniog and were well-known in that community. Faced with a terminal disease, she took the decision to join Dignitas and, this February, accompanied by her husband, family and friends, she ended her life in Switzerland—at a cost, incidentally, of £8,000, which also means that the current tolerance of such arrangements is fundamentally unjust for those who cannot afford it. As Atul Gawande put it in his Reith lecture yesterday, when faced with unavoidably unbearable suffering it is 'heartless' to think that we might not offer the option of assisted dying. Bob's e-mail to me concluded: 'I would urge you to do your utmost to make sure that Wales supports this important and humanitarian piece of legislation.'

'Rwy'n meddwl ein bod wedi cael arbrawf tua 50 mlynedd o hyd yn meddyginiaethu marwolaeth, drwy ei darlunio fel dim ond problem i ni ei thrin fel unrhyw broblem arall ac rwy'n credu bod yr arbrawf hwnnw'n methu, ond mae gennym ddewis arall sy'n dod i'r amlwg. Mae'n un lle rydym yn dysgu ac yn mynd i wraidd yr hyn sydd bwysicaf i bobl yn eu bywydau, ar wahân i ddim ond goroesi.'

Mae'n cyfeirio at dystiolaeth ar sut y gall rheolaeth claf dros ei driniaeth arwain at ganlyniadau gwell i leddfu dioddefaint. Yr enghraifft ddiweddar fwyaf amlwg o hyn yn y Deyrnas Unedig oedd achos Lynda Bellingham, wrth gwrs.

Mae'n ein hatgoffa y bydd 60% o'n poblogaeth yn marw mewn ysbytai ac 80% mewn sefydliadau o ryw fath—newid rhyfeddol o'r 1950au, pan oedd y rhan fwyaf o bobl yn marw yn eu cartrefi gyda'u teuluoedd o'u cwmpas. Mae llawer yn dweud mai dyma'n union yw gorchwyl gofal lliniarol da ac mae hynny'n bendant yn wir i'r mwyafrif llethol o bobl sy'n wynebu salwch terfynol. Fodd bynnag, nid yw gofal lliniarol yn lleddfu dioddefaint pawb ac nid yw'n rhoi'r dewis y mae rhai yn ei ddymuno. Mae cymorth cyfreithiol i farw yn ategu gofal lliniarol, yn annog trafod agored ynghylch gofal diwedd oes, yn cynyddu buddsoddiad mewn gofal diwedd oes a'r nifer o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n manteisio ar hyfforddiant. Dangoswyd hynny gan ymchwil Uned Wybodaeth yr Economist, a oedd yn graddio gofal diwedd oes ar draws y byd ac a welodd fod trafodaeth a deddfwriaeth ynghylch cymorth i farw yn gatalydd i wella gwasanaethau gofal diwedd oes. Nid sefyllfa naill ai/neu yw hon, a dyma hefyd pam y dylem fod yn trafod hyn yn y Cynulliad, er mai mater i Senedd San Steffan ydyw. Mae posibilrwydd y gallai effeithio'n fawr ar ein GIG.

Y gwir yw bod y gyfraith bresennol yn annigonol. Nid yw'n atal cymorth anghyfreithlon ac mae'n rhoi gweithwyr proffesiynol a ffrindiau ac aelodau o deuluoedd pobl sy'n marw mewn sefyllfa ofnadwy. Gwelodd arolygon cyson rhwng 2010 a 2014 y byddai rhwng 75% a 80% o oedolion yn cefnogi cymorth i farw ar gyfer oedolion â salwch terfynol, ond ni fyddent yn cefnogi ewthanasia gwirfoddol.

Rwy'n sicr y bydd llawer o Aelodau wedi cael llun o negeseuon e-bost ynglŷn â'r ddatl hon. Rwyf am rannu un stori am rywun a arferai fyw yn fy rhanbarth fy hun. Dechreuodd gwraig Bob Cole, Ann, ddioddef o barlys dirywiol y llynedd. Roedd y ddau ohonynt wedi bod yn weithgar iawn ym Mlaenau Ffestiniog ac yn adnabyddus yn y gymuned honno. A hithau'n dioddef o glefyd terfynol, penderfynodd ymuno â Dignitas a'r mis Chwefror hwn, yng nghwmni ei gwŵr, ei theulu a'i ffrindiau, daeth â'i bywyd i ben yn y Swistir—am gost, gyda llaw, o £8,000, sydd hefyd yn golygu bod y goddefgarwch presennol tuag at drefniadau o'r fath yn sylfaenol anghyfiawn i'r rhai na allent eu fforddio. Fel y dywedodd Atul Gawande yn ei ddarlith Reith ddoe, wrth wynebu dioddefaint annioddefol na ellir ei osgoi mae'n 'greulon' meddwl na allwn gynnig cymorth i farw fel dewis. Gorffennodd Bob ei e-bost ataf gyda hyn: 'Byddwn yn eich annog i wneud eich gorau glas i sicrhau bod Cymru yn cefnogi'r ddeddfwriaeth bwysig a dyngarol hon.'

It is in response to experiences, stories and simple appeals to humanity like that that I bring forward this motion and ask our own national parliament to support dignity and personal choice in dying.

Mewn ymateb i brofiadau, straeon ac apeliadau syml fel hyn at ddyngarwch rwy'n cyflwyno'r cynnig hwn ac yn gofyn i'n senedd genedlaethol ein hunain gefnogi urddas a dewis personol wrth farw.

16:01

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome this debate in the Senedd. I think that it is one of the important topics of the day that we ought to be discussing. I have to say that I approach it after much soul-searching and a great deal of consideration of the matter in hand. I have no doubt that those who argue in support of assisted dying do so from a noble viewpoint of compassion and wanting to relieve suffering for the terminally ill. No-one in this Chamber, I am sure, would want to see a fellow human being suffer, but is support for this particular Bill on assisted dying the best way to secure such relief? I am not convinced that it is. Can the law ever, in fact, provide for sufficient safeguards to prevent unintended consequences from such a law? I do not think that it can. What about those who suffer but are not terminally ill, or those who perhaps lack the competency to make their own decisions, such as children or those with dementia? Would a law in this area perhaps open up the door to extensions of its provisions to them? I think that, eventually, it is likely that it would.

Why is it that I have drawn these conclusions? First, it is because of my experience of the palliative care movement in this country. I believe that the debate surrounding this issue helps us to highlight the importance of the need for high-quality, dignified care for terminally ill people. Britain, of course, was the founder of the modern hospice movement, and Wales can be proud of its place as a world leader in palliative care. Many Assembly Members will have visited hospices or seen hospice-at-home services operating in their own constituencies. Some, like me, will have seen their own loved ones pass away after being cared for in such settings. Good palliative care provides an opportunity for the terminally ill to die with dignity and with relief from pain and discomfort. Given this, it is no wonder that the vast majority of UK doctors, when polled, are opposed to assisted dying, as are the British Medical Association, the Royal College of Physicians, the Royal College of General Practitioners and, of course, the Association for Palliative Medicine. There has also been opposition, of course, from third sector palliative care professionals, such as Marie Curie Cancer Care.

Croesawaf y ddatl hon yn y Senedd. Rwy'n credu ei fod yn un o'r pynciau cyfoes pwysig y dylem fod yn eu trafod. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn edrych arno ar ôl llawer o feddwl dwys a chryn dipyn o ystyried ar y mater. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth fod y rhai sy'n dadlau o blaid cymorth i farw yn gwneud hynny o safbwynt aruchel o dosturi ac awydd i leddfu dioddefaint y sawl sy'n dioddef o salwch terfynol. Ni fyddai neb yn y Siambr hon, rwy'n sicr, am weld ei gyd-ddyn yn dioddef, ond ai cefnogi'r Bil penodol hwn ar gymorth i farw yw'r ffordd orau i sicrhau bod dioddefaint o'r fath yn cael ei leddfu? Nid wyf yn argyhoeddedig o hynny. A all y gyfraith, mewn gwirionedd, fyth ddarparu mesurau diogelu digonol i atal canlyniadau anfwriadol deddf o'r fath? Nid wyf yn credu y gall. Beth am y rhai sy'n dioddef ond nad ydynt yn angheuol wael, neu'r rhai sydd efallai heb gymhwysedd i wneud eu penderfyniadau eu hunain, fel plant neu bobl â dementia? A fyddai deddf o'r fath o bosibl yn agor y drws ar estyn ei darpariaethau i'w cynnwys hwy? Credaf ei bod yn debygol y gwnâi, yn y pen draw.

Pam y deuthum i'r casgliadau hyn? Yn gyntaf, oherwydd fy mhrofiad o'r mudiad gofal lliniarol yn y wlad hon. Credaf fod y ddatl ynghylch y mater yn ein helpu i dynnu sylw at bwysigrwydd yr angen am ofal urddasol o ansawdd uchel i bobl â salwch terfynol. Prydain, wrth gwrs, oedd sylfaenydd y mudiad hosbisau modern, a gall Cymru fod yn falch o'i lle fel arweinydd byd ym maes gofal lliniarol. Bydd llawer o Aelodau'r Cynulliad wedi ymweld â hosbisau neu wedi gweld gwasanaethau hosbis yn y cartref yn gweithredu yn eu hetholaethau eu hunain. Bydd rhai, fel fi, wedi gweld eu hanwyliaid eu hunain yn marw ar ôl cael gofal mewn sefydliadau o'r fath. Mae gofal lliniarol da yn rhoi cyfle i bobl â salwch terfynol i farw gydag urddas a rhyddhad rhag poen ac anghysur. O ystyried hyn, nid yw'n syndod fod y mwyafrif helaeth o feddygon y DU, pan holwyd iddynt, yn gwrthwynebu cymorth i farw, fel y mae Cymdeithas Feddygol Prydain, Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ac, wrth gwrs, y Gymdeithas Feddygaeth Liniarol. Cafwyd gwrthwynebiad hefyd, wrth gwrs, o du gweithwyr gofal proffesiynol trydydd sector, megis Gofal Canser Marie Curie.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Providing improved access to such care is surely a better hallmark of civilised society, and a better response to this debate than the provisions in Lord Falconer's legislative proposals. Secondly, making laws in this area is riddled with difficulty and is likely to lead to unintended consequences. In Washington, in the United States, where similar laws on assisted suicide are already in place, surveys suggest that more than 60% of those who choose to end their lives do so for fear of being a financial, emotional or care burden upon others. Of course, we must remember that suicidal thoughts and intent are often fluctuating and are rarely fixed. The Royal College of Psychiatrists, back in 2006, observed that studies of the terminally ill showed that depression is strongly associated with a desire for hastened death and that, once depression is effectively treated, in excess of 98% of people change their minds about wanting to die.

Research in Oregon, which has legalised assisted suicide, has established that around a quarter of those seeking to end their life are clinically depressed. So, it is surprising that Lord Falconer's proposals do not require an assessment by a mental health professional as part of the decision-making process on assisted dying. Instead, there are proposals for two doctors to certify that someone should be eligible and that assisted suicide should proceed. Of course, in Oregon, where there is a similar two-doctor rule, the phenomenon of doctor-shopping has appeared, whereby patients whose requests are denied initially by a clinician simply look and shop around for another doctor who will agree to support their request.

Yn bendant, mae darparu gwell mynediad at ofal o'r fath yn nodwedd well o gymdeithas wâr ac yn ymateb gwell i'r ddadl hon na'r darpariaethau yng nghynigion deddfwriaethol yr Arglwydd Falconer. Yn ail, mae gwneud cyfreithiau yn y maes yn frith o anawsterau ac yn debygol o arwain at ganlyniadau anfwriadol. Yn Washington, yn yr Unol Daleithiau, lle mae cyfreithiau tebyg ar hunanladdiad â chymorth eisoes mewn grym, mae arolygon yn awgrymu bod mwy na 60% o'r rhai sy'n dewis rhoi diwedd ar eu bywydau yn gwneud hynny am eu bod ofn mynd yn faich ar erail yn ariannol, yn emosïynol, neu o ran gofal. Wrth gwrs, rhaid i ni gofio bod meddyliau am hunanladdiad a bwriadau i gyflawni hunanladdiad yn aml yn amrywio ac yn anaml yn sefydlog. Gwelodd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, yn ôl yn 2006, fod astudiaethau o bobl â salwch terfynol yn dangos bod cysylltiad cryf rhwng iselder ac awydd i gyflymu marwolaeth ac ar ôl trin yr iselder, mae mwy na 98% o bobl yn newid eu meddyliau ynglŷn â bod eisiau marw.

Mae ymchwil yn Oregon, sydd wedi cyfreithloni hunanladdiad â chymorth, wedi canfod bod tua chwarter y rhai sydd eisiau rhoi diwedd ar eu bywydau yn dioddef o iselder clinigol. Felly, mae'n syndod nad yw cynigion yr Arglwydd Falconer yn galw am asesiad gan weithiwr iechyd proffesiynol yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch cymorth i farw. Yn lle hynny, ceir argymhellion y dylai dau feddyg ardystio y dylai rhywun fod yn gymwys ac y dylid caniatáu hunanladdiad â chymorth. Wrth gwrs, yn Oregon, lle ceir rheol debyg yn galw am ddau feddyg, mae ffenomen siopa am feddygon wedi ymddangos, lle bydd cleifion y gwrthodwyd eu ceisiadau yn wreiddiol gan glinigydd yn mynd ati'n syml i chwilio am feddyg arall a fydd yn cytuno i gefnogi eu cais.

16:05 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:05 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am afraid I will not have time.

Rwy'n ofni na fydd gennyf amser.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The doctors often find that they have a very short relationship with their patients and a limited knowledge of them and their circumstances. There is no requirement also for the clinicians to have any specialist knowledge of the patient's condition or of palliative care. In addition, the definition of 'terminally ill' in Lord Falconer's Bill is that a patient is expected to die within six months, and that in itself is also very difficult for clinicians to predict. One in four in Oregon says that they are not confident enough to determine a six-month life expectancy. Data actually show that, even of those patients who have been given a prescription for lethal medication, many of them have lived for two and a half years or more. In fact, one Oregon resident, Jeanette Hall, who was diagnosed with cancer and told that she had six months to live, decided to take Oregon's option of ending her life but was persuaded by her clinician to undergo treatment instead, and she is still alive some 14 years later. How many patients in Wales might miss out on valuable time with their loved ones should assisted suicide be legalised and situations like that occur here?

Mae'r meddygon yn aml yn canfod mai perthynas fer sydd ganddynt gyda'u cleifion a gwybodaeth gyfyngedig amdanynt a'u hamgylchiadau. Nid oes unrhyw ofyniad ychwaith i glinigwyr gael unrhyw wybodaeth arbenigol am gyflwr y claf na gofal lliniarol. Yn ogystal, y diffiniad o 'salwch terfynol' ym Mil yr Arglwydd Falconer yw bod disgwyl i'r claf farw o fewn chwe mis, ac mae hynny hefyd ynddo'i hun yn anodd iawn i glinigwyr ei ragweld. Mae un o bob pedwar meddyg yn Oregon yn dweud nad ydynt yn ddigon hyderus i bennu disgwyliad oes o chwe mis. Hyd yn oed o blith y cleifion sydd wedi cael presgripsiwn ar gyfer meddyginiaeth angheuol, mae data yn dangos mewn gwirionedd fod llawer ohonynt wedi byw am ddwy flynedd a hanner neu fwy. Yn wir, dewisodd un o drigolion Oregon, Jeanette Hall, a oedd wedi cael diagnosis o ganser ac a oedd wedi cael gwybod mai dim ond chwech mis oedd ganddi i fyw, gymryd opsiwn Oregon o roi diwedd ar ei hoes. Cafodd ei pherswadio gan ei chlinigydd i gael triniaeth yn lle hynny, ac mae hi'n dal yn fyw tua 14 mlynedd yn ddiweddarach. Faint o gleifion yng Nghymru a allai golli amser gwerthfawr gyda'u hanwyliaid pe bai hunanladdiad â chymorth yn cael ei gyfreithloni a sefyllfaedd felly yn digwydd yma?

The third concern is about a slippery slope.

Mae'r trydydd pryder yn ymwneud â llethr llithrig.

16:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

You must be quick.

Mae'n rhaid i chi fod yn gyflym.

16:06 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will be quick, Deputy Presiding Officer.

Byddaf yn gyflym, Ddirprwy Lywydd.

The third concern I have is about the potential for a slippery slope. Surely, the argument for giving a right to die to some people in society should be extended, if the argument is taken further, to other individuals, including children and perhaps those who are not competent to make such decisions for themselves. That is precisely what has happened in other parts of Europe. We see in the Netherlands, for example, it now being permissible for a doctor to euthanise a newborn baby that is disabled with the justification of preventing suffering. I do not want us to go down that route and that is why I am very pleased to see Members of the House of Lords from Wales championing the cause against this Bill. I would urge every Member of this Assembly to support their efforts.

Mae'r trydydd pryder sydd gennyf yn ymwneud â'r posibilrwydd o lethr llithrig. Os eir â'r ddatl ymhellach, mae'n siŵr y dylid ymestyn y ddatl dros roi hawl i farw i rai pobl mewn cymdeithas i gynnwys unigolion eraill, yn cynnwys plant a rhai nad ydynt yn gymwys i wneud penderfyniadau o'r fath drostynt eu hunain o bosibl. Dyna'n union a ddigwyddodd mewn rhannau eraill o Ewrop. Gwelwn yn yr Iseldiroedd, er enghraifft, fod caniatâd bellach i feddyg gyflawni ewthanasia ar faban newydd-anedig sy'n anabl gan gyfiawnhau'r weithred drwy honni ei fod yn rhwystro dioddefaint. Nid wyf am i ni fynd i lawr y llwybr hwnnw, a dyna pam rwy'n falch iawn o weld Aelodau Tŷ'r Arglwyddi o Gymru yn hyrwyddo'r achos yn erbyn y Bil hwn. Byddwn yn annog pob Aelod o'r Cynulliad i gefnogi eu hymdrechion.

16:07 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

This is one of the most difficult and sensitive debates that I have participated in since I became an Assembly Member. It relates to a legislative debate that has commenced in the House of Lords on what is the most fundamental of issues and one that affects us all, our constituents and our society, namely the right to life, the alleviation of suffering, and the right of an individual to die in dignity and to exercise control over their own life. The debate requires consideration and respect for some of the most fundamental ethical and moral principles that govern how we protect the sanctity of life, while doing all we can to prevent suffering.

Dyma un o'r trafodaethau anoddaf a mwyaf sensitif i mi gymryd rhan ynddi ers i mi ddod yn Aelod o'r Cynulliad. Mae'n ymwneud â dadl ddeddfwriaethol a ddechreuodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar y mwyaf sylfaenol o faterion ac un sy'n effeithio ar bob un ohonom, ein hetholwyr a'n cymdeithas, sef yr hawl i fywyd, lleddfu dioddefaint a hawl unigolyn i farw gydag urddas ac i arfer rheolaeth dros ei fywyd ei hun. Mae'r ddatl yn gofyn am ystyriaeth a pharch tuag at rai o'r egwyddorion moesegol a moesol mwyaf sylfaenol sy'n rheoli'r modd y diogelwn sancteiddrwydd bywyd gan wneud popeth yn ein gallu i atal dioddefaint.

We have all received many representations on the issues raised by this debate. I welcome all those that I have personally received, a number of which have led to positive, informative and often illuminating discussions. I think this is because we all recognise that, whatever our various views, this is an important, albeit intensely complex, debate that is long overdue and needs to take place. It is right that in Wales we should have this debate in order to express our views and those of our constituents.

Rydym i gyd wedi cael llawer o ohebiaeth ynghylch y materion y mae'r ddatl hon yn eu gwyntyllu. Rwy'n croesawu'r holl rai a gefais i'n bersonol ac mae nifer ohonynt wedi arwain at drafodaethau cadarnhaol, llawn gwybodaeth a dadlennol yn aml. Rwy'n credu mai'r rheswm am hyn yw ein bod i gyd yn cydnabod bod hon yn ddatl bwysig beth bynnag yw ein gwahanol safbwyntiau, ac er ei bod yn hynod o gymhleth, mae'n hen bryd i ni ei chael ac mae angen ei chlywed. Mae'n iawn i ni gael y ddatl hon yng Nghymru er mwyn i ni fynegi ein safbwyntiau a barn ein hetholwyr.

Most of us will have our own experiences of close family members who, in their final weeks and months, despite all the wonderful palliative care and support available, and the best medication and medical intervention, nevertheless suffered an unpleasant, undignified and painful death. The questions raised by the Bill are: should an individual have the right in particular circumstances to seek and obtain support in bringing their life to a dignified end, and is it socially desirable and possible to legislate to achieve this? The Bill provides for a person who is terminally ill, that is, someone who has an illness that is irreversible and likely to lead to death within six months, and who has a clear intention to end their life, to be assisted in achieving this.

The Bill as amended in the House of Lords on 7 November provides for a signed declaration by the individual witnessed not only by an independent person and doctors, but also by a family division judge. This provides a level of protection similar to that adopted in Oregon and some other states in the USA that allow assisted dying.

The more I read and think about this legislation, the more I realise how complicated and difficult it is. In principle, I support the right of an individual in these circumstances to bring their life to a dignified end. My support for this principle arises from my own experience with the death of my father a couple of years ago, and I am sure that many others have had similar experiences.

However, while I am sympathetic to the Bill's principles, I am not yet wholly convinced that it is possible to introduce the proposed legislation without there being serious social and ethical consequences. One of my concerns is whether it undermines the challenge, respect and commitment that we have as a society to look after our elderly, those with illness and disease, and those in suffering. Are we able to achieve this without a move away from protecting life towards an easier, utilitarian culture, perhaps epitomised by a diminution of respect for the elderly in society and even among the elderly themselves? How might such a change impact on the role and morale of doctors, nurses and carers, who are committed to preserving life and the wellbeing of the elderly, infirm and vulnerable? How might the way that they are perceived in society be changed and possibly undermined? That is the conundrum facing us. So, it is right that we have this debate. However, to support this legislation, we have to be wholly and unequivocally convinced that the rights of the individual are not outweighed by the potentially adverse consequences to broader society. So, although I have put my name to this motion to enable this debate to take place, I have to say that I am not yet so convinced, and, while that uncertainty remains, I feel it necessary on this occasion to vote against the motion.

Bydd y rhan fwyaf ohonom wedi cael ein profiadau ein hunain o aelodau agos o'r teulu yn ystod eu hwythnosau a'u misoedd olaf sy'n dioddef marwolaeth annymunol, anurddasol a phoenus er gwaethaf yr holl ofal lliniarol a chymorth gwych sydd ar gael a'r feddyginiaeth a'r ymyrraeth feddygol orau. Y cwestiynau y mae'r Bil yn eu codi yw'r rhain: a ddylai unigolyn gael yr hawl mewn amgylchiadau penodol i geisio a chael cefnogaeth i ddod â'i fywyd i ben yn urddasol, ac a yw'n dymunol yn gymdeithasol ac yn bosibl deddfu i gyflawni hyn? Mae'r Bil yn darparu y dylai unigolyn â salwch terfynol, hynny yw, rhywun sydd â salwch sy'n anwrthdroadwy ac yn debygol o arwain at farwolaeth o fewn chwe mis, ac sydd â bwriad clir o roi diwedd ar ei fywyd, gael cymorth i gyflawni hyn.

Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 7 Tachwedd yn darparu y dylid cael datganiad wedi'i lofnodi gan yr unigolyn gydag unigolyn annibynnol a meddygon yn dystion, yn ogystal â barnwr o'r adran deulu. Mae hyn yn sicrhau lefel o ddiogelwch debyg i'r hyn a fabwysiadwyd yn Oregon a rhai taleithiau eraill yn yr Unol Daleithiau sy'n caniatáu cymorth i farw.

Po fwyaf y darllenaf ac y meddyliaf am y ddeddfwriaeth hon, y mwyaf rwy'n sylweddoli pa mor gymhleth ac anodd yw hi. Mewn egwyddor, rwy'n cefnogi hawl unigolyn yn yr amgylchiadau hyn i ddod â'i fywyd i ben yn urddasol. Mae fy nghefnogaeth i'r egwyddor hon yn deillio o fy mhrofiad fy hun gyda marwolaeth fy nhad ychydig o flynyddoedd yn ôl ac rwy'n siŵr bod llawer o bobl eraill wedi cael profiadau tebyg.

Fodd bynnag, er fy mod cydymdeimlo ag egwyddorion y Bil, nid wyf yn gwbl argyhoeddedig ei bod yn bosibl cyflwyno'r ddeddfwriaeth arfaethedig heb fod iddi ganlyniadau cymdeithasol a moesegol difrifol. Un pryder sydd gennyf yw a fyddai'n tansellio'r her, y parch a'r ymrwymiad sydd gennym fel cymdeithas i ofalu am ein pobl hŷn, pobl sy'n dioddef salwch ac afiechyd, a'r rhai sy'n wynebu dioddefaint. A allwn gyflawni hyn heb symudiad oddi wrth warchod bywyd tuag at ddiwylliant iwtilitaraidd, haws, a gynrychiolir efallai gan leihad yn y parch tuag at bobl hŷn yn y gymdeithas a hyd yn oed ymhlith yr henoed eu hunain? Sut y gallai'r fath newid effeithio ar rôl a morâl meddygon, nyrsys a gofalwyr, sydd wedi ymrwymo i ddiogelu bywyd a lles yr oedrannus, y methodig a phobl agored i niwed? Sut y gallai'r ffordd y mae cymdeithas yn synied amdanynt newid, a'i thanseilio o bosibl? Dyna'r penbleth sy'n ein hwynebu. Felly, mae'n iawn i ni gael y ddadl hon. Ond er mwyn cefnogi'r ddeddfwriaeth hon, rhaid i ni fod yn gyfan gwbl ac yn llwyr argyhoeddedig nad yw hawliau'r unigolyn yn cael eu gorbwyso gan y canlyniadau a allai fod yn niweidiol i'r gymdeithas ehangach. Felly, er fy mod wedi rhoi fy enw at y cynnig er mwyn galluogi'r ddadl hon i ddigwydd, rhaid i mi ddweud nad wyf wedi fy argyhoeddi eto a gan fod yr ansicrwydd yn parhau, rwy'n teimlo bod angen i mi bleidleisio yn erbyn y cynnig ar yr achlysur hwn.

May I begin by stating quite clearly for the record that the Welsh Liberal Democrat group has a free vote on the matter before us today? We regard this as a matter of conscience, and I am speaking in a personal capacity. It is difficult, indeed, to do justice to this most challenging and sensitive of issues within the time allotted to each speaker. I recognise that there are strongly and honourably held views on both sides of the argument. I also recognise the call from the president of the Supreme Court for Westminster to take a view on these matters, and I also believe that it is appropriate that we should have an opportunity to express a view here, as the National Assembly, on law that will affect our citizens.

I have a huge amount of sympathy with the Dignity in Dying campaign. Terminally-ill adults should indeed have more control over where they die, how they die, and, indeed, when they should die. However, in looking to enhance the autonomy of the individual—something that, philosophically, I feel very strongly about—I also feel strongly that enhancing that autonomy cannot be done at the expense, or at the risk of, endangering others in our society. The opening speaker is right. Many people categorise this argument into those who believe in the concept of assisted dying—the concept actually does not exist in law, it is ‘assisted suicide’; it is a nicer way, I think, of putting it, but let us call a spade a spade, that is what it is—and those who believe in the principle of palliative care. However, I think that it is the failure in palliative care that often leads to calls for this. There have been great advances in palliative care, but, if we go back to the last debate that we had, on the cancer delivery plan, we will know that there are huge gaps in palliative care services in Wales. Only 23% of people who died were actually registered as palliative care patients. I know, from nursing my own father very recently, of the gaps in the services and how vulnerable they can leave an individual and a family.

We also need to enable more people to die at home. We have a woeful record of respecting people’s wishes in this regard. There is so much more that we could do to ensure that people have the support to die at home, which is where most people want to end their days. I think there is an absolute need for there to be a discussion in society and among individuals and families to have a greater use of advance directives and living wills. I had a very moving e-mail from a constituent who told of her family’s experience of an advance directive, which meant that her mother died in the place and with the dignity and with the care that was appropriate and what that lady would have wanted. How many of us here have thought about this and have plans for this in our own lives, let alone dictating to other people how they should plan?

A gaf i ddechrau drwy ddatgan yn eithaf clir ar glawr fod grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru â phleidlais rydd ar y mater ger ein bron heddiw? Rydym yn ystyried hwn yn fater o gydwybod, ac rwy’n siarad yn bersonol. Mae’n anodd, yn wir, i wneud cyfiawnder â’r mater mwyaf heriol a sensitif hwn yn yr amser a bennir ar gyfer pob siaradwr. Rwy’n cydnabod bod barn gref ac anrhydeddus ar y ddwy ochr i’r ddadl. Rwyf hefyd yn cydnabod yr alwad gan lywydd y Goruchaf Lys i San Steffan roi barn ar y materion hyn, ac rwyf hefyd yn credu ei bod yn briodol i ni gael cyfle i fynegi barn yma, fel Cynulliad Cenedlaethol, ar gyfraith a fydd yn effeithio ar ein dinasyddion.

Mae gennyf lawer iawn o gydymdeimlad â’r ymgyrch Marw gydag Urddas. Yn wir, dylai oedolion â salwch terfynol gael mwy o reolaeth dros ble y maent yn marw, sut y maent yn marw, ac yn wir, pa bryd y maent i farw. Fodd bynnag, wrth geisio gwella ymreolaeth yr unigolyn—rhywbeth rwy’n teimlo’n gryf iawn amdano’n athronyddol—rwyf hefyd yn teimlo’n gryf na ellir gwella ymreolaeth ar draul, neu greu risg o beryglu eraill yn ein cymdeithas. Mae’r siaradwr agoriadol yn iawn. Mae llawer o bobl yn categoreiddio’r ddadl hon yn ôl y rhai sy’n credu yn y cysyniad o gymorth i farw—nid yw’r cysyniad yn bodoli yn y gyfraith mewn gwirionedd, ‘hunanladdiad â chymorth’ ydyw; mae’n ffordd brafiach o’i roi, rwy’n meddwl, ond gadewch i ni ei alw yr hyn ydyw—a’r rhai ohonom sy’n credu yn egwyddor gofal lliniarol. Fodd bynnag, credaf mai methiant mewn gofal lliniarol sy’n aml yn arwain at alwadau am hyn. Bu datblygiadau mawr ym maes gofal lliniarol ond os awn yn ôl at y ddadl ddiwethaf a gawsom, ar y cynllun cyflawn ar gyfer cancer, byddwn yn gwybod bod bylchau enfawr yn y gwasanaethau gofal lliniarol yng Nghymru. Dim ond 23% o’r bobl a fu farw a oedd wedi eu cofrestru mewn gwirionedd fel cleifion gofal lliniarol. Rwy’n gwybod, o fod wedi nyrsio fy nhad fy hun yn ddiweddar iawn, am y bylchau yn y gwasanaethau a pha mor agored i niwed y gallant adael unigolyn a theulu.

Mae angen hefyd i ni alluogi mwy o bobl i farw yn eu cartrefi. Mae gennym hanes truenus o ran parchu dymuniadau pobl yn hyn o beth. Mae cymaint mwy y gallem ei wneud i sicrhau bod pobl yn cael cymorth i farw gartref, sef lle mae’r rhan fwyaf o bobl yn dymuno treulio eu dyddiau olaf. Rwy’n credu bod angen gwirioneddol am drafodaeth yn y gymdeithas ac ymhlith unigolion a theuluoedd i gael mwy o ddefnydd o gyfarwyddebau ymlaen llaw ac ewyllysiau byw. Cefais e-bost emosiynol iawn gan etholwr a soniodd am brofiad ei theulu o gyfarwyddeb ymlaen llaw, a olygodd fod ei mam wedi marw yn y lle a chyda’r urddas a’r gofal a oedd yn briodol a’r hyn y byddai’r wraig honno wedi ei ddmuno. Faint ohonom yma sydd wedi meddwl am hyn ac sydd â chynlluniau ar gyfer hyn yn ein bywydau ein hunain, heb sôn am ddweud wrth bobl eraill sut y dylent gynllunio?

I think that it is impossible to have this debate without recognising the views of medical practitioners, who are, in effect, the people who will be tasked with implementing this law. I recognise that there are doctors who support the move to assisted suicide, but the vast majority of doctors and the royal colleges at present do not support this move. That is important to realise, because if the law was to pass, we would have to operate a system that would allow individual doctors to opt out of the service in line with their conscience. That would lead to a small pool of doctors, I suspect, whose speciality would become assisting those people to die. I have grave concerns about the nature of the relationship between a doctor and an individual whom they have not known for very long. I do not think that we can have this debate without taking on board the views of the medical profession.

There is also the matter of safeguards. The question before us today is whether this is the right legislation to implement, and I am concerned that the legislation today does not have the safeguards that I would want to see before I could support a move from the principle of agreeing with assisted suicide or assisted dying and the practicalities. In comparison with the law that was brought forward by Lord Joffe—I think that is how you pronounce his name—in 2005, there is scant detail on the face of this Bill about safeguards. That really, truly troubles me. Like Mick Antoniw, while I have sympathy for the principle, one wonders whether you can truly legislate for a system that would provide adequate safeguards and a framework to operate this very difficult piece of legislation. That is why today, Deputy Presiding Officer, I shall vote 'no'.

16:16

Jenny Rathbone [Bywgraffiad Biography](#)

I think Kirsty Williams is absolutely right that this is not a matter for whipping by any political party, and I cannot envisage circumstances where it would become part of a party political manifesto. Therefore, I think that it is entirely appropriate that the legislation proposed by Lord Falconer is a private Member's Bill and it is then up to individuals to decide on their attitude towards it.

One of the reasons why I decided to speak today is because my closest friend of over 40 years took the Dignitas route. As Simon Thomas has already pointed out, this is something that is available for those who have the money and the resources, and indeed the courage, to do it. My friend was a really exceptional individual, because she lived with lung cancer for many years. Over about seven years, she knew that she had lung cancer, and she knew that she had a death certificate hanging around her neck, but it was not until the cancer inevitably spread to her brain that she knew that she did not want to go on any longer, because she was particularly keen to be able to be the person who determined when and how she died, rather than to wait until, inevitably, she completely lost control of her destiny. I respected her decision and admired her courage in doing so. Indeed, she opted not to have any friends with her in the room when she took the medicine.

Rwy'n credu ei bod yn amhosibl cael y ddadl hon heb gydnabod barn ymarferwyr meddygol sef y bobl, i bob pwrpas, a fydd â'r gorchwyl o weithredu'r gyfraith hon. Rwy'n cydnabod bod yna feddygon sy'n cefnogi symud i hunanladdiad â chymorth ond nid yw'r mwyafrif helaeth o feddygon a'r colegau brenhinol yn cefnogi symud o'r fath ar hyn o bryd. Mae'n bwysig sylweddoli hynny, oherwydd pe ddi'r ddeddf i rym, byddai'n rhaid i ni weithredu system a fyddai'n caniatáu i feddygon unigol eithrio o'r gwasanaeth yn ôl eu cydwybod. Byddai hynny'n arwain at gronfa fach o feddygon, rwy'n tybio, a fyddai'n dod i arbenigo ar gynorthwyo'r bobl hynny i farw. Mae gennyf bryderon difrifol am natur y berthynas rhwng meddyg ac unigolyn nad yw wedi ei adnabod ers amser hir iawn. Nid wyf yn credu y gallwn gael y ddadl hon heb wrando ar farn y proffesiwn meddygol.

Hefyd, mae mater mesurau diogelu. Y cwestiwn ger ein bron heddiw yw ai dyma'r ddeddfwriaeth gywir i'w gweithredu ac rwy'n pryderu nad yw'r ddeddfwriaeth heddiw yn cynnwys y mesurau diogelu yr hoffwn eu gweld cyn y gallwn gefnogi symud o'r egwyddor o gytuno â hunanladdiad â chymorth neu gymorth i farw a'r ffactorau ymarferol. O gymharu â'r ddeddf a gyflwynwyd gan yr Arglwydd Joffe-rwy'n meddwl mai dyna sut rydych yn ynganu ei enwyn 2005, ychydig iawn o fanylion a geir ar wyneb y Bil ynghylch mesurau diogelu. Mae hynny'n fy mhoeni o ddifrif. Fel Mick Antoniw, er fy mod yn cydymdeimlo â'r egwyddor, tybed a allwch ddeddfu ar gyfer system a fyddai'n darparu mesurau diogelu digonol mewn gwirionedd, a fframwaith ar gyfer gweithredu deddfwriaeth anodd iawn o'r fath. Dyna pam rwy'n pleidleisio yn erbyn heddiw, Ddirprwy Lywydd.

Rwy'n credu bod Kirsty Williams yn llygad ei lle nad yw hwn yn fater chwipio i unrhyw blaid wleidyddol, ac ni allaf ragweld amgylchiadau lle byddai'n dod yn rhan o fanifesto gwleidyddol unrhyw blaid. Felly, credaf ei bod yn gwbl briodol fod y ddeddfwriaeth a gynigir gan yr Arglwydd Falconer yn Fesur Aelod preifat, a daw wedyn yn fater i'r unigolyn benderfynu ar ei agwedd tuag ato.

Un o'r rhesymau pam y penderfynais siarad heddiw yw bod fy ffrind agosaf ers dros 40 mlynedd wedi dewis llwybr Dignitas. Fel y mae Simon Thomas eisoes wedi nodi, dyma rywbeth sydd ar gael i rai sydd â'r arian a'r adnoddau, ac yn wir, y dewrder i'w wneud. Roedd fy ffrind yn unigolyn gwirioneddol eithriadol gan iddi fyw gyda chanser yr ysgyfaint am flynyddoedd lawer. Dros oddeutu saith mlynedd, gwyddai fod ganddi ganser yr ysgyfaint, a gwyddai ei bod yn byw dan gysgod marwolaeth, ond gwyddai pan ledaenodd y canser yn anochel i'w hymennydd nad oedd hi eisiau dal ati rhagor am ei bod hi'n arbennig o awyddus mai hi fyddai'n penderfynu pryd a sut y byddai'n marw, yn hytrach nag aros nes ei bod hi'n colli rheolaeth, yn anochel, ar ei thyngeid yn gyfan gwbl. Roeddwn i'n parchu ei phenderfyniad ac yn edmygu ei dewrder yn ei wneud. Yn wir, dewisodd beidio â chael unrhyw ffrindiau gyda hi yn yr ystafell pan gymerodd hi'r feddyginiaeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The key point, which Simon has already pointed out, is that assisted dying is already available for those with the resources to go to Switzerland, and that is why Lord Falconer's Bill has a lot of merit, because I feel that it ought to be available to everybody who wishes to take that decision but does not have the resources to go off to Switzerland.

None of us knows when, where and how we are going to die, but all of us wish to avoid having a gruesome death. I think that some people are faced with the true knowledge that they will have a gruesome death, just because of the condition that they have. That is why I feel that it should be available in a civilised society to enable them to end it, with all of the safeguards that need to be in place to ensure that it really is the wish of that individual.

16:19 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Kirsty Williams has already made the point that this particular piece of legislation incorporates far fewer safeguards than Lord Joffe's previous legislation, which was rejected at Westminster. It also includes far fewer safeguards than even the Oregon legislation where, for example, if the doctor has any concerns regarding mental capacity, there is a requirement for a further report from a psychiatrist before the decision can be approved.

16:20 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think it is perfectly possible that there need to be further safeguards in the Bill, but there is nothing preventing people like Ilora Finlay, who came to speak at lunchtime, from proposing amendments if she or others feel that the safeguards are not there in the way that this Bill is currently drafted. However, I think that the purpose of our debate today is really to discuss the principle rather than the specifics of the legislation, because it is not a Bill that is coming before this Assembly.

One of the issues that I quarrel with, in relation to some of the people who have written to me by e-mail, is that they are quoting the Oregon situation as the reasons why we should discount this in our country, when the situation for people living in Oregon is so different to the one that we have here. We have the national health service free at the point of delivery, whereas in Oregon—there are 40 million people across the United States who do not have any health insurance and, when they get life-threatening conditions, they die, because they cannot afford whatever medicines they have to tackle that condition. I can well understand that desperate relatives will take desperate measures to try to raise the money to get the treatment that they want their loved ones to have and why that puts appalling pressure on the individual who has the life-threatening condition to end their life in order not to see their loved ones plunged into debt. However, I think it is a very different situation that we have here in the UK, simply because it is not about money. We are able to get palliative care based on the needs of each individual. So, I think that Lord Falconer's Bill has merit even if there may need to be some safeguards added to it.

Y pwynt allweddol y mae Simon eisoes wedi ei nodi yw bod cymorth i farw eisoes ar gael i'r rhai sydd â'r adnoddau i fynd i'r Swistir, a dyna pam y mae llawer o rinwedd ym Mil yr Arglwydd Falconer, oherwydd rwy'n teimlo y dylai fod ar gael i bawb sy'n dymuno gwneud y penderfyniad hwn, ond sydd heb yr adnoddau i fynd i ffwrdd i'r Swistir.

Nid oes yr un ohonom yn gwybod pryd, ble a sut y byddwn yn marw, ond mae pob un ohonom yn dymuno osgoi marwolaeth erchyll. Credaf fod rhai pobl yn wynebu'r wybodaeth gywir y byddant yn cael marwolaeth erchyll oherwydd y cyflwr sydd arnynt. Dyna pam rwy'n teimlo y dylai fod ar gael mewn cymdeithas wâr i'w galluogi i roi diwedd arno, gyda phob un o'r mesurau diogelu sydd angen eu rhoi ar waith i sicrhau mai dyma yw dymuniad yr unigolyn dan sylw mewn gwirionedd.

Mae Kirsty Williams eisoes wedi gwneud y pwynt fod y ddeddfwriaeth benodol hon yn cynnwys llawer llai o fesurau diogelu na deddfwriaeth flaenorol yr Arglwydd Joffe a wrthodwyd yn San Steffan. Mae hefyd yn cynnwys llawer llai o fesurau diogelu na hyd yn oed y ddeddfwriaeth yn Oregon sy'n cynnwys gofyniad i gael adroddiad pellach gan seiciatrydd cyn y gellir cymeradwyo'r penderfyniad os oes gan y meddyg unrhyw bryderon ynghylch galluedd meddyliol, er enghraifft.

Rwy'n credu ei bod yn gwbl bosibl fod angen cael mesurau diogelu pellach yn y Bil, ond nid oes dim yn atal pobl fel Ilora Finlay, a ddaeth i siarad yn ystod amser cinio, rhag cynnig newidiadau os yw hi neu eraill yn teimlo nad yw'r mesurau diogelu yno o ran y ffordd y drafftiiwyd y Bil ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n meddwl mai pwrpas ein dadl heddiw yw trafod yr egwyddor, mewn gwirionedd, yn hytrach na manylion y ddeddfwriaeth, oherwydd nid yw'n Fil sy'n dod gerbron y Cynulliad hwn.

Un o'r materion rwy'n dadlau yn eu cylch, mewn perthynas â rhai o'r bobl sydd wedi ysgrifennu ataf drwy e-bost, yw eu bod yn dyfynnu sefyllfa Oregon fel y rhesymau pam y dylem ddiystyru hyn yn ein gwlad, pan fo'r sefyllfa ar gyfer y bobl sy'n byw yn Oregon mor wahanol i'r hyn sydd gennym yma. Mae gennym wasanaeth iechyd gwladol am ddim yn y man darparu, tra yn Oregon—mae 40 miliwn o bobl ar draws yr Unol Daleithiau heb unrhyw yswiriant iechyd ac os ydynt yn cael cyflwr sy'n bygwth bywyd, maent yn marw, oherwydd na allant fforddio pa bynnag feddyginiaethau sydd ganddynt i fynd i'r afael â'r cyflwr. Gallaf ddeall yn hawdd y bydd perthnasau heb obaith yn cymryd camau enbyd i geisio codi'r arian i gael y driniaeth y maent am i'w hanwyliaid ei chael a pham y mae hynny'n rhoi pwysau enbyd ar yr unigolyn sy'n dioddef o'r cyflwr sy'n bygwth bywyd i roi diwedd ar eu bywydau er mwyn peidio â gweld eu hanwyliaid yn mynd i ddyled. Fodd bynnag, credaf fod ein sefyllfa yma yn y DU yn wahanol iawn, yn syml oherwydd nad yw'n ymwneud ag arian. Gallwn gael gofal lliniarol yn seiliedig ar anghenion pob unigolyn. Felly, credaf fod rhinwedd ym Mil yr Arglwydd Falconer er y gallai fod angen ychwanegu mesurau diogelu ato.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

This debate is not about the right to die; it is about the right to help patients kill themselves. Instead of giving freedom to patients, assisted suicide is about giving other people the legal power to end another person's life. It is a complex and emotive subject that transcends many fields of knowledge and experience, including the law, medical practice, mental health, society and the experience of the handful of overseas jurisdictions. The Suicide Act 1961, as it stands, reflects social attitudes to suicide. While we rightly treat people who attempt to take their own lives with understanding and compassion, as a society we do not regard suicide itself as something to be encouraged or assisted, as suicide watches and suicide prevention strategies amply demonstrate. The law prohibits assistance with suicide. It holds serious penalties in reserve to deter and, where necessary, to deal with malicious offenders. The law recognises that assisting a suicide might cover a wide spectrum of criminality from ill-intentioned assistance motivated by gain and accompanied by pressure to reluctant assistance motivated by compassion.

A large number of people who are terminally ill have found richness and purpose in their lives despite pain and hardship. While we have the emotion of all human life having a profound value, there are also real pragmatic concerns as to why this Bill is creating so much disquiet. As we have heard, the vast majority of doctors are deeply opposed to changing the law. Doctors recognise that assisted suicide is almost always unnecessary. Good palliative care restores quality of life without needing to erase the life itself. Personal autonomy can be preserved without need to promise death on a due date. Unrelievable suffering is hypothetically possible, but there are many doctors who will say that they have never seen it. What they have seen is patients suffering unnecessarily because of poor access to good palliative care.

There is a real threat to autonomy. Killing people is cheaper than providing palliative or long-term care, and healthcare resources will always be constrained. This must mean that healthcare teams and society in general will feel under pressure to encourage patients to choose suicide. If it becomes legal for some people to help kill others, they will inevitably do so for reasons that are nothing to do with a patient's actual reasoned wish to die. Most importantly, it is unstoppable. It is impossible for legislation to protect against misuse because key words the law would need to use do not have definitive meaning. The phrase 'unbearable suffering' is subjective, so legislation cannot protect against it being misused. The phrase 'within six months of death' is meaningless as doctors simply do not know how long a patient might live. Far from being protected from feeling that they must end their lives, the state—the custodian of our civic morality—becomes the provider and facilitator of assisted suicide. In this context, especially mindful of the cost of end-of-life care, it is not hard to see how the right to die will very quickly become a duty to die.

Nid dadl sy'n ymwneud â'r hawl i farw yw hon; mae'n ymwneud â'r hawl i helpu cleifion i ladd eu hunain. Yn hytrach na rhoi rhyddid i gleifion, mae hunanladdiad â chymorth yn ymwneud â rhoi'r pŵer cyfreithiol i bobl eraill roi diwedd ar fywyd person arall. Mae'n bwnc cymhleth ac emosiynol sydd y tu hwnt i lawer o feysydd gwybodaeth a phrofiad, yn cynnwys y gyfraith, ymarfer meddygol, iechyd meddwl, cymdeithas a phrofiad y llong llaw o awdurdodaethau tramor. Mae Deddf Hunanladdiad 1961, fel y mae, yn adlewyrchu agweddau cymdeithasol at hunanladdiad. Er ei bod yn iawn i ni drin pobl sy'n ceisio rhoi diwedd ar eu bywydau gyda chydymdeimlad a thosturi, fel cymdeithas nid ydym yn ystyried hunanladdiad ei hun fel rhywbeth i'w annog neu ei gynorthwyo, fel y mae trefniadau gwylidwriaeth hunanladdiad a strategaethau atal hunanladdiad yn dangos yn glir. Mae'r gyfraith yn gwahardd cymorth gyda hunanladdiad. Mae'n neilltuo cosbau difrifol ar gyfer atal a lle bo angen, i ddelio â throseddwy'r maleisus. Mae'r gyfraith yn cydnabod y gallai cynorthwyo hunanladdiad gwmpasu sbectrum eang o droseddoldeb o gymorth drwy fwriad maleisus wedi'i gymell gan fudd ac yn cynnwys pwysau, i gynig cymorth amharod wedi'i gymell gan dosturi.

Mae nifer fawr o bobl â salwch terfynol wedi dod o hyd i gyfoeth a phwrpas yn eu bywydau er gwaethaf poen a chaledi. Rydym yn meddu ar y teimlad fod gwerth dwys i'r bywyd dynol, ond ar yr un pryd, mae yna bryderon ymarferol go iawn ynglŷn â pham y mae'r Bil hwn yn creu cymaint o anesmwythyd. Fel y clywsom, mae'r mwyafrif helaeth o feddygon yn llwyr wrthwynebu newid y gyfraith. Mae meddygon yn cydnabod bod hunanladdiad â chymorth yn ddiangen bron bob amser. Mae gofal lliniarol da yn adfer ansawdd bywyd heb fod angen dileu'r bywyd ei hun. Gellir cynnal ymreolaeth bersonol heb fod angen addo marwolaeth ar ddyddiad penodol. Mae dioddefaint na ellir ei liniaru yn ddamcaniaethol bosibl, ond byddai llawer o feddygon yn dweud nad ydynt erioed wedi ei weld. Yr hyn y maent wedi ei weld yw cleifion sy'n dioddef yn ddiangen oherwydd mynediad gwael at ofal lliniarol da.

Mae yna fygythiad gwirioneddol i ymreolaeth. Mae lladd pobl yn rhatach na darparu gofal lliniarol neu ofal hirdymor, a bydd adnoddau gofal iechyd bob amser yn gyfyngedig. Rhaid i hyn olygu y bydd timau gofal iechyd a chymdeithas yn gyffredinol yn teimlo dan bwysau i annog cleifion i ddewis hunanladdiad. Os daw'n gyfreithiol i rai pobl helpu i ladd pobl eraill, byddant yn anochel yn gwneud hynny am resymau nad oes ganddynt ddim oll i'w wneud â dymuniad gwirioneddol a rhesymegol claf i farw. Yn bwysicaf oll, nid oes modd ei stopio. Mae'n amhosibl i ddeddfwriaeth ddiogelu rhag camddefnydd gan nad oes ystyr penodol i'r geiriau allweddol y byddai angen i'r gyfraith eu defnyddio. Mae'r ymadrodd 'dioddefaint na ellir ei oddef' yn oddrychol, felly ni all deddfwriaeth ddiogelu rhag ei gamddefnydd. Mae'r ymadrodd 'o fewn chwe mis i farw' yn ddiystyr gan na all meddygon wybod pa mor hir y gallai claf fyw. Ymhell o gael eu diogelu rhag teimlo bod yn rhaid iddynt roi diwedd ar eu bywydau, daw'r wladwriaeth—gwarcheidwad ein moesoldeb dinesig—yn ddarparwr a hwylusydd hunanladdiad â chymorth. Yn y cyd-destun hwn, a chan ystyried cost gofal diwedd oes yn arbennig, nid yw'n anodd gweld sut y bydd yr hawl i farw yn troi'n gyflym iawn yn ddyletswydd i farw.

I quote from Lord Howarth's statement at the Second Reading:

'The language of "coercion or duress" fails to capture the insidious, abusive pressures that family members and carers can bring to bear. The term "mental capacity" fails to capture the growing guilt and collapse of self-worth that may lead people to come to the view that they should not continue to be a burden to others. The doctors whose responsibility it would be to certify that the criteria have been met cannot be in a position to assess whether such pressures have occurred...The very existence of a legal option of assisted dying would itself constitute an additional pressure.'

For myself, I will assert that we are not just establishing a right to what was previously forbidden, but we are changing how we think of the act itself of suicide—from a tragedy to a benefit, a release from suffering; and of assisting suicide—from a crime into a service. We are asserting that helping people in pain to end their lives—killing them, to be more direct—is a positive good that is the state's obligation not merely to tolerate, but to facilitate.

In countries where assisted suicides have been legalised, it is increasingly the practice. Belgium, where euthanasia on the Quebec model has been legal since 2002, this year extended it to severely disabled children, joining the Netherlands, where it has been lawful since the 1990s. In Switzerland, it is permitted to euthanise the mentally ill, and the list continues to grow. Prisoners serving life sentences are the latest addition. What begins in compassion, it seems, ends in eugenics.

Let us recall the Hippocratic oath:

'Nor shall any man's entreaty prevail upon me to administer poison to anyone; neither will I counsel any man to do so.'

Dyfynnaf o ddatganiad yr Arglwydd Howarth yn yr Ail Ddarlleniad:

'Mae iaith gorfodaeth yn methu â chyfleu'r pwysau llechwraidd, maleisus y gallai aelodau o deuluoedd a gofalwyr ei greu. Mae'r term "galluedd meddyliol" yn methu â chyfleu euogrwydd cynyddol a diffyg hunanwerth a allai arwain pobl i goleddu'r farn na ddylent barhau i fod yn faich ar eraill. Ni all y meddygon sydd â'r cyfrifoldeb i ardystio bod y meini prawf wedi'u bodloni fod mewn sefyllfa i asesu a yw pwysau o'r fath wedi digwydd... Byddai bodolaeth opsiwn cyfreithiol cymorth i farw ynddo'i hun yn gyfystyr â phwysau ychwanegol.'

O'm rhan i, rwy'n honni nad sefydlu hawl yn unig i'r hyn a oedd wedi'i wahardd yn flaenorol yr ydym, ond newid y ffordd y meddyliwn am y weithred o hunanladdiad ynddi ei hun o drasiedi i fudd, rhyddhad o ddiodefaint; ac am hunanladdiad â chymorth-o fod yn drosedd i fod yn wasanaeth. Honnwn fod helpu pobl mewn poen i roi diwedd ar eu bywydau-eu lladd, i fod yn fwy uniongyrchol-yn dda cadarnhaol sy'n rhwymedigaeth ar y wladwriaeth nid yn unig i'w oddef, ond i'w hwyluso.

Mewn gwledydd lle cafodd hunanladdiad â chymorth ei gyfreithloni, mae'n arfer cynyddol. Eleni, mae Gwlad Belg, lle mae ewthanasia ar fodel Quebec wedi bod yn gyfreithlon ers 2002, wedi ei ymestyn i gynnwys plant anabl iawn, gan ymuno â'r Iseldiroedd, lle bu'n gyfreithlon ers y 1990au. Yn y Swistir, mae ewthanasia wedi ei ganiatáu ar gyfer rhai â salwch meddwl, ac mae'r rhestr yn parhau i dyfu. Carcharorion sy'n wynebu dedfryd oes yw'r ychwanegiad diweddaraf. Ymddengys bod yr hyn sy'n cychwyn gyda thosturi yn gorffen gydag ewgeneg.

Gadewch i ni gofio'r llw Hipocratig:

'Ni fyddaf yn ildio i erfyniad unrhyw un i roi gwenwyn i neb; ac ni fyddaf yn awgrymu i neb wneud hynny.'

16:27

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi rhoi fy enw i gefnogi'r cynnig hwn am fy mod yn gryf o'r farn y dylem fod yn trafod y pwnc hollbwysig hwn yn y lle hwn yn wyneb y cynigion sy'n mynd drwy Dŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd. Un o nodweddion y drafodaeth ar y cyfan yw gofal a pharch ar y ddwy ochr wrth gyflwyno ein dadleuon, ac rwy'n gobethio y byddwn yn gallu parhau felly.

Nid wyf yn siŵr am fy marn ar y pwnc, a dweud y gwir, gan ei fod yn ymwneud ag un agwedd ar ein bywydau na all yr un ohonom ei osgoi. Fodd bynnag, mae dau beth yn fy nharo i. Mae meddygaeth wedi datblygu i'r fath raddau fel ein bod yn gallu cynnal bywyd hyd yn oed yn wyneb salwch difrifol a fyddai'n sicr wedi arwain at angau flynyddoedd yn ôl. Ond ai ymestyn hyd ein bywydau yn unig yw pwrpas gofal iechyd, a hynny beth bynnag fo'r amgylchiadau? Nid wyf yn siŵr.

I have put my name in support of this motion because I felt strongly that we should be discussing this crucially important subject in this place in view of the proposals that are going through the House of Lords. One of the features of the discussion on the whole is care and respect on both sides in putting forward our arguments, and I hope that we will be able to continue in that vein.

I am not sure about my opinion on the subject, to be honest, because it deals with one aspect of our lives that none of us can avoid. However, two things strike me. Medicine has developed to such an extent that we are able to sustain life even in the face of serious illness that would certainly have led to death in years gone by. However, is extending the length of our lives the purpose of healthcare, regardless of the circumstances? I am not sure.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Bu fy mam farw o strôc yn fuan ar ôl iddi gyrraedd 80 oed, ond bu ei chwaer fyw nes oedd yng nghanol ei 90au. Erbyn hynny, roedd hi'n ddall ac yn fyddar ac wedi colli pob blas ar fyw. Rwy'n cofio mynd i'w gweld hi a dyma hi'n dweud wrthyf, 'Mi fuodd eich mam yn ffodus iawn yn cael mynd fel y gwnaeth hi'. Yn sicr, rwy'n meddwl y byddai anti Lilian wedi gwerthfawrogi y cyfle, rwy'n credu, y byddai'r Bil hwn yn ei gynnig.

Wrth i mi feddwl am hyn, daeth geiriau o ddrama 'King Lear' i fy meddwl i, lle mae'r gwas ffyddlon Kent yn gweld Lear yn marw ac mae rhyw symudiad i drïo ei helpu. Mae'n dweud fel hyn:

'O! let him pass; he hates him/ That would upon the rack of this tough world/Stretch him out longer.'

Rwy'n credu bod rhywbeth yn y geiriau hynny sydd yn berthnasol i'r ddadl.

Ar y llaw arall, o dderbyn cyfeiriad y Bil sydd gerbron yr Arglwyddi ar hyn o bryd, mae'n amlwg bod pryderon mawr oddi mewn i'r maes gofal iechyd a'r maes meddygol. Byddwn yn cytuno bod yn rhaid sicrhau rheolau llym o ran yr amodau lle byddai dewis o'r fath yn cael ei ganiatáu. Diddorol oedd darllen ddoe bod o leiaf un corff proffesiynol sy'n cynrychioli seiciatryddion yn gwrthod datgan o blaid nac yn erbyn y Bil presennol oherwydd bod y farn yn rhanedig o fewn y corff proffesiynol hwnnw. Felly, yr unig beth y gallaf ei ddweud wrth gloi yw: gadewch inni drafod ac annog trafodaeth y tu allan i'r lle hwn, fel y gallwn, maes o law, ddod i benderfyniad rhesymol cyn deddfu o'r newydd yn y maes pwysig hwn.

My mother died as a result of a stroke shortly after she reached the age of 80, but her sister lived until her mid-90s. By then, she was blind and deaf and had lost all zest for life. I remember going to see her and her telling me, 'Your mother was very fortunate to go as she did'. Certainly, I think that auntie Lilian would have appreciated the opportunity that this Bill would provide.

When I think about this, words from the play 'King Lear' come to my mind, when the faithful servant Kent sees a dying Lear, and there is some attempt to try to help. He says:

'O! let him pass; he hates him/ That would upon the rack of this tough world/Stretch him out longer.'

I think that there is something in those words that is relevant to this debate.

On the other hand, accepting the direction of the Bill before the Lords at present, it is clear that there are grave concerns in the field of healthcare and the medical field. I would agree that there would have to be very strict rules in terms of the conditions under which such an option would be allowed. It was interesting to read yesterday that at least one professional body that represents psychiatrists refuses to say whether it supports or opposes this current Bill because opinion is split within that professional body. So, the only thing that I can say in concluding is this: let us discuss and encourage discussion outside of this place so that we can ultimately come to a reasoned decision before we legislate on this important matter.

16:30

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am deeply aware that the matter before us is controversial, so I wish to frame my argument very carefully. For me, the Assisted Dying Bill is not about a good death but a good life, a life in which we have so many times been given the opportunities for choice, a life in which we have been enabled and encouraged to develop our individuality, to assert ourselves with vigour and to develop our emotional and social maturity and to accept personal responsibility. However, in framing my argument, I want first of all to pay tribute to the hospice movement and the many others involved in offering palliative care. I personally am, and I know that Paul is, privileged to be involved with the Paul Sartori Foundation based in Pembrokeshire. It is an organisation that offers hospice-at-home care for those in the later stages of a life-limiting illness. Many here will be aware of the work of Macmillan, Marie Curie, Tŷ Hafan and the work of the national health service and so many organisations and the incredible people who staff them. Their compassion, resilience and fortitude should be recognised, and I am deeply grateful for all the work they do. They enable people to have a choice.

Rwy'n ymwybodol iawn fod y mater ger ein bron yn ddadleuol, felly hoffwn fframio fy nadl yn ofalus iawn. I mi, nid yw'r Bil Cymorth i Farw yn ymwneud â marwolaeth dda ond â bywyd da, bywyd sydd wedi rhoi cyfle i ni ddewis cymaint o weithiau, bywyd lle rydym wedi gallu, ac wedi cael ein hannog i ddatblygu ein hunaniaeth, i fynnu cael ein llais wedi ei glywed, i ddatblygu ein haeddfedrwydd emosiynol a chymdeithasol ac i dderbyn cyfrifoldeb personol. Fodd bynnag, wrth fframio fy nadl, yn gyntaf oll rwyf am dalu teyrnged i'r mudiad hosbis a'r nifer o rai eraill sy'n ymwneud â chynnig gofal lliniarol. Yn bersonol, mae'n fraint gen i fod yn rhan o Sefydliad Paul Sartori yn Sir Benfro, fel y mae Paul. Mae'n sefydliad sy'n cynnig gofal hosbis yn y cartref i rai ar gamau olaf salwch sy'n byrhau bywyd. Bydd llawer yma yn ymwybodol o waith Macmillan, Marie Curie, Tŷ Hafan a gwaith y gwasanaeth iechyd gwladol, a chymaint o sefydliadau a'r bobl anhygoel sy'n eu staffio. Dylid cydnabod eu tosturi, eu gwytnwch a'u dewrder ac rwy'n hynod ddiolchgar am yr holl waith a wnânt. Maent yn galluogi pobl i gael dewis.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

However, Deputy Presiding Officer, there, for me, is the rub, because if I were within weeks of dying from a terminal illness and palliative care no longer brought me the relief it had done, I would want to know that I could end my life if I wished to. It does not mean that I would, but the choice would be mine. This is important to me, because all my life I have been educated and groomed to make choices and to be sensible and mature enough to build relationships, to have children, to hold down jobs, to evaluate risk and to accept or refuse medical treatment, to run my life and, indeed, to take responsibility for the wellbeing and lives of others. However, my ability to choose to take responsibility for my actions, to understand my choice, is for nought if I have no control over how I might end my life.

I want to be really clear about exactly what choice the Bill on assisted dying is suggesting we enact. Simon Thomas has already elucidated the fact that it is for someone who is within six months of dying from a terminal illness and who is mentally competent, that two doctors will be involved and that, not only do they have to agree your diagnosis and prognosis, they have to ensure that you have been offered palliative care pathways. That is absolutely critical. A High Court judge needs to make sure that those pathways and the entire process have been completely above board. However, what I would like to add is that I think that the safeguards within the Bill will stop the confusion and uncertainty currently surrounding those with terminal illnesses who wish to end their lives and, as Jenny Rathbone has said, those who sometimes end their lives too early because it is the only time they are still competent when they may have wanted to stay longer with us.

It is also very, very clear that it will make it a criminal offence—

Fodd bynnag, Ddirprwy Lywydd, dyna graidd y mater i mi, oherwydd pe bawn o fewn wythnosau i farw o salwch terfynol a gofal lliniarol yn methu â chynig rhyddhad i mi mwyach fel yr arferai wneud, byddwn eisieu gwybod y gallwn roi diwedd ar fy mywyd pe bawn i'n dymuno. Nid yw'n golygu y byddwn yn gwneud hynny, ond fy newis i fyddai gwneud. Mae hyn yn bwysig i mi, gan fy mod wedi cael fy nysgu a fy nghyflyru ar hyd fy oes i wneud dewisiadau ac i fod yn ddigon synhwyrol ac aeddfed i feithrin perthynas â phobl, i gael plant, i gael swyddi, i werthuso risg ac i dderbyn neu wrthod triniaeth feddygol, i fyw fy mywyd ac yn wir, i gymryd cyfrifoldeb dros les a bywydau pobl eraill. Fodd bynnag, nid yw fy ngallu i ddewis cymryd cyfrifoldeb am fy ngweithredoedd, i ddeall fy newis, yn golygu dim os nad oes gennyf unrhyw reolaeth dros sut y daw fy mywyd i ben.

Rwyf am fod yn gwbl glir ynghylch yr union ddewis y mae'r Bil cymorth i farw yn awgrymu ein bod yn ei ddeddfu. Mae Simon Thomas eisoes wedi egluro'r ffaith mai ar gyfer rhywun sydd o fewn chwe mis i farw o salwch terfynol ac sy'n ei iawn byll y mae'r Bil, y bydd dau feddyg yn rhan o'r sefyllfa ac y bydd rhaid iddynt nid yn unig gytuno ar y diagnosis a'r prognosis ond y bydd gofyn iddynt hefyd sicrhau eich bod wedi cael cynnig llwybrau gofal lliniarol. Mae hynny'n hollbwysig. Mae angen i farnwr Uchel Lys wneud yn siŵr bod y llwybrau hynny a'r broses gyfan wedi bod yn gwbl ddilys. Fodd bynnag, hoffwn ychwanegu y credaf y bydd y mesurau diogelwch yn y Bil yn rhoi diwedd ar y dryswch a'r ansicrwydd sy'n bodoli ar hyn o bryd i bobl â salwch terfynol sydd am roi terfyn ar eu bywydau ac, fel y dywedodd Jenny Rathbone, y rhai sydd weithiau'n rhoi terfyn ar eu bywyd yn rhy gynnar oherwydd mai dyma'r unig amser y maent yn dal yn alluog tra gallent fod wedi dymuno aros yn hwy gyda ni.

Mae hefyd yn datgan yn glir iawn, iawn y bydd yn ei wneud yn dramgwydd troseddol—

16:33

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for taking the intervention. I just want to ask you, as you have listed a number of the safeguards involved in the Bill as it is now, whether you agree that none of that means anything unless the key concept is proven, and that is unbearable suffering, because, without that, none of the Bill applies.

Diolch yn fawr iawn i chi am gymryd yr ymyriad. Hoffwn ofyn i chi, gan eich bod wedi rhestru nifer o fesurau diogelwch sy'n ymwneud â'r Bil fel y mae ar hyn o bryd, a ydych yn cytuno nad oes dim o hynny'n golygu unrhyw beth oni bai y profir y cysyniad allweddol, sef dioddefaint annioddefol, oherwydd, heb hynny, ni fyddai'r Bil yn berthnasol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. Thank you. Also, what the Bill will clearly do is make it a criminal offence to assist anyone who does not have a terminal illness to end their life, whether this is an incident of overt help or a case of un-consented, covert withdrawal of medical support. I carefully choose these words, Deputy Presiding Officer, because it is the elephant in the room. Personally, I think that withdrawing food and water in the terminal stages of someone's life is neither human nor humane. I think that these safeguards will protect the elderly, those with disabilities, those worried that they are a burden, those with disinterested and avaricious families and those who are hard to look after. In the UK, I believe that we can put in place the safeguards. Look at how this very place walked that very fine line on presumed consent for organ donation. These are legitimate fears we have that we might begin to trade people's lives as commodities on the stock market of society. I have read with care the e-mails that I have received from doctors and organisations, outlining very clearly their concerns that vulnerable people will be pressurised to give up.

I am aware of this very slow creep in the Netherlands, where fear of being a burden, rather than unbearable suffering, has become the primary cause for a life termination choice. As Simon and other speakers have said, this proposed Bill is based on the Death with Dignity Act in the state of Oregon.

I want to finish by saying that I would like to quickly address the depression element that Darren Millar rightfully brought up. I believe that being sad or angry or frightened must be a natural part of facing death. Wanting to talk about your opinions is natural. Wanting to refuse interventions when the outcome will not change is natural. Being unwilling to endure the loss of privacy and independence is natural. Wanting to share your final days, pass on your memories, say your farewells, determine what your end goals are is natural. To say that people do not die in pain may be technically accurate, but if you are actually sleeping your way through to death, how can that be a safe and good death? We are hard-wired for life. I beg you to support this motion.

Ydwyf. Diolch. Hefyd, yr hyn y bydd y Bil yn amlwg yn ei wneud yw ei gwneud yn drosedd i gynorthwyo unrhyw nad oes ganddo salwch terfynol i roi terfyn ar ei fywyd, waeth a wneir hynny trwy roi cymorth agored neu trwy atal cymorth meddygol. Dewisaf y geiriau hyn, Ddirprwy Lywydd, yn ofalus oherwydd dyma broblem sy'n cael ei hanwybyddu. Fy hun, credaf nad yw'n ddynol na thrugarog atal bwyd a dŵr yng nghamau terfynol bywyd rhywun. Credaf y bydd y mesurau diogelwch hyn yn amddiffyn yr henoed, pobl ag anableddau, pobl sy'n poeni eu bod yn faich, pobl â theuluoedd di-hid ac ariangar a'r rhai sy'n anodd gofalu amdanynt. Yn y DU, credaf y gallwn roi'r mesurau diogel ar waith. Ystyriwch sut y bu i'r sefydliad hwn droedio'r llinell denau iawn o ran caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau. Mae'r ofnau hyn sydd gennym yn rhai dilys, sef y gallem fod yn trin bywydau pobl fel nwyddau i'w masnachu ar farchnad stoc cymdeithas. Rwyf wedi darllen yn ofalus y negeseuon e-bost a gefais gan feddygon a sefydliadau, yn amlinellu'n glir iawn eu pryderon y bydd pobl sy'n agored i niwed yn cael eu rhoi dan bwysau i roi'r gorau iddi.

Rwy'n ymwybodol o'r newid araf iawn hwn yn yr Iselfiroedd, lle mae ofni bod yn faich, yn hytrach na dioddefaint annioddefol, wedi dod yn brif achos ar gyfer dewis rhoi terfyn ar fywyd. Fel y dywedodd Simon a siaradwyr eraill, mae'r Bil arfaethedig hwn yn seiliedig ar Ddeddf Marwolaeth gydag Urddas yn nhalaith Oregon.

Carwn orffen trwy ddweud yr hoffwn roi sylw yn gyflym i'r mater dilys a godwyd gan Darren Millar sef iselder. Credaf fod yn rhaid bod teimladau o dristwch neu ddieter neu ofn yn rhan naturiol o wynebu marwolaeth. Mae dymuno siarad am eich barn yn naturiol. Mae dymuno gwrthod ymyriadau pan fydd y canlyniad yn newid yn naturiol. Mae bod yn amharod i ddiodeff colli preifatrwydd ac annibyniaeth yn naturiol. Mae dymuno rhannu eich dyddiau olaf, trosglwyddo eich atgofion, dweud eich ffarwel, penderfynu beth yw eich nodau terfynol yn naturiol. Efallai fod dweud nad yw pobl yn marw mewn poen yn dechnegol gywir, ond os ydych mewn gwirionedd yn cysgu eich ffordd drwy'r farwolaeth, sut y gall hynny fod yn farwolaeth ddiogel a da? Rydym wedi ein gwifro i fyw. Erfyniaf arnoch i gefnogi'r cynnig hwn.

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I really am very grateful to have the opportunity to contribute to this extremely important debate. Let me say from the outset that I am profoundly opposed to the principles behind the Bill that we are considering today. At the outset, I would like to make it plain that I believe that any move towards legalising assisted suicide would have very serious consequences for many vulnerable terminally ill people. More than that, what the Bill proposes would, I believe, fundamentally change the nature of our society for the worse.

Rwy'n wirioneddol ddiolchgar iawn o gael cyfle i gyfrannu at y ddatlith eithriadol bwysig hon. Gadewch i mi ddweud o'r cychwyn fy mod yn gwrthwynebu'n angerddol yr egwyddorion sy'n sail i'r Bil yr ydym yn ei ystyried heddiw. I gychwyn, hoffwn ei gwneud yn glir y credaf y byddai canlyniadau difrifol iawn i lawer o bobl fregus sy'n derfynol sâl yn sgil unrhyw symudiad tuag at gyfreithloni hunanladdiad â chymorth. Ar ben hynny, credaf y byddai'r hyn y mae'r Bil yn ei gynnig yn newid yn sylfaenol natur ein cymdeithas er gwaeth.

Much has been made by proponents of assisted suicide, as well as in the media and in the campaign literature of organisations championing assisted suicide, of the need for choice in the matter of how and when we die. However, what the Bill proposes—bluntly, allowing one person to kill another—is not choice, at least not for the thousands of vulnerable people who would be put at risk were the law to be changed.

We know as legislators that laws must be made for the betterment, flourishing and protection of the many not the wishes of the determined and desperate few. So, as well as permitting or prohibiting actions, laws also shape perceptions. Despite all the talk of safeguards, it is simply not possible to use the state to provide a mechanism whereby people can end their lives without conveying a message that some lives are not worth living, that it is okay for some to be assisted to kill themselves if they have a terminal illness.

Today, by contrast, someone who is terminally ill, with all that that entails in terms of the additional burden placed on families and the state for the duration of the illness, and does not want to end their life, is protected by the fact that even though they are a burden, they know the state does not think it appropriate for another person to end their life. In adopting this position, the state, effectively, says that their life is still worthwhile. Once there is a hint from the state that this is not true, once we budge a single inch on the issue of assisted suicide, all that changes. Instead of feeling protected, the vulnerable would find themselves exposed, I believe, to pressure.

The right to die will quickly become, in at least some cases, a duty to die. To this end, the Assembly will be interested to learn that, in 2013, 61% of those applying for assisted suicide in Washington state, which has a law very similar to that proposed by the Assisted Dying Bill, cited being a burden as a motivation. Do we really want to make Wales, where we rightly place so much emphasis on community life, a place where people are exposed to these pressures? I hope not. I firmly believe that we should say 'no' to assisted suicide here, as the Scottish Parliament did by a resounding majority of 85 votes to 16 in 2010.

Mae cefnogwyr hunanladdiad â chymorth, yn ogystal â'r cyfryngau a llenyddiaeth ymgyrchu sefydliadau hyrwyddo hunanladdiad â chymorth, wedi rhoi llawer o bwys ar yr angen i allu dewis ynghylch sut a phryd rydym yn marw. Fodd bynnag, nid yw'r hyn y mae'r Bil yn ei gynnis—mewn geiriau noeth, caniatáu i'r naill berson ladd y llall—yn ddewis, o leiaf nid i'r miloedd o bobl fregus a fyddai'n cael eu rhoi mewn perygl pe bai'r gyfraith yn cael ei newid.

Fel deddfwyr, gwyddom fod yn rhaid i ddeddfau gael eu gwneud er lles, ffyniant a diogelwch y mwyafrif nid dymuniadau'r ychydig byrbwyll a phenderfynol. Felly, yn ogystal â chaniatáu neu wahardd gweithredoedd, mae cyfreithiau hefyd yn llywio canfyddiadau. Er gwaethaf yr holl sôn am fesurau diogelwch, yn syml, nid yw'n bosibl defnyddio'r wladwriaeth i ddarparu mecanwaith lle gall pobl roi terfyn ar eu bywydau heb gyfleu neges nad yw bywyd rhai yn werth ei fyw, ei bod yn iawn i rai i gael cymorth i ladd eu hunain os oes ganddynt salwch terfynol.

Heddiw, mewn cyferbyniad, os yw rhywun yn derfynol wael, gyda phopeth y mae hynny'n ei olygu o ran y baich ychwanegol a roddir ar deuluoedd a'r wladwriaeth dros gyfnod y salwch, ac nad yw am roi terfyn ar ei fywyd, caiff ei ddiogelu gan y ffaith, er ei fod yn faich, gŵyr nad yw'r wladwriaeth yn credu ei bod yn briodol i rywun arall roi diwedd ar ei fywyd. Wrth fabwysiadu'r sefyllfa hon, mae'r wladwriaeth, mewn gwirionedd, yn dweud bod bywyd yn dal i fod yn werth ei fyw. Unwaith y ceir awgrym gan y wladwriaeth nad yw hyn yn wir, unwaith y byddwn ni'n gwyro un fodfedd ar fater hunanladdiad â chymorth, mae hyn i gyd newid. Yn hytrach na theimlo'i fod wedi'i ddiogelu, bydd y person bregus yn ei gael ei hun yn agored, yn fy marn i, i bwysau.

Yn fuan iawn, daw'r hawl i farw, mewn rhai achosion o leiaf, yn ddyletswydd i farw. I'r perwyl hwn, hwyrach yr hoffai'r Cynulliad glywed am y sefyllfa yn nhalaith Washington, lle nododd 61% o'r rhai a wnaeth gais am hunanladdiad â chymorth yn 2013, mai bod yn faich oedd eu cymhelliant. A ydym mewn gwirionedd am wneud Cymru, lle rhown gymaint o bwyslais ar fywyd y gymuned, yn wlad lle bydd pobl yn agored i'r math hyn o bwysau? Gobeithio nad ydym. Credaf yn gryf y dylem ddweud 'na' i hunanladdiad â chymorth y tro hwn, fel y gwnaeth Senedd yr Alban gyda mwyafrif ysgubol o 85 pleidlais o blaid ac 16 yn erbyn yn 2010.

Before I conclude, I want to touch upon one other issue, which is that champions of assisted suicide cite one of their chief concerns as ensuring death with dignity. Mindful of this commitment, Members will be interested to know that, rather than a comfortable death at the time of their choosing, the experience of residents in the US state of Oregon paints a very different picture. Since the law was changed in Oregon, there have been 22 incidents of patients regurgitating the lethal substances that they were given. In six cases, the people in question actually regained consciousness. Clearly, this was not the end that these people had in mind, nor is it that that is promoted by advocates of assisted suicide. Indeed, it is hard to conceive of a less dignified death than one that involves vomiting up poison. With a similar percentage of complications in England and Wales, and assuming a similar rate of assisted death as in Oregon, almost 50 people would go through this experience every year, and 13 would regain consciousness. This is not the end that we should seek for ourselves, or for others. I cannot possibly support the motion before us today, and urge other Members to think very carefully about the message that would be sent to vulnerable people around Wales and the rest of the UK if we give our support to the motion when we vote in a short while. I would urge all Members who cherish the society that we enjoy in Wales to vote against the motion.

Cyn i mi gloi, rwyf am gyffwrdd ag un mater arall, sef bod hyrwyddwyr hunanladdiad â chymorth yn dyfynnu sicrhau marwolaeth gydag urddas yn un o'u prif bryderon. Gan ystyried yr ymrwymiad hwn, dylai Aelodau wybod, yn hytrach na marwolaeth gyfforddus ar adeg o'u dewis, fod profiad trigolion talaith Oregon yn UDA yn rhoi darlun gwahanol iawn. Ers newid y gyfraith yn Oregon, cafwyd 22 achos o gleifion yn cyfogi'r sylweddau anghueol a roddwyd iddynt. Mewn chwe achos, bu i'r bobl dan sylw mewn gwirionedd ddadebru. Yn amlwg, nid dyma'r diwedd yr oedd y bobl hyn wedi'i fwriadu, na'r diwedd y mae hyrwyddwyr hunanladdiad â chymorth yn ei hyrwyddo. Yn wir, mae'n anodd meddwl am farwolaeth lai urddasol nag un lle mae'r person yn cyfogi gwenwyn. Gyda chanran debyg o gymhlethdodau yng Nghymru a Lloegr, a phe bai cyfradd tebyg o farwolaethau â chymorth fel yn Oregon, byddai bron 50 o bobl yn cael y profiad hwn bob blwyddyn, a byddai 13 yn dadebru. Nid dyma'r diwedd y dylem geisio ei sicrhau i ni ein hunain, nac i bobl eraill. Ni allaf gefnogi'r cynnig ger ein bron heddiw o gwbl, ac rwy'n annog Aelodau eraill i feddwl yn ofalus iawn am y neges y byddem yn ei chyfleu i bobl fregus ledled Cymru a gweddill y DU wrth roi ein cefnogaeth i'r cynnig pan fyddwn yn pleidleisio maes o law. Hoffwn annog pob Aelod sy'n colledu'r gymdeithas rydym yn ei mwynhau yng Nghymru i bleidleisio yn erbyn y cynnig.

16:41

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that, as Angela Burns said, along with the presumed consent organ donation debate that we had here, this debate is probably the most emotive debate to be held in this Chamber over the last 14 years. I should point out, as you have probably gathered, that the Welsh Conservatives have a free vote on this matter of conscience.

The examples given of cases where families feel that end-of-life suffering has been disproportionate are well rehearsed, and it is too easy in this Chamber, I think, to fall back on statistics when those statistics are merely representative of many human lives and individual stories behind those data. That is what this debate is essentially about. What it comes down to is the value of a human life, how we measure that, how we ensure that the mechanisms of Government and the force of the laws of the land reflect the value of that life, strengthen and enhance it. However, as we have heard today, there are two views being expressed on how you measure that value: the view that life is sacrosanct and assisting or accelerating end of life is wrong in any circumstance and the equally strongly held belief that suffering should be alleviated and that, in certain circumstances, the end justifies the means. I think that you would have to have a heart of stone not to be moved by the cases of individuals who have decided that they would rather move faster towards the end of life than the law currently permits and those heartbreaking cases where others are criminalised for helping them to achieve that wish.

Credaf, fel y dywedodd Angela Burns, ynghyd â'r ddadl ar ganiatâd tybiedig i roi organau a gawsom yma, mai'r ddadl hon, mae'n debyg, yw'r fwyaf emosiynol i'w chynnal yn y Siambr hon yn y 14 mlynedd diwethaf. Dylwn nodi, fel y mae'n debyg y byddwch wedi deall, fod rhyddid i'r Ceidwadwyr Cymreig bleidleisio ar y mater hwn yn ôl eu cydwybod.

Mae'r enghreifftiau a roddir o achosion lle mae teuluoedd yn teimlo bod dioddefaint diwedd oes wedi bod yn anghymesur wedi'u crybwyll droeon, a chredaf ei bod yn rhy hawdd yn y Siambr hon i syrthio'n ôl ar yr ystadegau hynny pan nad yw'r cyfryw ystadegau hynny ond yn cynrychioli llawer o fywydau dynol a straeon unigol y tu ôl i'r data hynny. Dyna yw hanfod y ddadl hon yn y bôn. Y pwynt sylfaenol yw gwerth bywyd dynol, sut yr ydym yn ei fesur, sut yr ydym yn sicrhau bod mecanweithiau'r Llywodraeth a grym deddfau'r wlad yn adlewyrchu gwerth y bywyd hwnnw, yn ei gryfhau ac yn ei wella. Fodd bynnag, fel y dylwosom heddiw, mae dwy farn yn cael eu mynegi ar sut yr ydych yn mesur y gwerth hwnnw: y farn bod bywyd yn gysegredig a bod cynorthwyo neu gyflymu diwedd oes yn anghywir dan unrhyw amgylchiad a'r gred sydd yr un mor gadarn y dylid lleddfu dioddefaint a than rhai amgylchiadau bod y diwedd yn cyfiawnhau'r modd. Credaf y byddai'n rhaid i chi fod yn galon-galed i beidio â chael eich symud gan achosion yr unigolion a benderfynodd y byddai'n well iddynt symud yn gynt tuag at ddiwedd oes nag y mae'r gyfraith ar hyn o bryd yn ei ganiatáu a'r achosion torcalonnus hynny lle mae eraill yn cael eu cyhuddo am eu helpu hwy i gyflawni'r dymuniad hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will be frank with you: I am not sure how I would deal with a conversation with someone nearing the end of life and wanting to accelerate that. I am not sure how I would feel if I was in that position myself and the options and freedoms to move more quickly towards the end of life were denied to me. What I do know, and this is after much thought and soul-searching, is that I cannot support the motion before us today. That is not because I think that the status quo is perfect, and I certainly do not feel a desire to deny some of the most vulnerable people in society who want to exercise their freedom in the most real way possible.

I am going to vote against this today because I just do not think that the piece of legislation before us is the answer to the question that it believes is being asked. In fact, I am worried, and I know that other Members are worried as well, that this legislation, if enacted in the form before us, would open a door never before opened in this country without really providing a clear direction of travel beyond that door and without cast-iron safeguards on the procedures that it is proposing. In other words, back this motion if you really feel that it is the right thing to do, but be absolutely sure in your own mind, when you vote for it, that this is how you want the system to work once that change is made. I cannot personally have that certainty and, for me, there are too many unanswered questions and it is too ambiguous in its current form.

On some of the legal technicalities that have been alluded to, what is a 'competent adult'? How do you define competency? Who makes that decision? People have been talking about medicine. That medicine, if you want to call it medicine, according to the law, would have to be delivered to the person for whom it was prescribed. Of course, in some situations, that might be a very difficult thing to achieve. Framing and drafting laws is an imperfect process. I think that we have all realised that in this institution over the last few years, but the problem here is that the consequences of getting it wrong are literally life and death. For me, this legislation, although extremely well-intentioned, seeking to deal with what it perceives as a long-standing injustice for many individuals and families, is at this point a bridge too far and a bridge over which I would suggest others should cross only if they are absolutely sure.

In closing, although I agreed in the main with the speeches of some colleagues, I do think that talking about some examples of euthanasia in other countries is not helpful in this debate. I think that you have to accept that the people who have brought forward the legislation in Westminster and this motion here today are doing it for the best reasons possible. We need to keep this debate on a sound footing. I am pleased to have contributed to this debate today, and I hope that it has shed light on a number of issues, which will help us to move forward. However, as I say, for me, at the moment, this is a bridge too far.

A bod yn gwbl onest: nid wyf yn siŵr sut y byddwn yn cynnal sgwrs gyda rhywun sy'n agosáu at ddiwedd eu hoed ac sy'n awyddus i gyflymu'r broses. Nid wyf yn siŵr sut y byddwn yn teimlo pe bawn i yn y sefyllfa honno fy hun a bod yr opsiynau a'r rhyddid i symud yn gynt tuag at ddiwedd oes yn cael eu gwrthod i mi. Ond eto, gwn, ar ôl llawer o feddwl ac ymholi dwys, na allaf gefnogi'r cynnig ger ein bron heddiw. Nid yw hynny oherwydd y credaf fod y sefyllfa bresennol yn berffaith, ac yn sicr nid wyf yn teimlo awydd i wrthod i rai o'r bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas sydd am arfer eu rhyddid yn y ffordd fwyaf real posibl.

Rwy'n mynd i bleidleisio yn erbyn hyn heddiw am nad wyf yn syml yn credu mai'r darn o ddeddfwriaeth ger ein bron yw'r ateb i'r cwestiwn y mae'n credu sy'n cael ei ofyn. Yn wir, rwy'n poeni, a gwn fod Aelodau eraill yn poeni hefyd, y byddai'r ddeddfwriaeth hon, pe câi ei gweithredu ar y ffurf ger ein bron, yn agor drws nas agorwyd erioed o'r blaen yn y wlad hon heb ddarparu cyfeiriad teithio clir y tu hwnt i'r drws hwnnw a heb fesurau diogelu cadarn ar y gweithdrefnau y mae'n eu cynnig. Mewn geiriau eraill, cefnogwch y cynnig hwn os ydych yn wir yn teimlo mai dyna'r peth iawn i'w wneud, ond dylech fod yn gwbl sicr yn eich meddwl eich hun, wrth i chi bleidleisio drosto, mai dyma sut rydych am i'r system weithio unwaith y bydd y newid yn cael ei wneud. Ni allaf fi fy hun fod yn gwbl sicr ac, i mi, mae gormod o gwestiynau heb eu hateb ac mae'n rhy amwys ar ei ffurf bresennol.

Ar rai o'r manylion technegol cyfreithiol sydd wedi eu crybwyll, beth yw 'oedolyn cymwys'? Sut ydych chi'n diffinio cymhwysedd? Pwy sy'n gwneud y penderfyniad hwnnw? Mae pobl wedi bod yn siarad am feddyginiaeth. Byddai'n rhaid rhoi'r feddyginiaeth honno, os ydych am ei galw'n feddyginiaeth, yn ôl y gyfraith, i'r person y rhagnodwyd ar ei gyfer. Wrth gwrs, mewn rhai sefyllfaoedd, gallai hynny fod yn anodd iawn i'w gyflawni. Proses amherffaith yw llunio a drafftio cyfreithiau. Credaf ein bod i gyd wedi sylweddoli hynny yn y sefydliad hwn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ond y broblem y tro hwn yw y byddai camgymeriadau yn llythrennol yn fater o fywyd a marwolaeth. I mi, er ei bod yn llawn bwriadau da ac er ei bod yn ceisio ymdrin â'r hyn y mae'n ei weld fel anghyfiawnder hirsefydlog i lawer o unigolion a theuluoedd, mae'r ddeddfwriaeth hon ar hyn o bryd yn gam rhy bell ac yn fy marn i'n gam na ddylai pobl eraill ei gymryd oni bai eu bod yn hollol sicr.

Wrth gloi, er fy mod wedi cytuno ar y cyfan ag areithiau rhai o'm cyd-aelodau, credaf nad yw siarad am rai enghreifftiau o ewthanasia mewn gwledydd eraill yn ddefnyddiol yn y ddadl hon. Credaf fod yn rhaid i chi dderbyn bod y bobl sydd wedi dwyn y ddeddfwriaeth hon gerbron yn San Steffan a'r cynnig hwn yma heddiw yn gwneud hynny am y rhesymau gorau posibl. Mae angen i ni gadw'r ddadl hon ar sail gadarn. Rwy'n falch o fod wedi cyfrannu at y ddadl hon heddiw, a gobeithiaf ei bod wedi taflu goleuni ar nifer o faterion, a fydd yn ein helpu i symud ymlaen. Fodd bynnag, fel y dywedais, i minnau, ar hyn o bryd, mae hyn yn gam yn rhy bell.

I too cannot support this motion today, or indeed support the principles of this Bill. Lord Falconer's Bill has been described by many as not only unethical, but also unnecessary and dangerous; and that it has the potential to marginalise the disabled and the vulnerable within our society. There has been much talk of the need for those wishing to end their lives in terms of compassion and dignity. However, it is essential that we show this same compassion, dignity and care for all of our terminally ill.

The Suicide Act 1961 is currently addressing society's attitude towards assisted death: that any active encouragement or assisting in a person's demise is a criminal offence, and the evidence is mounting and overwhelming a very strong opposition to any such legislative change in this area. The BMA and the royal colleges of physicians, surgeons and general practitioners are strongly opposed to legislation of this kind. Less than one in five doctors have stated that they would be willing to engage in the assisted dying principles. Of course, we have all witnessed the shocking catalogue of abuse with the Liverpool care pathway. That has been down to interpretation and has been subjective, where we have seen patients with a chemical cocktail of drugs with the express intent of hastening their deaths. I too personally witnessed that kind of scenario.

I, along with a hugely respected Baroness Finlay and countless medical professionals from across Wales, fail to see any such requirement for a change in our current and protective legislation. In Wales, as has been mentioned, we have some remarkable hospices, such as St David's Hospice within my own constituency. Here, unlike in many other parts of the world, palliative care is a recognised clinical speciality. Recently, 'The Economist' conducted an international survey that saw Britain ranked first for its quality end-of-life care. More than 70% of the members of the Royal College of Physicians stated that, with improvements in palliative care, good clinical care can be provided within existing legislation, and patients can die with dignity. This notion was also set out by the Royal College of General Practitioners Wales in a letter sent to all Assembly Members by doctors Phil Williams and Helen Herbert.

I believe that we should recognise the immense work of our hospices and ensure that all of those suffering with a debilitating or terminal illness are afforded the same level of care, compassion and dignity so often available through our hospice movement in Wales.

The campaign Dignity in Dying states that, subject to strict upfront safeguards, this Bill should enable the terminally ill and mentally incapacitated to request life-ending medication from a doctor. How can we be sure that these safeguards will protect the vulnerable—those for whom 'yes' may mean 'no', and 'yes' may mean 'I don't know'? This fear has been expressed by one of the country's most eminent end-of-life doctors, Baroness Finlay. She has said that it is too dangerous to allow the law to be changed so that somebody else assists and abets your suicide when there are no proper safeguards in this Bill. Again, we talk about interpretation and subjective.

Ni allaf innau chwaith gefnogi'r cynnig hwn heddiw, na chefnogi egwyddorion y Bil hwn yn wir. Disgrifiwyd Bil yr Arglwydd Falconer gan lawer nid yn unig yn anfoesegol, ond hefyd yn ddiangen a pheryglus; a bod ganddo'r potensial i ymleiddio pobl sy'n anabl a bregus yn ein cymdeithas. Bu llawer o sôn am angen y rhai sy'n dymuno rhoi terfyn ar eu bywyd o ran trugaredd ac urddas. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod yn dangos yr un trugaredd, urddas a gofal i bawb sy'n derfynol sâl.

Ar hyn o bryd, Deddf Hunanladdiad 1961 sy'n ymdrin ag agwedd cymdeithas tuag at farwolaeth â chymorth: sef ei bod yn drosedd i neb roi unrhyw anogaeth weithredol neu gymorth i berson farw, ac mae mwy a mwy o dystiolaeth gref yn gwrthwynebu'n gryf iawn unrhyw newid deddfwriaethol o'r fath yn y maes hwn. Mae'r BMA a cholegau brenhinol meddygon, llawfeddygon a meddygon teulu yn gadarn yn erbyn deddfwriaeth o'r math hwn. Dim ond un meddyg o bob pump a ddywedodd y byddent yn barod i gymryd rhan yn yr egwyddorion marw â chymorth. Wrth gwrs, mae pawb ohonom wedi gweld y rhestr syfrdanol o'r camddefnydd o lwybr gofal Lerpwl. Roedd hynny yn destun dehongli ac roedd yn oddrychol, lle bu i ni weld cleifion â chymysgedd cemegol o gyffuriau gyda'r bwriad penodol o gyflymu eu marwolaeth. Bu i mi fy hun fod yn dyst i sefyllfa o'r math hwnnw.

Ni allaf i, na'r Farwnes Finlay sydd mor uchel ei pharch, na gweithwyr proffesiynol meddygol di-ri o bob rhan o Gymru weld unrhyw angen am newid yn ein deddfwriaeth bresennol ac amddiffynnol. Yng Nghymru, fel y soniwyd, mae gennym nifer o hosbisau arbennig, megis Hosbis Dewi Sant yn fy etholaeth fy hun. Yma, yn wahanol i lawer o rannau eraill o'r byd, mae gofal lliniarol yn arbenigedd clinigol cydnabyddedig. Yn ddiweddar, cynhaliodd 'The Economist' arolwg rhyngwladol a roes y lle blaenaf i Brydain am ansawdd ei gofal diwedd oes. Dywedodd mwy na 70% o aelodau Coleg Brenhinol y Meddygon, yn sgîl gwelliannau mewn gofal lliniarol, y gall gofal clinigol da gael ei ddarparu o fewn y ddeddfwriaeth bresennol, ac y gall cleifion farw gydag urddas. Mynegwyd y syniad hwn hefyd gan Goleg Brenhinol Ymarferwyr Cyffredinol Cymru mewn llythyr a anfonwyd at holl Aelodau'r Cynulliad gan y ddau feddyg Phil Williams a Helen Herbert.

Credaf y dylem gydnabod gwaith aruthrol ein hosbisau a sicrhau y caiff pawb sy'n dioddef o salwch gwanychol neu derfynol yr un lefel o ofal, trugaredd ac urddas sydd mor aml ar gael trwy ein mudiad hosbisau yng Nghymru.

Mae'r ymgyrch Dignity in Dying yn dweud, yn amodol ar fesurau diogelu llym a blaengar, y dylai'r Bil hwn alluogi pobl sydd â salwch terfynol ac sy'n feddyliol analluog i ofyn i'w meddyg am feddyginiaeth i roi terfyn ar fywyd. Sut y gallwn ni fod yn sicr y bydd y mesurau diogelu hyn yn gwarchod y diamddiffyn—pobl y mae eu 'ie' yn golygu 'nage', ac 'ie' o bosibl yn golygu 'Dwi ddim yn gwybod'? Mae'r ofn hwn wedi ei fynegi gan un o feddygon diwedd oes enwocaf y wlad, y Farwnes Finlay. Mae hi wedi dweud ei bod yn rhy beryglus i ganiatáu i'r gyfraith gael ei newid fel bod rhywun arall yn eich cynorthwyo yn eich hunanladdiad pan nad oes mesurau diogelu priodol yn y Bil hwn. Unwaith eto, rydym yn siarad am ddehongli a bod yn oddrychol.

16:49	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography Janet, will you take an intervention?	Janet, a wnewch chi dderbyn ymyriad?	Senedd.tv Fideo Video
16:49	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography Yes.	Gwnaf.	Senedd.tv Fideo Video
16:49	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography I am just wondering, because I have heard the debate from all sides and I truly have not decided, if the High Court has to make a decision on it as well, is that not enough? Does that not go as high as you can possibly go in making that decision? Surely, if somebody makes the choice, that is for them. I do not think I could tell anybody how they feel in the Chamber. Surely, if you know how you feel, nobody else should take that away from you.	Hoffwn ofyn, gan i mi glywed pob ochr o'r ddadl a chan nad wyf wedi penderfynu: os yw'r Uchel Lys hefyd yn gorfod gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cais, onid yw hynny'n ddigon? Onid yw hynny'n mynd mor uchel ag y gallwch o bosibl fynd i wneud y penderfyniad hwnnw? Yn sicr, os bydd i rywun wneud dewis, ei benderfyniad ef yw hynny. Ni chredaf y gallwn i ddweud wrth neb sut maent yn teimlo yn y Siambr. Yn sicr, os ydych yn gwybod sut rydych chi'n teimlo, ni ddylai neb arall gymryd hynny i fwrdd oddi wrthych.	Senedd.tv Fideo Video
16:50	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography I take that point on board, but we are talking now about people who may be confused, or who have dementia and who may make a decision one day and then actually feel differently. We are talking about the point of no return and actually assisting in somebody's death. There is no coming back. The Bill does not even define certain fundamental elements that could be viewed as safeguards, such as settled intention or how freedom from coercion or duress may be established. One consultant physician who cared for the elderly for more than 20 years, specialising in those suffering from progressive and usually fatal lung conditions, wrote to me asking me to carefully consider rejecting the proposal to support this, citing grave concerns regarding the reliable prediction of patient survival and the determination of mental capacity. He states that predictions are little more than estimates, with patients being told that they have only several months to live, but can go on to defy the expectations of medical teams. He believes that the practical realities of determining capacity, such as disagreements between family members, practitioners and the patients themselves, will mean that the implementation of this Bill in practice will leave room for interpretation and place the vulnerable at risk. Lord Falconer's Bill lacks the requirement for the psychiatric assessment of a patient when mental capacity is in doubt. We as Assembly Members cannot endorse this. I urge and ask you to reject this motion.	Rwy'n derbyn y pwynt hwnnw, ond rydym yn sôn yn awr am bobl a all fod yn ddryslyd, neu sydd â dementia ac a allai wneud penderfyniad un diwrnod a theimlo'n wahanol maes o law mewn gwirionedd. Rydym yn sôn am sefyllfa ddi-droi'n-ôl a rhoi cymorth i rywun farw. Nid oes dychwelyd. Nid yw'r Bil hyd yn oed yn diffinio elfennau sylfaenol penodol y gellid eu hystyried fel mesurau diogelu, megis bwriad cadarn neu sut y gellir sefydlu na fu pwysau na gorfodaeth. Ysgrifennodd un meddyg ymgynghorol ataf a oedd wedi gofalu am yr henoed am dros 20 mlynedd, gan arbenigo mewn cyflyrau'r ysgyfaint sy'n gwaethygu'n raddol sydd fel arfer yn angheuol, yn gofyn i mi ystyried yn ofalus gwrthod y cynnig i gefnogi hyn, gan nodi pryderon dybryd ynghylch pa mor ddibynadwy y gellir rhagfynegi goroesiad claf a phennu ei allu meddyliol. Dywed mai amcangyfrifiad i raddau helaeth iawn yw rhagfynegiadau, gyda chleifion yn cael eu hysbysu mai dim ond ychydig fisoedd sydd ganddynt i fyw, ond gallant fynd ymlaen i herio disgwyliadau'r timau meddygol. Cred y bydd y realiti ymarferol o benderfynu ar gapasiti, megis anghytundeb rhwng aelodau'r teulu, rhwng ymarferwyr a chyda'r cleifion eu hunain yn golygu y bydd gweithredu'r Bil hwn yn rhoi cyfle i ddehongli gan adael pobl fregus mewn sefyllfa beryglus. Nid yw Bil yr Arglwydd Falconer yn gofyn am wneud asesiad seiciatrig ar glaf os oes amheuaeth ynghylch ei allu meddyliol. Ni allwn fel Aelodau'r Cynulliad gefnogi hyn. Rwy'n annog ac yn gofyn i chi wrthod y cynnig hwn.	Senedd.tv Fideo Video
16:51	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography I call the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.	Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.	Senedd.tv Fideo Video
16:52	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography <i>Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services</i> May I begin by thanking Simon Thomas for the way in which he opened this debate, and many others who have taken part in it?	A gaf i ddechrau trwy ddiolch i Simon Thomas am y modd yr agorodd y ddadl hon, ac i lawer arall a gymrodd ran?	Senedd.tv Fideo Video

As we have heard, the Assisted Dying Bill is intended to legalise assisted suicide for terminally ill, mentally competent adults—not people with dementia, of course—in Wales and England, who have a clear and settled intention to end their own life and are reasonably expected to die within six months. They must have reached a voluntary, clear, settled and informed wish to end their life, but to be unable to do so without medical assistance. Under the terms of the Bill, therefore, healthcare professionals would be required to assess whether an applicant for assisted suicide met the Bill's criteria and then to supply lethal drugs that would enable terminally ill persons to end their own lives.

Although this is a non-devolved matter and the Ministry of Justice will be leading on the Bill, as it involves a change to the criminal law in England and Wales, it is clearly right that, as a matter of such importance, it is discussed and debated here, as it has been in relation to the four different Bills on this matter that have come before the House of Lords in the last 10 years, with none of the previous three having made progress.

The current Bill was introduced to Parliament by Lord Falconer in 2013, had its Second Reading on 18 July, was debated for 10 hours by 130 peers and moved to the Committee of the Whole House of Lords. The first day of the House of Lords committee took place on 7 November and although it debated the Bill from 10 a.m. to after 5 p.m., it succeeded only in agreeing the first clause. It will now be up to Lord Falconer to request a second committee day. That has not yet been scheduled, and may not take place until the new year. Realistically, as the current session of Parliament will be interrupted by the general election, it must seem unlikely that the Bill will have sufficient time to complete its passage through Parliament, or, indeed, even through the House of Lords.

During the Second Reading debate, Lord Faulks, the Minister of State at the Ministry of Justice, set out the UK Government's position that any change in the law in this area would be an issue of individual conscience, and a matter for Parliament to decide, rather than Government policy. This was, of course, the position also taken by the Court of Appeal in reaching a judgment in the case of Nicklinson and Lamb in December 2013, as Simon Thomas reminded us, when concluding that, if the law is to be changed, it must be changed by Parliament.

In correspondence late last year with the then Minister of State at the Ministry of Justice, I agreed with the UK Government's position of neutrality. This is essentially, as Mick Antoniw said, an ethical and moral issue. The question as to whether there are any circumstances in which it could be legal to assist another person to die is deeply controversial and one on which very different views are equally deeply held on all sides of the argument and on all sides of the political spectrum. We have heard powerful contributions this afternoon, for example, by both Angela Burns and William Graham.

Fel y clywsom, bwriad y Bil Cymorth i Farw yw cyfreithloni hunanladdiad â chymorth ar gyfer oedolion â salwch terfynol, sy'n feddylol gymwys—nid pobl â dementia wrth gwrs—yng Nghymru a Lloegr, sydd â bwriad clir a sefydlog i roi terfyn ar eu bywyd eu hunain ac sy'n rhesymol ddisgwyl y byddant yn marw ymhen chwe mis. Rhaid iddynt fod wedi cyrraedd dymuniad gwirfoddol, clir, pendant a gwybodus i roi terfyn ar eu bywyd, ond eu bod yn methu â gwneud hynny heb gymorth meddygol. O dan delerau'r Bil, felly, byddai angen gweithwyr proffesiynol gofal iechyd i asesu a yw ymgeisydd am hunanladdiad â chymorth yn bodloni meini prawf y Bil ac yna i gyflenwi cyffuriau marwol a fyddai'n galluogi pobl derfynol wael i roi terfyn ar eu bywydau eu hunain.

Er bod hyn yn fater sydd heb ei ddatganoli, ac er mai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n arwain ar y Bil, gan y bydd yn peri newid i'r gyfraith droseddol yng Nghymru a Lloegr, gan ei fod yn fater o bwys mawr, yn amlwg mae'n iawn i ni ei drafod a'i ddadlau yma, fel y gwnaed mewn perthynas â phedwar Bil gwahanol ar y mater hwn a ddaeth gerbron Tŷ'r Arglwyddi yn y 10 mlynedd diwethaf, a phob un o'r tri blaenorol heb wneud cynnydd.

Cyflwynwyd y Bil presennol i'r Senedd gan yr Arglwydd Falconer yn 2013, a chafodd ei Ail Ddarlleniad ar 18 Gorffennaf, mewn dadl a barodd 10 awr gan 130 o arglwyddi a'i symud i Bwyllgor Tŷ Cyfan yr Arglwyddi. Cynhaliwyd diwrnod cyntaf pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 7 Tachwedd ac er iddo drafod y Bil o 10 y bore tan wedi 5 yr hwyr, llwyddwyd i gytuno ar y cymal cyntaf yn unig. Bellach, rhaid i'r Arglwydd Falconer ofyn am ail ddiwrnod y pwyllgor. Nid yw hynny wedi ei drefnu eto, ac efallai na ddigwydd tan y flwyddyn newydd. Mewn gwirionedd, gan y bydd sesiwn gyfredol y Senedd yn cael ei thorri ar gyfer yr etholiad cyffredinol, mae'n bur annhebygol y bydd digon o amser i'r Bil gwblhau ei daith drwy'r Senedd, neu, yn wir, drwy Dŷ'r Arglwyddi hyd yn oed.

Yn ystod dadl yr Ail Ddarlleniad, mynegodd yr Arglwydd Faulks, y Gweinidog Gwladol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, safbwynt Llywodraeth y DU y byddai unrhyw newid yn y gyfraith yn y maes hwn yn fater o gydwybod unigol, ac yn fater i'r Senedd ei benderfynu, yn hytrach na pholisi Llywodraeth. Dyma, wrth gwrs, oedd y safbwynt a gymerwyd hefyd gan y Llys Apêl wrth ddyfarnu yn achos Nicklinson a Lamb ym mis Rhagfyr 2013, fel y bu i Simon Thomas ein hatgoffa, wrth gasglu, mai Senedd y DU fydd i benderfynu os bydd i'r gyfraith gael ei newid.

Mewn gohebiaeth yn hwyr y llynedd gyda'r Gweinidog Gwladol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, cytunais â safbwynt niwtral Llywodraeth y DU. Yn y bôn, fel y dywedodd Mick Antoniw, dyma fater moesegol a moesol. Mae'r cwestiwn ynghylch a oes unrhyw amgylchiadau lle y gallai fod yn gyfreithiol i gynorthwyo person arall i farw yn ddadleuol iawn ac yn un y mae gan bobl farn wahanol iawn a daliadau sydd yr un mor gadarn ar y naill ochr i'r ddadl a'r llall ac ar bob ochr o'r sbectrwm gwleidyddol. Rydym wedi clywed cyfraniadau grymus y prynhawn yma, er enghraifft, gan Angela Burns a William Graham.

There is an important distinction to be drawn, as others have, between the potential support for the principle—and, as Simon Thomas reminded us, it is the principle before the Assembly this afternoon—while remaining to be convinced that it is possible to design a set of practical arrangements to make that principle safe and effective. We have heard this afternoon from the supporters of the motion, making the powerful case that can be mobilised in favour of a change in the law: the evidence from elsewhere; the iniquities and inconsistencies in the present arrangements; and the inescapable fact that with even the best palliative care, some deaths are painful, devoid of dignity and full of suffering. At a human level, it is impossible, as Darren Millar said, not to be moved by the plight of anyone for whom life has become intolerable. At a personal level, each Member in this Chamber has, I am sure, reflected on how we ourselves might want to be treated should such challenging circumstances ever have to be faced in our own lives or in those of people close to us, as was movingly described in this debate by Jenny Rathbone.

Yet, all Members here will also have heard over the past few days from powerful and credible opponents of a change in the law—from senior clinicians such as Baroness Illora Finlay, chair of our own end-of-life care board. You will have heard also from individuals and organisations representing disabled people: Kevin Fitzpatrick, former disability rights commissioner for Wales; and Baroness Tanni Grey-Thompson, who writes to say that she knows from personal experience how emotive a debate this can be, but who has chosen consistently to oppose the Lord Falconer Bill in the House of Lords. This much, at least, is clear: there is no monopoly of wisdom on any one side of this debate, nor, as Nick Ramsay reminded us in closing, a monopoly either of moral purpose or of ethical sensitivity.

When I said earlier that I had agreed with Ministers elsewhere that this is not a matter for the Government to take forward, it is not at all to say that to be neutral on an issue of conscience is the same as doing nothing. Here in Wales, we have tried to lead the way in generating discussions on the important matters of death and dying, of the sort highlighted by Kirsty Williams. The changes that we are making to organ donation legislation mean that conversations have happened in families in all parts of Wales, where these had previously not taken place. Our palliative care community is in strong support of our new group, Byw Nawr, a Welsh parallel to the Dying Matters coalition in England and the Good Life, Good Death, Good Grief partnership in Scotland. It is to be chaired by Hywel Francis, the retiring Member of Parliament for Aberavon. It will be an important part of our efforts to persuade people in Wales to plan ahead, to consider drawing up advance decision and advance planning documents, to make a will, to talk to their loved ones about their wishes, and to plan for future care and support.

Mae gwahaniaeth pwysig yn bodoli, fel y nododd eraill, rhwng cefnogi'r egwyddor o bosibl—ac fel y cawsom ein hatgoffa gan Simon Thomas, yr egwyddor sydd gerbron y Cynulliad y prynhawn yma—a chael eich argyhoeddi bod modd llunio trefniadau ymarferol sy'n sicrhau bod yr egwyddor honno'n ddiogel ac effeithiol. Clywsom y prynhawn yma gan gefnogwyr y cynnig, a gyflwynodd achos pwerus y gellir ei ddefnyddio o blaid newid yn y gyfraith: y dystiolaeth o leoedd eraill; anghyfiawnder ac anghysondeb yn y trefniadau presennol; a'r ffaith anochel fod rhai marwolaethau'n boenus, yn amddifad o urddas ac yn llawn dioddefaint hyd yn oed gyda'r gofal lliniarol gorau. Ar lefel ddynol, fel y dywedodd Darren Millar, amhosibl yw bod yn ddiostur wrth dystio i sefyllfa'r sawl y mae ei fywyd bellach yn annioddefol. Ar lefel bersonol, mae pob Aelod yn y Siambr hon, rwy'n siŵr, wedi ystyried sut y byddem ein hunain, o bosibl, am gael ein trin petaem yn wynebu amgylchiadau heriol o'r fath yn ein bywyd ein hunain neu fywyd y rhai sy'n agos atom, fel y bu i Jenny Rathbone ei ddisgrifio i ni mor deimladwy yn y ddatl hon.

Eto i gyd, dros y dyddiau diwethaf bydd pob Aelod yma hefyd wedi clywed gan wrthwynebwyr pwerus a hygred am newid yn y gyfraith—gan uwch glinigwyr fel y Farwnes Illora Finlay, cadeirydd ein bwrdd gofal diwedd oes ni ein hunain. Byddwch wedi clywed hefyd gan unigolion a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl: Kevin Fitzpatrick, cyn-gomisïynydd hawliau anabledd i Gymru; a'r Farwnes Tanni Grey-Thompson, sy'n ysgrifennu i ddweud bod ei bod yn gwybod o brofiad personol pa mor emosïynol y gall y ddatl hon fod, ond sydd wedi dewis yn gyson i wrthwynebu Bil yr Arglwydd Falconer yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae un peth, o leiaf, yn glir: nid oes monopoli o ddoethineb ar y naill ochr na'r llall o'r ddatl hon, ac fel y cawsom ein hatgoffa gan Nick Ramsay wrth gloi, nid oes monopoli chwaith o ran diben moesol nac o ran sensitifrwydd moesegol.

Pan ddywedais yn gynharach fy mod wedi cytuno â Gweinidogion mewn mannau eraill nad yw hwn yn fater i'r Llywodraeth ei ddwyn ymlaen, nid yw hynny'n golygu, o gwbl, fod bod yn niwtral ar fater o gydwybod yn gyfystyr â gwneud dim. Yma yng Nghymru, rydym wedi ceisio arwain y ffordd o ran cynnal trafodaethau ar faterion pwysig yn ymwneud â marwolaeth a marw, y math a amlygwyd gan Kirsty Williams. Mae'r newidiadau yr ydym yn eu gwneud i ddeddfwriaeth rhoi organau yn golygu bod teuluoedd wedi trafod pynciau ym mhob rhan o Gymru, nad oedd wedi eu trafod o'r blaen. Mae ein cymuned gofal lliniarol yn rhoi cefnogaeth gref i'n grŵp newydd, Byw Nawr, sy'n cyfateb i'r gynghrair gyffelyb, Dying Matters yn Lloegr a'r bartneriaeth Good Life, Good Death, Good Grief yn yr Alban. Cadeirydd y grŵp fydd Hywel Francis, yr Aelod Seneddol dros Aberafan sy'n ymddeol. Bydd yn rhan bwysig o'n hymdrechion i berswadio pobl yng Nghymru i gynllunio ymlaen llaw, i ystyried llunio dogfennau sy'n nodi penderfyniadau ymlaen llaw a chynllunio ymlaen llaw, i ysgrifennu ewyllys, i siarad â'u hanwyliaid am eu dymuniadau, ac i gynllunio ar gyfer eu gofal a'u cefnogaeth yn y dyfodol.

In relation to the Lord Falconer Bill, I will, of course, ensure that the transcript of today's proceedings is sent to Lord Falconer himself and to the relevant Ministers at the Ministry of Justice. Should the Bill emerge from its committee stage in the House of Lords, and before it enters the House of Commons, there will be a need for detailed consideration of the implications that the Bill would have for Wales; how such legislation might be implemented here; the role of the Welsh Government and NHS Wales staff; the resource implications entailed in it; and whether it is possible to put sufficient safeguards in place to cover the individuals who might wish to undergo assisted suicide, and the clinical and other workers who would have to undertake the preparatory actions and who may have real reservations and concerns about doing so. If we are in a position where we have to face those practicalities, of course, I will report them in detail to this Chamber and make sure that the important debate that we have begun today is continued as the law moves ahead.

O ran Bil yr Arglwydd Falconer, byddaf, wrth gwrs, yn sicrhau bod trawsgrifiad o'r trafodion heddiw yn cael ei anfon at yr Arglwydd Falconer ei hun ac at y Gweinidogion perthnasol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Pe bai'r Bil yn dod allan o'r cam pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi, a chyn iddo fynd i Dŷ'r Cyffredin, bydd angen ystyried goblygiadau'r Bil ar Gymru yn fanwl; sut y gellid rhoi deddfwriaeth o'r fath ar waith yma; rôl staff Llywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru; goblygiadau o ran yr adnoddau sydd ynghlwm wrtho; ac a yw'n bosibl rhoi digon o fesurau diogelu ar waith i gynnwys yr unigolion a allai fod am gael hunanladdiad â chymorth, a'r gweithwyr clinigol ac eraill a fyddai'n gorfod ymgymryd â'r camau gwaith paratoi a allai fod â gwir amheuan a phryderon ynglŷn â gwneud hynny. Os ydym mewn sefyllfa lle mae'n rhaid i ni wynebu'r agweddau ymarferol hynny, wrth gwrs, byddaf yn eu hadrodd yn fanwl i'r Siambr hon ac yn gwneud yn siŵr bod y ddadl bwysig a ddechreuwyd gennym heddiw yn parhau fel y mae'r gyfraith yn symud ymlaen.

17:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Julie Morgan to reply to the debate.

Galwaf ar Julie Morgan i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:00 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I think this has been a very considered debate, and a deeply moving debate, and I think that all Members have treated each other with respect with regard to differing views.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Credaf i ni gael dadl dystyrlon iawn, a dadl wirioneddol deimladwy, a chredaf fod pob Aelod wedi trin ei gilydd gyda pharch mewn perthynas â safbwyntiau gwahanol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

This is an issue over which we have no power to make a decision, but I think it is very important that we air and discuss this very important debate in this Chamber. We certainly do not have enough time in one hour to discuss this issue. I read through the nearly 10 hours of the Second Reading debate in the House of Lords, in which, as the Minister said, 130 peers requested to speak, and the three hours of the Committee Stage on 7 November, and I know that we can only put our toes in the water here. However, I want to say very strongly at this point that I hope that all Members will remember that we are voting on the principle of the Bill. The Supreme Court has asked Parliament to give a view, and it is that principle that we are voting on. In the Second Reading in the House of Lords, no peer voted against it. This is the further stage that any legislation has reached. No peer voted against it. They all had many different views, but they thought that the principle was one that should be taken forward and discussed further. In the Committee Stage, there was an amendment moved by Lord Pannick that was accepted by Lord Falconer that brought into the arena the safety net of a High Court judge coming in as well to give a safeguard, as well as the two doctors. This, again, was accepted without a vote. So, this has progressed with people with many different views.

Dyma fater nad oes gennym yr un pŵer i wneud penderfyniad yn ei gylch, ond credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn gwyntyllu a thrafod y ddadl hynod bwysig hon yn y Siambr hon. Yn sicr nid oes digon o amser mewn awr i drafod y mater. Bu i mi ddarllen drwy'r ddadl a barodd bron 10 awr ar gyfer yr Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi, lle, fel y dywedodd y Gweinidog, y gofynnodd 130 o aelodau am gael siarad, a thrafodion tair awr y Pwyllgor ar 7 Tachwedd, a gwn mai dim ond megis cyffwrdd â'r ddadl y gallwn ei wneud yma. Fodd bynnag, rwyf am ddweud yn gryf iawn yn awr fy mod yn gobeithio y bydd pob Aelod yn cofio ein bod yn pleidleisio ar egwyddor y Bil. Mae'r Goruchaf Lys wedi gofyn i Senedd y DU roi barn, ac ar yr egwyddor honno yr ydym yn pleidleisio. Yn yr Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi, ni phleidleisiodd yr un o'r Arglwyddi yn ei erbyn. Dyma'r cam pellaf i unrhyw ddeddfwriaeth ei gyrraedd. Ni phleidleisiodd yr un o'r arglwyddi yn ei erbyn. Roedd gan bob un ohonynt lawer o wahanol safbwyntiau, ond roeddent hwy o'r farn bod yr egwyddor yn un y dylid ei chymryd ymlaen a'i thrafod ymhellach. Yn y Pwyllgor, cynigiwyd gwelliant gan yr Arglwydd Pannick a dderbyniwyd gan yr Arglwydd Falconer y dylid cynnwys rhwyd ddiogelwch yn y broses sef barnwr Uchel Lys fel mesur diogelwch, yn ogystal â'r ddau feddyg. Unwaith eto, derbyniwyd hyn heb bleidlais. Felly, mae hyn wedi symud ymlaen gyda phobl sydd â llawer o wahanol safbwyntiau.

The time is very short and I am not going to be able to go through everybody's contributions, so I hope that it will be acceptable for me to just address some of the issues that have come up here today. One of the major issues that many Members have raised is the issue of hospices and palliative care. I want to say very strongly that I do not believe that support for the principles for Lord Falconer's Bill in any way undermines or affects the importance of the hospice movement. I am a strong supporter of that movement, I am vice-president of George Thomas Hospice Care, a member of the cross-party group on hospices, and I acknowledge the work done by Baroness Ilorá Finlay, who is eminently respected and who has worked with the Welsh Government on this issue. However, I do not find any contradiction in working for more funding for the hospice movement, greater opportunities for pain relief, and for patients to die in their own homes as they wish, which does not happen at the moment, as has been pointed out by Kirsty Williams and others today.

Most patients want to die in their own homes surrounded by their family. That does not happen except in only a small percentage of cases. While good quality end-of-life care can alleviate much of the suffering that the dying process causes, it cannot do it for everyone. Legal assisted dying complements palliative care—I think that Simon Thomas made that point in his opening statement—it does not undermine it. Both palliative care and assisted dying share common ground. In fact, I think both agree that people should have dignity when it comes to the end of their lives. So, the issue of palliative care is absolutely vital and, for most people, the development of palliative care is the way that we should be going, and I think we want to do all we can from this Assembly and this Government to support that, but it cannot cover everybody, and today we have had some very moving testimonies given about individual friends and family and the situations that people have seen that make them think that something needs to be done and that there is a gap here. Something needs to be done, and there have been very moving testimonies about that today.

Another issue that has been raised is that medical professionals are all against it, and that all of the different groups are against it, but that is not true. All of the different groups are divided, and the medical profession is divided. We have had a lot of e-mails from the medical profession, but we know for a cert that, when the debate took place in the House of Lords at the Second Reading, Sir Terence English, the ex-president of the Royal College of Surgeons of England, plus 25 very eminent doctors, went and lobbied and presented a letter saying that they supported this. The medical profession is divided, as are disabled people. Obviously, I think we all appreciate the very strong lobbying by disabled people who are afraid that this legislation will affect them. However, certainly, all of the surveys have shown that the majority of disabled people would want to have this option, as many of us would. In fact, I think it is a higher percentage than among the population as a whole. Nevertheless, we do acknowledge that there are disabled people who are very worried that this is a slippery slope, and I think that that is very important to address.

Mae'r amser yn fyr iawn ac ni fedraf fynd trwy gyfraniadau pawb, felly gobeithiaf y bydd yn dderbynol i mi ddim ond mynd i'r afael â rhai o'r materion sydd wedi codi yma heddiw. Un o'r prif faterion y mae llawer o Aelodau wedi ei godi yw hosbisau a gofal lliniarol. Rwyf am ddweud yn gryf iawn na chredaf fod cefnogi egwyddorion Bil yr Arglwydd Falconer mewn unrhyw ffordd yn tansellio neu'n effeithio ar bwysigrwydd y mudiad hosbisau. Rwy'n gefnogwr cryf o'r mudiad, rwy'n is-lywydd Gofal Hosbis George Thomas, yn aelod o'r grŵp trawsbleidiol ar hosbisau, ac rwy'n cydnabod y gwaith a wneir gan y Farwnes Ilorá Finlay, sy'n amlwg yn uchel ei pharch ac sydd wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru ar y mater hwn. Fodd bynnag, ni welaf unrhyw anghysondeb mewn gweithio dros fwy o arian ar gyfer y mudiad hosbis, mwy o gyfleoedd ar gyfer lleddfu poen, ac i gleifion gael marw yn eu cartref eu hunain yn ôl eu dymuniad, nad yw'n digwydd ar hyn o bryd, fel y nodwyd gan Kirsty Williams ac eraill heddiw.

Dymuniad y rhan fwyaf o gleifion yw cael marw yn eu cartref eu hunain gyda'u teulu o'u cwmpas. Dim ond mewn canran fach o achosion y mae hynny'n digwydd. Er y gall gofal o ansawdd da ar ddiwedd oes liniaru llawer o'r dioddefaint a achosir gan y broses o farw, ni all wneud hynny i bawb. Mae cyfreithloni marw â chymorth yn ategu gofal lliniarol—credaf y gwnaeth Simon Thomas y pwynt yn ei ddatganiad agoriadol—nid yw'n tansellio hynny. Mae gofal lliniarol a marw â chymorth yn rhannu tir cyffredin. Yn wir, credaf fod y ddau yn cytuno y dylai pobl gael urddas pan ddaw adeg diwedd eu hoes. Felly, mae gofal lliniarol yn gwbl hanfodol ac, i'r rhan fwyaf o bobl, datblygu gofal lliniarol yw'r llwybr y dylem ei ddilyn, a chredaf ein bod am wneud popeth yn ein gallu yn y Cynulliad hwn a thrwy'r Llywodraeth hon i gefnogi hynny, ond ni all gwmpasu pawb, a heddiw cawsom rai hanesion teimladwy iawn am ffrindiau a theulu a'r sefyllfaoedd y mae pobl wedi'u gweld sydd wedi peri iddynt feddwl bod angen gwneud rhywbeth, a bod bwloch yma. Mae angen gwneud rhywbeth, a chafwyd tystiolaeth deimladwy iawn ynglŷn â hynny heddiw.

Mater arall a godwyd yw bod gweithwyr proffesiynol meddygol i gyd yn ei erbyn, a bod pob un o'r gwahanol grwpiau yn ei erbyn, ond nid yw hynny'n wir. Mae pob un o'r gwahanol grwpiau yn rhanedig ac mae'r proffesiwn meddygol yn rhanedig. Rydym wedi cael llawer o negeseuon e-bost gan y proffesiwn meddygol, ond gwyddom yn bendant, pan gynhaliwyd y ddatl yn Nhŷ'r Arglwyddi yn yr Ail Ddarlleniad, bu Syr Terence English, cyn-lywydd Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr, yn ogystal â 25 o feddygon blaenllaw iawn, yn lobio a chyflwyno llythyr yn dweud eu bod yn cefnogi hyn. Mae'r proffesiwn meddygol yn rhanedig, fel y mae pobl anabl. Yn amlwg, credaf ein bod i gyd yn gwerthfawrogi'r lobio cryf iawn gan bobl anabl sy'n ofni y bydd y ddeddfwriaeth hon yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, yn sicr, mae pob un o'r arolygon wedi dangos y byddai'r rhan fwyaf o bobl anabl eisiau cael y dewis hwn, yr un fath â llawer ohonom ni. Yn wir, credaf fod y ganran honno'n uwch nag ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod rhai pobl anabl sy'n bryderus iawn fod hwn yn llwybr peryglus, a chredaf ei bod yn hynod bwysig mynd i'r afael â hynny.

Darren Millar certainly said that this was a slippery slope, but this is a very controlled and very specific Bill. It is quite definite as to the group that it is intended for. Simon Thomas said that in his introduction; it is for people who are terminally ill and who may have only six months to live. It is very, very specific, and the safeguards have increased. At the Committee Stage, a High Court judge was brought in, so there are additional safeguards there.

As to the other arguments that have been made, I think some of them also need to be addressed. The issue of what happens in Oregon has been raised, and the point was made that some of the attempts to end life have not ended successfully. I think it is very important to say that Lord Falconer's Assisted Dying Bill has an additional safeguard that is not there in Oregon, in that it requires a healthcare professional to deliver the medication to the person who has made the request and to remain with the person, or in close proximity to them, until they have self-administered the medication and died. That is not there in the Oregon legislation, so that safeguard is built in.

Mohammad Asghar a gododd—

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am nearly coming to the end of my time.

So, I think we have an opportunity here in this Assembly today to vote for the principle of the Bill and to show as a body that we recognise that there are issues that need to be addressed. Certainly, the House of Lords, with all its huge range of opinions, let this go to Committee Stage. They all agreed on amendments. Surely here in this Chamber we can vote for the principle of the Bill and say, 'Let's give people dignity in dying'? I hope Members will support this Bill.

Yn sicr, dywedodd Darren Millar fod hwn yn llwybr peryglus, ond mae rheolaeth lem a phenodol iawn i'r Bil hwn. Mae'r grŵp sy'n berthnasol i'r Bil yn gwbl bendant. Dywedodd Simon Thomas yn ei gyflwyniad; mae ar gyfer pobl sy'n derfynol wael sydd ganddynt o bosibl ddim ond chwe mis i fyw. Mae'n benodol dros ben, ac mae'r mesurau diogelu wedi cynyddu. Yn ystod y Cam Pwyllgor, cyflwynwyd barnwr Uchel Lys, felly mae ganddo fesurau diogelu ychwanegol.

O ran y dadleuon eraill a gyflwynwyd, credaf fod angen mynd i'r afael â rhai ohonynt hwy hefyd. Codwyd yr hyn sy'n digwydd yn Oregon, a gwnaed y pwynt nad oedd rhai o'r ymdrechion i roi terfyn ar fywyd wedi dod i ben yn llwyddiannus. Credaf ei bod yn bwysig iawn dweud bod gan Fil Marw â Chymorth yr Arglwydd Falconer gam diogelu ychwanegol nad oes gan Oregon, sef bod yn rhaid cael gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i roi'r feddyginiaeth i'r person sydd wedi gwneud y cais ac aros gyda'r person, neu'n agos atynt, hyd nes eu bod wedi gweinyddu'r feddyginiaeth a marw. Nid yw hynny yn rhan o ddeddfwriaeth Oregon, felly nid yw'r cam diogelu wedi'i gynnwys.

Mohammad Asghar rose—

Mae fy amser bron â dod i ben.

Felly, credaf fod gennym gyfle yma yn y Cynulliad hwn heddiw i bleidleisio dros egwyddor y Bil a dangos fel corff ein bod yn cydnabod bod yma faterion y dylid rhoi sylw iddynt. Yn sicr, bu i Dŷ'r Arglwyddi, gyda'i holl amrywiaeth enfawr o safbwyntiau, drosglwyddo'r mater i'r Cam Pwyllgor. Roeddent i gyd yn gytûn ar welliannau. Siawns y gallwn ni yma yn y Siambr hon, bleidleisio dros egwyddor y Bil a dweud, 'Rhown urddas i bobl wrth farw'? Gobeithiaf y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r Bil hwn.

17:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is objection. I defer voting on this item until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Rhaglen Lywodraethu

Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones.

Cynigir ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Welsh Conservatives Debate: The Programme for Government

The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones.

17:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Angela Burns i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5654 Paul Davies

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

I call on Angela Burns to move the motion.

Motion NDM5654 Paul Davies

The National Assembly for Wales:

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

1. Yn nodi, o dan y Rhaglen Lywodraethu bresennol, fod Llywodraeth Cymru wedi methu o ran ei hamcanion allweddol i gyflawni dros bobl Cymru.

2. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyhoeddi amserlen gyflawn ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar ddechrau'r Cynulliad hwn; a

3. Yn galw ar y Prif Weinidog i nodi ei bumed flwyddyn yn y swydd drwy gyhoeddi amserlen ar gyfer cyrraedd targedau ei Lywodraeth o ran:

a) perfformiad y GIG;

b) perfformiad addysgol Cymru yn erbyn safonau rhyngwladol megis PISA; ac

c) gwelliant mewn perfformiad economaidd ledled Cymru.

1. Notes that under the current Programme for Government the Welsh Government has failed in its key objectives to deliver for the people of Wales;

2. Regrets that the Welsh Government failed to publish a complete timetable for Key Performance Indicators at the beginning of this Assembly; and

3. Calls on the First Minister to mark his 5th anniversary in office by publishing a timetable for meeting his Government's targets on:

a) NHS performance;

b) Welsh educational performance against international standards such as PISA; and

c) improvement in economic performance across Wales.

17:07

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

It gives me no pleasure to move the motion before us today tabled in the name of Paul Davies, but the Welsh Conservatives are deeply troubled by the lack of progress made by the Welsh Government in areas such as health, the economy and education, to mention but a few.

Much can happen in five years, both good and bad. It is five years since the Welsh Labour Party had a new hand on the tiller: five years for the Welsh Government to make the necessary changes to rescue the country, but, unfortunately for Wales, in the past five years the Welsh Government has failed in its key objectives to deliver for the people of Wales.

The advent of a new First Minister has, for the most part, not brought the positive changes that this country desperately needs. Without key performance indicators, it is difficult to measure the performance and progress in the areas that I intend to discuss today.

Therefore, not only do we regret that the Welsh Government failed to publish a complete timetable for key performance indicators at the beginning of this Assembly, but we call on the First Minister to mark his fifth anniversary in office—congratulations today, First Minister—by publishing a timetable for meeting his own Government's targets. By not producing key performance indicators at the beginning of this Assembly, the Welsh Government has deprived us of a more unique insight into how different areas of our society are faring, especially in the case of education, which is less transparent on data than other areas. It is on this area of education that I will begin.

Cyflwynaf y cynnig.

Ni chaf yr un pleser i gyflwyno'r cynnig sydd ger ein bron heddiw a gyflwynwyd yn enw Paul Davies, ond mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cael eu poeni yn fawr gan y diffyg cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn meysydd megis iechyd, yr economi ac addysg, i enwi dim ond rhai.

Gall llawer ddigwydd mewn pum mlynedd, da a drwg. Mae'n bum mlynedd ers i'r Blaid Lafur Gymreig roi llaw newydd ar y llyw: pum mlynedd i Lywodraeth Cymru wneud y newidiadau angenrheidiol i achub y wlad, ond, yn anffodus i Gymru, yn y pum mlynedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi methu yn ei hamcanion allweddol i gyflawni dros bobl Cymru.

Nid yw dyfodiad Prif Weinidog newydd, ar y cyfan, wedi dod â'r newidiadau cadarnhaol sy'n daer eu hangen ar y wlad hon. Heb ddangosyddion perfformiad allweddol, mae'n anodd mesur perfformiad a chynnydd yn y meysydd y bwriadaf eu trafod heddiw.

Felly, nid yn unig ein bod wedi'n siomi na lwyddodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen gyflawn ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol ar ddechrau'r Cynulliad hwn, ond rydym yn galw ar y Prif Weinidog i ddathlu ei bumed pen-blwydd yn y swydd—llongyfarchiadau i chi heddiw, Brif Weinidog—drwy gyhoeddi amserlen ar gyfer cyrraedd targedau ei Lywodraeth ei hun. Trwy beidio â chynhyrchu dangosyddion perfformiad allweddol ar ddechrau'r Cynulliad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ein hamddifadu o ddadansoddiad mwy unigryw o'r sefyllfa mewn amrywiol feysydd yn ein cymdeithas, yn enwedig yn achos addysg, sy'n llai tryloyw ar ddata na meysydd eraill. Hoffwn ddechrau gyda'r maes hwn, sef addysg.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We welcome the increase in the number of pupils achieving GCSE A* to C grades. However, make no mistake: we are still under-performing compared with the rest of the UK. Mathematics continues to cause concern. This year, more people sat mathematics exams, yet the pass rate dropped. Additionally, the number of pupils taking modern foreign languages is decreasing, which is frankly appalling given that we operate in a globalised economy that welcomes the ability to be multilingual. While there were welcome gains in A-level results this year, our pass rate remains below the UK average. First Minister, when will we see a clear step change improvement in pass rates at both GCSE and A-level? This is a critical objective, not only to bring Wales in line with the UK average, but to transform Wales by having a leading education system.

Regional consortia are supposed to bring about that transformation. However, for an initiative that was developed in 2011, the fact that the four consortia are still at different stages of development is alarming. First Minister, surely it should not take more than three years to achieve this. We are a small nation; agility should be a given for us. However, if all of your policies take so long to implement, rather than agility, Wales will suffer stasis at best and regression at worst.

The 2012 PISA results were another blow to your Government's education plans. However, instead of trying harder, First Minister, your Government simply scrapped the target. Instead of aiming to be a top 20 nation for PISA scores, the new objective aims for a 500 score across the three domains, a target that is backward-looking, given that we achieved 505 for science in 2006. How did it go so wrong? Surely one of the factors that contribute to this failure is a lack of specialist teachers in our schools, which not only affects our PISA scores but holds us back from achieving better GCSE and A-level results. To get specialist teachers requires funding for specialist posts. Yet, as the Association of School and College Leaders pointed out very clearly last week, the lack of funding will ensure that many schools will not be able to maintain the status quo let alone improve and develop their capacity.

Now, funding: a tricky subject, always being blamed on the Westminster Government, and yet your own research, First Minister, shows that a fifth of the education budget is not getting through to the front line. Since 2011, there has been an increase in the amount that Welsh students are underfunded by compared to English students from £300 to £604 at the last count. This number is predicted by the National Union of Teachers to be around £700 now, but we cannot be sure because the Welsh Government has conveniently discontinued publishing comparative figures. So, I ask you, First Minister: is this information still collected? If so, tell me I am wrong by publishing it.

Rydym yn croesawu'r cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni TGAU A* i C. Fodd bynnag, dylem gofio: rydym yn parhau i danberfformio o'i gymharu â gweddill y DU. Mae mathemateg yn parhau i achosi pryder. Eleni, roedd mwy o bobl wedi sefyll arholiadau mathemateg, ac eto roedd y gyfradd a lwyddodd yn is. Yn ogystal, mae llai o ddisgyblion yn astudio ieithoedd tramor modern, sy'n warthus mewn gwirionedd o gofio ein bod yn gweithredu mewn economi fyd-eang sy'n croesawu'r gallu i fod yn amlieithog. Er bod cynnydd derbyniol mewn canlyniadau Lefel A eleni, mae'r gyfradd a lwyddodd yn parhau yn is na chyfartaledd y DU. Brif Weinidog, pa bryd yr ydym yn debygol o weld gwelliant sylweddol a chlir mewn cyfraddau llwyddo ar lefel TGAU a Safon Uwch? Mae'r amcan hwn yn hollbwysig, nid dim ond er mwyn sicrhau'r un cyfartaledd i Gymru â gweddill y DU, ond er mwyn trawsnewid Cymru drwy gael system addysg flaenllaw.

Mae consortia rhanbarthol i fod i sicrhau'r trawsnewid hwnnw. Fodd bynnag, o gofio bod y fenter hon wedi'i datblygu yn 2011, mae'n frawychus deall bod y pedwar consortiwm yn dal i fod ar wahanol gamau yn eu datblygiad. Brif Weinidog, yn sicr, ni ddylai gymryd mwy na thair blynedd i gyflawni hyn. Cenedl fechan yw Cymru; dylai ystwythder fod yn fater o drefn i ni. Fodd bynnag, os cymer eich holl bolisiau gymaint o amser i'w gweithredu, nid ystwythder fydd y drefn yng Nghymru ond llesgedd ar y gorau neu ddirywiad ar ei waethaf.

Roedd canlyniadau PISA 2012 yn ergyd arall i gynlluniau addysg eich Llywodraeth. Fodd bynnag, yn hytrach nag ymdrechu'n galetach, Brif Weinidog, mae eich Llywodraeth yn syml wedi dileu'r targed. Yn hytrach nag anelu i fod ymhlith yr 20 cenedl uchaf ar gyfer sgorau PISA, yr amcan newydd yw anelu at sgôr o 500 ar draws y tri maes, targed sy'n edrych tuag yn ôl, o gofio ein bod yn cyflawni 505 ar gyfer gwyddoniaeth yn 2006. Sut aeth pethau gymaint ar chwâl? Siawns mai un o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y methiant hwn yw'r prinder athrawon arbenigol yn ein hysgolion, sydd nid yn unig yn effeithio ar ein sgorau PISA, ond sy'n ein dal yn ôl rhag cyflawni gwell canlyniadau TGAU a Safon Uwch. Mae cael athrawon arbenigol yn gofyn am arian ar gyfer swyddi arbenigol. Eto i gyd, fel y nododd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau yn glir iawn yr wythnos diwethaf, bydd y diffyg cyllid yn sicrhau na fydd llawer o ysgolion yn gallu cynnal eu sefyllfa bresennol heb sôn am wella a datblygu eu gallu.

Rwy'n derbyn bod arian yn bwnc anodd, a'r bai bob amser ar Lywodraeth San Steffan, ac eto yn ôl eich ymchwiliad eich hun, Brif Weinidog, gwelwyd nad yw un rhan o bump o'r gyllideb addysg yn cyrraedd y rheng flaen. Ers 2011, bu cynnydd yn y swm y mae myfyrwyr o Gymru yn cael eu tangyllido o gymharu â myfyrwyr o Loegr o £300 i £604 yn ôl y ffigurau diwethaf. Erbyn hyn, yn ôl amcan rif Undeb Cenedlaethol yr Athrawon mae'r swm tua £700, ond ni allwn fod yn sicr oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn ddigon cyfleus wedi rhoi'r gorau i gyhoeddi ffigurau cymharol. Felly, a gaf i ofyn i chi, Brif Weinidog: a yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu o hyd? Os felly, dangoswch i mi fy mod yn anghywir drwy gyhoeddi'r wybodaeth.

I will now move on to healthcare in Wales, a subject that has received UK-wide coverage, but unfortunately for the wrong reasons. NHS Wales has not met its targets in a variety of areas, and the scale of the misfiring is unnerving. One of the most unnerving elements of the NHS debate is that, as soon as we start to demand better outcomes, shorter waiting times and access to life-giving drugs, you counter by accusing us of traducing the doctors and nurses, the hard-working staff, the very health service itself, and this is patently nonsense. We want improvements, not promises. Our health service creaks along with exhausted staff crying out for more support. The general public creaks along, desperately hoping to get access to the treatments they deserve within a decent timeframe.

Time seems to be a recurring theme with the Government's approach to healthcare. It cannot help but make people wait. A total of 432,869 patients were waiting for the start of their treatment from September this year, an increase of a staggering 131.2%. Things worsen when we look at the number of people who have waited for a diagnosis. At the end of September 2014, 22,000 patients were waiting more than eight weeks for diagnosis, which is a staggering 1,088% increase from December 2009. As for cancer waiting times, a subject I have raised with you personally many times, First Minister, let me be clear: fewer people have started treatment within 62 days since you became First Minister. This target has not been reached since 2008.

As for ambulance response times, in October, only 55.5% of emergency responses to category A calls arrived at the scene within eight minutes. In other words, only once—once—in the past two and a half years have ambulances hit their response times. The statistics show an NHS that is deficient in its duties. So, we ask you: when will your health policies achieve their targets? When will you ensure that patients do not wait longer than necessary for diagnosis and treatment? When will you give people access to life-saving treatments currently denied them? Without a sound health service, society simply cannot function to its utmost.

People will be out of education and work for longer, which will, in turn, affect our economy. Despite your hand on the economic tiller of Wales, Wales is still the poorest region in the UK. Although we welcome schemes that have brought about some success, such as Jobs Growth Wales, and we welcome the improved news on GVA today, the fact remains that your Government still has a long way to go to achieve your targets. The statistics reflect this. Our gross value added per capita, relative to the UK average, has decreased from 2009. We now contribute a lesser share of total UK GVA. Wales's gross domestic product dropped from 89% to only 74% between 2009 and 2011. Although our unemployment rate has decreased since 2009, it still lags behind the UK average, and the same goes for our claimant count.

Symudaf ymlaen yn awr at ofal iechyd yng Nghymru, pwnc sydd wedi cael sylw ledled y DU, ond yn anffodus am y rhesymau anghywir. Nid yw GIG Cymru wedi cyflawni ei dargedau mewn amrywiaeth o feysydd, ac mae graddau'r methiant yn destun pryder. Un o elfennau mwyaf gofidus y ddadl GIG yw, cyn gynted ag y byddwn yn dechrau mynnu gwell canlyniadau, amseroedd aros byrrach a chyffuriau sy'n estyn bywyd, y cewch eich cyhuddo o feirniadu meddygon a nyrsys, y staff gweithgar, a'r gwasanaeth iechyd ei hun, ac mae hyn yn ffwlbri noeth. Hoffem weld gwelliannau nid addewidion. Mae ein gwasanaeth iechyd yn gwegian yn ei flaen gyda'r staff blinedig yn gweiddi am fwy o gymorth. Mae pobl gyffredin yn gwegian yn eu blaen, gan obeithio'n daer y cânt y triniaethau y maent yn eu haeddu o fewn amserlen weddus.

Ymddengys fod amser yn thema gyson o ran agweddau'r Llywodraeth at ofal iechyd. Ni all beidio â gwneud i bobl aros. Roedd cymaint â 432,869 o gleifion yn aros i'w triniaeth gychwyn o fis Medi eleni, sef cynnydd syfrdanol o 131.2%. Mae pethau'n gwaethygu wrth i ni edrych ar nifer y bobl sydd wedi aros i gael diagnosis. Ar ddiwedd mis Medi 2014, roedd 22,000 o gleifion yn aros mwy nag wyth wythnos ar gyfer diagnosis, sy'n gynydd syfrdanol o 1,088% o fis Rhagfyr 2009 ymlaen. O ran amseroedd aros canser, pwnc a godais gyda chi'n bersonol sawl gwaith, Brif Weinidog, gadewch i mi fod yn glir: mae llai o bobl wedi dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod ers i chi ddod yn Brif Weinidog. Nid yw'r targed hwn wedi ei gyrraedd ers 2008.

O ran amseroedd ymateb ambiwlansys, ym mis Hydref, dim ond 55.5% o ymatebion brys i alwadau categori A gyrrhaeddodd y lleoliad o fewn wyth munud. Mewn geiriau eraill, dim ond unwaith—unwaith—yn y ddwy flynedd a hanner diwethaf y mae ambiwlansys wedi cyflawni eu hamseroedd ymateb. Yn ôl yr ystadegau, mae'r GIG yn ddiffygiol o ran ei ddyletswyddau. Felly, rydym yn gofyn i chi: pryd y bydd eich polisiau iechyd yn cyflawni eu targedau? Pa bryd y byddwch yn sicrhau nad yw cleifion yn aros yn hwy nag sydd ei angen ar gyfer diagnosis a thriniaeth? Pa bryd y byddwch yn gadael i bobl gael triniaethau achub bywyd nad ydynt yn cael eu cynnig ar hyn o bryd? Heb wasanaeth iechyd cadarn, ni all cyrdeithas weithredu hyd eithaf ei gallu.

Wrth i bobl fod yn absennol o'r gwaith ac o'u haddysg bydd hyn yn effeithio ar ein heconomi. Eich llaw chi sydd ar lyw economi Cymru, eto Cymru yw rhanbarth tlotaf y DU o hyd. Er ein bod yn croesawu cynlluniau sydd wedi arwain at rywffaint o lwyddiant, fel Twf Swyddi Cymru, ac rydym yn croesawu'r newyddion gwell ar werth ychwanegol gros heddiw (GVA), erys y ffaith fod gan eich Llywodraeth ffordd bell i fynd i gyrraedd eich targedau. Mae'r ystadegau'n dangos hyn. Mae ein GVA, o'i gymharu â chyfartaledd y DU, wedi gostwng ers 2009. Rydym bellach yn cyfrannu cyfran lai o gyfanswm GVA y DU. Mae cynnyrch mewnwladol gros Cymru wedi gostwng o 89% i ddim ond 74% rhwng 2009 a 2011. Er bod ein cyfradd diweithdra wedi gostwng ers 2009, mae'n dal i lusgo y tu ôl i gyfartaledd y DU, ac mae'r un peth yn wir am ein cyfrif hawlwyd.

We believe that the enterprise zones initiative is a good one in theory, but it is difficult to scrutinise and determine whether it has contributed to the Welsh economy. Why? It is because the key performance indicators that measure the progress of the enterprise zones offer no way of differentiating how each zone has fared. They are all lumped together to produce a single number.

The infrastructure that is so crucial to our economy is another area where you, as First Minister, and the Welsh Government faltered. The electrification of the Valleys lines was a process that should not have taken most of 2014 to settle. It took the dynamism and pragmatism of the Secretary of State for Wales, Stephen Crabb, to finally resolve the issue. We will now see better connection in this area of south Wales, meaning people have better access to jobs and new customers for businesses in Cardiff and the south-east.

I finally want to mention how the Government needs to improve the measuring of the progress of our economy. For example, Scotland enjoys a wealth of economic data and models that we in Wales do not, and it enables them to focus on what works and what does not work. The use of input and output tables, which track the relationships between different areas of a country's economy, is incredibly useful, but also a relatively easy model to adopt. Cardiff Business School keeps its own input and output tables, but it does not have the resources to do this on a more significant scale. With this in mind, we agree with the Plaid Cymru amendment, which is that the Welsh Government should co-operate with Office for National Statistics and the Office for Budget Responsibility to develop up-to-date key performance indicators. This is especially important given how we will receive more fiscal powers by way of the Wales Bill. This will give us greater freedom to help our economy, so we need appropriate tools to ensure that this happens.

We on this side of the Chamber are not just deeply troubled with the Welsh Labour Government that consistently underperforms, but we are also frustrated by its consistent refusal to be monitored and made accountable, indeed by its unwillingness to examine for itself what is successful and what is not. The First Minister needs to tell us when it is going to achieve some of the changes this country so desperately needs. No more policy filibustering. When is it going to happen? You should be able to make it happen. I commend this motion to the Chamber.

Credwn fod y parthau menter yn syniad da mewn egwyddor, ond mae'n anodd craffu a phennu a yw wedi cyfrannu at economi Cymru. Pam? Y rheswm am hynny yw nad yw'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n mesur cynnydd y parthau menter yn cynnig unrhyw ffordd o wahaniaethu sut mae pob parth wedi perfformio. Maent i gyd yn cael eu trin gyda'i gilydd i gynhyrchu un rhif.

Mae'r seilwaith sydd mor hanfodol i'n heconomi yn faes arall lle rydych chi, fel Prif Weinidog, a lle mae Llywodraeth Cymru wedi baglu. Nid yw trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn rhywbeth ddylai fod wedi cymryd y rhan fwyaf o 2014 i'w gytuno. Egni a phragmatiaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Stephen Crabb, yn y pen draw lwyddodd i ddatrys y mater yn derfynol. Byddwn yn awr yn gweld gwell cysylltiadau yn yr ardal hon o dde Cymru, sy'n golygu y bydd busnesau yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain yn fwy hygyrch i bobl o ran swyddi a chwsmeriaid newydd.

Yn olaf, rwy'n awyddus i sôn am sut mae angen i'r Llywodraeth wella'r ffordd o fesur cynnydd ein heconomi. Er enghraifft, mae gan yr Alban gyfoeth o ddata economaidd a modelau nad oes gennym ni yng Nghymru, sy'n eu galluogi i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n llwyddiannus neu'n aflwyddiannus. Mae'r defnydd o dablau mewnbwn ac allbwn sy'n olrhain y berthynas rhwng gwahanol rannau o economi gwlad, yn ddefnyddiol dros ben, ond hefyd yn fodel cymharol hawdd i'w fabwysiadu. Mae Ysgol Fusnes Caerdydd yn cadw ei thablau mewnbwn ac allbwn ei hun, ond nid oes ganddi'r adnoddau i wneud hyn ar raddfa fwy sylweddol. Gyda hyn mewn golwg, rydym yn cytuno â gwelliant Plaid Cymru, sef y dylai Llywodraeth Cymru gydwethio â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau i ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol cyfredol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried sut y byddwn yn derbyn mwy o bwerau cyllidol drwy gyfrwng Bil Cymru. Bydd hyn yn rhoi mwy o ryddid i ni i helpu ein heconomi, felly mae angen i ni gael arfau priodol i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Rydym ni, ar yr ochr hon o'r Siambr, nid yn unig yn poeni'n fawr fod Llywodraeth Lafur Cymru'n tanberfformio'n gyson, ond rydym hefyd yn teimlo'n rhwystredig ei bod yn parhau i wrthod cael eu monitro a'i dal yn atebol, yn wir gan ei amharodwydd i archwilio ohoni ei hun yr hyn sy'n llwyddiannus neu'n aflwyddiannus. Mae angen i'r Prif Weinidog ddweud wrthym ba bryd y mae'n mynd i gyflawni rhai o'r newidiadau y mae'r wlad hon mor daer eu hangen. Dim rhagor o herwddadlau ar bolisi. Pryd mae'n mynd i ddigwydd? Dylech allu gwneud iddo ddigwydd. Cymeradwyaf y cynnig hwn i'r Siambr.

17:18

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig y gwelliant, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 1—Elin Jones

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have selected the amendment to the motion. I call on Rhun ap Iorwerth to move amendment 1, tabled in the name of Elin Jones.

Amendment 1—Elin Jones

Insert as new point 3 and renumber accordingly:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i sicrhau bod gan Gymru set lawn o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol cyfredol ar gyfer yr economi.

Calls on the Welsh Government to work with the Office of National Statistics and the Office of Budget Responsibility to ensure that Wales has a full set of up-to-date Key Performance Indicators for the economy.

17:18

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cynigiad welliant 1.

I move amendment 1.

A gaf i ddiolch i'r Ceidwadwyr am ddod â'r ddatl hon yn ei blaen? Mae hi'n addas iawn ar ddiwedd tymor ein bod ni'n cael, os nad adroddiad ysgol, asesiad o berfformiad Llywodraeth a sut mae'r weinyddiaeth yn cadw at yr addewidion y mae wedi'u gwneud i bobl Cymru. Mae'r cynnig yn rhoi sylw yn benodol i fesuryddion perfformiad, ac mi wnaf ganolbwyntio'n fyr iawn ar fesuryddion economaidd.

May I thank the Conservatives for tabling this motion for debate? It is very appropriate at the end of term that we get, if not a school report, an assessment of the performance of Government and how the administration will stick to the pledges that it made to the people of Wales. The motion specifically covers key performance indicators, and I will concentrate briefly on economic indicators.

Mae ein gwelliant ni yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio efo'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i sicrhau bod gan Gymru set lawn o ddangosyddion perfformiad allweddol cyfredol ar gyfer yr economi. Mi wnaf i dynnu sylw at yr anhawster wrth baratoi am y ddatl yma y prynhawn yma oherwydd diffyg data o'n blaenau ni.

Our amendment calls on the Welsh Government to work with the Office for National Statistics and the Office for Budget Responsibility to ensure that Wales has a full set of up-to-date key performance indicators for the economy. I will highlight the difficulty in preparing for the debate here this afternoon because of the absence of data available to us.

Y bore yma, mi wnaeth yr ONS gyhoeddi yr ystadegau diweddaraf ar gyfer GVA Cymru, sef un o'n prif fesuryddion sydd gennym ni ar gyflwr yr economi. Mae hi ond yn deg i mi gyfeirio at y rheini rwan. Rydyn ni'n croesawu, wrth gwrs, unrhyw gynnydd mewn GVA, ond yr hyn y mae'r ffigurau yn eu dangos yn fwy na dim byd ydy mor boenus o isel ydy'r 'base' yr ydym yn cychwyn ohono a chymaint ydy anghyfarfartedd economaidd yr ynysoedd yma. Rwy'n gobeithio y gallwn ni i gyd fod yn gyffrous ynglŷn â'r posibilrwydd o allu dechrau cael ein dwylo ar y lifrau hynny sydd yn gallu newid cyfeiriad ein heconomi ni.

This morning, the ONS published the latest statistics on GVA for Wales, which is one of our main indicators of the state of the economy. It is only fair that I refer to those now. We welcome, of course, any increase in GVA, but what the figures demonstrate more than anything is how painfully low our baseline is, and how great the economic inequality is within these isles. I think we can all be excited about the possibility of starting to get our hands on those levers that will enable us to change the direction of our economy.

Fodd bynnag, gan fynd yn ôl at y ffigurau diweddaraf a gafodd eu cyhoeddi'r bore yma, rwy'n dweud y 'diweddaraf', ond nid ydyn nhw mor ddiweddar â hynny, wrth gwrs. A ninnau ar drothwy 2015, y bore yma fe gawsom ni ystadegau GVA ar gyfer 2013. Er ei fod yn hen ffigur sydd ym mhell iawn o fod yn dangos perfformiad yr economi heddiw, hwn ydy un o'r prif declynnau sydd gennym fel ffurfwyr a dylunwyr polisi i ddadansoddi cyflwr yr economi. Fe fyddai'n bosibl i ni benderfynu edrych ar GDP yn lle, ond, pe baem ni am gael ffigurau GDP, byddem ni'n gorfod bodloni ar ffigurau diweddaraf yn deillio o 2011. Mae'r sefyllfa'n gwbl annerbyniol.

However, to return to the latest figures published this morning, I say they are the 'latest figures', but they are not that up to date, if truth be told. As we enter the year 2015, what we had this morning were the GVA figures for 2013. Although it is an old figure that does not actually indicate the state of our economy today, it is one of the main tools that we have available to us as scrutiners and as policy makers to analyse the state of our economy. I could, of course, decide to look at GDP instead, but, if I had wanted the figures for GDP, I would have had to make do with the figures for 2011. The situation is entirely unacceptable.

Rwy'n meddwl, mewn difrif, fod y Llywodraeth hefyd yn derbyn hynny, achos mae'r Llywodraeth angen y ffigurau hyn hefyd. Mae'n rhaid bod Gweinidog yr economi yn gweld yr angen i ddadansoddi effeithiolrwydd ei pholisïau. Siawns bod y Prif Weinidog am ddeall sefyllfa economi Cymru. Pryd wnaeth ein dirwasgiad ni yng Nghymru ddechrau a pha bryd wnaeth ein dirwasgiad ni orffen? Rydyn ni'n wlad sy'n allforio yn llwyddiannus, felly beth am y mesuryddion o'r fasnach sy'n digwydd rhwng gwahanol wledydd y Deyrnas Unedig? Pa sectorau o'n heconomi ni sydd fwyaf dibynnol ar fasnach efo Lloegr? Sut fyddai newid economaidd yn Lloegr yn effeithio ar economi Cymru? Mae yna gwestiynau di-ben-draw y gallai'r atebion iddynt ein helpu ni i roi darlun at ei gilydd o gyflwr yr economi.

I think, really, that the Government itself would also accept that, because the Government needs these figures, too. The Minister for the economy must see the need to analyse the effectiveness of her policies. Surely the First Minister wants to understand the position of the Welsh economy. When did our recession here in Wales start and when did our recession here in Wales come to an end? We are a nation that exports successfully, so what about the indicators in terms of the trade happening between the various nations of the United Kingdom? Which sectors of our economy are most reliant on trade with England? How would economic change in England impact upon the Welsh economy? There are all sorts of questions the answers to which could help us to piece together a picture of the state of the economy.

Mae pob un o'r pleidiau yn y Siambr hon yn gytûn ei bod hi'n hen bryd i'r Llywodraeth yn y fan hon i fod yn gyfrifol am rywfaint o'r arian y mae'n ei wario. Wrth gwrs, mae hynny'n golygu datganoli'r pŵer i newid lefelau trethiant, ond, er mwyn gwneud y penderfyniadau iawn o ran trethiant a'i effaith ar yr economi, mae'n rhaid cael data llawn. Mae Bil Cymru yn cynnwys datganoli treth dir y doll stamp. Er mwyn ystyried sut i ddefnyddio ein pwerau ni, mae arnom angen data. Mae data yn allwedd i gymaint o'r hyn y mae angen ei wneud i symud Cymru yn ei blaen. Oes, mae yna gost i'r data hyn, ond mae'n rhaid i ni weld y gost fel buddsoddiad.

I will finish by making one final point. My recurrent pleas for more data and more accurate data are the genuine pleas of somebody who wants to build our economy and contribute to Wales's development as a nation, as do all of us here, I am sure. I am not asking for this as a stick with which to beat the Government; I am asking for the ability to understand the intricacies of our economy so that all of us, opposition and Government, can make better informed policy decisions. I urge all parties and the Government to support Plaid Cymru's amendment today.

All parties in this Chamber are agreed that it is about time the Government here became responsible for some of the funding that it spends. Of course, that means the devolution of powers to change taxation levels, but, in order to make the right decisions in terms of taxation and its impact on the economy, it is necessary to have comprehensive data. The Wales Bill includes the devolution of stamp duty land tax. In terms of how we can use that power, we need those data. The data are so important to so much of what needs to be done to move Wales forward. Yes, there is a cost attached to the data, but we must see that cost as an investment.

Rwyf am orffen drwy wneud un pwynt olaf. Wrth erfyn yn rheolaidd am ragor o ddata a rhagor o ddata cywir, rwy'n gwneud hynny am fy mod yn wir am adeiladu ein heconomi a chyfrannu at ddatblygiad Cymru fel cenedl, fel y mae pawb ohonom yma, rwy'n siŵr. Nid wyf yn gofyn am hyn er mwyn cael ffon i daro'r Llywodraeth; rwy'n gofyn am y gallu i ddeall cymhlethdodau ein heconomi er mwyn i bob un ohonom, yn wrthbleidiau a Llywodraeth, allu gwneud penderfyniadau polisi mwy gwybodus. Anogaf bob plaid a'r Llywodraeth i gefnogi gwelliant Plaid Cymru heddiw.

17:23

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

After 15 years of successive Labour-led Welsh Governments, eight years alone, three years in coalition with the Liberal Democrats and four years in coalition with Plaid Cymru, Wales remains the poorest part of the United Kingdom and among the poorest parts of Europe, qualifying for a third round of EU structural funding. In the five years since Carwyn Jones became First Minister, Wales has experienced five years where Wales had an unemployment rate above the United Kingdom average, 60 months when the claimant count rate has never been below the UK average, 260 weeks in which the gross domestic product per head for Wales remained lower than any other part of the United Kingdom, and 1,826 days of Wales having the highest child poverty in any UK nation. Five years that highlight Labour's failure, with periods of assistance, of a kind, from the Liberal Democrats and Plaid Cymru, to tackle unemployment and stimulate the Welsh economy.

The International Monetary Fund said that the UK would be the fastest-growing economy in the G7 this year and predicts that the UK economy will grow by over 3%, which is a marked contrast to how, under Labour, the economy went into recession, unemployment grew and families were increasingly less financially secure. With the Conservatives, the economy is growing again. This means that people are finding work and getting on in life, and families can look forward to a better, more secure future. These forecasts show that our long-term economic plan is working and building a stronger, healthier economy. It is a Conservatives Government that is building a stronger, more competitive economy, which is giving businesses opportunities to grow, opportunities that Labour stripped from them.

Ar ôl 15 mlynedd o Lywodraethau dilynol yng Nghymru dan arweiniad Llafur, wyth mlynedd are eu pennau eu hunain, tair blynedd mewn clymblaid gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol a phedair blynedd mewn clymblaid â Phlaid Cymru, mae Cymru'n parhau i fod yr ardal dlotaf o'r Deyrnas Unedig ac ymhlith yr ardaloedd tlotaf o Ewrop, ac yn gymwys ar gyfer y drydedd rownd o gyllid strwythurol yr UE. Yn y pum mlynedd ers i Carwyn Jones ddod yn Brif Weinidog, mae Cymru wedi cael cyfradd ddiweithdra uwch na chyfartaledd y Deyrnas unedig am bum mlynedd, 60 mis pan na fu'r gyfradd hawlwyd yn is na chyfartaledd y DU o gwbl, 260 o wythnosau pan oedd cynnyrch domestig gros y pen yng Nghymru yn parhau i fod yn is nag yn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig, a 1,826 o ddiwrnodau pan oedd tlodi plant yn uwch yng Nghymru nag un wlad arall y DU. Pum mlynedd sy'n tanlinellu methiant Llafur, gyda chyfnodau o gymorth, o fath, gan y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru, i fynd i'r afael â diweithdra ac ysgogi economi Cymru.

Dywedodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol mai economi'r DU fyddai'n tyfu gyflymaf yn y G7 eleni gan ragweld y bydd economi'r DU yn tyfu dros 3%, sy'n wahanol iawn i'r modd, o dan Lafur, yr aeth yr economi i mewn i ddirwasgiad, y tyfodd diweithdra ac yr aeth theluoedd yn fwyfwy bregus yn ariannol. Gyda'r Ceidwadwyr, mae'r economi yn tyfu eto. Mae hyn yn golygu bod pobl yn dod o hyd i waith ac yn dod yn eu blaen mewn bywyd, a gall teuluoedd edrych ymlaen at ddyfodol gwell, mwy diogel. Mae'r rhagolygon hyn yn dangos bod ein cynllun economaidd tymor hir yn gweithio ac yn adeiladu economi gryfach, iachach. Llywodraeth y Ceidwadwyr sy'n adeiladu economi gryfach, fwy cystadleuol, sy'n rhoi cyfleoedd i fusnesau dyfu, cyfleoedd y bu i Lafur ddwyn oddi arnynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

An example of these opportunities would be the decision to cut employers' national insurance contributions—the so-called jobs tax—as benefit to over 850,000 businesses. This will have an enormous impact on the Welsh economy as small businesses account for 99.3% of all our businesses in Wales and are the lifeblood of our economy. The Federation of Small Businesses has identified that small businesses are now using the tax cut to invest in staff and grow their business. Eighteen per cent have used it to increase wages; 17% to hire additional staff; 8% to give work to current staff; 12% for training; and 18% to invest in equipment, machinery or premises.

We have expressed our appreciation concerning the GVA figures being released today. It is a welcome move in the right direction for Wales, and we hope that this is a continuing trend. It must also be acknowledged that it reflects a rebalance of the public and private sectors within our economy. Wales retains a rate of economic activity consistently below the UK average. In 2011, the statistics show that Wales had a GDP of 74% of the UK average. It is alarming that, despite £4 billion of EU funds spent by Labour since 2000, parts of Wales remain among the poorest parts of Europe. The Welsh Labour Government initially pledged to eliminate child poverty by 2010 and then revised this to 2020, but, every year since 2004, relative child poverty levels in Wales have risen.

Enghraifft o'r cyfleoedd hyn yw'r penderfyniad i dorri cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr—yr hyn a elwir yn dreth swyddi—gan fod o fudd i dros 850,000 o fusnesau. Bydd hyn yn cael effaith enfawr ar economi Cymru gan mai busnesau bach yw 99.3% o'n holl fusnesau yng Nghymru, a chalon ac enaid ein heconomi. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi nodi bod busnesau bach yn awr yn defnyddio'r toriad treth i fuddsoddi mewn staff a thyfu eu busnes. Mae 18% wedi ei ddefnyddio i gynyddu cyflogau; 17% i gyflogi staff ychwanegol; 8% i roi gwaith i staff presennol; 12% ar gyfer hyfforddiant; a 18% i fuddsoddi mewn offer, peiriannau neu adeiladau.

Rydym wedi mynegi ein gwerthfawrogiad ynghylch y ffigurau GVA sy'n cael eu rhyddhau heddiw. Mae'n gam i'w groesawu yn y cyfeiriad cywir ar gyfer Cymru, a gobeithiwn fod hyn yn duedd barhaus. Rhaid cydnabod hefyd ei fod yn dangos gwell cydbwysedd rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat o fewn ein heconomi. Mae gan Gymru gyfradd o weithgarwch economaidd sy'n gyson is na chyfartaledd y DU o hyd. Yn 2011, dangosodd yr ystadegau fod GDP Cymru yn 74% o gyfartaledd y DU. Mae'n frawychus, er i'r Blaid Lafur wario £4 biliwn o arian yr UE ers 2000, mae rhannau o Gymru yn parhau i fod ymysg y rhannau tlotaf yn Ewrop. I ddechrau, addawodd Llywodraeth Lafur Cymru i ddileu tloti plant erbyn 2010 ac yna diwygio hyn i 2020, ond, bob blwyddyn ers 2004, mae lefelau tloti plant cyharol yng Nghymru wedi codi.

- 17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will you give way? A wnewch chi ildio?
- 17:26 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Yes. Gwnaf.
- 17:26 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am very grateful to you for giving way. How do you think that the welfare changes that the UK Government is introducing, which will take £900 million out of the Welsh economy, benefit the Welsh economy? Rwy'n ddiolchgar iawn i chi am ildio. Sut ydych chi'n meddwl y mae'r newidiadau lles a gyflwynir gan Lywodraeth y DU, a fydd yn cymryd £900 miliwn allan o economi Cymru, o fudd i economi Cymru?
- 17:26 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
It will make people to make up their own mind. It has already got over a million people back into work, which is just the sort of thing that we need for our economy. [Interruption.]
Bydd yn gwneud i bobl benderfynu drostynt eu hunain. Mae eisoes wedi dychwelyd dros filiwn o bobl yn ôl i waith, sef yr union beth y mae angen i ni ei wneud ar gyfer ein heconomi. [Torri ar draws.]
- By backing businesses, creating jobs and changing the welfare system to reward work, and by giving children the security of living in a household with someone bringing home a regular pay packet. We cannot go back to Labour's way of higher taxes and more regulations. It would hurt business and put thousands of jobs at risk. We cannot go back to Labour's way of irresponsible borrowing that takes our services to unsustainable levels. We understand how the years have been swamped by Labour's tsunami of red tape and bureaucratic regulations, been strangled by Labour's bungling of the economy and masterminding of our largest peacetime budget deficit. We need to reconnect with business that, under Labour, became weary of the burden of government.
- Drwy gefnogi busnesau, gan greu swyddi a newid y system les i wobrwyo gwaith, a thrwy roi sicrwydd i blant o gael byw ar aelwyd lle daw rhywun adref â phecyn cyflog rheolaidd. Ni allwn droi'n ôl i ddulliau Llafur o gael trethi uwch a mwy o reoliadau. Byddai'n niweidio busnesau ac yn rhoi miloedd o swyddi mewn perygl. Ni allwn droi'n ôl i ddulliau Llafur o fenthycu'n anghyfrifol a chymryd ein gwasanaethau i lefelau anghynnaladwy. Rydym yn deall sut y bu i'r blynyddoedd gael eu llethu gan tswami Llafur o reoliadau a biwrocratiaeth, eu tagu wrth i Lafur fwnglera'r economi a chynllunio'r diffyg mwyaf erioed yn y gyllideb mewn cyfnod o heddwch. Mae angen i ni ailgysylltu â byd busnes a oedd, o dan Lafur, wedi diffygio dan faich llywodraeth.

The central element of a successful economy is an efficient transport network. The impetus to establish a transport system in Wales has been directed by the Westminster Government. Whether it is electrification of the main line to Swansea, the M4 relief road or enhancing the A55, they have all been driven forward by Westminster and are getting momentum under Stephen Crabb, our Secretary of State for Wales. Cardiff Airport, after almost two years of Welsh Government ownership, has little to suggest that the £52 million purchase price was value for the taxpayers of Wales. There is no continuity of airlines operators or passenger destinations, and, sadly, passenger numbers are declining.

Wales needs to be travelling in another direction—a direction that shows GDP improving, unemployment falling, a reduction in claimant count rates, action on council tax and lifting Welsh gross disposable household income from being one of the lowest of all UK regions.

Elfen ganolog mewn economi lwyddiannus yw rhwydwaith cludiant effeithlon. Mae'r ysgogiad i sefydlu system drafndiaeth yng Nghymru wedi cael ei gyfarwyddo gan Lywodraeth San Steffan. Waeth a ydym yn sôn am drydaneiddio'r brif lein i Abertawe, ffordd liniaru'r M4 neu wella'r A55, maent i gyd wedi eu gyrru ymlaen gan San Steffan a'u hyrwyddo gan Stephen Crabb, ein Hysgrifennydd Gwladol Cymru. Ar ôl dwy flynedd bron o berchnogaeth Llywodraeth Cymru, ychydig iawn sydd i awgrymu bod y £52 miliwn a wariwyd ar Faes Awyr Caerdydd yn werth yr arian i drethdalwyr Cymru. Nid oes unrhyw barhad o weithredwyr cwmnïau hedfan neu gyrchfannau i deithwyr, ac, yn anffodus, mae nifer y teithwyr yn gostwng.

Mae angen i Gymru deithio i gyfeiriad arall—cyfeiriad sy'n dangos gwell GDP, llai o ddiweithdra, llai o bobl yn hawlio, camau gweithredu ar y dreth gyngor a chodi incwm gwario gros aelwydydd yng Nghymru o fod yn un o'r isaf o holl ranbarthau'r DU.

17:28 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome this debate as an opportunity to contrast the significant progress being made by the Welsh Labour Government in implementing its programme of government with the Tory alternative. [Interruption.] Before the last general election, David Cameron promised— [Interruption.] It is like a den of vipers over there, is it not? [Interruption.] Before the last—[Interruption.]

Croesawaf y ddadl hon fel cyfle i gyferbynnu'r cynnydd sylweddol sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Lafur Cymru wrth weithredu ei rhaglen lywodraethu â dewis arall y Toriaid. [Torri ar draws.] Cyn yr etholiad cyffredinol diwethaf, addawodd David Cameron—[Torri ar draws.] Mae fel nyth o wiberod draw acw, onid yw? [Torri ar draws.] Cyn y—[Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. This does have an end-of-term feeling now, and I suppose that is because we had such an important and solemn debate previously. We need to take this motion and debate seriously as well. I would ask everyone to be as courteous as they were previously.

Trefn. Mae hyn yn teimlo fel diwedd tymor yn awr, ac efallai fod hynny oherwydd i ni gael dadl mor bwysig a difrifol cynt. Mae angen i ni ystyried y cynnig hwn a dadlau o ddifrif hefyd. A gaf i ofyn i bawb fod mor gwrtais ag yr oeddent o'r blaen?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:29 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Not being Tory, I am not very good on vipers, but there we are.

Before the last general election, David Cameron promised that there would be no top-down reorganisation of the NHS, and the Tories promised not to axe the winter fuel allowance or the Future Jobs Fund. Once they got into Government, they did away with it anyway as an opening shot in their sustained attack on the most vulnerable people in our society. They also promised to be the greenest Government ever, pledging to increase the proportion of taxation accounted for by green taxes. Five years later, they are yet to define what a green tax is. Contrast this to Wales, where the latest data of greenhouse gas emissions continue to show an overall downward trend over the previous decade, with the latest reduction exceeding our 3% annual reduction target. Contrast also the chaos across the border as a result of last winter's severe weather with the efficient and effective way the same challenges were managed in Wales. They said, 'Vote blue, go green' and apparently all this meant was replacing their old party logo with a tree.

Gan nad Tori mohonof, nid wyf yn dda iawn ar wiberod, ond dyna ni.

Cyn yr etholiad cyffredinol diwethaf, addawodd David Cameron na fyddai unrhyw ad-drefnu o'r brig i lawr o'r GIG, ac addawodd y Toriaid beidio â chael gwared ar y lwfans tanwydd gaeaf neu Gronfa Swyddi'r Dyfodol. Cyn gynted ag y daethant i rym, dyna y bu iddynt ei wneud beth bynnag fel yr ergyd gyntaf yn eu cyrch parhaus ar y bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas. Bu iddynt hefyd addo mai nhw fyddai'r Llywodraeth wyrddaf erioed, gan addo cynyddu cyfran trethiant a ddaw o drethi gwyrdd. Bum mlynedd yn ddiweddarach, hyd yma, nid oes ganddynt ddiffiniad o beth yw treth werdd. Cyferbynnwch hyn â Chymru, lle mae'r data diweddaraf ar allyriadau nwyon tŷ gwydr yn parhau i ddangos tuedd ar i lawr yn gyffredinol dros y degawd diwethaf, gyda'r gostyngiad diweddaraf yn rhagori 3% ar ein targed lleihad blynyddol. Cyferbynnwch hefyd yr anhrefn yr ochr arall i'r ffin o ganlyniad i dywydd garw'r gaeaf diwethaf â'r ffordd effeithlon ac effeithiol y bu i ni yng Nghymru reoli'r un heriau. Eu slogan oedd, Vote blue, go green ac yn ôl pob golwg y cyfan yr oedd hyn yn ei olygu oedd newid eu hen logo yn goeden.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Tories promised a rise in living standards. However, while millionaires have received a huge tax cut, working people are now £1,600 a year worse off. Low pay is now one of the most important threats not only to people's living standards but to the economy itself, and the Tories' long-term plan has failed spectacularly. In 2010, they forecast that borrowing would be £37 billion in 2014-15. However, this is now expected to be a massive £91 billion. It is because the UK Government has failed to deliver a rise in living standards that it has now borrowed £219 billion more than it planned in this Parliament—more than four times the total amount borrowed by Labour in its entire last term of office.

In 2010, the Chancellor assured us that the national debt would be 67% of gross domestic product by the end of Parliament. In the autumn statement we learnt it would be 81%. Meanwhile, growth is to slow next year and the year after. The failed economic management, it must be said, has had a huge constraining impact on the Welsh economy.

Addawodd y Torïaid gynydd mewn safonau byw. Fodd bynnag, tra bo trethi wedi cael eu torri'n sylweddol i filiwnyddion, bellach mae pobl sy'n gweithio £1,600 y flwyddyn yn waeth eu byd. Bellach, cyflogau isel yw un o'r bygythiadau mwyaf pwysig nid yn unig i safonau byw pobl ond i'r economi ei hun, ac mae cynllun tymor hir y Torïaid wedi methu'n lân. Yn 2010, yn ôl eu rhagolygon byddai benthycu yn £37 biliwn yn 2014-15. Fodd bynnag, erbyn hyn disgwylir i hyn fod cymaint â £91 biliwn. Gan nad yw Llywodraeth y DU wedi sicrhau cynnydd mewn safonau byw, mae bellach wedi benthycu £219 biliwn yn fwy nag a friadodd yn ystod y Senedd hon—mwy na phedair gwaith y cyfanswm swm a fenthycwyd gan Lafur yn ei dymor olaf cyfan.

Yn 2010, bu i'r Canghellor ein sicrhau y byddai'r ddwy genedlaethol yn 67% o gynnyrch mewnladol crynswth erbyn diwedd y Senedd. Yn natganiad yr hydref cawsom wybod y byddai'n 81%. Yn y cyfamser, rhagwelir y bydd twf yn arafu'r flwyddyn nesaf a'r flwyddyn wedyn. Rhaid dweud bod methiant y rheolaeth economaidd wedi cael effaith gyfyngol enfawr ar economi Cymru.

17:31 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will you give way?

A wnewch chi ildio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:31 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes, I will take your intervention.

Gwnaf, cymeraf eich ymyriad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:31 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thanks for giving way. From what you have just said, am I right in thinking that you think that the Government in the UK should be borrowing less? Therefore, you would believe in deeper cuts, would you not?

Diolch am ildio. O'r hyn rydych newydd ei ddweud, a wyf yn iawn i feddwl eich bod yn credu y dylai Llywodraeth y DU fenthycu llai? Felly, byddech yn credu mewn toriadau llymach, oni fydddech chi?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:31 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I think that there is one logic to the Tories' austerity campaign, and that is this: the more you shrink the budget, the more you increase the deficit. That is why the economic programme of the Tories is actually a road to recession, depression, unemployment and poverty.

Credaf mai un rhesymeg sydd i ymgyrch galedi'r Torïaid, sef: po fwyaf y byddwch yn crebachu'r gyllideb, mwyaf oll y byddwch yn cynyddu'r diffyg ariannol. Dyna pam mae rhaglen economaidd y Torïaid mewn gwirionedd yn ffordd i ddirwasgiad, diweithdra a thlodi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

By 2015-16, our budget will be nearly £1.5 billion lower in real terms than it was in 2010-11. Despite this, the Welsh Government has done much to support the people who are bearing the brunt of the Tory attacks: a doubling of the number of children helped by Flying Start; a 14% increase in the pupil deprivation grant; and continued support for universal benefits, such as free school breakfasts, concessionary fares and free prescriptions. These all play a part in protecting the people of Wales from the Tories' financial mismanagement and their blind faith in their plans to cut and cut again.

Erbyn 2015-16, bydd ein cyllideb bron £1.5 biliwn yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2010-11. Er gwaethaf hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer i gefnogi'r bobl sy'n dioddef cyrchoedd y Torïaid: dyblu nifer y plant sy'n cael eu helpu gan Dechrau'n Deg; cynnydd o 14% yn y grant amddifadedd disgyblion; a chefnogaeth barhaus ar gyfer budd-daliadau cyffredinol, megis brecwast ysgol am ddim, tocynnau teithio rhatach a phresgripsiynau am ddim. Mae'r rhain i gyd yn gymorth i amddiffyn pobl Cymru rhag camreoli ariannol y Torïaid a'u ffydd ddi-gwestiwn yn eu cynlluniau i dorri a thorri eto.

In Wales unemployment is now lower than in the UK as a whole, with employment rates in Wales increasing by three times the UK average. People in Wales are more satisfied with the way the NHS is run than those in England. There are more opportunities for apprenticeships and Wales has seen the biggest increase in private sector employment over the past 12 months. Contrast this with the Tories' ideological attacks on the NHS and its failing free schools programme. I believe that the people of Wales recognise the clear distinction between the Welsh Labour Government's record of delivery and the Tory alternative.

Yng Nghymru mae diweithdra bellach yn is nag yn y DU yn gyffredinol, gyda chyfraddau cyflogaeth yng Nghymru yn cynyddu dair gwaith y cyfartaledd yn y DU. Mae pobl yng Nghymru yn fwy bodlon gyda'r ffordd y mae'r GIG yn cael ei redeg na phobl yn Lloegr. Mae mwy o gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau ac mae Cymru wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn cyflogaeth yn y sector preifat dros y 12 mis diwethaf. Cyferbynnwch hyn ag ymosodiadau ideolegol y Torïaid ar y GIG a'u rhaglen ysgolion rhydd sy'n methu. Credaf fod pobl Cymru'n cydnabod bod gwahaniaeth clir rhwng record Llywodraeth Lafur Cymru o gyflawni a dewis arall y Torïaid.

It is a choice between Labour's relentless and committed focus on delivering public service and the Tory alternative of more austerity, which will shrink the economy, increase the deficit, lead to annihilation of public service—

Mae'r dewis rhwng ffocws di-baid ac ymroddedig Llafur ar ddarparu gwasanaeth cyhoeddus a dewis arall y Torïaid o gynni parhaus, a fydd yn crebachu'r economi, cynyddu'r diffyg ariannol, gan arwain at ddiinstrio gwasanaeth cyhoeddus yn llwyr—

- 17:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Finish now, please. Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.
- 17:33 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
[Continues.]—should they get back into office in May, which looks increasingly unlikely. [Yn parhau.] —os cânt eu haillethol ym mis Mai, sy'n edrych yn fwyfwy annhebygol.
- 17:33 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
The proof of the pudding is in the eating, and the proof of 15 and a half years of Labour-led Welsh Government and five years of this First Minister is in the outcomes. Yn ôl ei flas y mae profi pwddin, ac mae prawf 15 a hanner o flynyddoedd dan arweiniad Llywodraeth Lafur Cymru a phum mlynedd o'r Prif Weinidog hwn yn y canlyniadau.
- Wales has the highest rate of child poverty among UK nations, rising after 2004. David Cameron appointed former Labour Minister Alan Milburn to chair the Social Mobility and Child Poverty Commission. His 'State of the Nation 2014: Social Mobility and Child Poverty in Great Britain' report found that Wales has the second highest child poverty rate and the second lowest working-age employment rate among all UK regions; that almost three quarters of children eligible for free school meals in Wales do not achieve five good GCSEs, higher than any English region; that there are fewer professional jobs in Wales than anywhere but north-east England and Northern Ireland; and that Wales has higher rates of children living in workless households, a lower employment rate, a higher unemployment rate and a higher proportion of the working-age population without any qualifications than England, and with pay levels 8% lower than the UK average.
- Gan Gymru y mae'r gyfradd uchaf o dlodi plant ymysg gwledydd y DU, sydd wedi codi ar ôl 2004. Penodwyd Alan Milburn, y cyn Weinidog Llafur, gan David Cameron i gadeirio'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant. Mae ei adroddiad, 'Cyflwr y Genedl 2014: Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant yng Ngwledydd Prydain', yn canfod bod gan Gymru'r gyfradd tlodi ymhlith plant ail uchaf a'r gyfradd gyflogaeth oedran gweithio ail isaf ymhlith holl ranbarthau'r DU; nad yw bron tri chwarter y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru yn ennill pump TGAU da, sy'n uwch nag unrhyw ranbarth yn Lloegr; bod llai o swyddi proffesiynol yng Nghymru nag yn unrhyw le, ac eithrio gogledd-ddwyrain Lloegr a Gogledd Iwerddon; a bod gan Gymru gyfraddau uwch o blant yn byw mewn cartrefi di-waith, cyfradd cyflogaeth is, cyfradd ddiweithdra uwch a chyfran uwch o'r boblogaeth o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau na Lloegr, gyda lefelau cyflog 8% yn is na chyfartaledd y DU.

Youth unemployment in Wales began its rise in 2005. Wales has the highest rate of 19 to 24-year-olds and the second-highest rate of 16 to 18-year-olds not in education, employment or training among the UK nations. When Carwyn Jones became First Minister, after a decade of Labour Government in Cardiff and 12 years of Labour Government in London, the number of working-age people not in work in Wales stood at 626,000. This fell to 561,000 a year ago, but has now risen back up to 590,000. Across the UK, by contrast, the proportion of workless families has fallen to the lowest levels since records began, in 1996. Thanks to the hard work of the British people and to the UK Government's long-term economic plan, the UK is now the fastest growing major advanced economy. The good news today is that GVA—the value of goods and services produced, per head—has risen in Wales by 3.4% accordingly, but this was from a shockingly low base. Wales is still the worst performing economy among the 12 UK nations and regions, and west Wales and the Valleys, including four north Wales counties, is still the worst performing sub-region in the UK, despite billions blown by Labour Ministers, which was meant to close the gap. Poor Carwyn and his kindergarten commissars— [Laughter.]—cannot understand that Wales and the Labour Party are different things, and that when we represent the concerns of patients and NHS staff, we do it because it is our responsibility to hold you to account. [Interruption.] It was BMA Wales and the north Wales local medical committee that told us that general practice in north Wales is in crisis. [Interruption.]

Dechreuodd diweithdra ymhlith pobl ifanc godi yng Nghymru yn 2005. Gan Gymru y mae'r gyfradd uchaf o bobl 19-24 oed a'r gyfradd ail uchaf o bobl 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ymysg gwledydd y DU. Pan ddaeth Carwyn Jones yn Brif Weinidog, ar ôl degawd o Lywodraeth Lafur yng Nghaerdydd a 12 mlynedd o Lywodraeth Lafur yn Llundain, roedd nifer y bobl o oedran gweithio a oedd yn ddi-waith yng Nghymru yn 626,000. Gostyngodd hyn i 561,000 flwyddyn yn ôl, ond erbyn hyn mae wedi codi eto i 590,000. Ar draws y DU, mewn cyferbyniad, mae cyfran y teuluoedd di-waith wedi gostwng i'r lefelau isaf ers i gofnodion ddechrau, yn 1996. Diolch i waith caled pobl Prydain ac i gynllun economaidd hirdymor Llywodraeth y DU, bellach, gan y DU y mae'r economi ddatblygedig fawr sy'n tyfu gyflymaf. Y newyddion da heddiw yw bod GVA—gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir, y pen-wedi codi 3.4% yng Nghymru yn unol â hynny, ond roedd y sylfaen wreiddiol yn isel tu hwnt. Ond, ymhlith y 12 o wledydd a rhanbarthau'r DU, Cymru yw'r economi sy'n perfformio waethaf, ac mae gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan gynnwys pedair sir gogledd Cymru, yn dal i fod yr isranbarth gwaethaf yn y DU, er gwaethaf y biliynau a wariwyd gan Weinidogion Llafur, a oedd i fod i gau'r bwloch. Nid yw Carwyn druan a'i feithrinfa o gomisariaid— [Chwerthin.]—yn gallu deal bod Cymru a'r Blaid Lafur yn bethau gwahanol, a phan ydym yn cynrychioli pryderon cleifion a staff y GIG, rydym yn gwneud hynny oherwydd mai ein cyfrifoldeb yw eich dal chi i gyfrif. [Torri ar draws.] BMA Cymru a phwyllgor meddygol lleol gogledd Cymru ddywedodd wrthym fod y gwasanaeth meddygon cyffredinol yng ngogledd Cymru mewn argyfwng. [Torri ar draws.]

17:36

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Order. Let us all calm down and have a proper, rational debate. [Laughter.] That means—. I am addressing you all. That means, do not shout at people and do not heckle needlessly.

Trefn. Trefn. Gadewch i ni i gyd dawelu a chael dadl briodol, resymegol. [Chwerthin.] Hynny yw—. Rwy'n siarad â phawb. Mae hynny'n golygu, peidiwch â gweiddi ar bobl a pheidiwch â heclo yn ddiangen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:37

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Three months ago, BMA Wales, representing 6,700 doctors in the Welsh NHS, said that the Welsh Government and NHS employers had repeatedly failed to heed its professional warnings that all is not well with NHS Wales, and that the NHS in Wales was facing imminent meltdown unless action was taken swiftly. However, the First Minister dismissed its call for an urgent, full-scale, independent, Wales-wide inquiry into all NHS health services throughout Wales. Welsh Government policy is for 95% of patients to be treated within 26 weeks, and 100% within 36 weeks, from referral by a GP or medical practitioner to hospital for treatment. However, the health board in north Wales is working to 52 weeks in areas including general surgery and orthopaedics.

Dri mis yn ôl, dywedodd BMA Cymru, sy'n cynrychioli 6,700 o feddygon y GIG yng Nghymru, fod Llywodraeth Cymru a chyflogwyr y GIG dro ar ôl tro wedi methu â gwrando ar eu rhybuddion proffesiynol nad yw popeth yn iawn yn y GIG yng Nghymru, a'u bod ar ymyl y dibyn os na fyddai camau'n cael eu cymryd yn gyflym. Fodd bynnag, gwrthododd y Prif Weinidog yr alwad am ymchwiliad Cymru gyfan, annibynnol, brys ar raddfa lawn i holl wasanaethau iechyd y GIG ledled Cymru. Polisi Llywodraeth Cymru yw bod 95% o gleifion i gael eu trin o fewn 26 wythnos, a 100% o fewn 36 wythnos, o'u hatgyfeirio gan feddyg teulu neu ymarferydd meddygol i'r ysbyty am driniaeth. Fodd bynnag, mae'r bwrdd iechyd yn y gogledd yn gweithio o fewn 52 wythnos mewn meysydd gan gynnwys llawdriniaeth gyffredinol ac orthopaedeg.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Only this week, I received a letter from a constituent in pain, asking for my help, after receiving a telephone call telling her that her waiting time was one year. The proportion of the Welsh population waiting to start treatment is almost triple that in England. In the latest figures, 85.7% of Welsh patients have been waiting less than 26 weeks from GP referral to the start of treatment. However, in England, a higher proportion, 93.5% of patients, have been waiting less than the tougher target there of 18 weeks. The Labour Welsh Government's ambulance response time target of 65% for life-threatening calls is the lowest in the UK, but it has only been met once in two and a half years. In Flintshire, just 46.9% of emergency responses arrived within the response target time. A true leader governs with thought, not blind conviction, empowering the people they govern. Wales will continue to be betrayed until it is led by people who recognise this.

Dim ond yr wythnos hon, cefais lythyr gan etholwr mewn poen, yn gofyn am fy help, ar ôl iddi dderbyn galwad ffôn yn dweud wrthi fod ei hamser aros yn un flwyddyn. Mae'r gyfran o boblogaeth Cymru sy'n aros i ddechrau triniaeth bron deirgwaith yr hyn ydyw yn Lloegr. Yn y ffigurau diweddaraf, mae 85.7% o gleifion yng Nghymru wedi bod yn aros llai na 26 wythnos o gael eu hatgyfeirio gan feddyg teulu i ddechrau'r driniaeth. Fodd bynnag, yn Lloegr, mae cyfran uwch, 93.5% o gleifion, wedi bod yn aros llai na'r targed llymach yno o 18 wythnos. Targed amser ymateb ambiwlansys Llywodraeth Lafur Cymru yw 65% ar gyfer galwadau sy'n bygwth bywyd a dyma'r isaf yn y DU, ond dim ond unwaith mewn dwy flynedd a hanner y cafodd ei gyflawni. Yn Sir y Fflint, dim ond 46.9% o'r ymatebion brys a gyflawnwyd o fewn yr amser targed. Mae gwir arweinydd yn llywodraethu yn feddylgar, nid trwy argyhoeddiad dall, gan rymuso'r bobl y maent yn eu llywodraethu. Bydd Cymru'n parhau i gael ei bradychu hyd nes iddi gael ei harwain gan bobl sy'n cydnabod hyn.

17:38

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Presiding Officer, I will heed your advice and remember that we should be engaging in these debates with politeness. First, I congratulate the First Minister on reaching his five-year anniversary. Reflecting on that reminds me of the advice that I received, a year previously, when I became leader of my own party, from the then leader of the Tory group. He said to me, 'Do not worry. The first year is the worst. After that it gets easier.' I should have known at that point that you should never trust anything that a Tory tells you. [Laughter.] I do not know whether the first year was the worst for the First Minister and things have got better since then. However, undoubtedly, it is an amazing privilege to lead your nation and to be in a position of responsibility to truly change the nature of the country that you live in, and for the citizens.

I am sure that, later on, we will hear the usual refrain from the First Minister of all the things that he has been proud of over the last five years. However, I wonder, when the regular reports and statistics are published that show that his own Government's targets have been missed again, whether he can be truly happy with what he has achieved over the last five years.

Ddirprwy Lywydd, byddaf yn dilyn eich cyngor a chofio y dylem fod yn gwrtais wrth gymryd rhan mewn trafodaethau. Yn gyntaf, a gaf i longyfarch y Prif Weinidog ar ddathlu'r bumed flwyddyn yn ei swydd. Wrth fyfyrto ar hyn, cefais fy atgoffa o'r cyngor a gefais, flwyddyn yn gynt, pan ddeuthum yn arweinydd fy mhlaid fy hun, gan arweinydd y grŵp Toriaidd ar y pryd. Dywedodd wrthyf, 'Peidiwch â phoeni. Y flwyddyn gyntaf yw'r waethaf. Ar ôl hynny mae'n dod yn haws.' Dylwn fod wedi sylweddoli bryd hynny na ddylech byth ymddiried o gwbl yn y pethau y mae Tori yn ei ddweud wrthyf. [Chwerthin.] Ni wn i ai'r flwyddyn gyntaf oedd y waethaf ar gyfer y Prif Weinidog ac mae pethau wedi gwella ers hynny. Fodd bynnag, yn ddi-os, mae'n ffraind anhygoel i arwain eich cenedl ac i fod mewn sefyllfa o gyfrifoldeb i newid natur y wlad rydych chi'n byw ynddi, yn ogystal ag ar gyfer ei dinasyddion.

Rwy'n siŵr, yn nes ymlaen, y cawn glywed y cytgan arferol gan y Prif Weinidog am yr holl bethau y mae ef wedi bod yn falch ohonynt dros y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, tybed, pan fydd yr adroddiadau a'r ystadegau rheolaidd yn cael eu cyhoeddi sy'n dangos bod targedau ei Lywodraeth ei hun heb eu cyflawni eto, a all ef fod yn wirioneddol hapus gyda'r hyn y mae wedi'i gyflawni dros y pum mlynedd diwethaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

For me, the most depressing thing is that, in some ways, those missed targets, in a variety of fields, have become such a regular occurrence that it is not even news any more. The reality is that I do not think that anyone actually believes or expects the targets for ambulance response times of eight minutes to be met, or the referral-to-treatment times to be met, or the target for the Programme for International Student Assessment results. Of course, the Government's answer to this over the last 12 months or so has been to say that those targets were the wrong targets in the first place and that we need to be measuring something else. In some cases, I can see the merits in those arguments. Apparently, what the Government said it should be measured on is now deficient, flawed or meaningless, which begs the question: why did the Government set out and ask to be monitored on those targets in the first place? What has it suddenly discovered in the intervening four years that means that those targets were meaningless in the first place? So, what we really need is clarity from the Government on what outcomes it truly wants to be scrutinised and measured on.

Of course, in other areas, we do not have meaningful data or targets at all. The economy is a case in point, and was outlined by the mover of the Plaid amendment, Rhun ap Iorwerth. There is a real lack of data in some aspects of Welsh public policy and a lack of meaningful outcomes to measure it by. The enterprise zone project is the classic case in point in the economy portfolio. However, it is not just there. I am particularly concerned with regard to standards of Welsh education. The chief inspector's annual report published at the beginning of this year, said that standards in education in Wales had not improved at the rate that she would have expected and wanted. Two-thirds of Welsh secondary schools were branded 'unsatisfactory'; three secondary schools in my own constituency have been put into special measures in the last two years. For me, failure to get education right will condemn this nation to the problems that we have had with regard to low skills, low wages and a poorer economy for generations to come.

We could then go on to the issue of the health service. Even when targets are met, there is a distinct lack of ambition to do even better. I am very proud that Powys Teaching Local Health Board did meet its 26-week referral-to-treatment target, but when asked whether there would now be a more ambitious target for Powys to pursue, to drive standards up even more, the answer was a deafening silence. So, even when we do reach the targets, we do not expect anything better. I once used the phrase, with regard to Rhodri Morgan, the last First Minister, that he was famous for being a Welsh rugby supporter, as is our First Minister. In fact, the most energetic I have ever seen our First Minister is when he is talking about rugby. However, it is almost as if there is a refrain of, 'As long as we play with a bit of hwyl, that is all right. It doesn't matter if we lose, as long as we do it with a bit of hwyl, boys.' That seems to sum up this Government: 'It doesn't matter if we don't meet our targets, as long as we do it with a bit of hwyl'.

I mi, y peth mwyaf digalon, mewn rhai ffyrdd, yw bod y targedau hynny a gollwyd, mewn amrywiaeth o feysydd, wedi dod yn ddiwyddiad mor rheolaidd nad yw'n cyrraedd y newyddion mwyach hyd yn oed. Y realiti yw na chredaf fod neb mewn gwirionedd yn credu neu'n disgwyl i'r targedau wyth munud ar gyfer amseroedd ymateb ambiwlansys gael eu cyrraedd, na'r amseroedd atgyfeirio i driniaeth, na'r targed ar gyfer canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr. Wrth gwrs, ateb y Llywodraeth i hyn dros y 12 mis diwethaf oedd dweud mai'r targedau hynny oedd y targedau anghywir yn y lle cyntaf, a bod angen i ni fod yn mesur rhywbeth arall. Mewn rhai achosion, gallaf weld rhinweddau yn y dadleuon hynny. Mae'n debyg, mae'r hyn a ddywedodd y Llywodraeth y dylai gael ei mesur ar ei gyfer yn ddiffygiol, yn anghywir neu'n ddiystyr, sy'n codi'r cwestiwn: pam y bu i'r Llywodraeth ofyn am gael ei monitro ar y targedau hynny yn y lle cyntaf? Beth y mae wedi ei ddarganfod yn sydyn yn ystod y pedair blynedd yn y cyfamser sy'n golygu bod y targedau hynny yn ddiystyr yn y lle cyntaf? Felly, yr hyn rydym ei angen mewn gwirionedd yw eglurder gan y Llywodraeth ynghylch pa ganlyniadau y mae hi am gael ei chraffu a'i mesur ar eu cyfer.

Wrth gwrs, mewn meysydd eraill, nid oes gennym ddata neu dargedau ystyrlon o gwbl. Mae'r economi yn enghraifft o hyn, fel yr amlinellwyd gan gynigydd gwelliant Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth. Mae diffyg go iawn o ran data mewn rhai agweddau ar bolisi cyhoeddus Cymru a diffyg canlyniadau ystyrlon ar gyfer ei fesur. Mae'r prosiect ardal fenter yn enghraifft glasurol o hyn ym mhortffolio'r economi. Fodd bynnag, nid dyna'r unig un. Rwy'n pryderu'n arbennig am safonau addysg yng Nghymru. Yn ôl adroddiad blynyddol y prif arolygydd a gyhoeddwyd ar ddechrau'r flwyddyn hon, dywedodd nad oedd safonau addysg yng Nghymru wedi gwella yn ôl y gyfradd y byddai wedi disgwyl a'i ddyddio. Mae dwy ran o dair o ysgolion uwchradd Cymru wedi'u labelu'n 'anfoddfaol'; mae tair ysgol uwchradd yn fy etholaeth i wedi cael eu rhoi ar fesurau arbennig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. I mi, os na lwyddir i unioni sefyllfa addysg bydd hyn yn condemnio'r genedl hon i'r problemau rydym wedi'u cael o ran sgiliau isel, cyflogau isel ac economi dlotach am genedlaethau i ddod.

Yna, gallwn fynd ymlaen at fater y gwasanaeth iechyd. Hyd yn oed pan fydd targedau'n cael eu cyflawni, nid oes uchelgais amlwg i ragori arnynt. Rwy'n falch iawn fod Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys wedi cyrraedd ei darged atgyfeirio i driniaeth 26 wythnos, ond pan ofynnwyd a fyddai targed mwy uchelgeisiol yn cael ei bennu ar gyfer Powys, er mwyn codi safonau hyd yn oed yn uwch, yr ateb a gafwyd oedd tawelwch byddarol. Felly, hyd yn oed ar ôl cyrraedd y targedau, nid ydym yn disgwyl unrhyw beth gwell. Defnyddiais yr ymadrodd, ynghylch Rhodri Morgan, y Prif Weinidog diwethaf, ei fod yn enwog am fod yn gefnogwr rygbi Cymru, fel y mae ein Prif Weinidog. Yn wir, dyna'r mwyaf egniol i mi erioed weld ein Prif Weinidog yw pan mae'n siarad am rygbi. Fodd bynnag, mae bron fel petai ganddo gytgan yn dweud, 'Dim ond i ni chwarae gydag ychydig o hwyl, dyna sy'n cyfri. Os collwn ni, nid yw fawr o bwys, dim ond i ni wneud hynny gyda thipyn o hwyl, fechgyn.' Ymddengys mai dyna yw nod y Llywodraeth hon: 'Nid yw fawr o bwys os na fyddwn yn cyrraedd ein targedau, ar yr amod ein bod yn ei wneud gydag ychydig o hwyl'.

17:44	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Finish quickly, please.	Gorffennwch yn gyflym, os gwelwch yn dda.
17:44	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The Welsh rugby team is improving greatly; maybe in the new year we could see the same from the Government.	Mae tîm rygbi Cymru yn gwella'n fawr; efallai yn y flwyddyn newydd y cawn weld yr un peth gan y Llywodraeth.
17:44	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>They do say that a week is a long time in politics, so five years could certainly be considered a lifetime in terms of realising the intended aims of any Government and its leader. Well, today, the spotlight is on the manifesto promises, the pledges to the electorate and the programme for government wish list and whether they have been delivered, or not. After all, delivery is the key, and it is only by the proven outcomes and delivery that we witness whether the lives of people across Wales have improved or otherwise.</p>	<p>Maent yn dweud bod wythnos yn amser hir mewn gwleidyddiaeth, felly gallai pum mlynedd yn sicr deimlo fel oes o ran gwireddu nodau arfaethedig unrhyw Lywodraeth ac arweinydd. Wel, heddiw, mae'r chwyddwydr ar addewidion y manifesto, yr addewidion i'r etholwyr a rhestr ddymuniadau'r rhaglen lywodraethu ac a gawsant eu cyflawni ai peidio. Wedi'r cyfan, cyflawni yw'r allwedd, a dim ond trwy'r canlyniadau profedig a'r cyflawni y gallwn weld a yw bywydau pobl ledled Cymru wedi gwella neu fel arall.</p>
	<p>Certainly, since my introduction into the Assembly, not a single week has gone by without you, your Ministers and, indeed, your backbenchers when challenged on the failures and poor performance simply turning around and pointing the finger of blame at those leading the UK Government, yet at the same time conveniently dismissing the facts and the reality that, in just 12 months, the deficit left by your Labour Government has been cut. Income tax has been cut for over 25 million people. Benefits have been capped to reward those who find work, with 1.7 million people now in employment. The state pension has increased by £800. There are more children in 'good' and 'outstanding' schools, and immigration from outside Europe is now down to the level of the 1990s. Over 70,000 families now have their own home, thanks to our—well, their—Help to Buy scheme.</p>	<p>Yn sicr, ers i mi gyrraedd y Cynulliad, bu i mi sylwi pan gewch eich herio ynghylch eich methiannau a'ch perfformiad gwael, pin bod un wythnos yn mynd heibio heb i chi, eich Gweinidogion ac, yn wir, eich meinciau cefn bwyntio bys at y rhai sy'n arwain Llywodraeth y DU, ac eto ar yr un pryd mae'n gyfleus i chi anwybyddu'r ffeithiau a'r realiti y bu i'r diffyg a adawyd gan eich Llywodraeth Lafur chi gael ei dorri, mewn dim ond 12 mis. Mae treth incwm wedi cael ei thorri i dros 25 miliwn o bobl. Mae budd-daliadau wedi'u capio i wobrwyo rhai sy'n dod o hyd i waith, gyda 1.7 miliwn o bobl bellach mewn gwaith. Mae pensiwn y wladwriaeth wedi cynyddu £800. Mae mwy o blant mewn ysgolion 'da' a 'rhagorol', ac mae ffigurau mewnfudo o'r tu allan i Ewrop yn awr i lawr i lefel y 1990au. Erbyn hyn mae gan dros 70,000 o deuluoedd eu cartref eu hunain, diolch i'n cynllun—wel, eu cynllun—Cymorth i Brynu.</p>
	<p>While there is much talk of further devolution and powers for Wales, with possible better funding, the simple fact is that any political party running this administration would have the same powers, the same resources and the same levers of power. So, how have you scored? In our health service, there has been a constant refusal to deny Welsh patients a cancer treatment fund, despite Labour's decision to support one in England. Under your leadership, Welsh cancer patients are seven times less likely to access innovative life-enhancing and life-prolonging new medicines. The number of NHS beds has fallen by 2,000 in three years. Patients have to wait more than eight weeks to access diagnostics and there is evidence of cancer patients visiting their GPs 13 times before a referral. Ambulance response times have only been met once in two and a half years. Your own accident and emergency target times have not been met once. In my own constituency of Aberconwy, for certain pain management therapies there is a 19-month waiting time. Fail.</p>	<p>Er bod llawer o sôn am ddatganoli a phwerau pellach i Gymru, a chyllid gwell o bosibl, y ffaith syml yw y byddai unrhyw blaid wleidyddol sy'n rhedeg y weinyddiaeth hon â'r un pwerau, yr un adnoddau a'r un liferi pŵer. Felly, sut ydych chi wedi sgorio? Yn ein gwasanaeth iechyd, bu i chi wrthod yn gyson â darparu cronfa triniaeth canser ar gyfer cleifion Cymru, er gwaethaf penderfyniad Llafur i gefnogi un yn Lloegr. O dan eich arweinyddiaeth, mae cleifion canser yng Nghymru saith gwaith yn llai tebygol o gael meddyginiaethau arloesol newydd sy'n gwella bywyd ac yn estyn bywyd. Mae nifer gwelyau'r GIG wedi gostwng 2,000 mewn tair blynedd. Rhaid i gleifion aros mwy nag wyth wythnos i gael gwasanaethau diagnosteg ac mae tystiolaeth o gleifion canser yn ymweld â'u meddygon teulu 13 o weithiau cyn cael eu hatgyfeirio. Dim ond unwaith mewn dwy flynedd a hanner y mae amserau ymateb ambiwlansys wedi'u cyflawni. Nid yw eich targed amseroedd damweiniau ac achosion brys eich hun wedi eu cyflawni unwaith. Yn Aberconwy, fy etholaeth i, mae amser aros 19 mis ar gyfer rhai therapiau rheoli poen. Methiant.</p>

On education, despite your promise in 2009 to prioritise education, Wales has tumbled down international league tables in key skills. Wales's performance in PISA rankings between 2009 and 2012 deteriorated in science and maths, and Labour's target to raise this poor performance by 2015 has been ditched because you are simply not up to it. In your own conference, you were quoted as saying:

'we hold up our hands and say, yes we could have done better.'

Quite shockingly, you have admitted that you and your Minister simply took your eye off the ball on school standards. I am not sure that my parents in Aberconwy consider their children's education to be classed as some kind of game. Fail.

On local government, in just three years we are now on to our third Minister. We have the failed collaboration agenda and the waste of many resources in that regard. Our local authorities include thousands of hard-working front-line workers who are now in a current state of flux and uncertainty like never before. They are charged with delivering important and vital services, yet with diminishing resources and no real idea as to how long or even which county they are going to be employed in. The recent consultation responses on local government reform showed that only half of the authorities want to engage with your Government on this process.

There is an out-dated and flawed settlement and funding formula, the lack of a national performance system as intended in your programme for government, the withholding of funding coming over from the UK Government for a much-needed council tax freeze that would have helped our hard-working families who have witnessed increases of 150% in council tax since Labour came to power, hundreds of hard-working front-line workers walking out in protest and outrage at the eye-watering salaries of some of our chief executives in Wales and poor corporate governance witnessed in authorities such as Carmarthenshire and Pembrokeshire, not forgetting the exorbitantly costly special measure required to bring Ynys Môn authority back from the brink, after years of your mismanagement. [Interruption.] You lead it.

There has been a lack of transparency and democratic accountability, and issues around senior levels of pay that have seen some chief executives writing their own salary packages behind closed doors, well above the annual salary of our Prime Minister. No action; in fact, a refusal to acknowledge the need for a review and to implement an independent remuneration board—

O ran addysg, er gwaethaf eich addewid yn 2009 i flaenoriaethu addysg, mae Cymru wedi disgyn i lawr y tablau cynghrair rhyngwladol mewn medrau allweddol. Roedd perfformiad Cymru mewn safleoedd PISA rhwng 2009 a 2012 wedi gwaethygu mewn gwyddoniaeth a mathemateg, ac mae bwriad Llafur i wella'r perfformiad gwael hwn erbyn 2015 wedi cael ei ddileu oherwydd nad ydych yn syml yn ddigon da. Yn eich cynhadledd eich hun, cawsoch eich dyfynnu yn dweud:

'Rydym yn fodlon cyfaddef, gallem fod wedi gwneud yn well.'

Mae hyn yn gwbl arswydus, rydych wedi cyfaddef eich bod chi a'ch Gweinidog yn syml wedi cymryd eich llygad oddi ar y bêl ar safonau ysgolion. Nid wyf yn siŵr a yw'r rhieni yn fy etholaeth yn Aberconwy yn ystyried addysg eu plant fel rhyw fath o gêm. Methiant.

Beth am lywodraeth leol? Mewn dim ond tair blynedd rydym eisoes ar ein trydydd Gweinidog. Fe gawsom fethiant yr agenda cydweithio sydd wedi gwastraffu llawer o adnoddau. Mae gan ein hawdurdodau lleol filoedd o weithwyr rheng flaen gweithgar sydd bellach yng nghanol y pair mewn ansicrwydd nas gwelwyd o'r blaen. Maent yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau pwysig a hanfodol, ac eto gydag adnoddau'n prinhaeu a heb yr un syniad am ba hyd y cânt eu cyflogi na hyd yn oed ym mha sir. Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad diweddar ar ddiwygio llywodraeth leol mai dim ond hanner yr awdurdodau sy'n awyddus i ymgysylltu â'ch llywodraeth ar y broses hon.

Mae'r fformiwla gyllido a'r setliad yn hen a diffygiol, nid ees system perfformiad cenedlaethol ar gael fel y bwriadwyd yn eich rhaglen lywodraethu, daliwyd cyllid mawr ei angen yn ôl sy'n cyrraedd oddi wrth Lywodraeth y DU ar gyfer rhewi'r dreth gyngor a fyddai wedi helpu ein teuluoedd gweithgar sydd wedi gweld cynnydd 150% yn y dreth gyngor ers i Lafur ddod i rym, mae cannoedd o weithwyr dyfal rheng flaen yn cerdded allan mewn dicter i brotestio ynglŷn â'r cyflogau anhygoel o uchel y mae rhai o'n prif weithredwyr yng Nghymru yn eu cael ac mae diffygion o ran llywodraethu corfforaethol fel y gwelwyd mewn awdurdodau megis Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, heb anghofio'r mesurau arbennig costus tu hwnt oedd eu hangen i ddod ag awdurdod Ynys Môn yn ôl o ymyl y dibyn, ar ôl blynyddoedd o'ch camreoli chi. [Torri ar draws.] Chi sy'n arwain hyn i gyd.

Bu diffyg tryloywder ac atebolrwydd democrataidd, a bu problemau yn ymwneud â chyflogau uwch-reolwyr sydd wedi gweld rhai prif weithredwyr yn ysgrifennu eu pecynnau cyflog eu hunain y tu ôl i ddrisau caeedig, sydd lawer uwch na chyflog blynyddol ein Prif Weinidog. Dim gweithredu; mewn gwirionedd, bu i chi wrthod cydnabod yr angen am adolygiad a rhoi bwrdd taliadau annibynnol ar waith—

17:49

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish with this, please.

Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:49	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	[Continues.]—from your Welsh Government, until the opposition parties forced your hand, and a culture of local government in Wales that saw Jacqui Thompson being arrested for simply recording council proceedings. Fail.	[Yn parhau.] —oddi wrth eich Llywodraeth Cymru, nes bod y gwrthbleidiau wedi eich gorfodi, a diwylliant o lywodraeth leol yng Nghymru a welodd Jacqui Thompson yn cael ei harestio am ddim ond cofnodi trafodion y cyngor. Methiant.	Senedd.tv Fideo Video
17:49	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Finish, please.	Gorffennwch, os gwelwch yn dda.	Senedd.tv Fideo Video
17:49	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	First Minister, five years as leader, 15 years in Government —	Brif Weinidog, pum mlynedd fel arweinydd, 15 mlynedd yn y llywodraeth—	Senedd.tv Fideo Video
17:49	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	You are out of time.	Mae eich amser ar ben.	Senedd.tv Fideo Video
17:49	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Your new year's resolution—	Eich adduned blwyddyn newydd	Senedd.tv Fideo Video
17:49	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Order. I have told you that you are out of time. I have given you plenty of chances to finish that speech.	Trefn. Rwyf wedi dweud wrthyhch fod eich amser ar ben. Rwyf wedi rhoi digon o gyfle i chi orffen yr araith honno.	Senedd.tv Fideo Video
		Galwaf ar y Prif Weinidog.	I call the First Minister.	
17:49	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>	I was not aware, Dirprwy Lywydd, that we were responsible for running Ynys Môn or indeed Pembrokeshire, but perhaps the Member for Aberconwy knows more than we do on that one.	Nid oeddwn yn ymwybodol, Ddirprwy Lywydd, ein bod yn gyfrifol am redeg Ynys Môn nac yn wir Sir Benfro, ond efallai fod yr Aelod dros Aberconwy yn gwybod mwy nag yr ydym ni am hynny.	Senedd.tv Fideo Video
		Let us try to introduce some originality into this debate this afternoon. Many of the things we have heard we have heard many times before, but let us start with one thing. There is a tendency for the party opposite to suggest that the recession that happened at the end of the last decade was confined entirely to the UK and that the rest of the world was unaffected by it, saying that it was all caused by the Labour Party. Rubbish. If you look at 2010, you will see that the economy was starting to grow again. Unemployment was lower. Your party messed it up from 2010 onwards, and here we have a Chancellor of the Exchequer who has missed almost every target economically, who is borrowing more and who has been, to all intents and purposes, a complete failure. Let us remind the party opposite of what its leader in London wanted to do at the time of the difficulties in the economy at the end of the last decade. Cut public spending, he said, and let the banks go bust. If he had been in power, the depression of the 1930s would have been a picnic compared to what they would have caused had they been in power five or six years ago.	Gadewch inni geisio cyflwyno rhywfaint o wreiddioldeb i'r ddadl y prynhawn yma. Clywsoch lawer o'r pethau a ddywedwyd lawer gwaith o'r blaen, ond gadewch inni ddechrau gydag un peth. Mae tuedd i'r blaid gyferbyn i awgrymu bod y dirwasgiad a ddigwyddodd ar ddiwedd y degawd diwethaf wedi ei gyfyngu yn gyfan gwbl i'r DU ac nad chafodd gweddill y byd ei effeithio ganddo, gan ddweud y bu i'r cyfan gael ei achosi gan y Blaid Lafur. Sbwriel. Os edrychwch chi ar 2010, byddwch yn gweld bod yr economi yn dechrau tyfu eto. Mae diweithdra yn is. Bu i'ch plaid wneud cybolfa o 2010 ymlaen, ac yma mae gennym Ganghellor y Trysorlys sydd wedi colli bron pob targed yn economaidd, sy'n benthycu mwy ac sydd i bob pwrpas wedi bod yn fethiant llwyr. Gadewch i ni atgoffa'r blaid gyferbyn yr hyn yr oedd ei arweinydd yn Llundain am ei wneud ar adeg yr anawsterau yn yr economi ar ddiwedd y degawd diwethaf. Torrwch wariant cyhoeddus, meddai, a gadael i'r banciau fynd i'r wal. Pe bai yntau wedi bod mewn grym, byddai dirwasgiad y 1930au wedi bod fel picnic o'i gymharu â'r hyn y byddent hwy wedi ei achosi pe baent wedi bod mewn grym bump neu chwe blynedd yn ôl.	

Let us set the context in terms of Wales. We have been lectured this afternoon on education and local government. They wanted to cut education spending by 20%. They wanted to cut local government spending by 12%. And they lecture us about the council tax—12%. They wanted to cut economic development spending by 30%—job creation. And yet they try to conveniently forget that they did that and said that. So, we had Angela Burns—I am grateful to her for the congratulations she offered, as I am to Kirsty Williams—who seemed to forget quite conveniently the cuts that she wanted to see imposed some four years ago. She forgot to mention that the gap that existed has been closed quite rapidly in terms of those getting five good GCSEs between Wales and England, and next year we expect to do better than England. She forgets to mention the fact that the Treasury's own figures show that education spending in Wales per head is 8% higher than it is in England—by the Treasury's own figures, not ours; the Treasury's own figures. She forgets to mention the fact that, in Wales, students do not have to pay as much as they do in England for the simple pleasure of going to college. She forgets to mention the fact that we have kept the education maintenance allowance in Wales, something that was scrapped by the Tories, because we know that what they do better than anyone else is take money away from those people who need it the most. They make people pay for prescriptions, they take away free school breakfasts, they take away the education maintenance allowance, and they would ensure that tuition fees would be tripled here in Wales. We would make sure, and we have made sure, that that will not happen in Wales.

We have put the money into Schools Challenge Cymru to help get consistency in schools in Wales. We have ensured that the pupil deprivation grant, working with the Liberal Democrats, is something that is a reality now in schools in Wales. Why do we do this? It is because we know how important education is. We went to state schools and we know how important they are. And for me—

Gadewch i ni osod y cyd-destun o ran Cymru. Clywsom sawl pregeth y prynhawn yma ar addysg a llywodraeth leol. Roeddent hwy am dorri gwariant ar addysg gan 20%. Roeddent hwy am dorri gwariant llywodraeth leol gan 12%. Ac maent yn pregethu wrthym ni am y dreth gyngor-12%. Roeddent hwy am dorri gwariant datblygu economaidd gan 30%-creu swyddi. Ac eto maent yn ceisio anghofio'n gyfleus iddynt wneud hynny a dweud hynny. Felly, cawsom Angela Burns-rwy'n ddiolchgar iddi am ei llongyfarchiadau, fel yr wyf i Kirsty Williams-a oedd fel petai wedi anghofio yn eithaf cyfleus am y toriadau yr oedd hi am eu gweld yn cael eu gosod rhyw bedair blynedd yn ôl. Anghofiodd sôn i ni gau yn eithaf cyflym y bwch a oedd yn bodoli rhwng Cymru a Lloegr ar gyfer y rhai sy'n cael pump TGAU da, a'r flwyddyn nesaf rydym yn disgwyl gwneud yn well na Lloegr. Mae hi'n anghofio sôn am y ffaith bod ffigurau'r Trysorlys ei hun yn dangos bod gwariant ar addysg yng Nghymru y pen 8% yn uwch nag y mae yn Lloegr- yn ôl ffigurau'r Trysorlys ei hun, nid ein rhai ni; ffigurau'r Trysorlys ei hun. Anghofiodd sôn am y ffaith nad oes rhaid i fyfyrwyr yng Nghymru dalu cymaint ag y maent yn ei wneud yn Lloegr ar gyfer y pleser syml o fynd i'r coleg. Anghofiodd sôn am y ffaith ein bod wedi cadw'r llwfan cynhaliath addysg yng Nghymru, rhywbeth a ddilëwyd gan y Toriaid, oherwydd gwyddom mai un peth y maent yn ei wneud yn well nag unrhyw un yw cymryd arian oddi wrth y bobl hynny sydd ei angen fwyaf. Maent yn gwneud i bobl dalu am bresgripsiynau, maent yn diddymu brechwast ysgol am ddim, maent yn diddymu'r llwfan cynhaliath addysg, a byddent yn sicrhau bod y ffioedd dysgu yn cael eu treblu yma yng Nghymru. Byddem ni'n sicrhau, ac rydym wedi sicrhau, na fydd hynny'n digwydd yng Nghymru.

Rydym wedi rhoi'r arian i mewn i Her Ysgolion Cymru er mwyn helpu i gael cysondeb mewn ysgolion yng Nghymru. Rydym wedi sicrhau bod y grant amddifadedd disgyblion, gan weithio gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn rhywbeth sy'n realiti yn awr mewn ysgolion yng Nghymru. Pam rydym yn gwneud hyn? Oherwydd ein bod yn gwybod pa mor bwysig yw addysg. Aethom ni i ysgolion y wladwriaeth ac rydym yn gwybod pa mor bwysig ydynt. Ac i mi—

17:52 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Bottom of the ladder.

Gwaelod yr ysgol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:52 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Bottom of the ladder, he says. Byron Davies says that comprehensive schools are at the bottom of the ladder. The bottom of the ladder. That sums it up, does it not, in terms of what they think about comprehensive schools? I can say that the most ridiculous thing in the UK is that I am the only head of Government who has ever come from a comprehensive school—in the UK, Wales, Scotland or Northern Ireland—and it will never happen in the Tories, because, as Byron Davies says, comprehensive schools are at the bottom of the ladder. There is snobbery for you, writ large all over the Chamber.

Gwaelod yr ysgol, meddai. Yn ôl Byron Davies, mae ysgolion cyfun ar waelod yr ysgol. Gwaelod yr ysgol. Mae hynny'n dweud y cyfan, onid yw, am eu barn hwy ar ysgolion cyfun? Un peth anhygoel y gallaf ei ddweud wrthyhch am benaethiaid y DU yw mai fi yw'r unig bennaeth Llywodraeth erioed a ddaeth o ysgol gyfun—yn y DU, Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon—a byddai hynny byth yn digwydd gyda'r Toriaid, oherwydd, fel y dywed Byron Davies, mae ysgolion cyfun ar waelod yr ysgol. Dyna yw snobyddiaeth i chi, wedi'i gyhoeddi'n hyglyw ar hyd a lled y Siambr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:53	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography You can mislead and contort people's words as much as you want—[Interruption.] The comment—[Interruption.] No. What he said—[Interruption.] What he said quite clearly was that education standards are at the bottom of the ladder. He did not use the words 'comprehensive schools', and it is wrong for the First Minister to lower the office of First Minister by misleading this house about what a Member said.	Gallwch chi gamarwain a gwyrdroi geiriau pobl gymaint ag y dymunech—[Torri ar draws.] Mae'r sylw—[Torri ar draws.] Na. Mae'r hyn a ddywedodd—[Torri ar draws.] Yr hyn a ddywedodd yn eithaf clir oedd mai safonau addysg sydd ar waelod yr ysgol. Ni ddefnyddiodd y geiriau 'ysgolion cyfun', ac ni ddylai'r Prif Weinidog ddiraddio swydd y Prif Weinidog drwy gamarwain y tŷ hwn ynglŷn â'r hyn a ddywedodd Aelod.	Senedd.tv Fideo Video
17:53	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> I stand by my words, Dirprwy Lywydd. All Members heard what he said. When the leader of the opposition talks about misleading—[Interruption.]	Rwy'n cadw at fy ngeiriau, Ddirprwy Lywydd. Clywodd yr holl Aelodau yr hyn a ddywedodd. Pan fydd arweinydd yr wrthblaid yn siarad am gamarwain—[Torri ar draws.]	Senedd.tv Fideo Video
17:53	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Order. Order. I do not know what has happened to the Chamber this afternoon. We conducted the previous debate with great dignity on a more serious subject. This has turned into an early pantomime, and frankly not a very good one. Neither of you will use the phrase 'misleading'. I do not like it and I do not want to hear it again. I call the First Minister.	Trefn. Trefn. Ni wn i beth sydd wedi digwydd i'r Siambr y prynhawn yma. Cynhaliwyd y ddadl flaenorol gydag urddas mawr ar bwnc mwy difrifol. Mae hyn wedi troi'n bantomeim cynnar, sydd, a dweud y gwir, o safon isel. Nid yw'r naill na'r llall ohonoch i ddefnyddio'r ymadrodd 'camarweiniol'. Nid wyf yn ei hoffi ac nid wyf am ei glywed eto. Galwaf ar y Prif Weinidog.	Senedd.tv Fideo Video
17:54	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Let us go through some of the claims that are wholly wrong, shall we? Welsh cancer patients are seven times less likely to access innovative new medicines. Nonsense. I challenge the benches opposite to say where they got that figure from. Please.	A gawn ni fynd drwy rai o'r honiadau sy'n gyfan gwbl anghywir, os gwelwch yn dda? Mae cleifion canser yng Nghymru saith gwaith yn llai tebygol o gael meddyginiaethau newydd arloesol. Ffwlbri. Heriaf y meinciau gyferbyn i ddweud ym mhle y cawsant y ffigur hwnnw. Os gwelwch yn dda.	Senedd.tv Fideo Video
17:54	Darren Millar Bywgraffiad Biography Bristol University, First Minister.	Prifysgol Bryste, Brif Weinidog.	Senedd.tv Fideo Video
17:54	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> That figure is simply wrong. We know it is not the case. We know, for example—	Mae'r ffigur hwnnw, yn syml, yn anghywir. Rydym yn gwybod nad yw'n wir. Rydym yn gwybod, er enghraifft—	Senedd.tv Fideo Video
17:54	Darren Millar Bywgraffiad Biography Challenge Bristol University, First Minister.	Heriwch Brifysgol Bryste, Brif Weinidog.	Senedd.tv Fideo Video
17:54	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> We know, for example—	Rydym yn gwybod, er enghraifft—	Senedd.tv Fideo Video
17:54	Darren Millar Bywgraffiad Biography Challenge Bristol University.	Heriwch Brifysgol Bryste.	Senedd.tv Fideo Video
17:54	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Who funded that? Who funded that research?	Pwy a ariannodd hynny? Pwy a ariannodd yr ymchwil honno?	Senedd.tv Fideo Video

17:54	<p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>Can I—</p>	<p>A gaf i—</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:54	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Order. Are you giving way, First Minister?</p>	<p>Trefn. A ydych yn ildio, Brif Weinidog?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:54	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I will give way. Of course I will.</p>	<p>Ydwyf. Wrth gwrs y gwnaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:54	<p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>There have been a number of studies that have been undertaken by the Rarer Cancers Foundation —</p>	<p>Bu nifer o astudiaethau sydd wedi'u cynnal gan y Sefydliad Canserau Prin —</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:54	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Aha—</p>	<p>Aha—</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:54	<p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>[Continues.]—which have indicated—[Interruption.]—one second—which have indicated disparity in access to cancer drugs that are accessed under the fund.</p>	<p>[Yn parhau.]—sydd wedi dangos— [Torri ar draws.]—un eiliad—sydd wedi dangos anghysondeb o ran cael cynnig cyffuriau canser y gellir eu cael drwy'r gronfa.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:54	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>That is the answer that I wanted.</p>	<p>Dyna'r ateb yr oeddwn i am ei glywed.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:54	<p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>In addition to that, Bristol University commissioned a study in which it concluded that they were seven times less likely to get access to those drugs in Wales than elsewhere. Challenge them.</p>	<p>Yn ogystal â hynny, comisiynodd Prifysgol Bryste astudiaeth lle y daeth i'r casgliad eu bod saith gwaith yn llai tebygol o gael cynnig y cyffuriau hynny yng Nghymru nag mewn mannau eraill. Gallwch chi eu herio hwy.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:54	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>How naive is he that he accepts the figures of the Rarer Cancers Foundation? Has he not seen that the people who actually fund the Rarer Cancers Foundation are the very pharmaceutical companies that benefit from the cancer drugs fund? That is the whole point. If he looks at the website, he will see that that is the reality of it.</p> <p>We also hear the Conservatives saying that Welsh unemployment has been consistently above the UK average for every month of my time as First Minister. That is simply untrue. Look at the figures in the course of the summer and you will see that they were lower than the UK average. At the moment, they are slightly higher, but all through the summer, they were lower. That is simply untrue.</p> <p>If we look, for example, at what they say about the Welsh economy, that somehow it is going downhill, we know that that is not true. We have seen record investment. We have seen the fact that unemployment has come down. We have seen the fact that economic activity is rising.</p>	<p>Pa mor naif yw rhywun sy'n barod i dderbyn ffigurau'r Sefydliad Canserau Prin? Onid yw wedi gweld mai'r bobl sydd mewn gwirionedd yn ariannu'r Sefydliad Canserau Prin yw'r union gwmnïau fferyllol sy'n elwa ar y gronfa cyffuriau canser? Dyna'r union bwynt. Pe bai'n edrych ar eu gwefan, byddai'n gweld mai dyna realiti'r sefyllfa.</p> <p>Rydym hefyd yn clywed y Ceidwadwyr yn dweud bod diweithdra yng Nghymru wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y DU bob mis ers i mi fod yn Brif Weinidog. Yn syml, nid yw hynny'n wir. Edrychwch ar y ffigurau yn ystod yr haf, a byddwch yn gweld eu bod yn is na chyfartaledd y DU. Ar hyn o bryd, maent ychydig yn uwch, ond drwy'r haf, roeddent yn is. Yn syml, nid yw hynny'n wir.</p> <p>Os edrychwn, er enghraifft, ar yr hyn y maent yn ei ddweud am economi Cymru, ei bod rywsut yn mynd i'r gwellt, gwyddom nad yw hynny'n wir. Gwelsom y buddsoddiad mwyaf erioed. Gwelsom y ffaith bod diweithdra wedi gostwng. Gwelsom y ffaith bod gweithgarwch economaidd ar gynnydd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

On education, they claim that education spending in Wales per head is lower. We know from the Treasury's own figures that that is not the case. They claimed that I have sat around the Cabinet table since February 2000. I became a Minister in July 2000. They could not even get that right. It shows how accurate they actually are.

Let us turn to what was said by Mark Isherwood—entertainment, as ever. He said that the NHS was in—let us quote him accurately—he said that the BMA has said that the Welsh NHS was in danger of imminent meltdown some months ago. It is not in meltdown, is it? The whole point is that that comment was not correct. I prefer what the BMA said when it said that to suggest that the Welsh NHS was in a worse position than the English NHS was a wicked slander. Those were the words of the BMA earlier in the year. I prefer the words that it used on that occasion.

I listened carefully to William Graham, somebody who I have the utmost respect for. I am not sure he was completely convinced of what he was saying, I have to say. I will leave that for others to judge. He mentioned electrification, as did Angela Burns, as if, somehow, it was our fault that electrification was not going ahead as quickly as possible. May I remind the party opposite that what they wanted to do was to chuck the towel in and to actually accept whatever the UK Government said? Instead, we stood our ground, and now we have £230 million more than if they would have been in power. So, actually, the cost of the Tories, as far as electrification is concerned, is £230 million straightaway.

I am proud of the five years I have had as First Minister. It is a huge privilege. It has its ups and downs, as Members can imagine, but, nevertheless, to be asked to head a Government of your nation is an enormous honour and privilege. There will be debates such as this that are lively. That is part, of course, of the democratic process. I do not shy away from that, as I know that Members opposite do not, but what I say in conclusion is this: the Conservatives' arguments would have more power if they had any vision, any policies and any strength. As we have seen from issues such as electrification, from ensuring that Wales gets a fair deal, from ensuring that we stand up for Wales, we, as the Welsh Labour Government, have done that, are doing it, and will continue to do it. For five years, we have stood up for Wales and we will continue to do so for many years to come.

O ran addysg, maent yn honni bod gwariant y pen ar addysg yng Nghymru yn is. Yn sgîl ffigurau'r Trysorlys ei hun, gwyddom nad yw hynny'n wir. Roeddent yn honni fy mod wedi eistedd o gwmpas bwrdd y Cabinet ers mis Chwefror 2000. Deuthum yn Weinidog ym mis Gorffennaf 2000. Nid oeddent wedi llwyddo hyd yn oed i gael hynny'n iawn. Dyna pa mor fanwl gywir y maent mewn gwirionedd.

Gadewch inni droi at yr hyn a ddywedodd Mark Isherwood-adloniant pur fel arfer. Dywedodd fod y GIG-gadewch i ni ei ddyfynnu'n fanwl gywir-dywedodd fod y BMA wedi dweud bod y GIG yng Nghymru ar ymyl y dibyn rai misoedd yn ôl. Nid yw ar ymyl y dibyn, onid yw? Yr holl bwynt yw nad yw'r sylw hwnnw'n gywir. Mae'n well gennyf yr hyn a ddywedodd y BMA pan ddywedodd mai athrod drygionus oedd awgrymu bod y GIG yng Nghymru mewn sefyllfa waeth na'r GIG yn Lloegr. Dyna oedd geiriau y BMA yn gynharach yn y flwyddyn. Mae'n well gennyf i'r geiriau a ddefnyddiwyd ganddynt ar yr achlysur hwnnw.

Gwrandewais yn astud ar William Graham, rhywun sydd gennyf barch mwyaf ato. Nid wyf yn siŵr ei fod yn gwbl argyhoeddedig ynglŷn â'r hyn yr oedd yn ei ddweud, rhaid i mi ddweud. Gadawaf hynny i eraill farnu. Soniodd am drydaneiddio, fel y gwnaeth Angela Burns, gan awgrymu mae ni oedd ar fai am nad oedd trydaneiddio yn mynd yn ei flaen cyn gynted â phosibl. A gaf i atgoffa'r blaid gyferbyn mai'r hyn yr oeddent hwy am ei wneud oedd rhoi'r ffidil yn y to a derbyn mewn gwirionedd beth bynnag a ddywedai Llywodraeth y DU? Yn lle hynny, bu i ni ddal ein tir, ac erbyn hyn mae gennym £230 miliwn yn fwy na phe byddent hwy wedi bod mewn grym. Felly, mewn gwirionedd, byddai'r gost i'r Torïaid, o ran trydaneiddio, yn £230 miliwn ar unwaith.

Rwy'n falch o'r pum mlynedd a gefais yn Brif Weinidog. Mae'n fraint enfawr. Mae'n amrywiaeth o'r da a'r drwg, fel y gall Aelodau ei ddychmygu, ond, serch hynny, mae cael eich gofyn i arwain Llywodraeth eich cenedl yn anrhydedd enfawr ac yn fraint. Bydd dadleuon fel hyn sy'n fywiog. Mae hynny, wrth gwrs, yn rhan o'r broses ddemocrataidd. Nid wyf yn ymatal rhag hynny, oherwydd gwn nad yw'r Aelodau gyferbyn yn gwneud hynny chwaith, ond mae'r hyn rwyf am ei ddweud wrth grynhoi fel a ganlyn: byddai dadleuon y Ceidwadwyr yn fwy grymus pe bai ganddynt ronyn o weledigaeth, o bolisiau ac o nerth. Fel y gwelsom o ran materion megis trydaneiddio, sicrhau bod Cymru'n cael bargaen deg, sicrhau ein bod yn sefyll yn gadarn dros Gymru, rydym ni, fel Llywodraeth Lafur Cymru, wedi gwneud hynny, rydym yn gwneud hynny, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Am bum mlynedd, rydym wedi sefyll dros Gymru a byddwn yn parhau i wneud hynny am flynyddoedd i ddod.

17:58

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Andrew R.T. Davies to reply.

Galwaf ar Andrew R. T. Davies i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I would like to thank everyone who has contributed to the debate today. It is regrettable that the First Minister spent the first two minutes of his contribution today just focusing solely on Westminster. I think that that is most probably the root of his problem in this term of the Assembly, on the basis he spent three years solid trying to predict a triple or double-dip recession—depending on which way you want to look at it—and record unemployment rather than focusing on delivering on his manifesto. Ultimately, that is at the crux of this debate today.

I congratulate the First Minister for reaching the milestone of five years as First Minister, and I am sure, hopefully, he has been endeavouring to do his best, but, ultimately, the record is pretty bleak to say the least. He had a supporting voice from the Labour benches in Mick Antoniw. Mick Antoniw talked about apprentices. Today, for example, in Westminster, the two millionth apprenticeship was announced in England. Your Government has just cut 9,000 apprenticeship places because of the budget cuts. You also said, as a throwaway remark, I might add, that you were not familiar with a den of vipers. Actually, what your party is doing to Ann Clwyd in Cynon Valley really shows what the Labour party is about.

What I will say about the health service is this: when the First Minister, in his contribution today, talks about the BMA's report about imminent meltdown, in the Princess of Wales Hospital in his constituency, they have cancelled all elective surgery over the Christmas period. They have announced that today, they have, First Minister. If that is not a negative sign about the state of our health service—and he does not know about it in his own backyard—then that really shows why ambulance response times are not being met, cancer times are not being met, and, ultimately, we have seen a 1,000% increase in diagnostic wait times and over 400,000 people waiting today for an appointment in hospital, as opposed to the 100,000 when the First Minister took office back in December 2009.

Angela Burns, in opening the debate today, touched on education, and I agree, like Kirsty Williams and many other people in the Chamber, that education will ultimately be the route out of developing a low-wage-based economy and that we need to develop here in Wales a high-wage economy that will create prosperity in our communities and ultimately offer many people the route out of poverty that, sadly, the lack of ambition that has come from the Labour benches, and in particular the Labour Government, for the whole duration of devolution, has shown up for many communities in Wales. That is why we have attracted the third round of Objective 1 or convergence funding money, because, actually, they have driven down economic activity in those particular areas.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl heddiw. Mae'n drueni bod y Prif Weinidog wedi treulio dau funud cyntaf ei gyfraniad heddiw yn canolbwyntio'n llwyr ar San Steffan. Credaf mai hynny yn ôl pob tebyg yw gwraidd ei broblem yn nhymor presennol y Cynulliad, ar y sail treuliodd dair blynedd gyson yn ceisio rhagweld dirwasgiad dwbl neu driphlyg—yn dibynnu ar ba ffordd rydych chi am ystyried y peth—a diweithdra ar ei uchaf yn hytrach na chanolbwyntio ar gyflawni ei fanifesto. Yn y pen draw, dyna sydd wrth graidd y ddadl hon heddiw.

Rwy'n llongyfarch y Prif Weinidog ar gyrraedd y garreg filltir o bum mlynedd fel Prif Weinidog, ac rwy'n sicr, gobeithio, iddo ymdrechu i wneud ei orau, ond, yn y pen draw, eithaf llwm yw ei hanes a dweud y lleiaf. Roedd ganddo lais ategol o'r meinciau Llafur yn Mick Antoniw. Soniodd Mick Antoniw am brentisiaid. Heddiw, er enghraifft, yn San Steffan, cyhoeddwyd y ddwy filiynfed brentisiaeth yn Lloegr. Mae eich Llywodraeth chi newydd dorri 9,000 o leoedd prentisiaeth oherwydd y toriadau yn y gyllideb. Dywedaso ch hefyd, fel sylw ffwrdd â hi, hoffwn ychwanegu, nad ydych yn gyfarwydd â ffau gwiberod. A dweud y gwir, mae'r hyn y mae eich plaid yn ei wneud i Ann Clwyd yng Nghwm Cynon yn wir yn dangos gwir natur y Blaid Lafur.

Hoffwn ddweud hyn am y gwasanaeth iechyd: pan siaradodd y Prif Weinidog, yn ei gyfraniad heddiw, am adroddiad y BMA yn sôn eu bod ar ymyl y dibyn, yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn ei etholaeth ef, maent wedi canslo pob llawdriniaeth ddewisol dros gyfnod y Nadolig. Maent wedi cyhoeddi hyn heddiw, yn wir, Brif Weinidog. Os nad yw hynny'n argoel negatif am gyflwr ein gwasanaeth iechyd—rhywbeth nad oedd ef yn gwybod amdano yn ei filltir sgwâr ei hun—yna mae hynny'n wir yn dangos pam nad yw amseroedd ymateb ambiwlansys yn cael eu cyflawni, pam nad yw amserau canser yn cael eu cyflawni, a pham y gwelsom gynnydd o 1,000% mewn amseroedd aros diagnostig a mwy na 400,000 o bobl yn aros heddiw am apwyntiad yn yr ysbyty, yn hytrach na'r 100,000 pan ddaeth y Prif Weinidog i'w swydd ym mis Rhagfyr 2009.

Soniodd Angela Burns, wrth agor y ddadl heddiw, am addysg, ac rwy'n cytuno, fel Kirsty Williams a llawer o bobl eraill yn y Siambr, mai addysg yn y pen draw fydd y llwybr allan o ddatblygu economi sy'n seiliedig ar gyflog isel a bod angen i ni yma yng Nghymru ddatblygu economi cyflog uchel a fydd yn creu ffyniant yn ein cymunedau ac yn y pen draw yn cynnig llwybr allan o dlodi i lawer o bobl, yn anffodus, mae meinciau Llafur, ac yn arbennig y Llywodraeth Lafur, dros gyfnod cyfan datganoli, wedi dangos diffyg uchelgais ar gyfer llawer o gymunedau yng Nghymru. Dyna pam rydym wedi denu'r drydedd rownd o arian Amcan 1 neu gyllid cydgyfeirio, oherwydd, mewn gwirionedd, maent wedi llwyddo i grebachu gweithgarwch economaidd yn yr ardaloedd penodol hynny.

In fairness to the Labour benches, if they were a new Government, if they were in their first term, then you could accept the point, 'Give us time. Give us a chance. Let us put right what has gone wrong before'. However, theirs is a party that has been in Government here in Wales since the dawn of devolution in 1999 and they ultimately have controlled the economic levers, the health levers and the education levers for this country and it just ain't good enough to keep asking for more time to try to fix the problem.

First Minister, as I have said, I congratulate you on your anniversary of five years in the job, but, for goodness' sake, for the next 18 months, offer us something tangible that we can measure your Government on in the next 18 months—the success. Give us a figure for where you think economic development might be, as Rhun ap Iorwerth touched on with the Plaid amendment, which we will be supporting. Give us a figure for where you think the waiting times might be. Give us a figure for where you think, under the Programme for International Student Assessment rankings, we could aspire to reach, because obviously that figure has been ditched as well.

Ultimately, you talk the talk, but you fail to deliver. Your mantra in 2011 was that the Labour Government that would win the election would ultimately be measured on delivery. Well, you have not delivered for the people of Wales and, regrettably, it is communities the length and breadth of Wales that have been let down by your lack of leadership.

I urge support for the motion that is before the house tonight, and I also pass on the compliments of the season to everyone here. [Laughter.]

Er tegwch i'r meinciau Llafur, pe baent yn Llywodraeth newydd, pe baent yn eu tymor cyntaf, yna gallech dderbyn y pwynt, 'Rhowch amser i ni. Rhowch gyfle i ni. Gadewch i ni gywiro beth sydd wedi aeth o'i le cynt'. Fodd bynnag, nhw yw'r blaid sydd wedi bod mewn Llywodraeth yma yng Nghymru ers gwawr datganoli yn 1999 ac maent yn y pen draw wedi rheoli'r ffactorau sbarduno economaidd, yr ysgogiadau iechyd a'r ysgogiadau addysg ar gyfer y wlad hon ac nid yw'n iawn eu bod yn dal i ofyn am ragor o amser i geisio datrys y broblem.

Brif Weinidog, fel y dywedais, rwy'n eich llongyfarch ar eich pumed pen-blwydd yn y swydd, ond, er mwyn popeth, am y 18 mis nesaf, cynigiwch rywbeth pendant i ni allu mesur perfformiad eich Llywodraeth ac yn y 18 mis nesaf—y llwyddiant. Rhowch ffigur i ddynodi ym mhle y credwch y gallai datblygu economaidd fod, fel y soniodd Rhun ap Iorwerth gyda gwelliant Plaid Cymru, y byddwn yn ei gefnogi. Rhowch ffigur i ddweud ym mhle y credwch y gallai'r amseroedd aros fod. Rhowch ffigur i ddweud ym mhle y credwch, o dan safleoedd y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, y gallem anelu at ei gyrraedd, oherwydd mae'n amlwg i'r ffigur hwnnw gael ei roi heibio hefyd.

Yn y pen draw, mae angen mwy na geiriau, mae angen cyflawni. Eich mantra yn 2011 oedd y byddai'r Llywodraeth Lafur a fyddai'n ennill yr etholiad yn y pen draw yn cael ei mesur ar ei chyflawniadau. Wel, nid ydych wedi cyflawni ar gyfer pobl Cymru ac, yn anffodus, mae ein cymunedau ar hyd a lled Cymru wedi cael eu siomi gan eich diffyg arweinyddiaeth.

Rwy'n galw am gefnogaeth ar gyfer y cynnig sydd gerbron y tŷ heno, ac rwyf hefyd yn dymuno cyfarchion y tymor i bawb yma. [Chwerthin.]

18:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad. Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad. Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Mae'r amser pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes neb.

Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NNDM5636.](#)

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 12, Yn erbyn 21, Ymatal 20.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5654.](#)

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 17, Yn erbyn 37, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5654.](#)

Voting Time

[Result of the vote on motion NNDM5636.](#)

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 12, Yn erbyn 21, Ymatal 20.

[Result of the vote on motion NDM5654.](#)

Motion not agreed: For 17, Against 37, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5654.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 54, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 54, Against 0, Abstain 0.

Cynnig NDM5654 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5654 as amended:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

1. Yn nodi, o dan y Rhaglen Lywodraethu bresennol, fod Llywodraeth Cymru wedi methu o ran ei hamcanion allweddol i gyflawni dros bobl Cymru.

1. Notes that under the current Programme for Government the Welsh Government has failed in its key objectives to deliver for the people of Wales;

2. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyhoeddi amserlen gyflawn ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar ddechrau'r Cynulliad hwn;

2. Regrets that the Welsh Government failed to publish a complete timetable for Key Performance Indicators at the beginning of this Assembly;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i sicrhau bod gan Gymru set lawn o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol cyfredol ar gyfer yr economi; a

3. Calls on the Welsh Government to work with the Office of National Statistics and the Office of Budget Responsibility to ensure that Wales has a full set of up-to-date Key Performance Indicators for the economy; and

4. Yn galw ar y Prif Weinidog i nodi ei bumed flwyddyn yn y swydd drwy gyhoeddi amserlen ar gyfer cyrraedd targedau ei Lywodraeth o ran:

4. Calls on the First Minister to mark his 5th anniversary in office by publishing a timetable for meeting his Government's targets on:

a) perfformiad y GIG;

a) NHS performance;

b) perfformiad addysgol Cymru yn erbyn safonau rhyngwladol megis PISA; ac

b) Welsh educational performance against international standards such as PISA; and

c) gwelliant mewn perfformiad economaidd ledled Cymru.

c) improvement in economic performance across Wales.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5654 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5654 as amended.](#)

Gwrthodwyd cynnig NDM5654 fel y'i diwygiwyd: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.

Motion NDM5654 as amended not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig fel y'i diwygiwyd.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the motion as amended.

18:04

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Will those Members leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

A wnaiff yr Aelodau hynny sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

18:05

Dadl Fer: Sicrhau Dyfodol Ffermio yng Nghymru

Short Debate: Securing the Future of Welsh Farming

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on William Powell to speak on the subject that he has chosen.

Galwaf ar William Powell i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis.

18:05

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. It is a great pleasure to be leading this debate today and I look forward very much also to hearing the contributions from Mick Antoniw, Russell George and Llyr Gruffydd, who are going to take a minute each of the time available.

Diolch fawr, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bleser mawr gennyf arwain y ddadl hon heddiw, ac edrychaf ymlaen yn fawr iawn hefyd at glywed cyfraniadau gan Mick Antoniw, Russell George a Llyr Gruffydd, sy'n mynd i gymryd munud yr un o'r amser sydd ar gael.

The question that I would like to explore in today's debate is what Wales can actually learn from our European Union partners to ensure that the next generation of farmers are able to access land, build their businesses and maximise the benefits of European Union development funds. We need to do more in Wales to support and encourage young people to enter the farming, and indeed the wider agricultural, industry. The average percentage of farmers in the European Union under the age of 35 is just 6%, but here in the UK it is below 3%. In fact, it is 2.8% in the most recent research available. What has also been identified is that Welsh businesses must recruit almost 25,000 more people for the land-based and environmental sectors at all qualification levels over the next decade just to maintain the current workforce, let alone strengthen it.

Farming in Wales remains an almost exclusively inherited occupation, and much more needs to be done to make the industry more accessible to young people. This is particularly important here in Wales given the rurality of our nation and the integral part that farming and agriculture plays in the wider Welsh economy. While I appreciate that the Welsh Government's rural development programme hopes to go some way towards addressing these issues, there are many examples of existing good practice across the continent that we can learn from and harvest so that they can serve to inform our agricultural policies going forward.

Looking first to France, the Terre de Liens is a farming movement in France that was established with the goals of removing the burden of land acquisition that prevents young people from actually entering into farming, as well as of working to preserve the land, fighting against land speculation, and ensuring that land is more accessible to a wider number of people. A number of stakeholders are involved, including agricultural developers, ethical co-operative financiers, such as the green bank of France, educational organisations, and indeed community farming projects. The movement also operates a network of regional associations that support small-scale agricultural projects in their region. They particularly serve to promote projects that help young people who would not otherwise have the means to access land, but who do have the capacity and desire to work on it. The French Government also awards generous bursaries to British farmers who set up in France, with financial incentives, including non-repayable grants of up to £14,000, designed to help with cash flow, provide seed-corn funding and indeed state-subsidised loans.

Y cwestiwn yr hoffwn ei ystyried yn y ddatl heidiu yw'r hyn mewn gwirionedd y gall Cymru ei ddysgu oddi wrth ein partneriaid yn yr Undeb Ewropeaidd i sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o ffermwyr yn gallu cael mynediad i dir, adeiladu eu busnesau a sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl o gronfeydd datblygu'r Undeb Ewropeaidd. Mae angen i ni wneud mwy yng Nghymru i gefnogi ac annog pobl ifanc i gychwyn ym maes ffermio, ac yn wir yn y maes amaethyddol a'r diwydiant ehangach. Mae canran gyfartalog ffermwyr yr Undeb Ewropeaidd sydd o dan 35 oed yn ddim ond 6%, ond yma yn y DU, mae'n is na 3%. Yn wir, yn ôl yr ymchwili ddiweddaraf sydd ar gael, mae'n 2.8%. Gwelwyd hefyd fod yn rhaid i fusnesau Cymru recriwtio bron 25,000 yn fwy o bobl ar gyfer sectorau'r tir a'r amgylchedd ar bob lefel cymhwyster dros y degawd nesaf yn unig er mwyn cynnal y gweithlu presennol, heb sôn am ei gryfhau.

Mae ffermio yng Nghymru yn parhau i fod yn alwedigaeth etifeddol bron yn gyfan gwbl, ac mae angen gwneud llawer mwy i wneud y diwydiant yn fwy hygyrch i bobl ifanc. Mae hyn yn arbennig o bwysig yma yng Nghymru o ystyried natur wledig ein cenedl a'r cyfraniad annatod y mae ffermio ac amaethyddiaeth yn ei wneud i economi ehangach Cymru. Er fy mod yn sylweddoli bod rhaglen datblygu gwledig Llywodraeth Cymru yn gobeithio mynd ychydig o'r ffordd tuag at fynd i'r afael â'r materion hyn, mae llawer o enghreifftiau o arfer da sydd eisoes yn bodoli ar y cyfandir y gallwn ddysgu oddi wrthynt a'u defnyddio yn fodd i lywio ein polisiau amaethyddol yn y dyfodol.

Gan edrych yn gyntaf ar Ffrainc, mae'r Terre de Liens yn fudiad ffermio yn Ffrainc a sefydlwyd gyda'r bwriad o gael gwared ar y baich caffael tir sy'n atal pobl ifanc mewn gwirionedd rhag cychwyn ffermio, yn ogystal â gweithio i warchod y tir, brwydro yn erbyn elwa ar brynu a gwerthu tir, a sicrhau bod tir yn fwy hygyrch i nifer ehangach o bobl. Mae nifer o randdeiliaid yn cymryd rhan, gan gynnwys datblygwyr amaethyddol, arianwyr cydweithredol moesegol, megis banc gwyrdd Ffrainc, sefydliadau addysgol, ac yn wir brosiectau ffermio cymunedol. Mae'r mudiad hefyd yn gweithredu rhwydwaith o gymdeithasau rhanbarthol sy'n cefnogi prosiectau amaethyddol ar raddfa fach yn eu rhanbarth. Maent yn arbennig yn fodd i hyrwyddo prosiectau sy'n helpu pobl ifanc na fyddent fel arall yn cael y modd i gael gafael ar dir, ond sy'n meddu ar y gallu a'r awydd i weithio arno. Mae Llywodraeth Ffrainc hefyd yn dyfarnu bwrsariaethau hael i ffermwyr Prydain sy'n sefydlu yn Ffrainc, gyda chymhellion ariannol, gan gynnwys grantiau nad ydynt yn ad-daladwy o hyd at £14,000, a gynlluniwyd i helpu gyda llif arian, darparu cyllid sbarduno a hyd yn oed benthyddiaid â chymhorthdal-wladwriaeth.

Social attitudes and Government policy more generally are very supportive of farming in France. Land with quotas can be purchased at very reasonable rates, and land can be purchased even more cheaply where there are no quotas. For those wishing to rent, agreements are usually signed for nine to 18 years, during which time the farmer has security of tenure. Farmers are offered any neighbouring land that comes up for sale or rent as a legal right, and young farmers have priority when quotas are allocated. Similar to here in Wales, the French still feel a deep affection for and connection with the land, and policies have been put in place over recent years to safeguard that way of life and that vital culture.

Another interesting case study is what has been happening in the farming sector in Greece. Support is provided for the transfer of farms from one generation to the next by financing a major part of the initial settlement costs of young farmers, and by subsidising early retirement programmes in order to encourage more mature farmers to retire at a time earlier than they might otherwise have chosen to do.

Rural policy programmes in Greece have resulted in an inflow of major capital resources, improvements in producers' income, and indeed, a further intensification of production. Young people are often considered to be the most dynamic, the most productive and, indeed, the most innovative members of any society, and farming programmes, such as the ones that operate in Greece, have been effective in harnessing that energy and directing it towards the farming industry, and indeed securing that vital goal that we all share of securing the food supply for the future.

Mae agweddau cymdeithasol a pholisïau'r Llywodraeth ar y cyfan yn gefnogol iawn i ffermio yn Ffrainc. Mae modd prynu tir gyda chwotâu am brisiau rhesymol iawn, a gellir prynu tir hyd yn oed yn rhatach lle nad oes unrhyw gwotâu. Ar gyfer y rhai sy'n dymuno rhentu, mae cytundebau fel arfer yn cael eu harwyddo am gyfnod o naw i 18 mlynedd, gan roi sicrwydd deiliadaeth i'r ffermwr gydol y cyfnod. Cynigir unrhyw dir cyfagos a roddir ar werth neu ar rent i ffermwyr fel hawl gyfreithiol, a rhoddir blaenoriaeth i ffermwyr ifanc wrth ddyrannu cwotâu. Fel yma yng Nghymru, mae'r Ffrancwyr yn dal i deimlo hoffter dwfn a chysylltiad â'r tir, ac mae'r polisïau wedi cael eu rhoi ar waith dros y blynyddoedd diwethaf i ddiogelu'r ffordd honno o fyw, a'r diwylliant hanfodol hwnnw.

Astudiaeth achos ddiddorol arall yw'r hyn sydd wedi bod yn digwydd yn y sector ffermio yng Ngwlad Groeg. Darperir cymorth ar gyfer trosglwyddo ffermydd o un genhedlaeth i'r llall drwy ariannu rhan fawr o gostau setliad cychwynnol ffermwyr ifanc, a thrwy roi cymhorthdal rhaglenni ymddeol yn gynnar er mwyn annog ffermwyr mwy aeddfed i ymddeol yn gynt nag y gallent fel arall fod wedi dewis gwneud.

Mae rhaglenni polisi gwledig yng Ngwlad Groeg wedi arwain at fewnlif o adnoddau cyfalaf mawr, gwelliannau mewn incwm cynhyrchwyr, ac yn wir, dwysáu cynhyrchiant ymhellach. Yn aml, ystyrir pobl ifanc fel y rhai mwyaf deinamig, cynhyrchiol ac, yn wir, yr aelodau mwyaf blaengar mewn unrhyw gymdeithas, ac mae rhaglenni ffermio, megis y rhai sy'n gweithredu yng Ngwlad Groeg, wedi bod yn effeithiol wrth harneisio'r egni hwnnw a'i gyfarwyddo tuag at y diwydiant ffermio, ac yn wir, gwireddu'r nod hanfodol hwnnw rydym i gyd yn ei rannu sef sicrhau'r cyflenwad bwyd ar gyfer y dyfodol.

Another issue is multigenerational farming. In Germany, and in the Netherlands, you can find many examples of multigenerational, community-based farming, where the wisdom and experience of the older generation is drawn upon, as is the energy of the younger generations who come in wishing to drive their businesses forward. These can involve different farming families coming together in joint farming ventures, but also, because the set-up costs are alleviated, the need for newcomers to have a large amount of capital is offset, and expansion beyond the traditional family ties are also therefore made possible. Another interesting concept is share farming. This is a system of sharing the input of land, working capital and labour on a basis of shared risk and shared reward. Both parties share the risk and the profits on a pre-agreed percentage basis. The system is not currently so common in the UK, but it has enjoyed widespread popularity across Europe, and also as far as afield as New Zealand. Share farming has, in recent times, received endorsements from the Country Land and Business Association, which has claimed that one of the problems with traditional farming agreements is that a farmer is either in or out. Share farming provides a middle ground whereby a farmer in more mature years, who cannot afford to retire, can start to ease back in their activities without having to worry about making ends meet. In this sense, share farming could be one way in which Welsh agriculture could encourage mobility within the industry, which is absolutely critical if this industry is to have the future that it deserves and that we want for it. I have spoken in the past about the value of share farming and I would again encourage the Welsh Government to do something in this direction to explore the potential that that has.

The young entrants support scheme, otherwise known as YES, has provided valuable support for young people up to the age of 40 entering the agricultural sector, with funding, mentoring and advice all being offered as part of the scheme, and that scheme has enjoyed a very strong reputation across this country. As we know, the YES scheme is now coming to an end and will soon be superseded by the new rural development plan. It is vital, therefore, that the Welsh Government outlines a clear timetable for the delivery of this aspect of the RDP, and specifically the aspects that will maintain the mechanisms that were so successful within the YES scheme. At a time when increasing the involvement of young people in farming and agriculture has never been more important, I am sure that the Deputy Minister will be very clear on this as an important area for future policy development.

The joint opportunities platform is another issue that I would suggest as an important way forward. One recommendation that was made in Malcolm Thomas's 'Next Generation into Farming' report, which is particularly targeted at making the industry more accessible, particularly for those who are new to the industry and not inheriting from a previous generation, is indeed the joint opportunities platform. The platform will identify and match farmers and landowners seeking to enter into contract or share-farming arrangements with new entrants looking for a route into the industry. I welcome the fact that the Welsh Government has accepted this recommendation, and this is another area that I think should be pursued with some energy.

Mater arall yw ffermio amlgenhedlaeth. Yn yr Almaen, ac yn yr Iseldiroedd, cewch lawer o enghreifftiau o ffermio amlgenhedlaeth cymunedol, lle mae doethineb a phrofiad y genhedlaeth hŷn yn cael ei ddefnyddio, fel y mae ynni'r cenedlaethau iau newydd sy'n awyddus i hyrwyddo eu busnesau. Gall y rhain gynnwys teuluoedd ffermio gwahanol yn dod at ei gilydd i ffurfio cydfentrau ffermio, ond hefyd, oherwydd bod cymorth gyda'r costau sefydlu, nid oes cymaint o angen i newydd-ddyfodiaid gael swm mawr o gyfalaf, ac mae modd ehangu y tu hwnt i'r cysylltiadau teuluol traddodiadol hefyd, felly. Cysyniad diddorol arall yw ffermio cyfran. Mae'r system hon yn rhannu mewnbwn o dir, cyfalaf gweithio a llafur ar sail rhannu risg ac elw. Mae'r ddwy elfen yn rhannu'r risg a'r elw ar sail ganrannol y cytunwyd arni ymlaen llaw. Nid yw'r system ar hyn o bryd mor gyffredin yn y DU, ond mae wedi bod yn lled boblogaidd ar draws Ewrop, a hefyd ym mharthau Seland Newydd. Mae ffermio cyfran, yn y cyfnod diweddar, wedi cael cymeradwyaeth y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, sydd wedi honni mai un o'r problemau gyda chytundebau ffermio traddodiadol yw bod y ffermwr naill ai i mewn neu allan. Mae ffermio cyfran yn darparu tir canol lle gall ffermwr sy'n hŷn, na all fforddio i ymdeol, ddechrau torri'n ôl ar ei weithgareddau heb orfod poeni am gael dau ben llinyn ynghyd. Felly, gallai ffermio cyfran fod yn un ffordd y gallai amaethyddiaeth Cymru annog symudedd o fewn y diwydiant, sy'n gwbl hanfodol os yw'r diwydiant hwn am gael y dyfodol y mae'n ei haeddu ac rydym yn ei ddymuno ar ei gyfer. Rwyf wedi siarad yn y gorffennol am werth ffermio cyfran ac rwy'n annog Llywodraeth Cymru unwaith eto i wneud rhywbeth yn y cyfeiriad hwn er mwyn archwilio potensial y dull hwnnw.

Mae'r cynllun cymorth i newydd-ddyfodiaid, a elwir hefyd yn YESS, wedi darparu cymorth gwerthfawr i bobl ifanc hyd at 40 oed i gychwyn yn y sector amaethyddol, gyda chyllid, mentora a chyngor a'r cyfan yn cael ei gynnig fel rhan o'r cynllun, ac mae'r cynllun wedi mwynhau enw da iawn ar draws y wlad. Fel y gwyddom, mae'r cynllun YESS yn awr yn dod i ben ac yn fuan bydd yn cael ei ddisodli gan y cynllun datblygu gwledig newydd. Mae'n hanfodol, felly, fod Llywodraeth Cymru yn amlinellu amserlen glir ar gyfer darparu'r agwedd hon ar y Cynllun Datblygu Gwledig, ac yn benodol yr agweddau a fydd yn cynnal y mecanweithiau a oedd mor llwyddiannus o fewn y cynllun YESS. Ar adeg pan fo cynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn ffermio ac amaethyddiaeth erioed wedi bod yn fwy pwysig, rwy'n sicr y bydd y Dirprwy Weinidog yn deal yn glir iawn fod hwn yn faes pwysig ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol.

Mae'r llwyfan cyfleoedd ar y cyd yn fater arall y byddwn yn ei awgrymu fel ffordd bwysig ymlaen. Un argymhelliad a wnaed yn adroddiad Malcolm Thomas, 'Denu Cenhedlaeth Newydd o Ffermwyr', sy'n cael ei dargedu'n benodol at wneud y diwydiant yn fwy hygrych, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n newydd i'r diwydiant nad ydynt yn etifeddu oddi wrth genhedlaeth flaenorol, yn wir yw'r plattform cyfleoedd ar y cyd. Bydd y llwyfan yn canfod ac yn paru ffermwyr a thirfeddianwyr sydd am ymrwymo i drefniadau contract neu ffermio cyfran gyda newydd-ddyfodiaid sy'n chwilio am lwybr i mewn i'r diwydiant. Croesawaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn, a chredaf fod hwn yn faes arall y dylid ei ddilyn gyda rhywfaint o egni.

Education and engagement are key to the potential that Welsh farming has. I wonder whether the Deputy Minister could please update us on when we can expect to see, in full detail, the work undertaken by Professor Wynne Jones in terms of the review of learning provided by our further education colleges. I believe that this was initially expected a little while ago, and I am sure that it will, when produced and disseminated, provide us with some valuable insights to help to safeguard the future of the industry.

The recent junior Agri Academy information visit to the European institutions in Brussels, was a fantastic initiative, enjoyed by young farmers from the length and breadth of Wales and it sought to promote the kind of engagement and opportunity that should be happening between the industry, politicians and, indeed, the next generation of Welsh farmers. Welsh young farmer, Sioned Davies, spoke of her delight at having the opportunity to speak directly with the decision makers, including the newly appointed EU agriculture commissioner, Phil Hogan. I hope to see more young people from across Wales have the opportunity in the time to come to take part in such initiatives. Wales has a long and proud farming tradition and we must do all that we can to preserve and to enhance it to ensure that the sector has the future that it deserves. There is a wealth of innovation and best practice to be harvested from our European partners, and I am convinced that we can work together to promote these even more strongly here in Wales.

Mae addysg ac ymgysylltu yn allweddol i botensial ffermio yng Nghymru. Tybed a allai'r Dirprwy Weinidog, os gwelwch yn dda, ddweud wrthym pryd y gallwn ddisgwyl gweld manylion llawn y gwaith a wnaed gan yr Athro Wynne Jones o ran yr adolygiad o ddysgu a ddarperir gan ein colegau addysg bellach. Credaf fod hyn wedi'i ddisgwyl yn y lle cyntaf ychydig amser yn ôl, ac rwy'n siŵr y bydd, pan gaiff ei gynhyrchu a'i ddosbarthu, yn rhoi dealltwriaeth werthfawr i helpu i ddiogelu dyfodol y diwydiant.

Roedd ymweliad gwybodaeth diweddar yr Academi Amaeth iau â'r sefydliadau Ewropeaidd ym Mrwsel yn fenter wych y bu i ffermwyr ifanc o bob cwr o Gymru ei fwynhau ac roedd yn ceisio hyrwyddo'r math o ymgysylltu a chyfle ddylai fod yn digwydd rhwng y diwydiant, gwleidyddion ac, yn wir, y genhedlaeth nesaf o ffermwyr Cymru. Soniodd ffarmwraig ifanc o Gymru, Sioned Davies, am ei llawenydd o gael y cyfle i siarad yn uniongyrchol â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, gan gynnwys comisiynydd amaethyddiaeth yr UE sydd newydd ei benodi, Phil Hogan. Rwy'n gobeithio gweld rhagor o bobl ifanc o bob rhan o Gymru yn cael y cyfle yn y dyfodol i gymryd rhan mewn mentrau o'r fath. Mae gan Gymru draddodiad amaethyddol hir a balch ac mae'n rhaid i ni wneud popeth a allwn i'w gadw a'i wella er mwyn sicrhau bod gan y sector y dyfodol y mae'n ei haeddu. Mae cyfoeth o arloesed ac arferion gorau ar gael i'w cynaefu gan ein partneriaid Ewropeaidd, ac rwy'n argyhoeddedig y gallwn weithio gyda'n gilydd i hyrwyddo'r rhain hyd yn oed yn fwy cryf yma yng Nghymru.

18:16

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have a few comments to make and, of course, although my constituency is mainly an industrial one, there are very few constituencies that do not have significant elements of farming and people working within that. In the short time that I have, there are really just a few comments that I want to make: for farming to be attractive for people to come into, there has to be a career within it; there have to be decent terms and conditions, and there have to be decent wages. I wonder now whether perhaps you might regret your earlier opposition to the Agricultural Sector (Wales) Act 2014. The fact is that we are down that road now, and do you see that many positive possibilities will come out of that in order to provide for a whole new concept of looking at farming within Wales in terms of training and opportunities, as well as of protecting the terms and conditions of the people who work in it to make it attractive for future generations and to people who may not have been involved in farming in the past to come into it?

Mae gennyf ychydig o sylwadau i'w gwneud ac, wrth gwrs, er bod fy etholaeth yn bennaf yn un ddiwydiannol, nid oes llawer o etholaethau nad oes ganddynt elfennau sylweddol o ffermio a phobl sy'n gweithio o fewn hynny. Yn yr amser byr sydd gennyf, mewn gwirionedd dim ond ychydig o sylwadau rwyf am eu gwneud: er mwyn i ffermio fod yn ddeniadol i bobl sy'n cychwyn, mae'n rhaid iddo allu darparu gyrfa; rhaid cael telerau ac amodau gweddus, a rhaid cael cyflog gweddus. Tybed bellach a fyddwch o bosibl yn difaru eich gwrthwynebiad yn gynharach i Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014. Y ffaith yw ein bod ar y llwybr hwnnw yn awr, ac a ydych yn gweld y bydd llawer o bosibiliadau cadarnhaol yn dod yn ei sgîl, er mwyn darparu ar gyfer cysyniad cwbl newydd o edrych ar ffermio yng Nghymru o ran hyfforddiant a chyfleoedd, yn ogystal ag o ran amddiffyn telerau ac amodau'r bobl sy'n gweithio yn y diwydiant i'w wneud yn ddeniadol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac i bobl na allai fod wedi bod yn ymwneud â ffermio yn y gorffennol i ymuno â'r diwydiant?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:17

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to Bill Powell for bringing forward this debate today and I also thank him for bringing forward his own experiences to this debate. I, of course, agree that it is essential, if our farming industry is to thrive, for us to learn from international best practice and maximise benefits of European funds.

Rwy'n ddiolchgar i Bill Powell am gyflwyno'r ddatl hon heddiw, ac rwyf hefyd yn diolch iddo am gyflwyno ei brofiadau ei hun i'r ddatl hon. Rwyf i, wrth gwrs, yn cytuno ei bod yn hanfodol, os yw ein diwydiant ffermio yn ffynnu, i ni ddysgu o arferion gorau rhyngwladol a gwneud y budd mwyaf o arian Ewropeaidd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

There certainly is a feeling that Welsh agriculture has earned a reputation for being one of the most heavy-handed, perhaps in the negative sense, when it comes to implementing EU regulation. I am sure that the Deputy Minister will pick up on that. I agree with William Powell's points with regard to share farming and the other issues with regard to county farms. I know that, in my own constituency, there is a great deal of younger farmers entering farming through our county farms, and I think that we do need to appreciate that. If there is movement perhaps by county councils to sell county farms, I think that that would be a concern as well.

Yn sicr mae teimlad bod amaethyddiaeth Cymru wedi ennill enw da am fod yn un o'r rhai mwyaf trwyadl, efallai yn yr ystyr negyddol, pan ddaw yn fater o weithredu rheoliadau'r UE. Rwy'n sicr y bydd y Dirprwy Weinidog yn sylwi ar hynny. Cytunaf â phwyntiau William Powell o ran ffermio cyfran a'r materion eraill o ran ffermydd sirol. Gwn, yn fy etholaeth fy hun, fod llawer iawn o ffermyr iau sy'n cychwyn ffermio trwy ein ffermydd sirol, a chredaf fod angen i ni werthfawrogi hynny. Os oes symudiad efallai gan gynghorau sir i werthu ffermydd sirol, credaf y byddai hynny'n destun pryder hefyd.

18:18 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

A gaf ddiolch i William Powell am ganiatáu i mi gyfrannu'n fyr i'r ddadl hon? Rwyf am wneud dau bwynt. Yn gyntaf, roedd yn ystadegyn brawychus a glywodd y rhai ohonom a oedd yng nghyfarfod NFU Cymru Clwyd yr wythnos diwethaf gan y siaradwr gwadd, pan ddywedodd wrthym yn gwbl glir, er mwyn ymateb i'r galw ychwanegol a fydd am fwyd, yn dilyn twf ym mhoblogaeth y byd dros yr 50 mlynedd nesaf, bydd angen cynhyrchu yn y cyfnod hwnnw yn un faint o fwyd ag a gynhyrwyd dros y 10,000 o flynyddoedd diwethaf. Mae hwnnw'n ystadegyn gwbl frawychus ac, rwy'n meddwl, mae'n tanlinellu'r her sydd yn wynebu'r diwydiant yng Nghymru ac, wrth gwrs, ar draws y byd, mewn ymateb i'r galw hwnnw.

May I thank William Powell for allowing me to contribute briefly to this debate? I wish to make two points. First, it was a shocking statistic that some of us who attended the NFU Cymru Clwyd meeting recently would have heard the guest speaker mention, when he said quite clearly that, in order to respond to the additional demand for food following the growth in global population over the next 50 years, there will be a need to produce during that period as much food as was produced over the last 10,000 years. That is an entirely shocking statistic and I believe that it underlines the challenge that the industry faces in Wales and, of course, on a global level, in responding to that demand.

Bu cyfeiriad yn barod at y cynllun datblygu gwledig, a byddwn yn achub ar y cyfle, efallai, i ofyn i'r Dirprwy Weinidog fanteisio ar y ddadl y prynhawn yma er mwyn rhoi diweddariad inni ynglŷn â phryd y gallwn weld pres yn dod o'r ffynhonnell honno i Gymru. Mae gwefan y Llywodraeth yn sôn am gynlluniau yn dechrau yn gynnar yn 2015. Mae nifer fawr o bobl yn gofyn i fi, 'Pryd yn union y byddwn yn gweld y pres hwnnw'n cyrraedd y llinell flaen?'

Reference has already been made to the rural development plan, and I would take this opportunity to ask the Deputy Minister to take advantage of this afternoon's debate to give us an update as to when we will see funding becoming available from that source to Wales. The Government's website mentions plans commencing early in 2015, but a number of people have asked me, 'When exactly will we see that money actually reaching the front line?'

18:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on the Deputy Minister for Farming and Food to reply.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i ymateb.

18:19 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food

Thank you, Deputy Presiding Officer. It is a pleasure to be able to respond on behalf of the Government to the debate today. I particularly thank William Powell for bringing forward this debate and doing so in such a constructive spirit. I know that there is certainly a great deal of common ground that we have, particularly regarding share farming, which I will talk about in a bit more detail later. Also, on the joint opportunities platform that you mentioned, I can confirm that I have asked my officials to prioritise that as one of the actions coming out of the Malcolm Thomas report as well.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bleser gallu ymateb ar ran y Llywodraeth i'r ddadl heddiw. Diolchaf yn arbennig i William Powell am gyflwyno'r ddadl hon gan wneud hynny gydag ysbryd mor adeiladol. Gwn yn sicr fod llawer iawn o dir cyffredin rhyngom, yn enwedig o ran ffermio cyfran, a byddaf yn siarad am hynny'n fwy manwl maes o law. Hefyd, ynglŷn â'r llwyfan cyfleoedd ar y cyd a grybwyllwyd gennych, gallaf gadarnhau fy mod wedi gofyn i'm swyddogion flaenoriaethu hynny fel un o'r camau gwethredu sy'n deillio o adroddiad Malcolm Thomas hefyd.

You asked about the Professor Wyn Jones report. I met with Professor Jones today, along with my colleague, the Deputy Minister for Skills and Technology. We will be making a formal response to his report, which includes several constructive recommendations, and, obviously, I will make a statement to the Assembly on that in due course.

Bu i chi ofyn am adroddiad yr Athro Wyn Jones. Cyfarfûm â'r Athro Jones, heddiw, ynghyd â'm cydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg. Byddwn yn gwneud ymateb ffurfiol i'w adroddiad, sy'n cynnwys nifer o argymhellion adeiladol, ac, yn amlwg, byddaf yn gwneud datganiad i'r Cynulliad ar hynny maes o law.

Securing a successful future for the farming industry in Wales is obviously one of my utmost priorities. To date, this Government has supported over 600 new entrants through our much-respected young entrant support scheme to which William Powell referred. This represents a capital investment of over £8 million in farming in Wales. However, YESS is actually a lot more than just a capital grant; it is the access to a dedicated young entrants business enabler service, which advises on training, knowledge transfer and joint venture opportunities, as well as offering support from mentors who are experienced people who already run successful farming businesses themselves. I think that that is what makes our YESS scheme in Wales unique.

While the focus of this debate has been on Wales learning from our EU partners, I think that YESS is actually an example where EU partners have looked to us in identifying ways to support the future generation of farmers across Europe. YESS was highlighted at the European Parliament as an exemplar project. My officials have presented at key conferences, showcasing the programme, and the model has been adopted now by other Governments to support their young entrants initiatives as well.

The key now, I suppose, is to build on our success and to develop a package of support that moves YESS on to the next level. In 2012, an evaluation of YESS was carried out and, as part of that report, we conducted a Europe-wide review of the support available to young farmers. That offered us an excellent opportunity to benchmark the support that we offer against other key agricultural regions in Europe. In the main, our package of support was more comprehensive. However, the report did outline some examples of how YESS could be improved. One such example was to decouple the support from specific investment and, instead, support the business as a whole through a working capital grant. That is something that we are currently reviewing for inclusion in the new YESS scheme, which will be delivered through the new RDP.

In addition to the review in 2012, we commissioned Malcolm Thomas to carry out a review into the next generation of farming, and that review highlighted access to land and finance, along with taxation laws, as being significant barriers to entry into the industry. The latter is a challenge. However, I am currently looking at what can be achieved in this complex area. Malcolm Thomas was quite right to highlight in his review that, in giving support to new entrants, we must be able to support those who wish to leave the industry as well. This is particularly true in respect of access to land. A recommendation was made that we should work alongside our stakeholders to investigate the potential of joint ventures here in Wales. The CLA, the FUW and NFU Cymru have all carried out work in this area recently and have looked at different models of joint ventures. I have been fortunate enough to visit some of these excellent examples to see just how young people can enter the industry without the huge capital outlay associated with purchasing land.

Mae sicrhau dyfodol llwyddiannus i'r diwydiant ffermio yng Nghymru yn amlwg yn un o'm blaenoriaethau mwyaf. Hyd yma, mae'r Llywodraeth hon wedi cefnogi dros 600 o ymgeiswyr newydd drwy ein cynllun cymorth i newydd-ddyfodiad mawr ei barch y cyfeiriodd William Powell ato. Mae hyn yn cynrychioli buddsoddiad cyfalaf o dros £8 miliwn i ffermio yng Nghymru. Fodd bynnag, mae YESS mewn gwirionedd yn llawer mwy na dim ond grant cyfalaf; mae'n llwybr i wasanaeth galluogi busnes ar gyfer newydd-ddyfodiad pwrpasol, sy'n rhoi cyngor ar hyfforddiant, trosglwyddo gwybodaeth a chyfluoedd menter ar y cyd, yn ogystal â chynnig cefnogaeth gan fentoriaid sy'n bobl brofiadol sydd eisoes yn rhedeg busnesau ffermio llwyddiannus eu hunain. Credaf mai dyna beth sy'n gwneud ein cynllun YESS yng Nghymru yn unigryw.

Er bod ffocws y ddadl hon wedi bod ar Gymru yn dysgu oddi wrth ein partneriaid yn yr UE, credaf fod YESS mewn gwirionedd yn enghraifft lle mae partneriaid yn yr UE wedi edrych arnom ni i ganfod ffyrdd o gefnogi'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr ledled Ewrop. Amlygwyd YESS yn y Senedd Ewropeaidd fel prosiect enghreifftiol. Mae fy swyddogion wedi rhoi cyflwyniadau mewn cynadleddau allweddol, gan arddangos y rhaglen, ac mae'r model wedi cael ei fabwysiadu erbyn hyn gan Lywodraethau eraill i gefnogi eu mentrau ar gyfer newydd-ddyfodiad hefyd.

Yr allwedd yn awr, mae'n debyg, yw adeiladu ar ein llwyddiant a datblygu pecyn o gymorth sy'n symud YESS ymlaen i'r lefel nesaf. Yn 2012, cynhaliwyd gwerthusiad o YESS ac, fel rhan o'r adroddiad hwnnw, rydym yn cynnal adolygiad ledled Ewrop gyfan o'r gefnogaeth sydd ar gael i ffermwyr ifanc. Rhoes hyn gyfle gwych i feincnodi'r gefnogaeth rydym yn ei chynnig yn erbyn rhanbarthau amaethyddol allweddol eraill yn Ewrop. Ar y cyfan, mae ein pecyn cefnogaeth yn fwy cynhwysfawr. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad yn amlinellu rhai enghreifftiau o sut y gellid gwella YESS. Un enghraifft o'r fath oedd datgysylltu'r gefnogaeth o fuddsoddiad penodol ac, yn lle hynny, cefnogi'r busnes yn ei gyfanrwydd drwy grant cyfalaf gweithio. Mae hynny'n rhywbeth rydym yn ei adolygu ar hyn o bryd ar gyfer eu cynnwys yn y cynllun YESS newydd, a fydd yn cael ei gyflwyno drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig newydd.

Yn ychwanegol at yr adolygiad yn 2012, comisiynwyd Malcolm Thomas i gynnal adolygiad o'r genhedlaeth nesaf o ffermio, ac amlygodd yr adolygiad hwnnw mai mynediad i dir a chyllid, ynghyd â deddfau treth, oedd y rhwystrau sylweddol rhag cychwyn yn y diwydiant. Mae'r olaf yn her. Fodd bynnag, ar hyn o bryd rwy'n edrych ar yr hyn y gellir ei gyflawni yn y maes cymhleth hwn. Roedd Malcolm Thomas yn gwbl gywir i dynnu sylw yn ei adolygiad y dylem, wrth roi cymorth i newydd-ddyfodiad, allu cefnogi'r rhai sydd am adael y diwydiant hefyd. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â mynediad i dir. Argymhellwyd y dylem weithio ochr yn ochr â'n rhanddeiliaid i ymchwilio i botensial mentrau ar y cyd yma yng Nghymru. Mae'r CLA, UAC ac NFU Cymru i gyd wedi gwneud gwaith yn y maes hwn yn ddiweddar, ac wedi edrych ar wahanol fodelau o gyd-fentrau. Rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i ymweld â rhai o'r enghreifftiau gwych hyn i weld yn union sut y gall pobl ifanc gychwyn yn y diwydiant heb y gwariant cyfalaf enfawr sy'n gysylltiedig â phrynu tir.

We will continue to work with our YESS stakeholder group to see what can be done to support not only young people, but people of all ages to access land and to enter the industry. We know that people who perhaps would look to have a career change have a great deal of experience and knowledge and vision to offer our industry. Of course, we will continue to look at the best practice across the EU in doing that.

In supporting young people to build their businesses, the Farming Connect brand is strong and well respected within the industry. Gareth Williams, the author of the 'Working Smarter' report recently reviewed Farming Connect, and I announced just last week that I would accept all of his recommendations in order to improve still further the excellent services on offer. Gareth Williams's insight into the support available was invaluable, particularly in terms of his recommendations relating to business planning and the use of consultants and mentors. I am confident that the implementation of his recommendations in this area will support our farmers to have greater control of their businesses, with an added sense of direction to develop a modern, professional and profitable industry here in Wales.

Access to finance has always been a barrier to entry and, with land prices increasing at the rate seen in recent years, this is an obstacle that we will need to overcome.

While sourcing best practice models from across the EU is useful, we must also not forget the socioeconomic factors of the industry here in Wales, as well as the financial services governance provided by the UK Government. Through our YESS stakeholder group, we will look in greater detail at the issue of access to finance in future. Representatives from the banking sector have been an integral part of the current YESS programme, both in terms of policy setting and delivery, and we will continue to use their invaluable advice in these areas as we move forward.

The agriculture sector in Wales is currently going through many changes. Technology now plays an ever-increasing role in the day-to-day running of a farm and, again, this is where we have looked at other regions for best practice to ensure that we have systems that are fit for purpose.

The use of electronic identification for sheep is something that is here to stay and I am very pleased by the uptake among Welsh sheep farmers as regards the now fully subscribed EID voucher scheme delivered through Hybu Cig Cymru, following my announcement of £1 million investment to make this happen just a short while ago. Through the implementation of EIDCymru, Welsh farmers will be able to report movements electronically using a free and easy-to-use web portal. The speed and accuracy at which animal movements will be recorded will significantly improve sheep traceability and will, as a result, improve our ability to respond to future animal disease outbreaks.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n grŵp rhanddeiliaid YESS i weld beth y gellir ei wneud i gefnogi nid dim ond pobl ifanc, ond pobl o bob oed i gael mynediad i'r tir ac i gychwyn yn y diwydiant. Gwyddom fod gan bobl a fyddai o bosibl yn awyddus i newid gyrfa lawer iawn o brofiad a gwybodaeth a gweledigaeth i'w gynnig i'n diwydiant. Wrth gwrs, byddwn yn parhau i edrych ar arferion gorau ledled yr UE wrth wneud hynny.

Ar gyfer cefnogi pobl ifanc i adeiladu eu busnesau, mae brand Cyswllt Ffermio yn gryf ac yn uchel ei barch o fewn y diwydiant. Yn ddiweddar, bu Gareth Williams, awdur yr adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' yn adolygu Cyswllt Ffermio, a chyhoeddais dim ond yr wythnos diwethaf y byddwn yn derbyn ei holl argymhellion er mwyn gwella ymhellach y gwasanaethau rhagorol sydd ar gael. Roedd adroddiad Gareth Williams ar y cymorth sydd ar gael yn amhrisiadwy, yn enwedig o ran ei argymhellion yn ymwneud â chynllunio busnes a'r defnydd o ymgynghorwyr a mentoriaid. Rwy'n hyderus y bydd gweithredu ei argymhellion yn y maes hwn yn cefnogi ein ffermwyr i gael mwy o reolaeth dros eu busnesau, gyda synnwyr ychwanegol o gyfeiriad i ddatblygu diwydiant modern, proffesiynol a phroffidiol yma yng Nghymru.

Mae mynediad at gyllid bob amser wedi bod yn rhwstr wrth gychwyn, gyda phrisiau tir yn cynyddu ar y gyfradd a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf, mae hyn yn rhwstr y bydd angen i ni ei oresgyn.

Er bod dod o hyd i fodolau arfer gorau o bob rhan o'r UE yn ddefnyddiol, rhaid i ni hefyd beidio ag anghofio ffactorau economaidd-gymdeithasol y diwydiant yma yng Nghymru, yn ogystal â llywodraethiant gwasanaethau ariannol a ddarperir gan Lywodraeth y DU. Drwy ein grŵp rhanddeiliaid YESS, byddwn yn edrych yn fanylach ar fater mynediad at gyllid yn y dyfodol. Mae cynrychiolwyr o'r sector bancio wedi bod yn rhan annatod o'r rhaglen YESS cyfredol, o ran gosod polisi a darparu, a byddwn yn parhau i ddefnyddio eu cyngor amhrisiadwy yn y meysydd hyn wrth inni symud ymlaen.

Mae'r sector amaethyddiaeth yng Nghymru ar hyn o bryd yn mynd drwy lawer o newidiadau. Mae technoleg bellach yn chwarae rhan gynyddol yn y gwaith o redeg fferm o ddydd i ddydd ac eto, dyma ble ydym wedi edrych ar ranbarthau eraill ar gyfer arfer gorau i sicrhau bod gennym systemau sy'n addas at y diben.

Mae'r defnydd o dagiau electronig ar gyfer adnabod defaid yn rhywbeth sydd yma i aros ac rwyf wedi fy mhlesio gan nifer y ffermwyr defaid yng Nghymru sy'n defnyddio'r cynllun talebau tagio electronig (EIDCymru) yn awr a ddarperir drwy Hybu Cig Cymru, ers i mi gyhoeddi buddsoddiad o £1 miliwn er mwyn gwireddu hyn ychydig amser yn ôl. Yn sgîl gweithredu EIDCymru, gall ffermwyr Cymru adrodd symudiadau yn electronig gan ddefnyddio porth ar y we sy'n rhad ac am ddim ac yn hawdd i'w ddefnyddio. Mae cyflymder a chywirdeb cofnodion symudiadau anifeiliaid yn gwella'r gallu i olrhain defaid ac o ganlyniad bydd yn gwella'n sylweddol ein gallu i ymateb i achosion o glefydau anifeiliaid yn y dyfodol.

In 2014, we also saw the launch of Rural Payments Wales Online. This, in its first year of operation, has had an excellent uptake of users, allowing farmers to submit their single payment scheme applications electronically and to communicate with our payments teams.

The next RDP is of vital importance to our agriculture industry. I will be looking to the RDP to support some of these key priority areas, not just in terms of direct support, but by creating an environment in which we can collaborate and co-operate to identify best practice in other regions and to pilot and test those models here. In particular, I will be placing a greater emphasis on the work of the Wales rural network.

The work of the network will play a pivotal role in developing a full cross-border partnership between European member states that are operating similar programmes to the offering that we have in Wales. This will give us a platform to benchmark our performance with that of others and to allow best practice to be shared. The role of the Wales rural network will also play a major part in delivering the messages of the rural department programme and the support that is available for farming businesses, with an emphasis on next-generation entrants. Alongside this, Farming Connect, via the support it offers through the knowledge transfer strand and the European innovation partnerships, will be a vital element in delivering a successful farming industry in Wales.

We have a wealth of academic institutions across Wales generating some extremely important research, which can help raise standards and drive forward efficiencies within the industry. Farming Connect will have a key role to play in ensuring that this happens. The Agri Academy, which William Powell talked about, is now in its third year and is demonstrating some real results within the industry. Many of the individuals concerned now enjoy some increased levels of visibility and prominence in their rural communities across Wales, but also beyond. All participants credit the programme with extending their skillset, raising levels of confidence and introducing them to a new network of friends, colleagues and business experts.

I have already met with the 2014 Agri Academy alumni, and I am delighted by the positivity and eagerness that these individuals are demonstrating. Three of the 2014 Agri Academy participants have already joined Welsh Government stakeholder groups, and this, to me, demonstrates that there is a great deal of enthusiasm among the younger members of the industry to engage positively with Government and become leaders themselves in their communities. This is something I am personally keen that we maintain and encourage.

I thank William Powell for raising this debate today. As has been highlighted, we do need to learn from best practice across Europe. However, we do have examples of excellent practice already here in Wales, practice that we need to build on and share among our farmers.

Yn 2014, gwelwom hefyd Daliadau Gwledig Cymru yn cael eu lansio ar-lein. Yn ei flwyddyn gyntaf o weithredu, mae wedi cael nifer ardderchog o ddefnyddwyr, gan ganiatáu i ffermwyr gyflwyno eu ceisiadau cynllun taliad sengl yn electronig a chyfathrebu â'n timau taliadau.

Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf yn hanfodol bwysig i'n diwydiant amaethyddol. Byddaf yn disgwyl i'r CDG gefnogi rhai o'r meysydd blaenoriaeth allweddol, nid yn unig o ran cymorth uniongyrchol, ond drwy greu amgylchedd lle y gallwn gydweithio a chydlafurio er mwyn nodi arferion gorau mewn rhanbarthau eraill a threalu a phrofi'r modelau hynny yma. Yn benodol, byddaf yn rhoi mwy o bwyslais ar waith rhwydwaith gwledig Cymru.

Bydd gwaith y rhwydwaith yn chwarae rhan ganolog yn natblygiad partneriaeth drawsffiniol lawn rhwng aelod-wladwriaethau Ewropeaidd sy'n gweithredu rhaglenni tebyg i'r cynnig sydd gennym yng Nghymru. Bydd hyn yn rhoi llwyfan i ni i feincnodi ein perfformiad gydag eraill ac i ganiatáu i arferion gorau gael eu rhannu. Bydd rôl rhwydwaith gwledig Cymru hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth gyflwyno negeseuon y rhaglen adran wledig a'r cymorth sydd ar gael i fusnesau ffermio, gyda phwyslais ar newydd-ddyfodiaid y genhedlaeth nesaf. Ochr yn ochr â hyn, bydd Cyswllt Ffermio'n allweddol, trwy'r cymorth y mae'n ei gynnig trwy'r llinyn trosglwyddo gwybodaeth a'r partneriaethau arloesi Ewropeaidd, o ran gwirredu diwydiant ffermio llwyddiannus yng Nghymru.

Mae gennym gyfoeth o sefydliadau academiaidd ledled Cymru'n cynhyrchu rhywfaint o ymchwil hynod o bwysig, sy'n gallu helpu i godi safonau a hyrwyddo effeithlonrwydd o fewn y diwydiant. Bydd gan Cyswllt Ffermio ran allweddol i'w chwarae i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae'r Academi Amaeth, y soniodd William Powell amdani, bellach yn ei thrydedd flwyddyn ac yn dangos rhai canlyniadau gwirioneddol o fewn y diwydiant. Mae llawer o'r unigolion a gymerodd ran yn awr yn mwynhau rhai lefelau cynyddol o amlygrwydd yn eu cymunedau gwledig ledled Cymru, ond hefyd y tu hwnt. Mae'r holl gyfranogwyr yn rhoi clod i'r rhaglen o ran ymestyn eu medrau, gan godi lefelau hyder a'u cyflwyno i rwydwaith newydd o ffrindiau, cydweithwyr ac arbenigwyr busnes.

Rwyf eisoes wedi cyfarfod â chyn-fyfyrrwyr Academi Amaeth 2014, ac rwyf wrth fy modd gan frwdfrydedd ac awydd yr unigolion hyn. Mae tri o gyfranogwyr Academi Amaeth 2014 eisoes wedi ymuno grwpiau rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru, ac mae hyn, i mi, yn dangos bod llawer iawn o frwdfrydedd ymhlith yr aelodau iau o'r diwydiant i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r Llywodraeth a dod yn arweinwyr eu hunain yn eu cymunedau. Mae hyn yn rhywbeth rwy'n bersonol yn awyddus ein bod yn cynnal ac yn ei annog.

Rwy'n diolch i William Powell am godi'r ddadl hon heddiw. Fel y nodwyd eisoes, mae'n rhaid i ni ddysgu oddi wrth arferion gorau ledled Ewrop. Fodd bynnag, mae gennym enghreifftiau o arferion rhagorol sydd eisoes ar waith yma yng Nghymru, y gallwn eu datblygu a'u rhannu ymhlith ein ffermwyr.

The support measures we have in place are important, but without enthusiastic and talented individuals willing to adopt new ways of working, we will not realise our vision of an industry that is modern, professional and profitable. The next RDP provides a crucial opportunity for us to support our farming businesses, and I want to ensure that we maximise this opportunity so that we see positive change in the industry. Working alongside the industry, in the way that we currently are, convinces me that our shared vision is achievable. Diolch yn fawr.

Mae'r mesurau cymorth sydd gennym ar waith yn bwysig, ond heb unigolion brwdfrydig a thalentog yn barod i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio, ni allwn wireddu ein gweledigaeth o ddiwydiant sy'n fodern, yn broffesiynol ac yn broffidiol. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf yn rhoi cyfle hollbwysig i ni gefnogi ein busnesau ffermio, ac rwyf am sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r cyfle hwn fel ein bod yn gweld newid cadarnhaol yn y diwydiant. Gan weithio ochr yn ochr â'r diwydiant, yn y ffordd yr ydym ar hyn o bryd, rwy'n argyhoeddedig bod y weledigaeth rydym yn ei rhannu'n gyraeddadwy. Diolch yn fawr.

18:29

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister. That concludes today's proceedings.

Diolch, Ddirprwy Weinidog. Dyna ddiwedd trafodion heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:29.

The meeting ended at 18:29.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)